I BERI GWNEUTHUR DWR.

§ 23. Cymmer egfaen, a dod nhwy mewn llestr pridd coch, a chyda amcan o fel, a'i melusa'n dda, yna dod yn y ffwrn gyda bara, yna cymmer ef drwyddo'r cyfan o hono bedair llwyaid ar y pryd, deir gwaith y dydd.

ARALL.

§ 24. Gwahana had yr egfaen oddiwrth y bywyn, a sych nhwy oni bont gras, yna mal nhwy'n fan, a dod i gadw mewn lle sych, a phan fo arnat ei eisiau, cymmer lwyaid o hono, a llwyaid o fel, a gwna'n gyfleth, a chymmer y nos wrth fyned i'r gwely, ag eilwaith y bore'n wag, gan ymattal rhag ymborth deirawr ar ei ol, ag os bydd achos gwna felly eilwaith, a digwydd o fil nad iach y byddi.

RHAG LLYNGER AR BLANT.

§ 25. Cymmer fflwr gwenith gwedi ei wegryn drwy wagr sidan teg, manwëaidd, gymmaint ag a safo ar dair coron aur,

a dod ef mewn pottel wydr, a diwal arno ddwr ffynon, gymmaint ag ai gwlycho oni bo fal lleffrith, ag nid yn deneuach, yna dyro i'r plentyn iddei yfed, ag ef a geir gweled yn ei bridd bryfed meirwon, a hynn y sydd yn gyfarwyddyd dda iawn.

ARALL.

§ 26. Cymmer wallt y plentyn, a thorr ef mor fân ag a ellir, a rho gymmaint ag a wedd ar goron aur mewn bywyn afal rhost, neu mewn mel, a hynn a ladd y llynger.

RHAG CRACH GWYLLTION A DARWYDENI.

§ 27. Cymmer falwed a phiccia nhwy'n aml a nodwydd, oni ddelo fal dwr o honynt, ag a'r dwr hynny golch y crach neu'r darwydeni, ag ar hynny ddod ddail y gwinwydd yn rwymedig, gwna hynny hwyr a bore, a chyn bo hir ti a fyddi iach.

RHAG POERI GWAED O ACHOS TORRI GWYTHIEN YN Y BRYST.

§ 28. Cymmer dom llygod a sych ef yn yr haul, neu o hirbell o flaen y tan, a gwna'n bylor, a chymmer gymmaint ag a safo ar ucha grôd, a dod e mewn hanner llonaid ffiol win o sudd llydan y ffordd, gydag ychydig o fel cras, a dyro i'r claf i yfed hwyr a bore, gan barhau felly nes elo'n iach.

RHAG ANADL DREWLLYD.

§ 29. Cymmer ddail rhosmari a'r blodeu os byddant i'w cael, a berw mewn gwin gwynn, gydag ychydig myrr a chanel, a chai weled ffrwyth rhyfedd oddiwrtho, os arferi'n fynych yn dy enau.

RHAG DOLUR Y GARREG.

§ 30. Cymmer bylor y feleneuraid, a elwir yn lladin *virga aurea*, a dod lwyaid o hono mewn wi newydd ddodwi, gwedi

'i rostio'n dyner a dyro i'r claf yn fwyd bore, ag na fwyttaed ddim bedair awr yn ol hynny, ag efe a wna ddwr cyn penn hanner awr ar ol hynny, ag arfered felly ddeg neu ddeuddeg diwarnod, ac efe a gaiff wared y garreg yn ddiboen, a da iawn yw hynn hefyd rhag y cyllwst wynt.

RHAG LLYGAID DYFRLLYD.

§ 31. Cymmer ddalen bresygen goch, ag ira hi a gwynn wi, a gosod hi ar dy lygaid wrth fyned i'r gwely.

RHAG CNOAD CI CYNDEIRIOG.

§ 32. Cymmer a weddo mewn hanner plisgyn cneuen ffreinig o bylor blodau'r ysgall gwylltion, wedi eu sychu yn y cysgod, a dod mewn llonaid ffiol win o'r gwin gwynn goreu, ag yf ef dair gwaith y dydd dridiau, ag iach y fyddi drwy Dduw.

RHAG LLYGAID DOLURUS.

§ 33. Cymmer sudd iorwg y ddaear, a llaeth bronn gwraig, hanner yn hanner, a'u hidlo drwy liain manwëaidd, yna dod ddiferyn yn y llygad a fo dolurus, ag yn y ddau lygad o bydd achos.

ARALL.

§ 34. Cymmer ddistyll ffenigl, ac amcan o fel newydd, a chymmysga nhwy ynghyd, a dod ddiferyn neu ddau yn y llygad; profedig yw.

ARALL.

§ 35. Cymmer ddail drysi cochon, a dail llydan y ffordd, a berw nhwy mewn dwr rhedegog hyd oni el i'r hanner, ag arfer wrth y dolur.

DWFR LLYGAID I LADD GWRES A DOLUR YN Y LLYGAID.

§ 36. Cymmer ddyrnaid o'r geidwad goch, a berw mewn au cudd o ddwr gof yny fflanno'r hanner ymaith, yna

hidla'n galed, a dod geiniogwerth o elyf yn y llynnor, a chymmaint o goprys gwynn yn ol ei gymmeryd oddiar y tân, a llynora dy lygaid ag ef.

RHAG MAGL AR LYGAD.

§ 37. Cymmer wynn wi yn frwd o'r nyth, heb ddim o'r melyn, dod atto faint cneuen fechan o elyf yn bylor, ac ychydig fel crâs, cymmhwya nhwy yn dda, a dod amcan o ddwr a wnelo fal y gellir ei hidlo drwy liain manwe, a their gwaith yn y dydd difera ddefnyn neu ddau ymhob llygad, neu yn yr un a fo achos.

RHAG GWYN YN Y GOES.

§ 38. Cymmer ddryll o surdoes trasur, yr un bwys o ferman, ar un o sebon du, tymmhera nhwy ynghyd, yna taner ef ar liain, a dod wrth y goes lle byddo'r gwres, a symmud ef ddwywaith yn y dydd, a thrwy borth Duw fe iachâ ymhen tair gwaith neu bedair.

I BERI GWELED YN DDA.

§ 39. Cymmer y golyglys, a ffunel cochon, ddyrnaid o bob un, hanner dyrnaid o ryw, distylla nhwy, a golch dy lygaid beunydd a'r dwr.

RHAG DOLUR YN Y PENN.

§ 40. Cymmer ddryll o gig eidion heb ferwi, a gosod ar dy wegil, a symmud ef bob nos wrth fyned i'r gwely, ag arfer hynny mor fynych ag y bo achos; profedig yw.

RHAG Y GWST MAWR.

§ 41. Dolur yw hwn a fydd gan fwyaf yn y traed a'r dwylo. Cymmer chwerwyn y twyn, a'r murlys, a brann gwenith, a thom bywch, a halen, a berwa nhwy mewn aesel gwin neu ossai, a dod yn blaster wrth y dolur.

I WNEUTHUR SUGLIAIN RHAG GWYNIAU O BOB RHYW.

§ 42. Cymmer bunt o gwyr heb weithio, hanner punt o rosyn, a chwedran punt o dus, a phunt a hanner o wer myharen, berw ynghyd, a hidla nhwy i fasyn glan, yna dod y basyn ar danllestr a than marwor, a gwlych ddryll o liain ynddo, ag felly dod ar y dolur.

RHAG Y PESWCH.

§ 43. Cymmer had mwstardd wedi eu brasfalu, a dod nhwy mewn ffigys, a berwa nhwy felly mewn cwrw da, ag yf ef.

RHAG DARWDEN.

§ 44. Cymmer wraidd tafol cochon, a hallta nhwy, yna dod nhwy mewn aesel, a rho ias berw iddynt, a golch y ddarwden a'r llynnor.

RHAG Y FAM.

§ 45. Cymmer rosyn, a malbwya ef yn dda, yna dod ef mewn gwin gwynn, ag eliw'r liwydden ber, a llwnc ef, a thi a gai les oddiwrtho.

I UN A FO'N DYWEDYD YN EI GWSG.

§ 46. Cymmer lysiau'r corph, a phwya nhwy'n fâl ag yn dda, yna dod attynt win neu hen fedd cadarn, a hidla'n galed, ag yfed y claf o hono'r bore ac wrth fyned i gysgu.

I WRAIG A FYTHO'N CAEL GORMOD O'I BLODAU.

§ 47. Cymmered droed ysgyfarnog, a llosged yn bylor, a chymmered ganel yn bylor, y ddau hanner yn hanner, a doded mewn gwin coch, ag yfed o hono lwnc syched yn gyntaf a diweddaf nawniwarnod, a hi a gaiff les o hynny.

RHAG Y DDANNOEDD.

§ 48. Cymmer bwrs y bugail, a phwya'n soppyn, a dod wrth y dant.

ARALL.

§ 49. Cymmer wreiddyn gellhesg y nant, a chno ef, ag os twll yn y dant, dod ynddo dammaid or gwreiddyn, a gochel lyncu'th aliw, canys gwenwynllyd yw sudd y gwreiddyn, ac oi lyngcu ef a'th ddisynwyra dros ddiwarnodau, os ni ddug dy fywyd.

RHAG PESWCH PERYGLUS.

§ 50. Cymmer ddail y geidwad, a rhuw, a chwmmin, a phwya nhwy'n fâl gyda phybyr, yna berwa nhwy ynghyd mewn mel, a gwna'n gyfleth, ag chymmer lwyaid o hono fore a hwyr, a thrwy Dduw dydi a gai les o hono.

RHAG GENAU DOLURUS, A'R CANCAR.

§ 51. Cymmer frig rhosmari, y geidwad, dail y gwyddfid, dail gwinwydd, a dail y malw, hanner dyrnaid o bob un, a berwa nhwy'n dda mewn dwr ffynon gymmaint ag au cudd, hyd oni flanno'r traian, yna dod fel pur wedi ei ferwi'n dda mewn dwr ffynon, a chymmaint ag wi colommen o alwm, a berwa hwynt yn nwr y llysiau gwedi ei hudlo, oni flanno'r traian, yna dod mewn pottel wydr a chau'n glos arno, a golch dy enau o hono pan fo raid wrtho.

I WNEUTHUR TRED SUGN.

§ 52. Cymmer eliw'r bywyd, ag ymenyn Mai, a rhosyn, a gwer dafad, a chwyr newydd, gwedi hynny cymmer yr henlydan, a llygaid y dydd mawr, a chribau santffraid, ar mill, a thafod yr oen, a'r geidwad, perllys y morfa, a rhuddos y gerddi, a phwya nhwy'n fâl, a dod y menyn a'r llysiau ynghyd, a berw ynghyd ar y tan yn araf ddwyawr neu dair, ag os sychu ymaith a wna'r menyn, dod ychydig atto fal y bo achos, a phan ddarffer a hynn, hidla menyn

yn galed dan wasg, yna dod atto'r cwyr ag eliw'r bywyd, a'r rhosyn, a'r gwer defaid, a berwa nhwy nghyd ar dan araf dros awr, gwedi hynny gad oeri mewn llestr glan, a dod i gadw.

RHAG BWYD NEU DDIOD GWENWYNIG.

§ 53. Cymmer y rhuw a briwa'n fân, a dod win gwynn arno gymmaint ag ai cuddia, ag oni fydd gwin, cwrw neu fedd, cymysg y ddiod ar llysiau yn dda, a gwedi hynny hidla ef a rho i'r claf iddeu yfed, llawn lwnc, yn y bore yn wag, a llwnc arall ymhen yr awr, ag iach fydd.

RHAG HWYDD MEWN BRONN GWRAIG.

§ 54. Cais y tryw, a chribau sainffraid, a'r dderwen fendigaid, a'u malbwyo'n dda, a chymmysga nhwy a hen gwrw da, a hidla'n galed, a dod lefrith ar y tân, a phan fo ar ferwi, bwrw y llynn am ei benn a gwna bossel o hano, ai roi i'r wraig iddei yfed yn dwym, ag arfer o hynny, ag iach fydd.

RHAG CRYGYNAU.

§ 55. Cymmer yr elinog goch ai berwi, ai phwyo mewn mortyr, ai chymysgu yn dda, ag iro'r grygynnau, ag iach a fydd.

RHAG Y TOSTEDD.

§ 56. Cais glust y llygoden, a'r geidwad wyllt, a gwna'n bylor, gymmaint o'r naill a'r llall, a bwrw ychydig ar ddiod, a da yw, goreu diod ossai afalau, neu hen fedd onis bydd ossai.

I DYNNU DANT HEB DDOLUR.

§ 57. Cais dair o'r madrwyod melynion, a elwir gan eraill genergog, a'r pwdrchwilod, y rhai a geffir yn y rhedyn amser haf, a llosg nhwy mewn crochan harn, a gwna'n

bylor, a chymmer meddygfys y llaw ddehau, a gwlych e mewn dwr, a tharo yn y pylor, a chod, a tharo ar y dant yn fynych, a gwrth ei boeri allan, a'r dant a ddaw allan yn ddiddolur; profedig yw.

RHAG PISO GWAED.

§ 58. Cymmer y tryw, a briwa nhwy'n fan, a dod y briwion ar win, neu gwrw, neu fedd iddei yfed, a thi a gai iachâd.

Y CHWYF YN RHEDEG GORMODD.

§ 59. Cymmer wraidd y ffenigl cochon, a mortyra nhwy yn fal iawn, a chymysca nhwy a llaeth geifr, ai yfed dros naw bore, ag efe a wna les, ag a ettail y rhedeg; profedig yw.

RHAG GWAYW DYGYRCH.

§ 60. Yf sudd y tansi gyda hen gwrw, ag iach a fyddi yn wir.

RHAG CYFYNGDER YN Y DDWYFRON A'R GALON.

§ 61. Cais wraidd marchalan, a golch yn lan, a chraf hwynt, yna berw mewn aesel gwin gwynn, gwedyn eu crafu'n fan, au sychu, au malu'n bylor, a berwi'r pylor hwnnw mewn mêl, a bwrw pybyr mâl am ei benn, ai roi mewn blwch i gadw, ai fwytta nos a bore lonaid llwy, a hynny a wna'r claf yn iach.

O bydd cyfyngdwr, a pheswch, a thawlu ar ddyn, cais dri marworyn, a dod ger bronn y claf, a phoered ar y marwor, os drewi a wna'r poeryn ar y marworyn marw a fydd, oni ddrewa byw a fydd.

RHAG BRATH CI CYNDEIRIOG.

§ 62. Cais ddyrnaid o lydain y ffyrdd, a dyrnaid o'r tringol, a mortyra'n dda, a dod wyn wïau, a mel, a hen floneg, a gwna eli a dod am y brath, ag iach fydd.

I BERI LLAETH YM MRONNAU GWRAIG.

§ 63. Cais sudd y ffeniglen goch, a rho ar gwrw i'r wraig, ag efe a bair ddigon o laeth i fagu ei phlentyn.

RHAG BYDDARI.

§ 64. Cais ben gwynwyn coch, a berw mewn sawstred mel, a dod atto ddyrnaid o frag ceirch, a dail rhuw a ffenigl cochon a wedd yn y llynnor, a berw ynghyd, a dod hwnnw ynghlaiarder llefrith yn y clust hwyr a bore, ag ystoppo'r clust a gwlan oen du, fel na ddelo allan yr eli, a hynny a bair clywed yn ryfeddol; profedig yw.

I WNEUTHUR DWR BENDIGAID I LOYWI LLYGAID AG IDDEU GLANHAU.

§ 65. Cymmer rhoscochon, perllys y mor, rhuw, y dderwen fendigaid, ffenigl rhuddion, gwallt y forwyn, y fyddar llysg, a melynllys, a theim gwyllt, golch nhwy'n lan a dod nhwy i sefyll ddiwarnod a noswaith mewn gwin gwynn, a chwedi hynny distyllu ar wyneb crochan pres, a thi a gai y dwr cyntaf yn debig i arian, a hwnnw a fydd dda rhag pob rhyw glwyf ar lygad, a rhag magl ar y llygad.

RHAG GWLYBWR LLYGAID.

§ 66. Cymmer flodeu cribau sanffraid, a bwyta nhwy, a hynny a loywa'r llygaid, ac a'u sychant yn loywon.

ARALL.

§ 67. Ira'th lygaid a sudd y melynllys a mel newydd ynghymysg, a thi a gai les mawr.

ARALL.

§ 68. Cais win gwynn a sudd y melynllys, a sudd ffenigl cochon, a berw mewn y gwin gwynn hyd oni phanno'r traian, ag a hwnnw ira dy lygaid, a hynny a'u cynnal yn loywon ag yn iach.

RHAG MAGL NEU WAYW MEWN LLYGAD.

§ 69. Cais felyn wi a blawd gwenith, ag ychydig o goprys glas, a'u maeddu ynghyd, a dod ar liain, a gosod wrth dy lygaid wrth fyned i gysgu, ag ef a wella erbyn tranoeth, a gwneler hynny hyd ymhen tri diwarnod.

RHAG DOLUR AR LYGAD DYN.

§ 70. Cais fustl ysgyfarnog, a bustl gâr, a bustl llysowen, a bustl carw, a dwr gwyra, a dail gwinwydd, a tharo ddyrnod ar bren eiddiorwg, a dod y sudd a ddelo allan o'r pren am benn y pethau hynny a berw ychydig arno, a hidla drwy liain manwe, a phan ddarffo iddo oeri, dod ychydig o hono yng nghiliau dy lygaid, a rhyfedd yw oni wŷl ai harfero y ser ganol dydd o rinwedd y feddyginiaeth honn.

I NERTHU LLYGAD.

§ 71. Cais y fyddarllysg, a dail rhos cochon, a'r melynllys, a'u pwyo 'nghyd a'u berwi mewn gwin gwynn, neu hen gwrw gloyw a chadarn, a berwa amcan ffest arnynt, a hidla'n lan drwy fanwe, a golch y llygaid nos a bore, ag iach a fyddi.

I WYBOD AM FORWYN AI BOD WEDI CADW EI MORWYNDOD AI NA BO.

§ 72. Cymmer bylor y milwydd a dod ar ei diod, ag os ni bydd morwyn, hi a gyfyd i wneuthur dwr; os morwyn nid ysgyg.

I WYBOD PUN AI MAB AI MERCH A FO YNGROTH GWRAIG.

§ 73. Cais laeth bronn y wraig, a dod ef ar ei dwr hi ei hun, os nofio wna'r llaeth yn ucha, mab yw; os ir gwaelod yr â, merch yw.

RHAG GWEWYR ANWYD, SEF Y RHYNWST, A PHOB GWEWYR ANHWYL, A GWENDID YN YR YSGWYDDAU, AR BREICHIAU, AR ESCEIRIAU.

§ 74. Cymmer y teim gwylltion, a briwa nhwy'n fân, ai berwi mewn gwaddod cwrw cadarn hyd oni bo tew, a dod wrtho yn dwymaf ag y gallo y claf ei oddef, ag arfer o hynny bum niwarnod, ag iach a fydd yn wir.

RHAG DRAEN.

§ 75. Os draen a â mewn cnawd dyn, ai mewn traed, ai mewn llaw, oni ellir ei gael allan, cymmer wraidd yr ysgall duon, neu ei dail, a gwynn wïau, a chann blawd rhyg, neu haidd, lle ni bo rhyg, a dod wrtho yn blasder, ag efe ai tynn allan.

RHAG MWYTH GRYD YR EILDDYDD.

§ 76. Cymmer ddyrnaid mawr o gribau sanffrêd, dyrnaid o frig banadl blwydd, a dyrnaid o'r geidwad, a'u golchi'n lân, a'u briwo mewn mortyr, au cymmysgu a chwrw cadarn, ai hidlo, ai yfed nawpryd or unty, a thorri a wna.

RHAG ATTAL GWNEUTHUR DWR.

§ 77. Cais hâd y banadl au malbwyo'n fân fal y cann, a dod ar y ddiod ai yfed, gwna hynny oni bot iach.

ARALL.

§ 78. Cymmer had y banadl, a chyfrif naw, ar ddegfed ei bwrw i Dduw, a malu'r hâd yn baill iawn, ai cymmeryd ar y ddiod, neu mewn mel berw yn gyfleth, ag os gwraig neu forwyn a wna hynn, ni ddaw na gwewyr na chrawn yn ei bronn fyth.

RHAG YSSIG.

§ 79. Cais waddod hen gwrw cadarn, a gwer mollt du, neu wêr gafr, a rhynion gwenith, a berw yn dda, a dod ar

gadach brethyn cyn dwymed ag a ellir ei oddef wrth y clwyf driphryd, ag iach a fydd.

DIOD RHAG Y GWST MAWR.

§ 80. Cais y fabcoll, a llysiau'r cryman, a chribau sanffrêd, a'r dderwen fendigaid, amcan o bob un, ag o lysiau'r gerwyn bedair amcan, a'u berwi mewn a'u cuddio o win gwynn, ag yfed llwnc sychedbob hwyr a phob bore, a thi a gai wellhâd; yf hwn yn gyntaf o'r bore, ag yn ddiwethaf y nos, naw bore i waredu'r cylla, yna dod wrth y droed neu'r law olwythyn trwch hanner modfedd o gig eidion ffres, a hyn a'th lwyr iachâ.

RHAG CYFYNGDER A CHRYGI.

§ 81. Cais lawer o'r dderwen fendigaid, ai berwi mewn dwr ony phanno draian, yna ei hidlo; a bwrw gwraidd y melottai wedi ei asglodenu'n fan ynddo, a berw drachefn, ag arfer a hwnnw yn dwym y nos, ag yn oer y bore, ai gadw mewn grenn bridd.

RHAG PERIGLYS.

§ 82. Cymmer sign y rhuw, a chwmin, a phybyr mâl, a berw ynghyd mewn mêl, a gwna'n gyfleth, ag arfer o hwnnw nos a bore, yn gyntaf y bore ag yn ddiwethaf y nos.

RHAG Y GAFFO WR GAN WRAIG.

§ 83. Cais ebod march ceilliog a llinhad, au tymheru ynghyd, au berwi yn iwd, ai roi ar gadach lliain wrth y clwyf, ag arfer o'r plaster hynny hyd oni ddarffo iddo dynnu y llosg tân i gyd o'r clwyf, yno rhoi'r eli a berthyno wrtho, ag iach a fydd.

CLEFYD YR ARCH.

§ 84. Cais ronell pysgod eog, a sych yn araf, a gwna'n bylor, a dod ar gwrw iddei yfed, a iach a fyddi yn wir.

RHAG BYDDARI.

§ 85. Cymmer wiail o brenn llwyfi, a dod ar y marwor, a derbyn y dwr a ddel o'r gwiail mewn llestr glân, a chais saem llysowen ddu, a chymaint o fel, a chymaint o sudd cribau sanffrêd, au cymysgu, au rhoi yn y clust, ai ystopio a gwlan o aflach oen du, a iach a fydd yn wir.

RHAG MAGFA GWAED.

§ 86. Cais fflwr ffa a mêl, a melyn wïau, a gwna deisen, a chras ar faen yr aelwyd, dan badell a marwor am y badell, a dod beth o'r deison i'r claf i fwytta'n fynych.

I DDIANC RHAG GELYNION.

§ 87. O bydd un yn myned i lu, ceisied y dderwen fendigaid a doded yn ei ddillad, ag ef a ddianc rhag ei elynion.

I WNEUTHUR COLMWN.

§ 88. Cais hanner pwys o byg, a chwarter pwys o gŵyr, a hanner pwys o wêr defaid, a phylor maen galis, a berw ynghyd, gan gymysgu yr holl amser fal au cydgyfuner, yna ei roi mewn blwch, neu ei fwrw mewn dwr ai wneuthur yn rhol, a hwn a fydd rhag pob clwyf dyfrllyd, ai ledu ar liain neu ledr maneg tenau.

RHAG Y BLODAU YN STOPPIO AR WRAIG.

§ 89. Cais rhuw a malbwya'n dda, a gwasc y sudd mewn gwin neu gwrw cadarn, hidla ef a gad iddo loywi, ac yfed y wraig o hono, ac iach y bydd.

I BERI CLYWED YN DDA.

§ 90 Cais blanhigion ynn ifainc mal maint gwiail, a thorr, a dyro ar y drybedd uwch benn y tân, a derbyn y defnynau a ddel o'r bonau, a chymmer lonaid llwy o fel, a blaen llysiau'r tai, a'r pennau a'r baglau o'r cennin, ac

ychydig o fwstardd paill, a llonaid cragen o saem llysowen, a berw y cwbl ynghyd gan eu cymysgu yn ofalus yr holl amser tra berwont, a dod mewn chwistrell yn glaiar, ai yrru'n y clust ar wlan oenen ddu, ac iach y bydd.

RHAG HWYDD YNGWIALEN GWR.

§ 91. Cais ddail y gwynwydd, a berw, a golch yn dda, yna cais ddail y llinhad, a'r malw, a berw mewn llaeth, a dod o beutu'r wialen ar liain manwe.

ARALL.

§ 92. Rhostia wïau yn galed, a thyn y melyn a gwna'n bylor mân, a gwna'n eliw, a gwasg ef drwy gadach lliain, a dod ar y wialen, ag y mae'n dda rhag y gwst mawr a fo mewn asgwrn, a rhag amrafael glefydau eraill.

ARALL.

§ 93. Cais floneg yr Affrig a chennin, a dod yn blasder wrth y wialen, ag iach y bydd. Ti a elli ymarfer a'r plasder hwn gyda'r meddyginiaeth nesaf o'r blaen at hwn, a da fydd hynny.

PLASDER RHAG YR IDDWYF, AG I DYNNU CIG DRWG.

§ 94. Cymmer sydd chwerwyn y twyn a mel wedi ei gymysgu a halen ag aesel, a chymysg yn dda, a dod amcan o flawd rhyg, a berw, a gwna yn blaster, a dod wrth y clwyf, ag arfer y plaster ar ddiod a ddywespwyd ei fod yn dda rhag y gwst mawr hyd onid el yn iach.

RHAG Y CRYD A'R MWYTH POETH.

§ 95. Cymmer werth dwy geiniog o drüag, gwerth ceiniog o saffar, ag ychydig o gorn carw wedi ei radellu'n fan iawn, a dodi am benn ffiolaid dda o ddiod, au cymysgu yn dda, a

yfed dri bore, yna cais wydd yr hafa cochon, dail drysi pêr, a bara cann y gwccw, a brâg, ai wneuthur yn ddiod, ai hyfed dairgwaith neu bedair yn y dydd lwnc sychedd, ag iach fydd a wnelo hynny.

DIOD GARTH.

§ 96. Cymmer werth ceiniog o stwbiwm, a rhadella'n fân fal fflwr, a dod ef ddiwarnod a noswaith yn wlych mewn hanner punt o gwrw iachus, a chlaiara ef, a dyro i'r claf i'w yfed yn wag y bore, wedyn cais chwart o bossel a dyro iddo am benn hanner awr i'w yfed, ar dair gwaith, ag yn ol iddo ei gynhyrfu, gwna dwym drwy ddwr ffynon a dod ynddo ymenyn yn dda a pheth mel, ag yfed ddwywaith neu dair, ag iach a fydd ef.

ARALL.

§ 97. Cymmer rëol y rhafnwydden, a gwasg eu sudd, a dod dwy lwyaid o hono am benn llwnc sychedd o frecci cwrw da, ag yf, ac oni chynhyrfa yf lwnc arall o'r brecci heb sydd y grëol, a gwedi iddo weitho cymmer yn fwyd dwym blawd ceirch drwy ddwr ffynon, a mel ag ymenyn ynddo, a bara gwenith drwyddo ynddo, a gwna felly deirgwaith mewn naw diwarnod ag ef a garth o'r corph bob llynnor llygredig, a bydd fyw ar ol hynny naw diwarnod ar fwyd llaeth a bara gwenith drwyddo, a'r twym dwr a blawd a ddywespwyd ail yn ail.

ARALL.

§ 98. Cymmer ddyrnaid o ddail rhos damasg a berw mewn brecci cwrw da, ac yf, a chyfluniaethu fal y dywespwyd eisioes am fwyd tros naw diwarnod.

ARALL.

§ 99. Cymmer fel a sudd greol y rhafnwydden mesur tra mesur, a berw ynghyd ar dan araf, a chadw mewn pottel

wydr yn glos gauedig, a phan fo raid cymmer ddwy neu dair llwyaid o hono, ac ymhen hanner awr ar ei ol lwnc sychedd o frecci cwrw da.

CYFLETH RHAG GENAU DOLURUS.

§ 100. Cymmer lwyaid o sudd y geidwad, a llwyaid o sudd yr ysgaw, a dwy lwyaid o sudd mwyar gleision, a bywyn afal poeth, a thair llwyaid o fel, a berw ar dan araf gan gymysg yn ddibaid onid elo'n gyfleth tew, dod mewn blwch pridd a chau arno'n dda ai gadw at achos, a phan fo dolurus y genau, cymmer faint wy colommen a dal yn dy enau oni thoddo, a da yw.

ARALL.

§ 101. Cymmer ddail ysgaw, a dail gwinwydd, a'r geidwad, a rhosmari, a dail drysi, a berw yn dda mewn dwr au cudd, yna melysu a mel, a golch dy enau gan ddal y llynn yn dy enau gyd a gallot, yna ei boeri allan dair gwaith, gwedi hynny yfed llwnc sychedd o hono, i oeri 'r cylla.

ARALL.

§ 102. Cymmer bedair llwyaid o fel, a sudd pedair euron-en, a thair llwyaid o sudd y geidwad, a thair o sudd mwyar duon, a thair o sudd mwyar gleision, a berw ar dan araf onid elo'n gyfleth tew, a chadw mewn blwch caëdig, a dod faint wy colomen yn dy enau, ai ddal yno oni dderfydd yn ddim.

RHAG Y LLYNNORWST OER.

§ 103. Cymmer hanner punt o sudd gwlydd y perthi, a llwyaid o fel ynddo nos bore.

ARALL.

§ 104. Cymmer hanner punt o sudd y mwyar duon, ac ynddo lwyaid o fel newydd nos a bore.

RHAG Y LLYNNORWST POETH.

§ 105. Cymmer sudd gwlydd y perthi, a sudd berw ffynonau, a sudd suran y waen, a sudd yr ysgaw, yr un faint o bob un, ac yf hanner punt o hono nos a bore naw diwarnod, a byw naw diwarnod arall ar fwyd llaeth a bara gwenith drwyddo, heb na bwyd na diod amgen, a da cymeryd carth ddwywaith neu dair o flaen y feddyginiaeth honn, i arllwys y corph o'r llynnor llygredig.

RHAG Y LLYNNORWYNT YN GWANHAU'R CORPH A'R PWYLL.

§ 106. Cymmer sudd afalau, neu sudd mafon, neu sudd eirin, neu sudd mwyar, yn hidledig, a dod ar dan araf, ac ynddo lwyaid o fel at bob llwnc, a'i lasferwi, yna yfed llwnc syched nos a bore, dros naw diwarnod, a chymmer yn fwyd fara wedi ei wneuthur a fflwr mes uchelgras, heb amgen o fwyd a diod yn hynny o amser, ag iach y byddi.

Goreu o bob sudd ffrwythau os bydd eu hadeg, sudd eirin man y perthi, a sudd mwyar duon, a lle na bo mes, cras wraidd dynaid o flaen y tân o hirbell, a mal yn fflwr, a gwna'n fara, a bydd fyw arno.

ARALL.

§ 107. Cymmer lwyaid o had mwstardd dair gwaith yn y dydd, ai golchi i lawr a llwnc o hen fedd da, a byw ar fwyd llaeth gwartheg a bara can gwenith uchelgras, a phrydiau man a mynych.

ELI GLINIAU, MYNYGLAU TRAED, A CHYMALAU.

§ 108. Cymmer y rhodri, eraill ai geilw yr uddygl, a gwer dafad neu afr, a phwya nhwy ynghyd oni elont yn eli, yna dod yr eli mewn padell, ag atto ychydig o fel a halen, a berw yn dda ar dan araf, a hidlo'n galed, ag a hwn ira'r dolur, ag iach y byddi drwy Dduw.

I DYNNU HEYRN NEU BRENNAU, AG I AGOR Y BRATH.

§ 109. Cymmer wreiddiau dynaid, a bloneg gŵydd a mel, a phwya nhwy'n blasder, a dod ar y brath, ag yn ddirgel ef ai egyr ag a dyn allan a fo ynddo.

RHAG GWRES A GWAYW MEWN BRATHAU, Y RHAI NI ADAWANT I'R CLAF GYSGU.

§ 110. Cymmer risg y celyn, a rhogas, a rhisg canol yr ysgaw, yr un faint o bob un, a dod gyda nhwy floneg a gwin yr un gyffelyb fesur, a berw yn dda hyd pan fo yn dew, yna cymmer liain, a dod yr eli arno, a dod beth o hono ar oreth yn dwym, a dod yn y brath ar lliain eliad ar hynny, a dod gyda'r oreth elyf pyloraid ar y brath, ac efe a iachâ drwy Dduw.

ELI DA I FEDDYGINIAETHU BRATHAU.

§ 111. Cymmer eliw'r oliwydden, ag oni bydd hwnnw, bloneg twrch, a gwin mesur tra mesur, a berw yn dda ynghyd gan gymysgu'n ddibaid tra berwo, a phan elo'n dew dod e mewn blwch pridd, neu mewn pledren i gadw, a chau yn dda arno, a lle bo raid elia'r brath ag ef.

ELI RHAG GWRES AR GNAWD.

§ 112. Cymmer hufen gwartheg da a gwin gwynn, neu ossai afalau cadarn, neu hen fedd lled galed, a berw yn dda ynghyd, yr un fesur o bob un oni fo tew, a chymysgu yn ddibaid, a phan oero, dod mewn pledren neu flwch i gadw, a phan fo raid, eliaw'r gwres ag ef.

RHAG Y PESWCH A'R GALON DDIFFYG.

§ 113. Cymmer wraidd y perllys, a'r ffunel cochon, a chynglynedd yr afon, a phwya nhwy'n dda, a chymmer drichwart o frecci du cadarn, a berw a wedd o'r llysiau ynddo hyd onid elo'r trichwart yn un, yna cymmer werth

chwecheiniog o bylor anis ag ai melysia'n dda o fel crâs, a berw yn y llynn hynny, a dod i gadw mewn lle cynnes, a hwnnw a elwir meddyglyn y cylla, ag a ddinistr y peswch yn wir.

I WNEUTHUR MEL CRAS.

§ 114. Cymmer fel un amcan, a dwr ffynon bedair amcan, a dod mewn crochan pres glan i ferwi, a phan ddelo'r cwyr a'r eliw i'r wyneb, cymmer ymaith a bassel hyd oni dderffo i'r berw grawenu, yna berw ar dân canolig oni phanno'r dwr yn lan ag ydd erys y mel yn gras yn y crochan, yna cymmer a dod i gadw mewn llestr pridd a chau yn dda arno, a goreu o bob mel y bydd mewn meddyginiaethau a bwydydd.

ELI GWAYWYR.

§ 115. Cymmer fywyn afalau coed a berw mewn gwin hyd oni ddarffo'r gwin yn llwyr, yna cymysg hwnnw a chwyr, a rhosin, a mel gloyw, a hen floneg, a berw yn dda, a hidla yn lân, ag ira'r dolur yn fynych, ag ef iach a fydd trwy Dduw.

I BERI I WRAIG ESGOR ESMWYTH AG EBRWYDD.

§ 116. Cymmer sudd y marchfynt, neu fynt y dwr, wedi eu pwyo'n dda gyda gwin gwynn, ai hidlo'n lân, a rho iddi i'w yfed. O bydd gwraig a dyn marw yn trigo gyda hi, yfed y sudd hynn a sudd marchalan hanner yn hanner, ag ef ai rhyddha hi drwy Dduw.

RHAG LLOSG AR GNAWD DYN GAN DAN NEU DDWR.

§ 117. Cymmer wreiddiau'r lili a'i golchi'n lân, au berwi yn ffest mewn dwr, gwedi hynny cymysg nhwy'n dda a gwyn wiau ag eliw, pederhamon, neu eliw gliwydden, ag oni bydd hwnnw, hufen llaeth gwartheg da neu menyn ffres di-halen, a dod wrth y dolur, a goreu pa fwya'r plasder wrtho.

RHAG HWYDD, A GWRES, AG YSSIG, NEU NATTUR ANWYD O DRAFAEL, AG IDDWY A FO AR ESGAIR, NEU LINNIAU, NEU FORDDWYD, ER MAINT Y BO'R LLID, AG ER COCHED FO'R LLIW, AG ER PYDRED FO'R CNAWD A'R CLWYF, A METHU LLAWER MEDDYGINIAETH.

§ 118. Cymmer faenclyf gwynn a briw'n fân, a berw mewn dwr ffynon dair ias arno, ag o cyfyd saem arno bassela'n fanol oni ddarffo hynny, a chadw hwnnw yn anwyl, a gwerth ceiniog o elyf mewn chwart o ddwr sy ddigon, a chymmer gadach lliain a golch y clwyf yn fynych, a hwnnw a estwng yr hwydd, a'r gwres, a'r angerdd, a'r dolur, ag arfer dy olchi yn y modd hwnnw, ag yn wir ef a fydd iach pa glwyf bynnag y bo, ai cancar, ai iddwy yssig, ef ai gwna y dwr hwnnw yn iach, ond o hir arfer o'i iro wrth dân: ag o derfydd gwna un arall, a digon y bydd gwerth ceiniog o'r alwm mewn chwart o ddwr, ag o gwnai felly iach a fyddi; profedig yw.

RHAG LLOSG HAUL, NEU UN GWRES ARALL AR GNAWD.

§ 119. Cymmer sudd llysiau'r geiniog, a hufen llaeth hanner yn hanner, a berw ar dan araf oni bo'n eli tew, ai gadw mewn blwch dan gau.

RHAG Y CRAFU NEU'R YMGOS.

§ 120. Cymmer wraidd marchalan, a berw yn dda mewn dwr glân wedi ai golcher yn lân, a phan fo meddal y gwraidd, pwya nhwy'n dda, yna dod hufen llaeth gwartheg tew am eu pennau, a chymysg yn eli, ag elïa dy gorph ag ef cyn myned i gysg unwaith bob tri diwarnod, sef teirgwaith mewn naw diwarnod, ac yf lwnc sychedo'r dwr a ferwed y gwraidd ynddo dair gwaith yn y dydd dros naw diwarnod, a thi a fyddi iach o'r gwres, ac yn hoenus dy gorph, canys da yw'r dwr i wellhau a bywhau'r cylla a'r ysgyfaint.

ELI RHAG CLWYF YR YSGYFAINT.

§ 121. Cymmer wer mollt a mel, a berw ynghyd, a phan font ddigon berw, cymmer naw dernyn o wlanen main, a gwlych yn yr eli a dod bob un ar ei ben ei hunan i oeri, a phan font oer, dod y naw ar glwyd y ddwyfron, a boed yr hyd a'r lled o gessail i gessail, ag o uchder ysgwydd agos i'r fogail, a gad ar dy fronnau naw diwarnod, gwedi hynny cymmer un o'r gwlanneni ymaith yn y dydd, ag un bob dydd onid elo ymaith y naw, a thra bo hynny o beth ar waith, cymmer yn fwyd fara gwenith trwyddo, a mel pur arno yn frechdan y bore, a'r un bara gyda llaeth gwartheg ganol dydd, ag afalau pobiedig a llaeth geifr y nos, a chymmer rhwng prydiau lwyaid dda o fel pur, a thi a fyddi iach drwy Dduw.

ARALL RHAG CLWYF YR YSGYFAINT.

§ 122. Cymmer lwyd y cwn, a phwya'n fan, a dod ddwr glân arno, a gad sefyll deirawr, yna hidla'n galed drwy fanwe, a dod ar dan araf i glaiaru a llawer o fel ynddo, a chymmer hanner llwnc syched o hono bob teirawr, a bydd fyw ar fara can gwenith a llefrith, a phan fo sychedarnad cymmer afal a phob ef, a dod mewn cymaint ag ai cudd o hen ossai da, a bwytta'r afal, ag ymhen awr yfed yr ossai, heb amgen na hynn o fwyd na diod.

ARALL.

§ 123. Cymmer lefrith gwartheg hanner pryd gwr, a dod ynddo ddwy lwyaid o fel pur, a chymmer gydag ef yn fwyd bara gwenith da driphryd y dydd, a rhwng prydiau lwyaid o sudd llwyd y cwn, a llwyaid o fel ynghymysg.

A lle na cheffych y llysiau hynn nag un llysiau eraill a welir son am danynt yn irion er cael eu sudd, cymmer y

llysiau'n sychion, au berwi mewn y maint ai cudd o ddwr mewn crochan harn oni fflanno'r hanner, yna ei hidlo'n galed drwy fanwe, a chwedi hynny hanner mesur y dwr berwedig o fel, ai berwi ynghyd yr ail waith oni fflanno'r traian, ai gadw mewn pottel wydr yn gauedig.

ARALL.

§ 124. Cymmer yn unig fwyd brechdan bara cann gwenith a mel, ag yn unig ddiod, llaeth bronnau gwraig ifanc iachus, naw diwarnod yn ddibaid, yna yn lle llaeth bronnau, cymmer laeth geifr naw diwarnod eraill, a chynnal ar hynny yn hwy os bydd achos.

RHAG Y TOSTEDD A'R MAEN.

§ 125. Cymmer y milwydd a'r tormaen, a phwya nhwy am benn dwr twym, a dyro'n ddiod i'r claf chwe diwarnod yn llynn, ag nac yfed arall o ddiod, ag iach a fydd trwy Dduw.

RHAG Y TOSTEDD A'R MAEN.

§ 126. Cymmer waed ysgywarnog ai chroen, a gwna'n bylor, a chymysg ag ossai afalau cochon cibwyr, neu a medd, neu a'r ddiod a yfer ba un bynnag, eithr goreu y bydd yr ossai neu'r medd, ag yfed y claf hwnnw yn unig ddiod ag ef a dyrr y maen ag ai teifl allan, ag o mynni brofi hynny cymmer lwyaid o'r pylor hwnnw mewn dwr, a dod mewn twll a fo mewn maen sur, ag erbyn trannoeth ef a dyrr y maen yn lle gwir.

RHAG Y TOSTEDD A RHWYSTRO GWNEUTHUR DWR.

§ 127. Cymmer bersyll y mordir, llysewyn tebyg ei ddail i'r perllys a dyf mewn gerddi, a blas rhost arno, a chymmer rhuw, a chribau sanffrêd, a chwart o win gwynn, pwya'r

llysiau'n fal iawn, a berw yn y gwin hyd nas pann ei hanner, yna hidla yn lân drwy fanwe, a dyro i'r claf yn dair diod, ag yn wir iach a fydd ef.

RHAG DOLUR YNGHYLCH Y GALON.

§ 128. Cymmer y ganrhif, a phwya'n fâl, a berw drwy hen gwrw, a hidla'n lân, wedi hynny berw oni phann yr hanner, a chymmer hwnnw ar ddau cymaint o fel, a berwa nhwy ychydig ynghyd, a chymmer yn ymprydiol ffioled o hono bob bore hyd ymhen y nawfed dydd, ag ef a dynn y gwŷn a'r dolur o gylch y galon a'r cylla drwy ei gymmeryd yn wir.

MODD ARALL Y GWNEIR YR UN FEDDYGYNIAETH.

§ 129. Cymmer y ganrhif, a berw drwy hen gwrw yn dda, yna cymmer y llysiau o'r cwrw a phwya nhwy yn dda mewn mortyr, a berw eilwaith yn dda, a hidla drwy fanwe glân, a chymmer y sudd hwnnw am benn y dau cymaint o fel, par ferwi ychydig, ag arfer ei gymmeryd yn ymprydiol naw bore, ag ef a iachâ'r gwŷn a'r dolur ynghylch y galon ag yn y cylla, trwy Dduw.

ELI GWERTHFAWR RHAG POB MATH O WAYW.

§ 130. Cymmer hen floneg, a gwer bwch, a gwer dafad, a chwyr melyn, a chymmer y chwerwyn, a phriellau, a mortyra nhwy'n dda, a'u berwi trwy menyn, yna dod atto'r gwer, a'r bloneg, a'r cwyr, a berw yn dda, a hidla'n lân ag yn galed drwy liain, a chadw hwn yn anwyl, ag efe a wellhâ bob gwayw.

ELI RHAG POB CLEFYD A FO MEWN GIAU A GWYTHI.

§ 131. Cymmer lynger y ddaear, a phen gwynwyn, a gwna dwll, a dod y llynger yn y twll, a dod dan y lludw i bobi, a gwedi hynny dod wrth y dolur, a gad wrtho dair nos heb symud.

ELI BLE BYNNAG RHAID I DDYN WRTHO.

§ 132. Cymmer floneg ceiliaccwydd, a bloneg cath wrw, a bloneg twrch coch, tri phen gwynwyn, a jjj o gwyr glas, a berw y ffynonau, a'r chwerwyn, a gwlydd syfi cochon, a briellau, au berwi mewn dwr ffynon glân, a gwedi eu berwi dod hwynt mewn ceiliaccwydd, a phob ef o bell oddiwrth y tân, a'r saem a ddel o hwnnw doder mewn blwch yn anwyl, yn eli gwerthfawr i bob gwayw yng nghorph dyn fel y gwnaeth Hipocras gynt: profedig yw.

RHAG MAGL YN LLYGAD DYN.

§ 133. Cymmer fustl cigfran, a chymysg yn dda am a gwynn wi, a dod ychydig yn dy lygad, a chymmer ychydig o liain main, a dod ar gefn dy lygad, a gwna hynny nos a bore, ag yn wir iach a fyddi.

RHAG BRIWO ELIN, NEU LIN, NEU ESGAIR.

§ 134. Cymmer saem gwynn, sef yw hynny bloneg wedi ei doddi unwaith, rhodder ar frethyn neu wlanen wrth yr hwydd, ag os ar y lin neu elin y bydd, rhowch sudd y rhuw ynddo, ag ef a wella glwyf y cymmal, a iach a fydd; profedig yw.

RHAG HWYDD, A GWRES, NEU LOSCFAN O NATTUR IDDIW, NEU GLWYF ARALL.

§ 135. Cymmer risg y llwyf a briw yn fân, a thynn yr ucha heibo, a gwysgona mewn dwr twym nes bo'r dwr fel mel gwyddn tew, ag yna tynn y rhisg ymaith o hono, a chymmer fflwr haidd ag ymenyn gwyryf, a dod i ferwi nes elo e'n iwd, ai roi ar bilyn gwlanen wrth y dolur, ag o bydd tyb fod asgwrn twnn ynddo, dod amledd o risg yn y plasder, ag ef a ddaw a hwynt iddeu lle, lle'i gweler yn wir ond arfer yn fynych.

RHAG GWAYW A THWRW YN Y CLUST.

§ 136. Cymmer dorth o fara gwenith trwyddo yn frwd o'r ffwrn, a'i hollti'n ddau hanner, a dod wrth y ddau glust mor dwym ag y gellir ei oddef, a rhwym a chwysu felly, ag yn wir iach a fyddi trwy Dduw.

RHAG GLOESON A LLOSGFAN CYLLA GWLYB.

§ 137. Cymmer rawn paradwys, ag ychydig o bylor claw yn eu mysg, a bwytta hyd ymhen yr wythnos, ag yn wir iach y fyddi trwy Dduw.

I BERI I'R BLODAU GERED AR WRAIG.

§ 138. Cymmer dafod yr hŷdd, a berw mewn dwr yn ffest, a rhoi yn glaiardwym i yfed, ag iach y bydd.

RHAG PISO GWAED.

§ 139. Pwya arlleg a berw mewn llaeth yn yr amser, ai yfed nos a bore, a iach y byddi.

RHAG TRAUL NATTUR AR WRAIG, A RHAG GORMODD O FLODAU.

§ 140. Cymmer risg derwen ifanc o r hanner at yr haul, a thynn o'r bôn tua'r brig, a thynn yr uchaf ymaith, a briw yn dra mân mewn llaeth buwch unlliw, a chymmer werth ceiniog o saffar yn bylor mân, a berw y cyfan yn dda ar dan araf, a chwedyn ei hidlo ai yfed y bore a'r nos yn dair diod neu chwaneg, ag yn wir iach y bydd trwy Dduw. Amen.

PLASDER I DYNNU HWYDD.

§ 141. Cymmer grestys fawr fendigaid, a'r pumpbys, a'r brwr, a rhogos, a bloneg, ag ymenyn, a berw y llysiau mewn dwr yn dda, ag yna tynn ef i'r llawr a phwya'r llysiau'n dda, ag yna dod yn yr un dwr yr ail waith ar y tân, a'r menyn, a'r bloneg, au cymysg, au berwi hyd nes elon yn iwd, ai roi wrth yr hwydd, ag ef ai ostwng yn wir, a iach a fydd.

RHAG GWAYW Y FAM A LLEWYGON.

§ 142. Cymmer gan gwenith, a dwr yn oer, ai yfed yn dair diod, ag iach a fydd yn wir, gyda nerth Duw.

I WRAIG A FO AI FFRWYTH YN CERDDED GORMODD.

§ 143. Cymmer fflwr gwenith a llefrith yn oer, ag yfed ef felly, ag iach y bydd yn wir.

RHAG Y FAM YN CODI AR WRAIG.

§ 144. Cais gymaint a ffafen o'r tus, a dod ar dri marweryn a chymmer y tarth i'th ffroenau ag i'th enau, ag ef a ostwng yr hwydd, ag hefyd cymmer gorn y carw ag arfer ef yn yr un modd, a iach y fyddi.

RHAG Y CLEFYD MELYN.

§ 145. Cymmer y llysiau a dyfant ar frig yspyddaid, ag efeillwydd, a elwir ychelfedd, ai berwi mewn gwin, neu hen gwrw da, nes pannu'r hanner, yna tynn ef i lawr, a hidl ef, ai yfed ef hyd pen y naw bore deirgwaith y dydd, sef boreu, nawn, a nos, ag iach a fyddi.

RHAG Y FAM O'R BYDD YN CWNNU AR WRAIG YN HWYDDEDIG O'R CYLLA.

§ 146. Cymmer isob, a'r llysiau llwydon, a gwna ddiod ag hwynt trwy hen gwrw iachus, a hidla'n lan trwy liain wedi'r berw, a dyro i'r wraig dair diod ar dri phryd, ag ef a estwng y clwyf yn wir, a da yw'r ddiod honn rhag y tostedd a'r cyllwst, o herwydd y llysiau llwydon sy dda i'r clefydau hynny yn wir, ag felly rhag pob gwynnogwst yng nghorph dyn, ai yn y cylla, ai yn y gwaed, ai yn y llynnor.

DIOD RHAG Y CRYD O'R CYLLA, A'R CRYD O'R CNAWD.

§ 147. Cais ddyrnaid o rosmari, a dyrnaid o isob, a dyrnaid o'r geidwad, a dyrnaid o'r chwerwyn gwynn, a dyrnaid o

ffunel cochon, au pwyo'n dda, au berwi mewn galwyn o frecci du cadarn a wneler o frag haidd, ai roi mewn llestr pridd i gadw, ai gauadu'n dda, ai ado yno dri diwarnod, ag yna cymmer dair diod bob bore'n wag, ag yn ddiwetha'r nos, ai dwymo yngwrês gwaed, ag yna cymmer werth ceiniog o'r grawn a elwir grawn paradwys, gwerth ceiniog o'r claw, a gwerth ceiniog o saffar, a gwerth ceiniog o'r canel, au pwyo ynghyd oll mewn mortyr yn bylor mân, a bwrw peth o'r pylor hwnnw ar wyneb y ddiod, a gwna felly hyd y parhäo y ddiod wrth ei hyfed, a da yw yn wir, ag ef a brofwyd, a da hefyd rhag pob gwynnygwst yng nghorph dyn ; profedig yw.

RHAG DOLUR YR YSCEFAIN.

§ 148. Cymmer annegan o'r melged, (a elwir yn y lladin *Beta,)* a thor y ceingau a'r pennau ymaith, a chymmer dri galwyn o ddwr glân a berw hwynt, a thynn y melged allan, a gad yn llynn i ferwi, yna tynn i lawr a gad yny bo mewn gwres brecci mewn tymmer, ai ddodi ef ar waddod ffres newydd, a gad ef i weithio hyd pan wastodhâ, ag yna dyro i'r claf i'w yfed hyd ymhen y nawpryd yn unig ddiod, yna cymmer y melged a thynn ef drwy ymenyn a phylor melottai, a dyro i'r claf i'w gymmeryd hyd ymhen nawpryd, ag iach y bydd, trwy Dduw, Amen. A da iawn yw'r feddyginiaeth rhag y cryd tridiau.

RHAG Y CRYD A'R MWYTH.

§ 149. Cymmer ddyrnaid o gellesg y naint, a j j j chwart o gwrw da cadarn, a phwya'n dda'r gellesg, a berw ef yn y cwrw hyd nes elo'r tri yn un, ag yna hidla ef, a chymmer werth ceiniog o rawn paradwys pyloraid a berw yr ail waith yn ysgon, a rhann ar bedwar dydd o flaen y cryd, ag iach y byddi.

RHAG DOLUR O'R TU MEWN YR HON A ELWIR Y LLECH.

§ 150. Cymmer y llysseu a elwir y dodded felen, a dyfant mewn gweunydd ag ar fynyddau yn grafangog ar y llawr, ai flodeuyn glas diffaith a fydd arno, cynnull or llysiau hynny lonaid dy gyccwll, a phwya 'nhwy'n fân mewn mail brenn fawr, a chymmer y gymmain arall o ferw y ffynonau, a phwya'n ffest y rheini, a chymmer geiliog coch, a lladd ef, a phlufia, a thynn ei fysgar heibio, a gwna ef yn ddigon glân a dod mewn crochan pres i ferwi a dwr glân ynddo gymaint a dau alwyn o'r lleia, a berw y ceiliog yn y dwr a'r llysiau, hyd nas del yr esgyrn o hano ag yna tynn i'r llawr, a thynn yr esgyrn o hano yn llwyr, a bwrw y cig yn y crochon yr eilwaith am ben y llyssau, a berw yr ail waith yn ffest, hyd nes gwelech yn myned yn dew, ag yn brith golli y berwad gan ei dewed, ag yna tynn i'r llawr, a chymmer liain cadarn ag ystraena yn lan oll y gyd a'r cig, a ffrwyth hwnnw a ddel trwy'r lliain dod ar y tân, yna cymmer werth dimai o bybyr pyloraid a bwrw yn y llynn hwnnw yn frwd, wedyn tynn ef i lawr i oeri ai gymysg yn dda tra oero, a rho i'r claf ar ei fwyd ag ar ei ddiod bob pryd hyd nes gweler y clefyd yn toddi ag yn rhedeg trwyddo: ag yn wir mi ai profais ar fach a mawr o ddynion, a hwnn a elwir glas gyflaith y llech.

O BYDD DYN WEDI HWYDDO O WENWYN CORNIORYN.

§ 151. Cymmer naw ewin garlleg, a phila'n lân, a chymmer lwyaid o driagl, a hanner chwart o gwrw newydd cadarn, a chymysg a rheini a dyro i'r claf i yfed lawn ddiod o hano, a dod ddigon o ddillad arno hed nes hwyso, or trig y ddiod un awr yn ei gorph ped fae mannau duon arno hwy â'n allan, ac fe a ddianc, a da'r feddyginiaeth honn i ddyn a frathwyd gan neidr.

RHAG HWYDD A DOLUR GWARR DYN, NEU GERN A BON Y CLUSTIAU.

§ 152. Cymmer y melynllys a gwraidd y ffunel cochon, a phennau cennin, a gwin coch, ag ymenyn, au pwyo nhwy ynghyd, au rhoi wrtho yn blasder yn oer, ag iach y byddi di yn wir trwy help Duw.

RHAG CRACH A RHASGLACH AR GNAWD DYN.

§ 153. Cymmer y melynllys, a gwraidd marchalan, a suran y coed, a berw hwynt mewn a annont ynddo o ddwr hyd nes el dan ei hanner, ag a'r llynn hwnnw golch y clwyf, ag iach a fydd; profedig yw.

RHAG GWAYW YN Y CEFN.

§ 154. Gollwng waed ar gefn y droed ym mron y bawd, a chorda'r esgair wedi ei thymdwyra a dwfr twym, ag iach a fydd yn wir.

RHAG GWAYW IDDYW YN YR ESCEIREDD AG YN YR AELODAU.

§ 155. Cymmer y llyssau a elwir corn y carw, a berw mewn tri galwyn o ddwr nes el yn bottel, ag yna rhoi galwyn o gwrw am ei benn, ai berwi nes el yn bottel yr ail waith, ai hidlo, ai gadw mewn lle glân, ag ira'r gwayw yn dra mynych, ag iach y bydd.

RHAG Y TOSTEDD A'I WEWYR.

§ 156. Cymmer y gromil cochon, eraill ai geilw y tormaen, ar perllys, au pwyo ynghyd, au berwi trwy fel a hen gwrw, a hidla yn lân, ag ŷf nos a bore, ag iach a fyddi yn enw Duw.

RHAG DOLUR Y CLUSTIAU.

§ 157. Cymmer faccon yr ynn, eraill ai geilw allweddau'r ynn, a berw yn ffest mewn dwr y claf, ag ira'r dolur, a dod ar wlan du yn y clustiau, ag iach y bydd trwy Dduw.

RHAG Y CLEFYD MELYN.

§ 158. Cymmer afal, y mwyaf a ellir ei gael, a thor ei lygad yn grwn o hono, a thynn ymaith galon yr afal a llwyar asgwrn neu brenn, a llanw a sudd yr aspygan, a eilw eraill llygaid y dydd, a saffar, yna dod y llygad yn ol yn ei le drachefn, yna dod i bobi yr afal dan y lludw, a phan ddigono cymmer allan o'r lludw, a phwya ef yn iyttan, a dyro i'r claf i fwytta, ag yn wir iach a fydd.

RHAG CLEFYD Y GALON.

§ 159. Cymmer risg y duddrain, a chraf yr uchaf ymaith, a berw y rhisg gwynn mewn dwr yn ferwad cig eidon, a chwedi hynn berw wi'n galed, a chymmer y melyn a chann gwenith, a chymysg y melyn hynn a'r cann yn dda, a chymmer draian y llynn lle berwaist y rhisg, ag o ffrwyth y cann ar melyn wi, a gwna fara o honynt, a chras ar faen aelwyd, ai fwytta nos a bore, a gwilio nad yfo'r claf o un ddiod arall ond y llynn lle y rhisg yn berwi ynddo, neu win coch, ag iach y bydd.—Philip Feddyg.

RHAG LLEWYGON YNGHYLCH Y GALON.

§ 160. Cymmer sudd y ffenigl a mel, mesur am fesur, a berw hyd nes el yn galed, a bwytta maint wy gâr nos a bore, ag iach a fyddi.—P. Feddyg.

RHAG BOLA CALED.

§ 161. Cymmer ddwy lwyaid o sudd dail y celyn, ai yfed dair gwaith yn y dydd, hed pen y naw diwarnod, ag iach y byddi trwy Dduw.

RHAG CYLLA GWLYB.

§ 162. Cymmer wraidd y cennin, a gwna'n bylor drwy grasu o hirbell o flaen y tân ai fortyru, a chymmer lwyaid o'r pylor hynny mewn llwnc da o win coch, ag yf yn ddiwetha'r nos dwyawr ar ol bwyd a diod dros dri niwarnod, ag iach a fyddi trwy Dduw ag Amen.

RHAG YSGEFEIN.

§ 163. Cymmer y tri llysewyn a enwir yma, nid amgen y llysau llwydon, gystlys, sef y tansi, a ffenigl cochon, a digon yw llonaid llaw o'r tri llysewyn, au pwyo'n dda, au gwneuthur yn ddiod drwy hen gwrw da ag iachus, yna ei berwi ar dan araf, ai hidlo yn lân, ai yfed yn oer driphryd, ag efe a dyrr y gwayw a fydd dan y balfais ar ysgwydd, trwy Dduw, ag iach y bydd.

Modd arall ai gwneir, sef pwyo'r llysiau yn fan, a dodi triphryd o'r cwrw, neu o hen fedd da ar y llysiau briw, a gwedi y safo felly hanner awr yn oer, ei hidlo'n galed drwy liain glân, ai roi'n dri diod pen bob teirawr i'r claf, a thrwy Dduw ef ai iachâ.

ELI RHAG POB RHYW WAYW.

§ 164. Cymmer flodau'r banadl, a phan na bo'r blodau, y dail a'r esgaredd, a phriellau, a gwraidd y cegyr mawr, a dail y morgelyn, a'r llysiau llwydon, a gwraidd y tafol cochon, a mortyra nhwy yn dda, a gwna eli a hwynt drwy ymenyn, ag ira'r dolur yn fynych, ag iach a fydd.

RHAG TODDI YR AFU.

§ 165. Cymmer ychydig o'r dinllwyd, sef y tansi gwyllton, a phwya nhwy'n dda gyda gwin, a hidla'n galed, ag yf driphryd y dydd dros dri diwarnod, a thi a fyddi iach, trwy Dduw.

Lle na bo gwin cymmer gwrw cadarn iachus, neu fedd iachus a chadarn yn ei le.

Tafod yr ych a dynn ymaith y lliw coch ond ei bwyo'n dda am benn gwin ai yfed, ag ef a bair i ddyn fod yn dda ei gof ai synwyr, twym a sych, yn wir.

RHAG SYCHED AR DDYN CLAF NEU IACH.

§ 166. Cymmer y ganrhif, eraill ai geilw ysgol Fair, a phwya gyda dwr twym ai hidlo, a phan fo'n oer ei yfed, a hwn a wna les i'r ddwyfron a'r cylla lle bo llosgfan mawr, ag a iacha'r claf.

RHAG DOLUR AR DRAED, A HWYDD YN YR ESGAREDD.

§ 167. Cymmer wraidd y greflys fawr, a thynn y rhisg ymaith, ag yna berw yn dda, a chwedyn mortyra'n dda gyda hen floneg, a dod ef yn blasder ar y dolur.

RHAG Y SYCHBILEN AR LYGAD DYN.

§ 168. Cymmer ddail y syfi (eraill ai geilw dail y mefys,) cochon, a phwya nhwy am benn bloneg gâr ag ymenyn gwyryf, ag ira dy lygaid pan elech i gysgu, ag fe a'r menyn yn dy lygaid, ag iach a fyddant trwy Dduw.

ARALL.

§ 169. Cymmer floneg gâr, ag ymenyn gwyryf, ag ychydig elyf pyloraid, a berw ychydig arnynt, a gad oeri, yna elia dy lygaid pan elech i gysgu.

RHAG GLOESON AR DDYN.

§ 170. Cymmer sudd y cenin, a mel, a phybyr pyloraid, ag aesel, a phwya'n dda oni bo'n ardymmerus, a rho i'r claf yn dair diod, a iach a fydd.

RHAG Y CYLLWST A'R TOSTEDD, A DOLUR HEFYD YN YR ARFFED.

§ 171. Cymmer ddau ddyrnaid o lysiau'r tanc, a'u pwyo mewn mortyr yn fal, yna eu berwi mewn dwr ffynon ferwad cig eidion ag yna byddant yn myned yn dew, gwedi hynny berw blawd haidd yn wyneb y berw, ai gymysgu'n dda, yna tynn ef i lawr a dod ef ar frethyn neu wlanen wrth y clwyf ym mlaen ag yn ol, a mynych arfer y plasder hwn hyd ym mhen nawpryd, ag yna cymmer ddau gwart o win rhwn, a chwart o'r distyll bendigaid (sef yw hynny y cyfeiti,) a dyro yn y gwin cydwymed ag y gallo y claf ei yfed, ag nag yfed un ddiod yn dwymaf ag y gallo a'r distyll yn oer yn gyntaf bob hwyr a bore, ag arfer felly tra pharhäo y llyn, hefyd gyda'r pethau hynn cymmer gig myharen, a berw ef mewn dwr ffynon ferwad mawr, ag yna tynn i'r llawr, y cig allan, a'r dwr i oeri, a chymmer y wyneb oddiar y dwr a gwna yn belen, a thawdd y gwer hwnnw, a berw ef am benn peth o'r distyll onid elo'n eli ar dan araf, a chaead annianc ar y llestr ai berwer ynddo, ag ira'r dolur a'r eli hynny ym mlaen ag yn ol. A chymmer fara gwenith cras odyn, neu yn lle hynny bara gwenith cras dafell, a chig myharen yn fwyd, ag na chymmer un rhyw arall o fwyd yn hir o amser, ag arfer o hyn ag iach a fyddi; namque yn wir fe brofwyd yn wir.

RHAG LLOSG ER EI FOD AR GYMMALAU A GWYTHI.

§ 172. Cymmer y marçhredyn, eraill ai geilw y rhedyn mawr, a chymmer sudd y gwraidd gwedi crafu yr uchaf

ymaith, a gwynn wi, a chymysg y sudd a'r gwynn wi, a dod ef ag asgell ar y dolur nos a bore, ag iach a fydd.

I SUGNO ASGWRN DYN NEU NEFAIL.

§ 173. Cymmer y chwerfwr, a elwir yn y Lladin cwcwmbri, a llysiau Mair, a phybyr mewn gwin, ag yf hwnn naw pryd yn wag ag iach y byddi, yn wir.

RHAG DOLUR BRONNAU.

§ 174. Cymmer y greflys, y griswil fawr a hen floneg, a mortyra hwynt yn dda, a gosod wrth y dolur, a hwnnw a dymhera yn gynta, a thrannoeth cymmer yr henlydan, a llonaid maneg o griban Mair, a berw hwynt hyd dan y hanner a gosod ar frethyn neu wlanen, a dod wrtho pan el i gysgu, a rho iddi gwppanaid o win, a hi a gaiff y nattur y nos hono. i. h. u. y.

RHAG PRYFAID AR GNAWD DYN.

§ 175. Cymmer y rhuw, a phwya nhwy'n fân, a chymmer y llysiau mewn lliain main a rhigl y cnawd, a hwy a fyddant feirw, a da yw hynn rhag chwys tawdd ar ddyn yr hwnn ai gwanhäa ef yn ddirfawr.

ELI RHAG POB CROEN TWN.

§ 176. Cymmer y meddygyn meniw, a glessyn y coed, a llwyn hidir, a llydain y ffordd, a'r geidwad ddof, gogymaint o bob un, a mortyra nhwy'n ffest, a chymmer fenyn heb halen ai ferwi trwyddo nes darffo'r ymenyn, a berwi'r llysiau, ai hidlo yn lân, a gosod mewn blwch, ag a hwn elïo pob croen twn.

LLYMA ELI I DYNNY SUGN ALLAN O WAELOD O NERTH ELI.

§ 177. Cymmer y meddygyn meniw, a llysiau llwydon, a'r gaswenwyn, yr hwn a elwir dail y berglasar, ar erllyriad,

yr hwn a elwir llydan y ffordd, a dail yr arhocas, a'u mortyru'n dda, yna cymmer ymenyn heb halen, ag ychydig o gŵyr melyn newydd a rhosin, a gwêr magyn llwyd, a berwa'n dda ynghyd, ag ef a ddaw ffrwyth y llysiau i'r ymenyn, gwêr, cwyr, a'r rhosin, a hidla'n lân trwy liain, a gosod mewn blwch, a hwnnw a dynn dam o waelod pob twnn, ag iach fydd.

Tri thorr croen sydd ar ddyn ni ddyly meddyg ymhyrru a hwynt, nid amgen pilennod yr ymhennydd, yr ail, twn ar golydd dyn, yn drydydd, gwysigen y dwr; sef nid oes ond eu gadael i Dduw, ag ymiachau yn lled fynych a wnant, fel au gwelir ar wyr o dwn yn rhyfel, ag nis dylit na bwyd na diod namyn llefrith a llaeth bronnau i'r neb a gaffont dwn yn un o'r tri chroen hynny.

RHAG PRYFED YN Y CYLLA.

§ 178. Gwna bylor o'r erfin drwy eu tafellu a'u crasu o flaen y tân, yna eu malu, a dyro i'r claf i fwytta yn oer ar gylla gwag naw bore, neu hyd ben y nawpryd cyfenw, ag efe a fydd iach.

RHAG BRATH NEIDR.

§ 179. Cymmer sydd llydan y ffordd, a sudd y ganwraidd lâs, ag eliw oliwydd, gymaint tra chymaint, a dyro lwngc syched o hono i'r claf, ac ira 'r dolur ag ef, a hwnn a ddinistra 'r gwenwyn, ag iach y bydd.

ARALL RHAG BRATH NEIDR.

§ 180. Cymmer ymhennydd ceiliog coch, a sydd y rhêd yr hwn a elwir tafod yr hydd, a'u mortyru 'n ffest, a chymysg hwynt yn dda a gwin gwynn neu lefrith, a yfed y claf ei lawn lwnc sych, a golched y dolur ag ef, ag iach fydd trwy Dduw.

RHAG WYNEB YSBLOTTOG.

§ 181. Ira ef a gwaed tarw, neu a gwaed ysgyfarnog.

RHAG HWYDD MEWN GLINIAU NEU GYMMALAU DYN.

§ 182. Cymmer ysgol Fair, a elwir y ganri goch, a mortyra yn dda, yna gwasg yn dda drwy ddwr mewn lliain glân, a dyro i'r claf i yfed.

RHAG TRA SYCHED.

§ 183. Cymmer ysgol Fair, ag ychydig o belydr y mynydd, a'u mortyru'n dda, yna eu gwasgu am ben brecci du o frag barlys, neu 'rhoi mewn llestr pridd i sefyll hyd trannoeth yn y brecci, ac yna ei roi i'r claf i yfed y bore, a hwnnw a dyrr y syched yn wir.

RHAG HWYDD O'R TU MEWN I'R CORPH.

§ 184. Cymmer eirin a berw mewn llaeth geifr, a phan y bo yn oer, dyro i'r claf i'w yfed y bore, a'r nos yn hwyra y gellych.

RHAG RHWYSTR PISO A LLOSGFA MEWN GWIALEN GWR NEU WRAIG.

§ 185. Cymmer ymhennydd ysgyfarnog, a dyro mewn gwin gwynn sur, a rhoi i'r claf i yfed.

RHAG Y MARCH WRIAINT.

§ 186. Cymmer ufelfaen, a mal e'n fân, a chymmer wêr eidion, a gwraidd y tafol, a berw y gwêr a'r gwraidd, a phan y bo e'n oeri cymmer yr ufelfaen pyloraid, a chymysg am benn y gwêr hynny gymaint o hono ag a wnelo'r eli'n galed ddigon, a hwnnw a ladd y gwrïaint, yn wir.

RHAG GWAYW YN Y PENN.

§ 187. Pwy benna gaffo wayw yn ei benn yn fynych, gwnaed leisw a'r dderwen fendigaid, a chribau sanffrêd, a'r gamri, ac ychydig o'r ffunel cochon, a golched ei ben dair gwaith yn yr wythnos a hwnnw, a bydd iach.

RHAG BYDDERI CLUSTIAU.

§ 188. Cymmer ddwr myharen, a saem llysywen, a'r fyddarllysg, a sydd cudd y coed, a wi wrth ei dwymo, au cymysg ynghyd a'i fwrw yn y clust ar y dolur bob ychydig, a iach y bydd.

ELI AT HEN YSSIG.

§ 189. Cymmer ddyrnaid da o ddail iorwg, pwya nhwy'n dda ynghyd a thom geifr a menyn ffres, au maeddu yng nghyd yn dda, a dod yn blaster wrth yr yssig, ag iach y bydd.

RHAG DOLUR PENN AR DDYN.

§ 190. Cymmer lysiau'r gerwyn, a phwya nhwy'n dda gydag aesel a gwin coch, a dod yn blaster wrth dalcen y claf.

Yr hwn ni chymmero fwyd pan fo arno ei chwant, ei gylla a leinw a gwynt ag afiachwst, yr hynn a bair gwayw yn y penn, a chymmeryd bwyd sych o fara gyda chig myharen hallt a'i gwna'n iach.

RHAG POB CYFRYW WAYW.

§ 191. Cymmer dalm o flodau'r banadl, a gelesg, a phriellau, a dyrnaid o wraidd y dynaid cochon, a gwraidd y bymystl yr hwn a elwir y cegyr mawr, a dail y morgelyn, a dail llydain y ffordd a fo a had arnynt, a chwart o hâd, au cymysgu, au pwyo'n fâl ag yn dda drwy ymenyn gwyra,

au berwi drwy'r ymenyn yn ffest, ai hidlo drwy liain glân, a'i osod mewn blwch i gadw yn gaeedig, ag eli gwerthfawr yw rhag pob cyfriw wayw.

I LADD PRYFED YNG NGHYLLA DYN, PA RAI NI ADANT NA BWYD NA DIOD HEB EI WRTHWYNEBU.

§ 192. Cymmer y llysiau a elwir llysiau'r mêl, a phwya nhwy'n dda am benn gwin gwynn, a thwymo ychydig arno, a rho i'r claf i yfed yn wâg y bore hyd ym mhen tri bore, a iach y bydd.

RHAG DOLUR YN Y CEFN, NEU WAYW CLUN.

§ 193. Cymmer y llysewyn a elwir clust y llygoden, a phwya ef yn dda, ai ferwi gydag ymenyn, ai hidlo yn lân, ag ira'r cefn yngwres y tân ag ef, ag iach y bydd.

RHAG TRAUL YR AFU.

§ 194. Cymmer wraidd y felottai, a had anis, a chribau sanffrêd, a marchalan, au pwyo'n dda gyda brecci du, neu win gwynn, ai hidlo'n lân ai yfed y bore a'r nos, nes peidio'r dolur, a thrwy Dduw y cei iachâd.

I WELLA GOLYGON A FONT WEDI TYWYLLU.

§ 195. Cymmer sugn y ffunel cochon, a sugn y melynllys, a sugn llysiau'r wennol, ag ychydig winegr neu aesel, a gwaed llysowen, a bustl ceiliog, au cymysgu ynghyd, au dodi mewn llestr glân hyd pan flodeuo, a chymmeryd y gloywon ai roddi i'r dyn i fwrw yn ei olygon gwedi y collo ei olwg, ag, medd y gelfyddyd, yn wir wedi y collo ef ai caiff eilwaith.

RHAG GWAYW IDDIW A'R HWYDD.

§ 196. Cymmer wraidd y rhedyn, a mortyra'n dda, a chymysg ef ag ychydig ddwr twym, a maedd ef ath law yn

gymysgedig, a gwedi hynny hidla'n wasgedig drwy liain, a gwna'n blaster gyda blawd haidd a gwynn wi, a thynn ef ag ysbawd ar gadach brethyn, a dod wrth y dolur.

RHAG POB CLWYF AR LYGAD, AG YN ENWEDIG MAGLAU NEU WYBREN.

§ 197. Cymmer y tanclys gwyllt neu'r dôf, a berw mewn gwin gwynn yn dda hyd nyd elo ffrwyth y llysiau yn y gwin, ag yna tyn i'r llawr, a hidla'n lân, a gad i oeri ag i loywi, ag yna cymmer y dwr gloywa o hono, a dod ynddo gamffyr gwynn, a gad ei doddi yn y llynn, a chymmer ychydig o'r llynn a dod ar dy lygad, a pharyw glwyf bynnag a fo ar lygaid, ef ai gyrr hwy yn iach; profedig yw, medd Aristobolis.

RHAG GWAYW YN Y CYLLA.

§ 198. Cymmer ychydig o'r tanclys, a phylora'n fân, a dod win gwynn yn ddiod, ag yf ef, a thi a fyddi iach.

ARALL.

§ 199. Cymmer ychydig o'r tanclys, ag o lysiau'r corph, a berwa nhwy'n dda gyda halen, a bwyta nhwy yn fynych gan ymprydio, ag iach y byddi.

RHAG CRIP AR BEN DYN YN HWYDDO GWEDI CAEL CWYMP.

§ 200. Cymmer uncyn o halen gwineu, a thri uncyn o fel crai, ag uncyn o gwmin, a dau uncyn o dwrpant, a chymysg y rhain yn dda ar y tân, a gwedi hynny tynn ar liain a gwna blaster, a rho wrth y penn yn dwym, a hynn a dynn yr hwydd a'r yssig, ag iach y byddi; na ddoder na gliw, na gwer, na saem o unrhyw ba bennag mewn plaster, a ddoder wrth y penn.

RHAG ECHRYN YM MRYST GWRAIG.

§ 201. Cymmer ddail y cegid, ai briwo'n fân ai berwi gyda ymenyn newyd ar dan araf mewn padell, ai osod mor dwym ag y gallo hi ei oddef wrth ei bryst ar frethyn gwynn, ag iach y bydd; neu ef a ellir pwyo'r dail yn fal gydag ymenyn newydd, neu liw'r eliwydden, ai wneuthur yn blaster ar frethyn gwynn, ai dwymo mor frwd ag y gellir ei oddef, ai osod wrth y bryst.

RHAG Y CANCAR YN Y GENAU.

§ 202. Cymmer bannaid o win neu glared, a brigyn o rosmari, a berw hwy ynghyd, a do ddryll o elyf gymaint a chneuen, a llwyaid o fel, a dwy lwyaid o ddwr, au cymysgu'n dda, a golchi'r genau yn fynych, ag iach y bydd.

I WNEUTHUR GWALLT YN AUR FELYN.

§ 203. Cymmer riscl y rhywbarb, a dod e mewn gwin gwynn, a golch dy benn ag e, a sych e a lliain main glân, wedyn sych dy benn wrth y tân neu yn yr haul o bydd tesog; gwlych dy benn drachefn, a sych e'r un modd ag o'r blaen, a pha fynychaf y gwnelech yn llynn teccaf y bydd y gwallt heb wneuthur cam a'r penn un amser.

I DYNNU MANNAU ODDIAR DDWYLAW A FONT WEDI BRYCHU.

§ 204. Cymmer sudd y dringol i gydag ychydig o halen gwinau, golch dy ddwylaw, a gad nhwy i sychu o'u nattur eu hunain, a golch trwyddo eilwaith, a thi a gai weled yr holl frychau a'r mannau yn anymddangos, ag y mae'r cyfarwyddyd hyn yn dda rhag y wiffer a'r tarddiant yn wir.

I WYBOD PUN AI BYW NEU FARW Y BYDD DYN CLAF.

§ 205. Cymmer laeth bronnau y bo mab yn eu sugno, a chymmer ddwr y claf, a bwrw y llaeth wrth ben dy fys am

ben y dwr, ag os ar yr wyneb y trig y llaeth, byw fydd y claf, os i'r gwaelod yr â, marw y bydd yn wir.

ARALL.

§ 206. Cymmer flodau llygaid y dydd, a phwya nhwy'n dda am benn gwin, a dyro i'r claf i yfed, ag os ei fwrw a wna, ef a fydd farw o'r clwyf hynny, os peidio a wna, bydd fyw, a hynn a brofwyd yn wir.

RHAG LLOSG TAN.

§ 207. Cymmer wreiddiau'r rhedyn, a phwya'n dda am ben ymenyn, ai roi'n blaster wrth y dolur, ag fe a dyrr y llosfan.

RHAG GWAYW GWYLLT YN Y PEN.

§ 208. Cymmer ddail ffion ffrith, a phwya nhwy am ben llefrith a gwer dafad ynyd el yn blaster, a rho mor dwym ag y gellir ei oddef wrth y pen.

ARALL O FODD AI GWNEIR.

§ 209. Cymmer rynnion blawd ceirch, a dail ffion ffrith a gwer dafad, a llefrith, a phwya nhwy ynghyd yn dda onid el yn blaster, a dod ar dan hyd oni thwymo, a dod wrth y penn yn blaster mor dwym ag y gellir ei oddef; da yw yn wir.

RHAG Y FRECH GNAPPOG.

§ 210. Cymmer arian byw, ag eliw twrpant, a phlwm gwynn, a choprys glas, a bloneg moch, au toddi ynghyd yn eli, a chymysgu yn dda er lladd yr arian byw, carthu'r hen a dodi'r newydd, a chymmer yn ddiod i beri iddi darddu i maes, pubur hirion a thriagl mewn gwin seg.

RHAG Y FRECH FAWR.

§ 211. Cymmer werth dwy geiniog o eliw twrpant, a gwerth dwy geiniog o eliw bae, gwerth chwech cheiniog o arian byw, gwerth dwy geiniog o'r gwm a elwir mastig, gwerth dwy geiniog o rwd gwyrdd a elwir ferdigrw, gwerth dwy geiniog o goprys glas, gwerth ceiniog o gamffyr, gwerth ceiniog o elyf, gwerth ceiniog o losgfaen pyloraid, ag ob* o rosin, pwys o floneg moch, pwys o blwm gwynn os bydd y claf yn wlyb, cymysg hwy ynghyd, ag elia'r claf, profedig yw.

ELI ARALL RHAG Y FRECH FAWR.

§ 212. Cymmer bunt o floneg twrch neu fadd i wr, os gwraig bloneg hwch, a hanner pwys o'r ystor a elwir tus gwedi ei bwyo'n dda, ag wncyn o arian byw, hanner wncyn o goprys gwynn, wncyn o rwd gwyrdd, ag ychydig o elyf heb ei losci, ag ob o losgfaen pyloraid, pwya nhwy nghyd yn dda fal nad adwaenir un oddiwrth y llall, ag elia'r claf; profedig yw.

ELI TYF RHAG POB CROEN TWN.

§ 213. Cymmer y feddygen fenyw, a llwyn hidydd, a'r geidwad ddof, a glessyn y coed, yr un gymaint o bob un ai gilydd, mortyra nhwy'n dda, a berw nhwy drwy fenyn mai heb halen, gwedi hynny hidla drwy liain main, a dod i gadw mewn blwch, ag ira'r dolur ag efe a iachäa, os bydd cig marw yn y dolur, cymmer ychydig elyf, neu goprys glas, neu ferchur coch pyloraid, ai gymysgu a pheth o'r eli, a hwnnw a fwytty'r cig marw, ac iachau a wna.

RHAG DEFAID AR DDWYLO NEU DRAED DYN.

§ 214. Cais fwydon y ddaear, a phwya gyda menyn hallt neu ffres, a gwna blaster o honynt, a dod ar y man lle bo'r defaid, a hwnnw au diwreidda hwynt.

* Obulus, efallai; gwerth dimai.

RHAG DAFADEN.

215. Cymmer lysywen, a thorr ei phen hi, ag ira'r dwylaw, neu'r lle bo y defaid, a'r gwaed a ddel o heni, a chladd y penn wedi hynny ymhell yn y ddaear, ag fel y bo y penn yn pydru, felly y bydd y defaid yn darfod.

RHAG DRAEN NEU SAETH A EL MEWN DYN AG NA ELLIR EI DYNNU ALLAN.

§ 216. Cais wraidd yr ysgall garw neu eu dail, a gwynn wi, a chymysg ynghyd, a rho wrtho, ag efe au tynn.

RHAG Y WAEDLING NEU FRATH.

§ 217. Cylyma fys bach y dyn ag efe a ettail y gwaedu.

RHAG CNOAD CI CYNDDEIRIOG.

§ 218. Cais briellau, a phwya nhwy, a chymysg a llaeth, a rho i'r claf i yfed yn unig ddiod dros nawnydd, yn hidledig drwy liain main, eraill a ferwant y priellau am ben llefrith, ai hidlo dan wasg, ai roi'n ddiod hyd ym mhen y nawfed dydd i'r claf, ag yfed a allo, heb amgen o fwyd a diod.

I BERI I WRAIG BLANTA.

§ 219. Cais lynger ysgyfarnog, ai harennau, a pheth o'r gwaed, a thrwy wynebion yr isgell y berwer y cig, eu maeddu, a dod ynddo hanner wncyn o rawn paris yn bylor-aid, ag ychydig o win gwynn main, a rhodder hynn iddi pan el i wely, a hi a fydd gyflawn o anian naturiol.

RHAG BREUDDWYDO TRWY GWSG.

§ 220. Cymmer y dderwen fendigaid, a chrog am fwnwgl y dyn, neu rho iddo eu sudd hwynt i yfed wrth fyned i gysgu, ag efe a baid a breuddwydo.

I LADD PRYFYN MEWN DANT.

221. Cymmer wraidd y felenydd a thorr yn ddrylliau, a rho dan ddant y claf dair nos, ag ef a ladd y pryfyn.

RHAG POB RHYW GRACH A THARDDANT AR GROEN DYN.

§ 222. Cymmer wynwyn a briwa nhwy mewn dwr neu aesel, ag a hwnnw golch y lle dolurus, a hwn a ddifa grach y pen, a phob tarddant arall a fo ar y corph.

RHAG DADWRDD YN Y PEN, YR HYNN SYDD YN RHWYSTRO CLYWED.

§ 223. Cymmer ben o arlleg gwedi ei bilio, a phricca dri neu bedwar o dyllau yn ei ganol, a throch ef mewn mêl, a rho ef yn y clust, a dod wlan du yn y clust ar ei ol ef, a chysced ar yr ystlys arall bob nos, a gad i sefyll seithnos neu wyth heb ei symmud, ag fe dyrr y llysnafedd o'r trwyn, ag fe gaiff y claf ei glywed.

PLASTER ANENBYD WRTH BOB HWYDD.

§ 224. Cais hufen llaeth, ag yn niffyg hufen, llefrith ffres, a rho mewn llestr ar y tân, a bywyn bara cann a chwyr, ag ychydig o fêl, a phan fo wedi berwi ym mronn digon, rho amcan o wer manllwyn ynddo i doddi, ac amcan o eliw gliwydden. Os bydd gwres mawr yn yr hwydd, rhoer gwynn wi ynddo, a chymysg yn dda, a rho wrth yr hwydd.

PLASTER I DORRI GWAYW, A GWYNNIAU, A PHOETHFANT.

§ 225. Cais lefrith buwch unlliw os cei, a blawd ceirch, ag ychydig o wer llwdn dafad, a dyrnaid o'r ferllysc, au pwyo'n dda, au berwi ynghyd yn dda, ai roi yn glaiardwym wrth y dolur, ag efe a wna les iddo yn ebrwydd.

I DYNNU HWYDD BLE BYNNAG Y BO.

§ 226. Cymmer sudd llydan y ffordd, a gwynn wïau, a mel puredig, a fflwr haidd, au cymysgu ynghyd, ai ddodi yn blaster wrth yr hwydd; profedig yw.

ARALL I DYNNU HWYDD.

§ 227. Cais sudd y glerllysg, a gwynn wïau, a mel, a fflwr gwenith neu haidd, a dod yn blaster wrth y dolur, ag iach y bydd.

I DYNNU HWYDD A GWYN.

§ 228. Cymmer flawd rhyg, a gwynn wïau, a sudd llydain y ffordd, a dod yn blaster wrth y dolur, ac ira ef a mêl, ag iach y bydd trwy Dduw, a lle bo achos, gwneuthur felly ail a thrydydd waith.

I DYNNU HWYDD.

§ 229. Cymmer ddail y ffion ffrith, a gwer manllwyn, a blawd ceirch a llefrith, ai ddodi yn blaster twym wrtho, ag iach y bydd.

I DDYRRU CLWYF I GRAWNU, AG I DYNNY Y CRAWN I WYNEB Y CROEN.

§ 230. Cymmer ddail y ffion ffrith, au pwyo'n gymysg a gwin manllwyn a blawd haidd, ai ddodi wrtho yn blaster twym.

ARALL.

§ 231. Cymmer gaws ffacced trwy gwrw, a llaeth defaid, au plasio ynghyd.

RHAG WHAIN.

§ 232. Cymmer ddraenog a rhostia ef, a dod lestr i dderbyn y diferon, a dod y difer hynny ar ffonn, a dod y ffonn lle bo'r whain, a chymaint ag a fo yn y stafell honno hwy a ddont atti.

RHAG POB RHYW WAYW MEWN GLINIAU, A THRAED, A BREICHIAU, A PHOB RHYW GYMMAL.

§ 233. Cymmer dalm o flodau'r banadl, a blodau'r elestr, a dail morgelyn, a gwraidd y tafawl cochon, a mortera nhwy'n dda, a gwna eli o honynt hwy trwy menyn, ag elïa y dolur, ag iach y bydd.

RHAG Y MWYTH PENDDAR, A ELWIR Y MIGRAN, SEF GWAYW NAILL HANNEROG YN Y PENN.

§ 234. Cymmer ysgyfarnog yn fyw, a thorr ei phen a bling hi, a berw neu rhostia, yna agor y penn, a chymmer flodau rhosmari, a phylor o'r un, a dod yn y benglog, ai gweirio, ai bobi neu rostio, a bwytta'r ymhennydd, a chysgu gyda hynn; a da yn wir yw ef.

RHAG YR HAINT DIGWYDD, A ELWIR Y FFALMYGWST, AG YN Y LLADIN EPILEPSIA.

§ 235. Cymmer waed oen newydd eni heb sugno erioed, a chymysg a dwy lwyaid o gwrw da, ag yf hwn yn ymprydiol dri boreu, a hwn sydd brofedig a rhyfeddod.

I ESTWNG BASSAU A FYDD YN CODI I'R PENN.

§ 236. Cais had cwmim werth ceiniog, had ysnoden Fair a elwir y glingal, werth dwy geiniog, canel dwy geiniog, a phylora'r cyfan yn dda ynghyd, a bwrw ar lynn twym i yfed, a da yw.

RHAG Y WHARREN A'R COWYN.

§ 237 Cais ddyrnaid da o'r geidwad goch, a dyrnaid o ruw, a dyrnaig o arlleg, au pwyo'n dda mewn cwrw cryf neu win neu fedd da, yna ei hidlo drwy liain main, ai glaiaru ai yfed yn glaiar, a iach y byddi trwy Dduw.

RHAG EISTEDDFA DYN YN DALA ALLAN.

§ 238. Cymmer y llysiau a elwir gwlydd y perthi, sef y rhai sydd au hadau yn glynu wrth sanau'r sawl a elont i'w plith, yn gnappau gymaint a phubur, ar hyd frig y llysieuach, a phwya nhwy'n dda, ag yna eu berwi trwy fenyn onid elont yn eli, au hidlo'n wasgedig, ag a'r eli hwnnw iro'r eisteddfa.

RHAG Y MIGRAN NEU'R MWYTH PENDDAR.

§ 239. *Cais ystor tus, a chwyr melyn, a mel,* a'u plasio yng nghyd yn dda, ai ddodi'n blaster wrth y talcen, a da yw yn wir.

I DDYN BYCHAN A FYTHO WEDI COLLI NERTH EI AELODAU.

§ 240. Nid hwyrach nad o wendid cefn y collodd efe nerth ei aelodau, a *rhag hynny cymmer eliw twrpant,* ac eliw gliwydden, au cymysg ynghyd ag elïo cefn y dyn bychan nos a bore, a hynn ai cryfha,

RHAG GWAYW MEWN GLINIAU, A THRAED, A BREICHIAU, A PHOB CYMMAL.

§ 241. Cais eliw twrpant, ag ymenyn, a gwer dafad, a gwer gafr, a gwer hydd, berw yn dda mewn padell a hidla drwy liain, ag a hwnnw iro'r dolur yn dda.

RHAG Y PIGYN O WAYW YN DECHREU DAN Y FRAICH, A THAN Y FRON, A THRWY YR YSGWYDD ALLAN.

§ 242. Gwna eli drwy hufen tew da, a thafol y cwn, a dynaid, a fflastera i ddyrru hwnnw i'r croen, a da yw yn wir.

RHAG BRATH CI CYNDDEIRIOG.

§ 243. Cymmer briellau, a phwya'n fal, a hidla'r sudd drwy wasg caled, a dod am ben llefrith yn gymysgedig, a rho'n ddiod i'r claf i yfed, hyd ymhen y naw pryd.

RHAG YR YRWEST, SEF TRYMDER YN YR YSGYFF A'R AELODAU, A SYTHDER YNDDYNT.

§ 244. Gwna eli drwy fenyn, a rhuw, ag ystor tus, a gwerth tair ceiniog o'r distyll bendigaid, ag ymelia dair gwaith yn yr wythnos dros fis o haf, ag os yn y gauaf aros mewn ystafell gled, a gochel rhag cael gwaith anwyd.

I DDYN A FO WEDI DYLU.

§ 245. Cymmer gribau sanffrêd, a berwa mewn chwart o gwrw da, ag arfer o hwnnw'n ddiod; a gwych y byddi yn wir.

I DDYN A FO A GWENDID PEN ARNO, SEF YN GWALLBWYLLO.

§ 246. Cais chwart a winegr gwin coch, a hanner cymaint o sudd y melynllys, au cymysgu ynghyd, ag yn gynta cais last, a chymmer ddiod trwy ddŵr ffynon a chribau sanffrêd yn bwyedig a hidledig, yn gynta'r boreu ag yn ddiweddaf y y nos, a berw ar dwym iddo y llysiau i gryfhau y penn, a gwna wisgon drwy had cywarch, a berw y llysiau arno, a dod y claf mewn lle tywyll i gysgu, a da yw yn wir.

RHAG GWENDID PEN A ELWIR MWYTH YR YMHENNYDD A'R PENDDAR GWYLLT, YN PERI GWALLBWYLL, AG A ELWIR YN LLADIN FFRENESIS, YN YR HWN NI WYBYDD Y CLAF DORAETH AR A DDYWETTO, SEF YW HYNNY GWAITH Y DWR A FYDD YN Y IAD AR YR YMHENNYDD YN OERI Y LLE A'R BILEN WEDI GESTWNG HEB ALLEL CYSGU Y NOS.

§ 247. Cais had cywarch, au pwyo'n fal mewn mortyr pres, a gwneuthur gwysgon ag ef drwy ddwr glân, ai ferwi

fal berwi gwysgon arall, a phylori crummaid o had anis a sinsir mal ynghyd, ai fwrw ar y gwysgon ai roi i'r claf i yfed bedair gwaith yn y dydd dros naw diwarnod, ag arfer o fwyd gwresog, a diod fain iachuslem, a dod i gysgu mewn lle tywyll.

RHAG LLOSFAN, A HWYDDAINT, A GWAYW YN YR AELODAU, A'R DWYLO, A'R TRAED.

§ 248. Cais ferllysg, a phwya'n fal, a gwna'n eli drwy menyn, ag elia'r dolur ag ef, a da yw yn wir.

RHAG GWALLT YN CWYMPO.

§ 249. Cymmer ferw'r ffynonau, a phwya'n dda, a gwasg eu sudd, a golch dy benn o hano ai riglo'n dda, neu gymmeryd y sudd hwnnw, ag iach y byddi.

RHAG Y FAM WYNT.

§ 250. Cais gyfod yn gyntaf, yna cais y llysiau sychon hynn, sef claw, a mastic, a grawn paris, a phren alws, au pwyo 'nghyd yn dda, werth ceiniog o bob un, au bwytta bob bore yn sychon, a diod trwy'r gwesca weithiau eraill.

I DYNNU ALLAN YR ESGYRN A FO WEDI TORRI MEWN CLWYF AR BENN DYN.

§ 251. Cymmer gribau sanffrêd, a'r dderwen fendigaid, a rhuw, au pwyo'n dda ynghyd gyda mêl a chann gwenith, a gwynn wi, ai wneuthur yn blaster, ai ddodi wrth y clwyf.

PLASTER I DYNNU HWYDD.

§ 252. Cais gann haidd, a gwynn wi, a'u cymysgu a'u dodi wrth y dolur yn blaster.

I DDYN A FO'N GWNEUTHUR EI DDWR YN WAED.

§ 253. Cais ddyrnaid o bob un o'r llysiau hynn, sef o'r perllys, o lydain y ffordd, ag o bwrs y bugail, au pwyo'n fal,

au hidlo'd wasgedig drwy faidd llaeth geifr, ag yf gwppanaid o hano'n wag bob bore, ag arfer o hynny, a gwych y byddi.

RHAG Y DDARWDEN WYLLT.

§ 254. Cais ddail iddwg y ddaear, a dail ffion ffrith, au pwyo'n dda ynghyd, au berwi mewn gwaddod surdrwnc, a gwer eidion neu fanllwyn yn dda, ag yna hidla ef, ag elïa'r dolur ag ef oni bo iach.

I BERI CYSGU.

§ 255. Cais had y morgelyn, a llysiau Ieuan a elwir yr orpin, a chymysg a llefrith, a gwna belennau, a dyro iddo bob yn un, ag ef a gwsg maes o law.

RHAG GWRAIG GWEDI EI LLOSGI GAN WR.

§ 256. Cymmer arian byw werth dwy geiniog, eliw gliwydden werth dwy geiniog, camffyr werth ceiniog, colman werth ceiniog, plwm gwynn werth ceiniog, coprys glas ob, a bloneg, ai gymysgu ynghyd ai ddodi ar y dolur.

RHAG Y FFLAMIDDWYF, YN GYNTA O GOSI Y DECHREU HI DDYFOD, AG I IACHAU AG I DORRI'R COSI.

§ 257. Cais y ferllysg, au pwyo'n fal, au berwi yn dda mewn menyn, a bwrw gwerth ceiniog o sebon du am benn y berw ai gymysgu yn dda, ai hidlo, ag elïo'r dolur nos a bore, profedig yw. Ag i beri i'r croen dyddu neu fod yn wyn fal croen arall, cais wisgon ceirch trwy ddwr a blawd ceirch arno, yn deisen lydan, a hwnnw ai tyf ef yn ebrwydd, gwedi ei olchi a'r gwiscon yn gyntaf.

RHAG Y MANWYNON, ERAILL AI GEILW Y FRECH YN Y GWAED.

§ 258. Cais eliw gliwydden werth grôd, plwm gwynn werth dwy geiniog, tus werth ceiniog, coprys glas ob, cwyr

werth ceiniog, eliw twrpant werth ceiniog, arian byw gwerth tair ceiniog, colman gwerth ceiniog, a bloneg moch wedi ei doddi, au cymysgu ynghyd, ai ddodi bob ychydig wrth y dolur, i dynnu'r hen a dodi'r newydd.

RHAG HWYDD A FO YN LLWYFEN GWDDWG DYN YN RHWYSTRO IDDO DDYWEDYD.

§ 259. Cais floneg moch, a surdrwnc, a berw ynghyd, a gwlych wlanen ynddo, a thro ynghylch dy wddwg, ag arfer o hynn dridiau, ond os cilwrnen a fydd dod menyn wedi ei buro ar wlanen, ag ef a dynera yn dda, ag a rwystra iddi grawnu.

PLASTER I ESTWNG HWYDD O WAITH ADWYTH.

§ 260. Cais o'r malw, a'r ganmil, a gwallt y forwyn, a gwlydd, a llysiau'r gerwyn, au berwi yn dda drwy waelodion surdrwnc suraf ag a ellir ei gael, ai ddodi yn blaster wrth y dolur, a hwn a estwng bob hwydd.

I GADARNHAU'R DANNEDD A'U GWNEUTHUR YN WYNION.

261. Cais farchalan a rhigla dy ddannedd yn dda a nhwy, hynn au gwna'n gadarn, ag yn wynion, ag yn iachus itti.

RHAG Y FFLAMIDDWYF WEDI TORRI YN DDUGOCH.

§ 262. Cais ddail y morgelyn, a dail y gwern cochon, a'r ferllysg, a blodau'r banadl gwyrddion, a'r elesg, au pwyo'n dda, au gwneuthur yn eli drwy ymenyn a sebon du, ag iro'r dolur ag ef, ag iach y bydd.

RHAG GWYTHIEN A DORRO YN DDAU.

§ 263. Cais ffâ neu flawd ffâ, a gwer defaid, a berw ynghyd, a dod fel plaster wrth y dolur, a da yw yn wir.

RHAG HWYDD A *GWY DOLURUS MEWN PWRS NEU ARENAU DYN.

§ 264. Cais y llyriad mawn, sef llydan y ffordd, a llwyn hidydd sef y bychan o'r erllyriad a elwir astyllynes, a dant y llew, a dyrnaid da o fwydynod y ddaiar, y rhai mwyaf a geffych, a bloneg tew, a dod ynghyd mewn mortyr am ben eu gilydd, a phwya'n dda fal nas nabydder un oddi wrth y llall, a dod yn blaster oer wrth y dolur ac iach y bydd; profedig yw.

I DORRI GWTHNEU.

§ 265. Cais beint o sudd ffunel, ai ferwi gyda pheint o fêl puredig, a chymmeryd llonaid llwy bob bore yn wag, a'r nos yn ddiwethaf hyd ym mhenn y naw diwarnod.

I DDYN A FYTHO'N DYWEDYD TRWY EI GWSG.

§ 266. Cymmer beint o sudd cribau sanffrêd, a pheint o fercris, au cymysgu ynghyd ai yfed, a hynny a wna les trwy ddwy (i. e. trwy Dduw.)

RHAG CIG YN CWYMPO O GYLCH Y DANNEDD.

§ 267. Cais werth dwy geiniog o ddistyll bendigaid, neu ynteu distyll gwin gwynn, ag aesel gwin gwynn werth dwy geiniog, au cymysgu ynghyd, a golch dy enau a hwnnw hyd y parhäo.

RHAG Y MANWYNION OS BYDD PRYFED YNDDO.

§ 268. Cais gig ci wedi ei flingo, a thorr e'n dafelli bychain fel golwython chwilbob, a dod wrth y dolur o'r pryd i gilydd, a thyn ymaith a sych y clwyf yn lân, ag or bydd pryfed fal penn y dannedd fe au tynn ymaith, a dod gig arall o'r unrhyw wrtho o'r pryd i gilydd hyd ymhen pedair noswaith, ag ymhen pob pryd ei sychu yn lân. Ag

* Gwŷn—main debyg.

i iachau a sychu'r dolur cais eliw gliwydden werth wyth ceiniog, a phlwm gwynn werth grôd, ai ferwi ynghyd yn dda, a'i ddodi ar y clwyf noeth ychydig y bore a'r nos, a chraf yr hen a dod y newydd, ag o'r bydd heb dorri dod wrtho blaster glaiarllys a menyn.

ELI RHAG Y MANWYNON, A'R FRECH FAWR A'R CANCAR.

§ 269. Cais werth grôd o gamffyr, gwerth ceiniog o ystor, ac o gwyr morwynain ob, o driagl ob, o eliw ecsedr werth ceiniog, a'r cymaint arall o eliw'r baedd, ag eliw yr eliwydden yr un gymaint a'r eliwau eraill, eliw rhos yr un g ymain a'r eliwoedd eraill, a thair llwyaid o fêl, a phwya a maedd hwynt oll ynghyd yn dda, yna eu berwi trwy laeth geifr, a thynn i'r llawr, a berw eilwaith hyd ymhen y naw waith, a hidla trwy liain crai, a dod i gadw mewn corn, ag a hwnnw ira'r clwyf, a hwnnw a dynn y pryf o waith riddwn o gig ag esgyrn.

RHAG CIG DRWG A FO'N PYLLU AG YN MAGU PRYFED.

§ 270. Cais bwys dwy geiniog a frawn morfil, a elwir yn y Lladin *spermaceti*, a phedair ceiniogbwys o rwd gwyrdd, a phwya'n dda ag yn fân a rho am ben peint o laeth gafr, a hidla'n lân drwy liain crai, a dyro i'r claf i yfed ar hen gwrw da, a da iawn yw.

RHAG GWAED YN MYNED FFORDD CWNDID DYN.

§ 271. Cais fillydd, a'r drydydd rann o sudd ffunel cochon, a thymhera trwy win coch, ag yfed y claf yn dwym ag iach y bydd.

RHAG CLEFYD Y GWAED, A RHAG Y GWEWYR Y SYDD YN EI DDILYN EF.

§ 272. Cymmer eirin man y llwyni gwyllton tra font addfed, a sych nhwy y naill ai mewn tes cryf ai o flaen y

tân o hirbell onid elont mor sych ag y gellir eu pyloru, a dod i gadw mewn pottel wydr yn gaeedig, a lle bo claf o'r dolur hwn dyro lwyaid o'r pylor hynn am ben peint o gwrw da iachus, neu ossai hen cadarn, neu hen fedd da, ai dwymo'n dda, ai roi i'r claf i yfed yn wag y bore dri bore, ag ef a dyrr y gwayw a'r gwewyr, ag a iacha'r clefyd.

Hefyd rhag y dolur hwnn cais gadachyn o liain garw newydd, a rho ynddo gymaint a gwi gwydd o gann gwenith teg iawn y goreu a ellir o'i ryw, a rhwym ef yn y cadachyn crai hynn, a berw mewn galwyn o ddwr ffynon nes el yn gwart, a gad i oeri, a berw ychydig mewn llaeth a berw ef fal gwysgon, a rho ef yn fwyd bob pryd i'r dyn; profedig yw.

I DORRI GWAYW FO GYDA CHLEFYD Y GWAED.

§ 273. Cymmer fara gwenith, a hen gaws, ai dafellu yn fân, ai ferwi trwy lefrith, a bwrw ddigon o bubur arno ai fwytta, ag arfer o hynny, a da yw.

RHAG Y PARLYS MUD, SEF COLLI NERTH Y NAILL YSTLYS, A GWAED GWEDI YMATTAL A CHWEDI RHEWI YN Y GWYTHI.

§ 274. Cais ddail y ffion ffrith un dyrnaid, a dau ddyrnaid o ddynaid cochon, a phwya nhwy'n dda ynghyd, yna ei berwi mewn chwart o fêl yn dda, ai hidlo yn lân ai ddodi mewn llestr i gadw, a bwrw am ei ben werth tair ceiniog o'r distyll bendigaid neu o ddistyll gwin neu ossai, a chymmer ddau alwyn o surdrwnc ai ferwi yn dda, ai ddiwynebu wrth ei ferwi yn lân, a chymmer folaid o hwn bob bore a nos yn dwym, ag ira dy gymalau ag ef yn dda yng ngwres y tân, a gwedyn a'r eli cadwedig, a cheisio lle uchel i fwrw pwys yr ystlys, ag ystwytha dy hunan i gerdded, ag arfer o hynny, a da yw.

RHAG Y PETH Y SYDD YN CHWYDDO DAN Y FOGAIL, WEITHIAU'N HIR, WEITHIAU YN GRWN, MEGIS PELLEN Y MAE RHWNG CIG A CHROEN.

§ 275. Cais chwart o winegr coch, a phwya ddyrnaid o gennin drwy'u barfau a'u dail, a berw werth ceiniog o fara rhyg sur am ei benn, ai adael i ferwi yn dda yn y gwin egr, a dod hwnnw 'n blaster wrth y dolur bob nos, a symud o'r newydd bob nos, a hwnnw ai dyrr ymaith.

RHAG TRAUL NATTUR FFORDD Y WIALEN.

§ 276. Cais had ffunel, a had anis, a mâs, a phylora nhwy yng nghyd a bwrw ar gawl neu lynn twym, a chymmer hyd ym mhen nawnydd, a da yw yn wir.

RHAG DRAEN.

§ 277. Cais ddail cribau sanffred, a elwir y bitton gan rai, a hen floneg twrch, a'r tryw, sef yr agrimonia, a phwya nhwy ynghyd, a rho wrtho ef, a hynn ai tynn ymaith.

RHAG DRAEN GWENWYNIG.

§ 278. Cymmer floneg baedd, a sebon du, a melyn wïau, a chymysg ynghyd, a dod yn blaster wrtho, a hynn ai tynn i maes.

RHAG GWAYW O WAITH DRAEN.

§ 279. Cymmer frig banadl a dwr mab bychan, a berw hwnnw yn ffest a dyro yn enaint i'r dolur, a hynny ai esmwytha. A bloneg cath goed sy dda hefyd: cymmer hefyd eliw gliwydden, a gwerth ceiniog o gamffyr, a mortyra'n dda ynghyd, a dod yn eli ar y dolur.

RHAG Y CWRLLYS, SEF Y BYSTWN AR FYS.

§ 280. Cais ruw, a chwmin, a thewdwr cig moch, a blawd gwenith, a berw mewn gwin gwynn, ac eliw twrpant, a

chymysg ynghyd yn dda, a dod ar y dolur, a phan fo addfed agor, a dod wareth ynddo, a iacha ef fel iachau brath arall neu ddyrnod.

ARALL RHAG Y BYSTWN.

§ 281. Cais lysiau Ieuan a'u briwa'n ffest, a chymysg a melyn wi, a rho wrth y dolur, ag iach y bydd.

Huslyb fydd y croen a lliw dugoch arno, a llosgi wrth yr asgwrn, a phydru y gïau a wna'r gwrllys, dyna fel y nabyddir y clwyf hynn.

ARALL RHAG Y BYSTWN.

§ 282 Cymmer melweden i maes oi chragen a thorr hi'n fân mân, a phwya'n blaster, a dod yn rwymedig am y bys, a hynn ai addfeda ag ai tyrr, gwedi hynny gwarethu'r clwyf ai iachau fal yr iacheir clwyf arall.

ARALL RHAG Y BYSTWN.

§ 283. Cymmer y glaiarllysg a phwya'n fal, a chymysg ef yn dda gydag eliw rhos, a dod yn blaster wrth y dolur.

ARALL RHAG Y BYSTWN.

§ 284. Cymmer ruw, a llysiau cadwgan, a phwya'n fâl, a berw hwynt gydag ystor neu rosin, a chwyr melyn, a dod yn blaster wrth y dolur, a dà yw rhag hwydd o bob rhyw mewn bys neu mewn rhyw gymmal arall.

ARALL RHAG Y BYSTWN.

§ 285. Cymmer ryw, a glerllysg, a llysiau'r corph, a llysiau cadwgan, a malweden, ag ychydig floneg twrch, a phwya nghyd yn blaster, a dod wrth y dolur, ai newid bob nos, eraill a ferwant y llysiau yn bwyedig mewn bloneg, a dodi'r falweden attynt yn ol eu berwi wedi eu thorri'n fân mân, a maeddu'r cyfan ynghyd yn blaster, ag ymarfer ag ef felly.

ARALL RHAG Y BYSTWN.

§ 286. Cymmer ychydig halen glas wedi ei sychu ai bylori'n fâl, a chymysg ef yn dda gyda melyn wi, drwy ei faeddu yn dda, a dod wrth y dolur, ag efe ai iacha yn ebrwydd, ag a dyrr y gwayw ag a estwng yr hwydd.

I WELLA'R OLWG.

§ 287. Berwa ffunel mewn dwr, ag a'r dwr hwnnw golch dy lygaid a'th wyneb bob bore a phrydnawn, a thi a fyddi gwell.

RHAG MAGL AR LYGAD.

§ 288. Cymmer bustl buwch, a bustl 'scyfarnog, a bustl hen geiliog, ag ychydig o liw glas a wneler a'r rhuw ag ychydig o sudd y melynllys, cymaint o bob un ond bod mwy o'r bustl buwch, a thymhera nhwy drwy win yn faeddedig, a dod ar dy lygad, ag efe a ddinistra'r magl.

RHAG MEDDWI.

§ 289. Cymmer ddyrnaid o gribau sanffrêd, sef y bitton, a phwya'n fân, a gwasg mewn dwr a hidla'n lân ai yfed cyn bwytta un bwyd, a chyn yfed amgen o wlyb, ag ni feddwi y dydd hwnnw.

CYFOD DA I'R PENN A'R CYLLA.

§ 290. Cymmer dair llwyaid o sudd y bitton dri bore o restr, a bwrw a bôn asgell yn dy ffroenau, a hynny a fydd cyfod da i'r pen ag i'r cylla.

RHAG Y CRYD AR MWYTH.

§ 291. Cais adain y llew a mwg y ddaear, a dod ar ddiod ag yf yn galed y bore a hanner dydd, ag iach fyddi yn wir.

I LADD Y CANCAR.

§ 292. Cymmer gelchyn yn y natur y bo cyn ei losgi, a phubur duon, ag eurbibau, a elwir yn y lladin *auripigment*, ag aesel cryf, rhuw, mêl, a blawd haidd, yr un faint o bob un, a berw ynghyd mewn padell neu bott newydd nes gallo dyn wneuthur pylor o honynt, yna eu pyloru au berwi yr ail waith, a'r pylor hyn y sy dda i ddinistro'r cancar a'r manwynion.

ARALL RHAG YR UN DOLURIAU.

§ 293. Cymmer wraidd llysiau'r ddraig, a thorr hwynt yn fân ddrylliau, au sychu au gwneuthur yn bylor, a chymmer nawpwys ceiniog o'r pylor hynn a rho mewn gwin, a berw yn dda, ag yna yfed y claf o hono yn glaiar dwym yn wag dri niwarnod ag fe fydd iach, ag ni chaiff byth drachefn dan warrant.

RHAG BYDDARWCH CLUSTIAU.

§ 294. Cymmer geingen o bren onen o droedfedd o hyd, a rho ei chanol yn y tân, a chadw'r dwr a ddel allan o'i deupen, a chymmer sudd y rheonllys, a elwir yn y lladin *rhubarb*, a gwin, a bloneg llysywen ffres, ag o'r rhain cymmer gymaint o bob un ai gilydd, a chymysg y cwbl ynghyd, a rho yn y clustiau wrth fyned i gysgu. Da hefyd rhag y dolur hyn ar glustiau yw dodi surdrwnc ynddynt, a gwlan du arno.

LLYMA FEL Y CEDWIR DYN BRATHEDIG.

§ 295. Na fwyttaed na chaws, na menyn, na wïau na physgod mor, na chig eidon, na bara rhyg, na bara newydd ei grasu, ag nag yfed yn ddiod namyn llefrith, a dwr, a llaeth ynghymysg a golwnc o win neu fedd unwaith yn y pedair awr ar hugain, ag nad arfered godineb gyda gwragedd, ag ef a waredir trwy Dduw.

RHAG BRIW GAN ARF, NEU DDOLUR MEWN GIAU NEU WYTHI, NEU LINGIG, NEU ASGWRN, A HWN YN HWYDDO AG YN LLOSGI AG YN CRAWNU.

§ 296. Cymmer lefrith geifr, a llinhad, au berwi ynghyd, a chymmer lefrith buwch unlliw a blawdd ffa, a chymysg a rho am benn y llall, a gad i ferwi engaid hir a thyn ef i lawr a dod ef yn blaster wrth y dolur, a gad wrtho hyd tranoeth neu yn hwy, ag ef a estwng yr hwydd a'r dolur, ag a ddiwenwyna y cig, ag a dyf y gïau, ag a garth y cig marw ag a ddyr ymaith yr yssg, ag a bair ir dyn gysgu, os bydd rhaid cais eli tyf.

ELI I DORRI BRATH NEU GLWYF, GWEDI IDDO GAEAD AR DDRWG, AG I IACHAU,

§ 297. Drachefn a'r un eli cais amcan o gwyr, a rhwsin, a sebon du, ychydig o ddail y gwinwydd ar henlydan, au pwyo 'nghyd au berwi ar y tân, au hidlo drwy liain, a dod mewn llestr i gadw, a dod hwn wrtho ym mraint plaster, a iach y bydd.

I WNEUTHUR DWR, I DYFU CIG, A CHROEN, AG ESGYRN.

§ 298. Cais ddyrnaid o ros cochon, a dwr ffynon, a sudd y melynllys, a mêl, a sudd y cegyr, a sudd y ffenigl, a sudd dail twrch, a sudd y cyngaw, a llwyaid o ddwr dyn bychan ar y fronn, a gwin coch, a chymysg ynghyd, a thwym ychydig arnynt, a thyn i lawr a hidla, a dod i gadw, ag a hwn ira y dolur lle bo cig yn tyfu ar farw, ag ef ai difa, ag ai tyf yn lân ond arfer o hono.

RHAG Y CANCAR A CHIG DRWG.

§ 299. Cymmer gaws da, a mortyra yn ffest, a chymysg a mêl gloyw, ag ira ag ef yn fynych, a dod arno ddail cawl, a hynny ai lladd ym mhenn tri diwarnod, a da yw.

RHAG GWLITHEN.

§ 300. Cymmer fêl, a melyn wïau, a chann gwenith, a chymysg ynghyd, a dod ef yn blaster wrth y dolur, fel y bo yr achos, a da yw yn wir.

RHAG DOLUR AR GOES, A FO'N CODI YN GNYCCIAU, AG YN TORRI YN DDYRLLYD, AG YN BIGAU COCHON, AG YN GWRESGYN TUAG AT Y MIGWRN I WARED, AG O DDEUTU'R GOES, AI LIW YN DDUGOCH.

§ 301. Cais fel rhos werth tair ceiniog, eliw gliwydden werth dwy geiniog, eliw twrpant werth ceiniog, llwyaid o fêl, ag ychydig gwyr, a phlwm coch werth tair ceiniog, ag ychydig wer manllwyn neu hydd, ag ychydig o'r maen pres yn byloraid mâl, ag ychydig sef amcan llwyaid neu ddwy o'r distyll bendigaid, neu ddistyll gwin coch, au dodi ynghyd au tymheru ynghymysg mewn godarth ar y tân nys delo'r iâs drwyddo, ag elïa'r clwyf, a da yw.

RHAG CLWYF DREWLLYD.

§ 302. Cymmer sydd yr ysbeinwydd, a elwir yn y lladin *bocsws*, wedi ei ferwi mewn cwrw neu win, a golch y clwyf, a da yw; neu gymmeryd y dail au pwyo'n fâl am benn gwin neu gwrw neu fedd da, ai hidlo drwy wasg, ai ddodi mewn llestr pridd ar y tân onid elo'r iâs drwyddo, a golchi clwyf.

I WNEUTHUR ELI RHAG Y MANWYNION.

§ 303. Cymmer gwyr melyn, a rhwsin, a gwer manllwyn, a marchalan, a'r melynllys, au pwyo'n dda ynghyd, au berwi am ben eu gilydd, a'u hidlo drwy liain glân, ag elïa'r clwyf, ag iach y bydd.

RHAG Y MANWYNION.

§ 304. Cymmer y dderwen fendigaid, a phwya'n fân, a dod mewn llestr ai lanw hyd y fil, a dod arno a elo i mewn i'r llestr o ddwr ffynon, a gad ei sefyll dros noswaith, a hidla, a chymmer hwn yn unig ddiod, a thi a elli roddi gwin yn lle dwr ar y llysiau pwyedig, ag yfed o hono gyflawn ddiod unwaith yn y pedair awr ar hugain, a chymmer y llysewyn a phwya'n fâl am ben eliw gliwydden, a berw ynghyd a hidla drwy wasg, yna dod am ei ben ychydig gwyr melyn, ag ychydig fêl, ac ychydig wêr hydd, a berw ynghyd onid elo'n eli, a dod mewn llestr i gadw, ag elïa'r clwyf a hwnn. Ag os cymmeri wraidd y llysewyn au golchi yn lân, au sychu'n gras, au malu'n flawd, ai ddodi gyda blawd gwenith ei draian mewn bara, a byw ar y bara hynny a llaeth geifr yn unig fwyd, ti a iachai yn ebrwyddach; a hynn sydd brifiedig yn wir.

PLASTER I DYNNU HWYDD A PHRYFED I MAES O'R MANWYNON.

§ 305. Cymmer laeth buwch unlliw, a blawd ceirch, au berwi yn dda, a gwna fal iŵd dyn bach, a dod frachdan dew ar liain, yna dod fêl ar ei wyneb, ag ef a sugn y pryfed, ag a estwng yr hwydd, ag a ddiwenwyna'r cnawd, ag a dynhera'r caledwch ynddo, ag a dyf y clwyf; hyn sydd brofadwy.

RHAG GWRES A MWYTH YR AFU, A GWYNT Y FAM, A DOLUR Y LLEFENI, A DOLUR AR DDYN YN EI YSCYF.

§ 306. Cymmer ysgol Fair, a llysiau'r afu, a phwya'n fân ag yn fâl, a dod mewn llestr ei lonaid, a chymmer win a dwr hanner yn hanner, a dod ar y llysiau a elo ryngddynt, a gad sefyll chwechawr yn gaeedig, yna hidla drwy wasg, ag yf lawn ddiod o hono fore a nos yn wag, a chymmer yn

fwyd gawl a wneir gyda chig manllwyn a'r llysiau hynn, sef tafod yr ych, gwylaeth, ffunel, perllys, ag ychydig fêl, a bydded yn unig fwyd itti; hefyd gwna leisy a lludw coed neu redyn, neu ddynaid, a berw ynddo ef werth dwy geiniog neu dair o floneg, a dod i oeri ag i aros hyd trannoeth, yna tynn ei wynebion a dod mewn llestr i gadw, ag a hwnnw elïa dy ystlys a'r lleoedd y bo'r dolur, ag iach y bydd, trwy Dduw.

RHAG LLOSG TAN.

§ 307. Dod dy ddwr dy hun am ben tom buwch, a gad ei loywi, yna diwal y gloywon i lestr, a golchi'r dolur.

RHAG FRECH Y MOCH, SEF TRESCEL GWDY.

§ 308. Tarddu ar hyd y croen ef a gyfyd yn fothellau gwynion, ag fe red dwr gloyw o honynt. Cymmer flodau'r banal, a bloneg, au berwi au hidlo, a bwrw gwerth dwy geiniog o sebon du, ai gymysgu yn dda, ag a hwnnw ira dy holl gorph, a da yw yn wir.

RHAG GWRAIG A FO AI NATTUR YN COLLI ODDIWRTHI.

§ 309. Gwna wysgon drwy rynion blawd ceirch a dwr glân, a dyro grimpad o'r cwmin, a chrimpad o'r garreg a elwir cryth, ag yn lladin *creta*, a lle ni bo hwnnw cymmer garreg calch, a mâl ef mor fâl ag y gellir ai wegrynu drwy liain main neu sidan, ai fwrw am ben y gwysgon, a chymysgu'r cyfan ynghyd a chymmer gwppanaid o'r twym hynn ddeupen y dydd gyfoed wythnos, a da yw.

I DYNNU DANT HEB DDIM DOLUR.

§ 310. Cais y morgrug a'u hwyau hwynt, a phylora hwy, ag o'r pylor hynny hwŷth trwy fon asgell ar y dant, a nad ei gwrddyd ag un dant arall.

RHAG DWYLAW YN CRYNU.

§ 311. Cymmer y llysiau llwydon, a elwir hefyd y feidiog lwyd, a dod mewn dwr yn bwyedig i aros noswaith, ag yn hwn golch dy ddwylo, a thi a gai les o hynny, ag o golchi dy gefn o'th wegil i wared a'r dwr hwn, efe a'th gryfha yn ryfeddol.

I ESTWNG PANGAU Y FAM.

§ 312. Cais y chwerwyn gwyn, a'r chwerwyn llwyd, a rhisgl nesa i'r prenn o'r onnen, a'u berwi mewn dwr ffynon nad elo fyth yn hesp, au berwi'n dda, au hidlo, ag yfed yn wag dair llwyaid fawr dri bore ti a gai iachâd, ag ni chyfyd fyth arnat.

RHAG GWAEDLING FFROENAU.

§ 313. Pwya ddyrnaid o'r dynaid, a dod mewn lliain wrth dy ffroenau, a dod beth o hono yn dy ffroenau, a da yw.

ARALL.

§ 314. Cymmer dafellan o harn, a dod yn y tân hyd oni bo twym eithr nid yn goch gan wres, a gad ddiferu y gwaed arno, a phan fo digon o hano, craf oddiar yr harn a rho hwnnw'n bylor yn dy ffroenau ai hwythu iddynt drwy fon asgell. A hynn a attal gwaedu o drwyn, ag o friw, ag o frath, pa le bynnag y bo ar gorph dyn.

I DDYN A FO WEDI EI LOSGI.

§ 315. Cymmer ddyrnaid o ddail y malw, a malwod cregyn, a'r dail crynion a elwir llysiau'r geiniog, a llinhad wedi eu malu mewn mortyr pres, au cymysgu au pwyo ynghyd fal nas galler nabod y naill oddiwrth y llall, a dodi hwn lle bo hwydd neu'r dolur wedi torri wrtho ai chadw hi

heb ddismoeli un amser, ag os mynnir, chwistrellu a dwr elyf ai golchi, a gwaith y plaster fe ddaw llynn llwyd ei ffroen hi allan, a da yw.

I WYBOD PA UN AI BYW AI MARW Y BYDD DYN CLAF.

§ 316. Ira sawdl y claf a bloneg twrch, yma rho hwnnw i'r ci i fwytta, ag os bwytty y ci ef, byw fydd y dyn, ag onid ef bydd farw.

I WYBOD AI BOD GWRAIG YN FEICHIOG AI NAD YW.

§ 317. Gadewch iddi wneuthur dwr mewn presen neu gopren, a dodwch ddynhaden yn y dwr, ag os bydd beichiog hi a fydd yn llawn ysblottau gwaedlyd.

I BERI I'R GWALLT DYFU.

§ 318. Cymmer ddail yr ysbeinwydd a dod mewn crochan harn ei lonaid, a dod ddwr attynt a wedd gyda nhwy, a berw ar dan araf oni dderfydd hanner y dwr, ag a'r dwr hwn golch dy benn ddeupen y dydd, a gwilio nad elo'r golch yn un mann ar y croen lle nas dylai fod gwallt.

ARALL.

§ 319. Cwmmer eliw gliwydden ddwy lwyaid, a dwy lwyaid o fêl newydd, a gwynwynyn maint wi colommen, a phwya'n 'nghyd mewn mortyr maen, oni fo'n eli, ag a hwnnw elïo dy benn fore a nos, a gwisgo cap lledr oni thyfo'r gwallt; goreu pwyo'r gwynwynyn yn fâl cyn y doder at y mêl a'r eliw.

I DYNNU GWALLT AG I BERI NA THYFO FYTH YR AIL WAITH.

§ 320. Cymmer y morgrug au hwïau, a gwna nhwy yn bylor, a chyda rhain had llewyg y iâr yn byloraid, a dod ar y mann y bo gofyn, a rhigla'n galed oni bo gwresog y lle

ddwywaith y dydd, a hynn a ladd y gwallt oi wraidd, ag ni thyf yn y lle hynny mwyach, hefyd; ti a elli ei gymysgu a dwr yn y bo fal iwd, ag iro'r lle a hwnnw deupen y dydd.

I LADD LLAU.

§ 321. Cymmer yr ystor a elwir olibanwm, a bloneg, a berw yn dda gyda eu gilydd, ag iro y penn neu le arall y bo achos a'r eli hynn, ag efe au lladd.

RHAG WYNEB YSBLOTTOG.

§ 322. Ira ef a gwaed ysgyfarnog neu darw y nos wrth fyned i gysgu, a'r bore golchi'r wyneb ag enwyn sur.

I DYNNU DANT.

§ 323. Cymmer gwm iorwg, a dail iorwg, a llosg hwy yn bylor mewn crochan pridd newydd, a dod y pylor hwn am ben sudd y llysewyn a elwir llaeth y cythraul, a dod hwn yn y dant os cau y bydd, ag ef a gwymp o'th benn, ond gwagel na chyffyrddech un dant arall.

RHAG Y TOSTEDD.

§ 324. Pwya ddail y malw a garlleg ynghyd gyda gwin gwynn, ag yf ef, a thi a gai wneuthur dwr pwy achos benna ag y bo.

LLYMA'R MODD Y GWNEIR BRAGODLYN Y CYLLA A DA YDYW RHAG Y PARLYS MUD, A'R PARLYS CRYNEDIG, A'R CRYD MUD, A'R CRYD CRYNEDIG, AG OERDER Y GALON, A CHLEFYD Y CYMALAU A'R CYLLWST, A'R GLOESON YN Y CYLLA, A GWYNT Y TOSTEDD, A DOLUR YR ARENAU, AG OERFEL Y GIAU A'R GWYTHI.

§ 325. Cais ddyrnaid o rosmari, a dyrnaid o'r geidwad, a dyrnaid o'r tryw, a dyrnaid o'r wendon, a dyrnaid o isob, dail a brig pob un o'r rhain, a gwraidd y glŷf, a gwraidd y

marchalan, a gwraidd yr hiddigl, a gwraidd tormaen, dyrnaid o bob un o honynt, au dodi mewn mortyr, au pwyo'n dda, au rhiglo rhwng, a dodi oll i ferwi mewn tri galwyn o frecci du cadarn hyd nyd el y tri galwyn yn un, ai dynnu i'r llawr ai oeri, a hidlo trwy liain glân, a chymmer chwart o fêl pur a dod yn y brecci hwnnw, a berw nys el yn chwart dan y berw, ai ddadwynebu yn lân, ai dynnu i'r llawr i oeri, ag yna cymmer chwech galwyn o gwrw cadarn ffres, rhwng ei ferm ai waddod, a dod ef mewn cerwynen lân, a chau arnaw yn dda, a gad i sefyll dridiau a thair nos, ag yna dod mewn llestr pengaead cadarn, a chymmer werth ceiniog o glaw, a gwerth ceiniog o sinsir, a gwerth ceiniog o rawn paris, ag ychydig o had ffunel, a gwerth ceiniog o had yr arddwy, ag ychydig had ysnoden Fair, a chymaint ag oll o'r canel, au pylori'n fân fal cann gwenith, ai ddodi mewn cwd lliain cadarn yn y llestr ynghrog gerfydd y lliain, a rhoi carreg fechan yn y cwd iddeu bwyso i'r gwaelod yn ddwfn, ai adu i gadw, ag yfed y llynn hwnnw yn gyntaf y bore ag yn ddiwethaf y nos, ag nid gwaeth y llynn hwnnw na dwr byw ar les corph dyn. Llyma rann pob un o'r llysiau a enwyd ; rhosmari a fywioccaa, y geidwad a dyrr y cryd, y wendon rhag y parlys mud, isob i'r ddwyfron, y tryw i'r coludd, y tormaen i'r chwysigen, yr hiddigl i'r cylla, marchalan i'r cymalau, claw a sinsir i'r gïau, ysnoden Fair i'r arennau, grawn paris i'r ymhennydd, y glŷf a'r canel i'r ysgyfeint a'r gwythi. Ag iawn ymarfer o'r ddiod honno i bob dyn rhag y clefydau a ddywespwyd uchod, ag os bydd clwyf arall mewn dyn rhoed y llysiau a weddo yn erbyn y clwyf hwnnw, ag arfer o'r ddiod honn yn fynych, a thi a gai dy gorph yn iachach, ag yn ieuengach yr olwg arnat, ag yn ysgawnach yr aelodau, ag yn gryfach yr olwg, ag yn well y wyllys, yn hwylusach i gerdded, ag yn berach yr anadl, a hwn yw'r bragodlyn goreu o'r cwbl, a'r ddiod oreu yn y byd.

I BERI I DDYN FYNED WRTH FAES YN ESMWYTH.

§ 326. Cymmer wi giar, a thynn rith y ceiliog ymaith, a chymysg ag ychydig o gwrw da, y cwrw a'r wi ynghyd, ag yf hwn yn wag y bore, ymprydia wedyn dair awr, ag iach y byddi.

RHAG CYLLA A FO'N YMHOELYD, SEF YN GWRTHWYNEBU O ACHOS BOD OERFEL YNGENAU Y CYLLA, AG YN YMHOYLYD Y LLUNIAETH I FYNYDD, AG HEB ALLEL FYNED WRTH FAES.

§ 327. Cymmer ddwy ffioled o win gwynn bob ail dydd, neu gyfod, cais driagl, a chwart o win egr coch, ceiniogwerth o fwstarth, werth tair ceiniog o alwys, au berwi yn dda yng nghyd, au dodi mewn llestr i gadw, a chymmer ddwy lwyaid y bore yn wag wedi ei dwymo. Cais werth ceiniog o bubur, gwerth dwy geiniog o had ffunel, au berwi mewn mêl puredig, neu ddail y ffunel y sydd well na'r hâd.

RHAG Y SYCH BESWCH SEF RHWYSTR O BESWCH NYS BO CHWYS AR Y TALCEN AG HEB GAEL DIM I DAWLU.

§ 328. Cais y defnyddion hynn, ceiniogwerth o bubur, ceiniogwerth o had ffunel, dwy geiniogwerth o had anis, ceiniogwerth o gwmin, dwy geiniogwerth o'r glŷf sef y licras, ceiniogwerth o'r canel, a cheiniogwerth o'r had a elwir grawn paris, au plori'n fân mân, au berwi mewn chwart o fêl nys gwineuo ar y tân, a thynn i lawr a dod mewn llestr glân i gadw, a chymmer lwyaid bob bore yn wag, a llwyed yn ddiwethaf y nos wrth fyned i'r gwely, a gweglyd bwyd-ydd o gig, a chadw ar ydfwyd.

RHAG Y GWAYW MEWN GLIN NEU FAN ARALL A ELWIR Y CLWM GWYTHI.

§ 329. Cais geiniogwerth o sebon du, tair ceiniogwerth o arian byw tair ceiniogwerth, eliw gliwydden dwy geiniog-

werth, tus dwy geiniogwerth, dwr bywyd a elwir y distyll bendigaid gwerth grôd, a bloneg baedd, au maeddu yn dda ynghyd nes y bo cynwynned a'r cwrsi, ai riglo ar y dolur, ag o ddeupen y dydd, a rhiglo bob gwaith; profedig yw.

RHAG Y PESWCH.

§ 330. Cais chwart o lefrith, a cheiniogwerth o arlleg, a phwya nhwy, a berw yn y llefrith, ai hidlo, ai yfed fel y gallech, ag arfer o arlleg gyda'th fwyd, a byw ar fwyd ammras ag anhallt.

RHAG CRYD A MWYTH Y CYMALAU, A RHAG GWAYW YN Y BORDDWYDYDD NEU YN YSTLYS Y CEFN WRTH GERDDED.

§ 331. Cais werth dwy geiniog o sebon du, gwerth tair ceiniog o arian byw, gwerth tair ceiniog o ddistyll y bywyd, a phwys o floneg baedd coch os ceir, a phan fo toddaid y bloneg bwrw iddo'r sebon du ar edlyn distyll, ai drachymysgu, a phan oero bwrw ynddo'r arian byw, a chymysg ef nys bo gynwynned a'r bliant, ag a'r eli hwn elïa'r dolur wrth y tân nos a bore yn dda gydag enaint o bydd rhaid.

RHAG GWALLT YN CYNNYGLU, SEF YN TYFU'N GYMMHLETH FAL NAS GELLIR EI GRIBO.

§ 332. Eillia'r pen unwaith bob wythnos hyd ymhen blwyddyn, a golch bob nos a berwyn cryf y geidwad, a phob bore a dwr y mor, neu ddwr a helltir a halen, yn oer, ag unwaith yn yr wythnos elïaa'r pen a bloneg giar neu lysywen, ag ar ol ei iro felly dod am dy benn gyndwymed ag y gelli ei oddef y plaster yma, sef cymmer fara cann gwenith teccaf a ellir ei gael o fara bermanaid, a berw mewn llaeth dafad, a dod ynddo lwyaid o fêl neu ddwy, a llwyaid fawr o eliw cnau'r ffawydd a melyn wi pwyedig, a phlasio'r defnyddion hynn yn dda ynghyd gymysg tra chymysg a dod yn blaster am dy benn a gad i aros bedair awr ar hugain, a phan ai

carthot golch dy ben yn dda a berwyn ffunel a sebon, a rhiglo'n dda, a chymmeryd yn fwyd laweroedd o laeth ac ychydig o gig ag afalau berw neu rhost gyda llaeth mor fynych ag y gellych ei gael.

RHAG POB GWAYW YN Y CYMALAU, A'R ESGYRN, A'R GLINIAU, A'R CEFN.

§ 333. Cais sebon du werth tair ceiniog, gwerth grôd o arian byw, gwerth grôd o eliw gliwydden, a gwerth grôd o'r distyll bendigaid, a bloneg twrch neu liw arall, a maedd yn dda mewn mortyr oni bo gwyn fal y cwrsi, a dod i gadw mewn blwch pridd yn gaedig, ag ymelïa ag ef wrth y tân nos a bore.

RHAG DIFANT NATTUR, SEF NATTUR DYN YN YMOLLWNG YN Y WIALEN O'I ANFODD.

§ 334. Cais ychydig o blwm a phwya'n deneu yn dewder gwenhithyn, bydded dau ddyrnfedd ei hyd, a hanner dyrnfedd lai o led, a gwna dwll y naill benn iddo, a dod linyn drwydd a chlym am dy fain gefn erwydd y llynin hwn a oera dy nattur, yna cymmer risgl nesa i'r pren o'r derw ag o'r drain duon ddyrnaid o bob un, a berw yn dda, a dod o fêl ai gwnelo yn felus, a chymmer lwyaid fechan o had anis yn byloraid, a un faint o had ffunel pyloraid, a hanner hynny o ganel pyloraid, a bwrw y rhain ar y berwyn, ai yfed yn ddiod dri bore a thair nos, ag na chymmer arall o ddiod; profedig yw.

RHAG PESWCH YR YSGYFAINT.

§ 335. Cais wraidd y glŷf sef y felottai, a ffigys, a marchalan pyloraid, sef y gwraidd, a gwna'n gyffaith gyda mêl, oi faeddu yn dda gymysg dra chymysg mewn mortyr, a

chymmer lwyaid fawr nos a bore yn wag dwyawr o leiaf cyn a gwedi bwyd, ag ymarfer a bwyd o laeth geifr ag afalau.

I GARTHU GWENWYN BRECH O BOB RHYW O'R GWAED, AG ACHOS BRECH YN Y GWAED Y DAW'R MAENWYNON, A THARDDANT AR YR YSCEFAIN, A CHORNWYDON A PHOB TARDDANT AR Y CROEN, A PHOB LLYSNAFEDD PEN A CHYLLA, A LLAWER DOLUR AR BENN A LLYGAID.

§ 336. Cymmer wlydd y perthi, sef au nabydder wrth yr had crynion a lynant wrth y dillad pan font aefed, a phwya nhwy'n dda a dod mewn llestr pridd a wedd ynddo, a berw dwr ffynon a dod ar y llysiau a el iddynt, a gad ei sefyll awr, yna hidla dan wasg drwy liain glân, ag yf yn unig ddiod nawniwarnod, a lle na bo gwlydd berw ffynhonau, ag yn fwyd cymmer lawer o fwyd llaeth a chymaint ag a elli o afalau rhost neu ferw gyda llaeth, a brechdan o fara can gwenith a mêl, ag na chymmer un cig namyn manllwyn ffres, a chawl a wneler o'r cig hynny gan ferwi gwlydd, a berw ffynhonau, a meillion gwynion y maesydd ynddo, a chymmeryd dynaid berw, a berw'r ffynhonau gyda gwin egr yn lle bara gyda'r cig; profedig yw.

RHAG GWENDID PENN.

§ 337. Cymmer had cywarch, a phwya'n dda au gwysconi drwy ffiolaid o ddwr glân fal gwysgoni iwd, a chribau sanffrêd, au pwyo au cymysgu a'r gwiscon hwnnw a thynnu'r llysiau ond y sydd, a berw hwnnw nys bo fel iwd, a rhoi arno beth o'r llysiau'n byloraid, a pheth o'r pren alwys yn bylor, a had ffunel, a had anis yn byloraid, ag yfed y claf dair llwyaid neu bedair beunydd, ai ddodi mewn lle tywyll i gysgu; profedig yw.

RHAG Y PESWCH A CHYFYNGDER YR YSCEFAIN.

§ 338. Cais wraidd marchalan, gwerth dwy geiniog o bubur duon, gwerth dwy geiniog o wraidd y glŷf, au pylori

au gwneuthur yn gyffaith drwy fêl puredig, a chymmer faint wi colommen yn gyntaf y bore ag yn ddiwethaf y nos; profedig yw.

RHAG DWR RHWNG CIG A CHROEN.

§ 339. Cais o'r ferllys ddau ddyrnaid, a phwya'n dda, au berwi drwy ymenyn, ag yn dwym dod ynddo ynogydfaint wer manllwyn, a gad ei doddi, ag a hwnnw ira'r lle bo'r dolur yn dda da.

I DYNNU HWYDD O DRAED NEU GOESAU.

§ 340. Cais ddynaid cochon, a chegyr, a'r geidwad, a gwna ennaint trwyddynt i'r dyn, a dod y fidiog lle y gwyddost gerllaw y migrwn, a golch drwy dy ddwr dy hun beunydd; profedig yw.

I DDYN A FO HEB GAEL MYNED WRTH FAES.

§ 341. Cymmer wraidd y gloria, eraill au geilw yr helesc, a'r rhisg nesaf at yr ysgaw, a sudd y fyddarllysg, au mortyru'n dda, a chymmer hen gwrw a chymysg ynghyd ar llysiau yn faeddedig, yna hidla drwy liain glân, a dyro i'r claf i yfed yn ddiod ar ei gythlwng, ag efe a gaiff ei ryddhau o'r caethiwed hwn ar fyrder, ag na chymmered amgen o ddiod oni chaffo yn rydd ei gorph.

I DDYN A FO'N GWNEUTHUR DWR GWAEDLYD.

§ 342. Cais had ffunel, a had perllys neu'r dail lle nas gellir yr had, au pwyo'n dda au cymysgu a maidd geifr, ai hidlo'n lân ag yfed chwart yn ddiod bob bore a nos hyd ymhen xv diwarnod a gweglyd hallt a sur, ag arfer o fwyd îr, ysgon, a gwresog, a bara gwenith a digon o lefain ynddo, a chawl trwy ferw'r ffynon, a dwr ffynon, a rhynion ceirch, ag arfer hwnnw ag iach fyddi.

I DYNNERU ARENNAU A FONT WEDI SIGO NEU HWYDDO.

§ 343. Cymmer ychydig o floneg, a chymysg ef a dyrnaid o ruw pwyedig, a dyrnaid o'r chwerwyn pentwyn yn bwyedig, a pheth llinhad pwyedig, ai faeddu yn blaster, a dod ar liain wrth y dolur; profedig yw.

RHAG CANGCAR A FO HEB DYFU YNGHYD.

§ 344. Cais dom ci a fo wedi sychu yn wynn, a gwydyr, a gwna'r gwydyr yn bylor mâl mâl mor fâl ag y gellir ei falu, a chymysg y pylor hwn a thom y ci ynghyd ag eliw glywydden, hen eliw sydd oreu, a dod ar y tân a ffria nhwy ynghyd, a dod ar y clwyf, ag efe ai iachäa.

RHAG Y WHARREN, NEU'R CORNWYDON, NEU HEN DDOLUR.

§ 345. Cais amcan o gwyr morwynig, yr un amcan o ystor tus, a'r un o byg, hanner amcan o goed ffrengig, a phedwar pwyau'r cyfan o honynt o rwd gwyrdd, dod y rhain ynghyd, a briwa nhwy i gyd yn fân mân, a dod mewn padell, a thawdd nhwy ynghyd, a thro yn dda rhag ofn iddynt drigo wrth y badell, yna gwedi cyflawn dawdd a chymysg arnynt, tynn i'r llawr, a hidla yn lân a dod wrth y dolur, a da yw yn wir.

RHAG Y WHARREN FFRENGIG, A ELWIR Y PLAG.

§ 346. Mewn amser peryglus a lle bo doluriau a chlefydon traphydus, llyma fodd y gochelir y traphyd; cais dair cangen fychein o'r llysiau a elwir rhuw, ag un o'r gollen ffreinig, a ffigysen neu ddwy, au bwytta ynghyd, a thi a fyddi gadwedig; profedig yw.

ARALL I IACHAU'R CLEFYD.

§ 347. Cymmer bridd bachgenyn ifanc rhwng deg a deuddeg oed, a chras ef a mâl ef yn bylor mân, yna dod o'r

mwyaf ddwy lwyaid o hono mewn ffiolaid o win gwynn, a rho i'r claf i'w yfed o'r hwya chwech awr ar ol iddo ef glefychu, a goreu pa gynta; hyn a brofwyd gan fagaid.

RHAG Y DDARWDEN FAWR, A ELWIR PRYF Y BRENIN.

§ 348. Cais ddail yr iddwg au pwyo au berwi mewn gwer manllwyn gyda gwaddod surdrwnc, au berwi yn dda, au hidlo, yna bwrw am ei ben werth dwy geiniog o sebon du, a chymysg ynghyd yn dda, ag eliaw ag ef.

RHAG GWAED YN CERDDED YN EDLIF I FYNYDD AG I WARED, NEU'R BOSTWM WAED.

§ 349. Cymmer gribau sanffrêd, a'r geidwad, au crafu, au pylori, a bwrw megis crimped o'r llysiau mewn wi giar, i rostio ai fwytta cyn bo ef caled, ag arfer hyn bob dydd lawn wythnos neu ragor, ag arfer o bylor y mâs ar dy gawl a'th ddiod yn dwym bob dydd nys bych iach, a bwydau ysgawn, îr, gwresog, a bara gwenith drwyddo, a digon o lefain ynddo, a da yw. Da hefyd yw'r feddyginiaeth hon rag yr hadred, sef traul nattur dyn o'r wialen o'i anfodd.

RHAG YR HADRED, SEF TRAUL NATTUR DYN O'R WIALEN O'I ANFODD.

§ 350. Cymmer gregyn oestrys, a llosg a phylora nhwy, a phob afal a chymmer ei fywyn a dod atto'r pylor, a gwna'n belenau, a chymmer ddwy belen neu dair bob bore'n gyntaf, ag yn ddiweddaf y nos dros o naw i bymtheg diwarnod.

RHAG Y PANGAU.

§ 351. Cais un ffigysen ar bumtheg, a thrugain gwenhynen a naw, a thynn eu pennau a'u traed a'u hadenydd ymaith, au pwyo'n bylor, yna dod at y ffigys y pylor hwn, a chymaint o fêl ag ai gwlycho a fo raid, a phwya'r cyfan

ynghyd, a gwna'n belenau bob un gymaint ag eirinen wenn, a rho un i'r claf yn nechreu'r pang, gan ei ddal ef ar ei draed, ag un a fo lai ar ol y pang, a gwna'n llynn nys bo iach.

RHAG MAGL AR LYGAD.

§ 352. Pob wi yn galed a holl ef ar ei hyd, a dod ynddo gymaint a chneuen o goprys gwynn yn frwd, ag erbyn y diferon mewn pottel, a dod ddiferyn yn y llygad; profedig yw.

DWR LLYGAID.

§ 353. Cymmer chwart o ddwr ffynon yngwrthwyneb haul, a dod ynddo gneuenfaint neu ddwy o goprys gwyn, a dod mewn crochan pridd i ferwi, a chaeadu'r crochan fal na ddelo'r anwedd i maes, a berw ar dân araf bedair awr ar hugain, awr yn berwi, ag awr ar lawr, yna hidla drwy liain glân a main iawn, a dod i gadw mewn pottel, fe ymgeidw y dwr hwn yn dda saith mlynedd heb fod un gronyn gwaeth, dod ddiferyn ar y pryd ar y llygad claf.

ELI I LOYWI LLYGAID.

§ 354. Cais lygaid y dydd, a'r effros, a dail y syfi, a'r ffenigl cochon, a chribau sanffrêd, a'r mill, a'r benlas, a'r bengaled, a gwraidd y cawn, a dail y gwinwydd, a llysiau'r gerwyn, a'r dderwen fendigaid, a chymmer o bob un gymaint ai gilydd, au pwyo yn dda gyda menyn, au gadu wyth niwarnod ag wyth nos i sefyll, a'r nawfed dydd berwa'n dda, a hidla drwy liain glân, a dod i gadw mewn llestr gwydr yn gaedig iawn, a rho gymaint a gronyn o wenith o'r eli hwnnw ar y llygad; a rho'r eli uchod deuddydd a dwy-nos yn y llygad i dreulio'r wybren a'r bilen, a'r magl, a rho'r eli yma'r drydydd nos yn y llygad, a hwn ai gylch yn glaer ag yn loyw; profedig yw.

RHAG DYWEDYD TRWY GWSG.

§ 355. Cymmer had rhuw neu'r dail, a phwya nhwy ynghyd am ben aesel onid el yn fwdran, yna dod am ben hen gwrw a chymysg yn dda, a hidla drwy liain glân, a rho yfed.

RHAG BREUDDWYDO YNGHWSG.

§ 356. Cymmer y dderwen fendigaid, a chrog am fwnwgl y dyn, neu rho iddo eu sudd hwynt i yfed wrth fyned i'r gwely, ag ni freuddwyda, yn wir gwir.

I DORRI RHYNGEN SEF Y FFLEUM.

§ 357. Cymmer ymenyn heb halen, a mêl gymaint dra chymaint, a chymysg yn dda, ag elïa dy fryst ag ef, da yw.

ARALL RHAG YR UN PETH.

§ 358. Cymmer berllys yr helau a berw mewn aesel gwin da, ag ar aesel berw golch dy fryst, a chymmer y llysiau berw a rho mewn lliain a rhwym wrth dy fryst dri neu bedwar o oriau.

RHAG BRATH DRAEN, NEU NYDWYDD MEWN CYMMAL LLE BO'R TWLL WEDI CAEAD.

§ 359. Cymmer flawd gwenith mor fân fâl ag ai gellir, ag ardymhera ef a gwin gwynn, a berw ynghyd nys bont yn dew, a chwlwm wrth y dolur gynboethed ag y gellir ei oddef, a hynny a egyr y twll ag a dynn allan y brynti a'r gwenwyn, ag o eisiau gwin cymmer gwrw da.

MEDDYGINIAETH RHAG BRIWIAU MEWN COES NEU FRAICH, NEU LE ARALL.

§ 360. Cymmer ferw ffynhonau a golch yn lân a berw mewn dwr glân nys bont yn dyner, yna cur hwynt yn dda

mewn mortyr, a rho mewn padell ffrio lân, a chyda nhwy wer carw neu fwch, neu lwdn dafad, a rho hefyd amcan o waddod gwin a brann gwenith, a ffria'r cwbl ynghyd, a gwna blaster o hono, a rho yn dwym wrth y lle dolurus, ag felly rho dri neu bedwar plaster, fel y bo achos yn gofyn.

PETHAU DA I'R YMHENNYDD.

§ 361. Ymsawru a mwsg, a chammil, ag yfed gwin yn fesurol, a bwytta dail y geidwad yn fynych, cadw y penn yn wresog, mynych olchi'r dwylaw, rhodio'n fesurol, cysgu'n fesurol, gwrando ychydig gerdd dant yn fynych, gwrandaw cannau tafawd, ymsawru a rhos cochon, golchi'r arleisiau mewn distyll rhos, yfed diod o ddwr wrth fyned i gysgu, darllain ychydig cyn myned i gysgu, bwyd ysgon.

PETHAU DRWG I'R YMHENNYDD.

§ 362. Pob rhyw ymhennydd, glythineb, meddwdod, bwyd yn yr hwyrnos, cysgu llawer yn ol bwyd, awyr lygredig, digofaint, trymder calon, sefyll yn fynych yn bennoeth, bwytta llawer neu ar ffrwst, gormod gwres, gormod gwilad, gormod oerfel, llaeth caws, pob rhyw o gnau, mynych ymdrochi, wynwyn, garlleg, manswrddan, ymsawru a rhosyn gwynn, gormod godineb, gormod cerdd dafod a thant, darllain gormod, diod gryf cyn myned i gysgu, aflonyddwch ynghwsg, ymprydio rhy fynych, gwlych mynych ar draed.

RHAG LLOSG TAN NEU LYNN BRWD.

§ 363. Cymmer wynn wi, a rho ar lestr pewtyr, a chymysg gydag ychydig elyf carreg, gan riglo'n dda nys bo megis possel, yna cymmer ddryll o liain teg a gwlych mewn eliw gliwydden neu eliw cnau'r ffawydd, neu ryw liw arall a fo hawddaf ei gael, a rho'r lliain hwnnw ar y llosg, ag arno ef rho'r caws, possel, a'r elyf, a'r gwynn wi ar ei ucha, ag fe dyn allan y poethni, ag a iacha'r clwyf.

MEDDYGINIAETH RHAG Y DADWRDD YN Y PENN, YR HWN SYDD YN RHWYSTRO CLYWED.

§ 364. Cymmer benn garllegyn ai bilio, ag yspigo bump neu chwech twll tua'i ganol ai drochi mewn mêl newydd gloyw, a rho yn dy glust a gwlan du ar ei ôl, a gorwedd bob nos ar yr ystlys arall, a gâd sefyll y garllegyn yn dy glust saith neu wyth niwarnod, ag ef o ddifo ryngen yn y penn, ag a ry'r clywed eilwaith.

RHAG Y FRECH FAWR.

§ 365. Cymmer berllys yr hêl, a thorr, a phwya nhwy yn fân, a rho mewn pot o sentdradoles a dwr ffynon, dod yndo ymenyn a halen, a gwna gawl o honynt, ag yf o hano unwaith neu ddwy yn yr wythnos.

ARALL RHAG YR UN PETH.

§ 366. Cymmer biod dri neu bedwar o honynt, a hollt hwynt a chyllell, a rho mewn crochan distyllydd y pluf a'r perfedd a'r cwbl o honynt, ag a'r dwr distyll, neu'r edlyn a gei o honynt golch y dolur, ag yn amgenach yr wyneb, a'r ddwy feddyginiaeth yma sydd brofedig.

RHAG LLOSG TAN.

§ 367. Cymmer y gliw a dynner o'r llinhad a dod ar y lle llosgedig ag asgell, ag efe a dynn dannau'r tân, ag a iacha'r dolur, gyn decced ag y gwnaeth erioed un feddyginiaeth arall.

RHAG Y GARREG, NEU ATTAL GWNEUTHUR DWR.

§ 368. Cymmer chwart o win gwynn a gwna bossel o hono, a chymmer ymaith y cawslaeth, a rho yn y possel bwys pedwar ceiniogbwys o grafion sebon gwynn, a berw ef, ag yf o hono yn dwyma gellych, a da yw yn wir.

I'R SAWL NI ALLANT WNEUTHUR DWR.

§ 369. Cymmer garreg fflynt neu gallestren, a rho yn y tân nys bo yn boethloyw, ag a honno twym dy ddiod o gwrw cadarn, ag yf.

I BERI I UN WNEUTHUR DWR.

370. Cymmer y perllys y bedwaredd rann o ddyrnaid, a chymaint a hynny o ffunel cochon, a briwa hwynt yn dda, a dod mewn cwppanaid o hen gwrw, a gwna bossel o hono, ag yf y cwrw, ag efe a wna les iti ; profedig yw.

I ATTAL GWAED O ARCHOLL NEWYDD.

§ 371. Cymmer ddail cennin, a phwya hwynt am ben mêl a chann gwenith, a chymysg a maedd yn dda nes bont yn dew, a nad ei fyned yn agos i'r tân, ond i gyd yn oer rho wrth y clwyf.

DWR LLYGAID DA.

§ 372. Cymmer afalau pydron a hidla hwynt drwy ddwr ffynon, a golch dy lygaid ag fe loywa'r golygon, ag a garth o honynt y brynti.

ARALL.

§ 373. Cymmer goprys a rho mewn dwr ffynon, a hidla fe yn lân, a phan elych i'r gwely taro amrannedd dy lygaid ag ef, a difera beth yn dy lygaid.

RHAG AFIECHYD YN YR YSCEFAIN, A'R AFU, A'R DDWYFRONN.

§ 374. Arfer o fwytta naw gronyn o bubur beunydd, a da yw yn wir.

RHAG POB GWRES A PHOETHDER YN YR WYNEB, BYT FAE EF TAN ST. ANTWN.

§ 375. Cymmer chwart o ddwr cafn y gôf, dyrnaid o ddail y geidwad, dyrnaid o ddail llwyfen neu ei risglyn glas,

ceiniogwerth o elyf, a berw hwynt ynghyd oni dderfydd hanner y dwr, a dod i gadw mewn llestr pridd, ag ira'r wyneb ag ef.

RHAG GWAYW MEWN AELODAU, NEU'R CEFN, NEU'R YSTLYSAU.

§ 376. Cymmer ddistyll bendigaid, neu ddistyll gwin, ag eliw traed defaid, a dod mewn llestr pridd, au claiaru au cymysg ynghyd yn dda, ag ira'r lle cystuddiedig, gan roi digon o ddillad yn gynnes ar y dyn.

MEDDYGINIAETH BROFEDIG RHAG GWAYW.

§ 377. Pwya berllys yr hêl, a rho mewn distyll bendigaid neu ddistyll gwin, a hidla drwy wasg, a dod floneg baedd yn doddedig am ei benn, a chymysg yn dda, ag a hwnn yn dwym ira'r lle dolurus.

RHAG GWAYW NEU HWYDD YN Y GLINIAU.

378. Cymmer chwart o win sêg, a dyrnaid o'r gryw a elwir teim gan eraill, a berw ynghyd, a phan fo hanner berw dod ynddynt ymenyn newydd a berw eilwaith ynghyd o chwart i beint, a phan elych i'r gwely golch dy draed yn dda ag ef, a gwlych liain tri dyblyg neu bedwar yndo, a rho ef o beutu'th liniau dolurus yn boetha byth y gellych ei oddef dros chwech neu saith o nosweithi, ag efe a wna les mawr yn ddilys, os bydd distyll gwin neu ddistyll bendigaid dod lwyaid am benn hwnn yn ei ferw pan fo ar fod yn ddigon, a chymysg yn dda.

I ATTAL GWAED O ARCHOLL, NEU O DRWYN.

§ 379. Cymmer hen liain a gwlych yn dda mewn aesel gwin coch, neu o eisiau hwnnw yn yr aesel a fo, yna llosg yn bylor a rho hwnnw ar yr archoll, ag fe attal y gwaed ar

frys, os o'r trwyn y bydd y gwaedu hwŷth i fynu i'r ffroenau y pylor hwn drwy asgell.

PLASTER I DDOLUR, NEU FRIW, NEU HWYDD NI BO AEDDFED.

§ 380. Cymmer flawd a berw ef mewn llaeth buwch newydd odro, nys bo cyndewed ag iwd, a rho mewn padell gydag amcan o wer llwdn dafad, a berwa nhwy yn dda, au cymysg yn dda, ag felly gwna'n blaster a dod ar y dolur yn boetha byth ag y gellir ei oddef.

RHAG DANT CI.

§ 381. Cais y ddiwid fendigaid, a garlleg, a gwyn wi, a gwna yn blaster, a dod wrtho, ag iach y bydd.

I AEDDFEDU CORNWYDON.

§ 382. Cymmer beint o laeth crai a dod ar y tân, a rho yndo amcan o fraster llwdn dafad gwedi ei friwo, dyrnaid o flawd ceirch, a chur a maedd yn dda tra berwo, a gad ferwi nes bo'n dew fal y gellech ei osod ar liain glan, a rho yn dwym wrth y dolur, a phan dorro dod ychydig o dwrpant ar ledr gwynn, ai bigo'n llawn tyllau.

RHAG BYDDARWCH CLUSTIAU.

§ 383. Cymmer sudd y cennin a bustl gafr ynghyd, a chymysga'n dda, a bwrw yn y clustiau, a rho wlan yn ei ôl.

RHAG TYWYLLWCH LLYGAID.

§ 384. Cymmer had y melynllys drwy wlith y bore, a mortyra'n ffest, a hidl y sudd yn llwyr, a chymysg a mêl gloyw gymaint tra chymaint, a berw yn ffest hyd nys el dan ef draian, a dod mewn llestr gwydr, a rho ar dy lygaid pan fo raid.

RHAG Y CRAFU.

§ 385. Cymmer wraidd y tafol ag ymenyn, a phwya'r gwraidd a hidl drwy liain, a phura y menyn yn lân, a berw y sudd a'r menyn, a dod mewn padell i gadw, a phan fo achos twyma ef, ag ira'r cnawd ag ef deirgwaith, sef bob yn ail ddydd, ag iach y byddi.

RHAG CIG DRWG.

§ 386. Cymmer wlan du, a sebon, a phylor cig eidion wedi ei bobi, a dod ar y cig drwg, ag fe fydd iach.

RHAG DOLUR PEN CYMMAL.

§ 387. Cymmer fywyn bara gwenith o'r ffwrn, ag afalau surion, a chribau sanffrêd, a dant y llew, mortyra nhwy yn dda, gogymaint au gilydd o honynt, a berw mewn gwin coch da onid el yn blaster, a dod wrth y dolur mor frwd ag y geller ei oddef, ag fe dyrr allan yn gornwydon.

PETHAU DRWG I'R GALON.

§ 388. Gwynwyn, pys, cwmin, garlleg, tristwch, digofaint, gormod pryder, gormod trafel, yfed dwr oer yn ol trafel, a newyddion drwg; a dyn a chwenycho iechyd a hir einioes gwilied gadw ei galon yn iach, ag na fwyttäed, ag nag yfed, ag na wnaed ai drycco fal y dywed gwr doeth, iach calon, iach y cyfan.

RHAG DOLUR MEWN CYMMAL.

§ 389. Cymmer wlydd, a dail priellau, au blodau, a'r gelestr, a phwya'n dda ynghyd, a berw drwy ymenyn Mai, ag elia'r dolur ag ef yn dwym, ai gadw mewn blwch pridd.

RHAG YR WRWST.

§ 390. Cymmer yr hoccys, a berw mewn dwr ffynon, a gwna'n blaster, a dod wrth y dolur.

ARALL.

§ 391. Berw dail y geinog mewn hufen llaeth dafad, a dod wrth y dolur.

RHAG LLOSG EIRA.

§ 392. Cymmer y dail sydd ar wyneb y gors yn sychion, a phwya'n dda, a chymmer wyn wi a phwya'n dda am benn y llysiau, a chymmer menyn Mai a dod attynt, a phwya'll tri ynghyd, a dod wrtho yn blasder, ag iach y bydd.

RHAG Y DDANNOEDD.

§ 393. Cymmer wraidd y gelestr, a phwya'n ffest, a hidla drwy liain, a bwrw y sudd a bon asgell i'r ffroen bella oddiwrth y dant claf.

RHAG LLOSG TAN.

§ 394. Cymmer redyn au pwyo'n dda am benn llaeth defaid, a dod ar y lle bo'r llosg ag asgell, a chymysg y rhai hynny yn ddwys cyn ymgymmeryd ag ef.

I ATTAL GWAED O ARCHOLL.

§ 395. Cymmer ddail y rhuw, a phwya'n dda a dod ar yr archoll.

ARALL.

§ 396. Cymmer geingen banadlen a chraf y rhisgl a gwna bel o hano, a dod yn yr archoll, a chlym yn dda.

RHAG TARWYDENNAU.

§ 397. Cymmer ddail y lili, ag eiddew'r ddaear, a phwya'n dda ynghyd, ag yna cymmer wêr defaid a ffria nhwy ynghyd yn dda, yna cymmer gedych a hidla ag elia y dolur ag ef.

ARALL.

§ 398. Cymmer wellt ceirch, a llosg, a dod y lludw hwnnw ar y lle dyfrllyd, ai riglo arno, ag efe ai sych yn iach.

RHAG GWELED BREUDDWYDON.

§ 399. Cymmer gribau sanffrêd, a dod am dy wddwg, neu ynteu cymmer eu sudd hwynt yn ddiod wrth fyned i gysgu.

RHAG CANGCAR YN Y GENAU, NEU YN Y GRUDDIAU, NEU MEWN UN LLE ARALL.

§ 400. Cymmer viii. neu ix. o ddail y geidwad, a phwya yn dda gydag ychydig o halen a gwin egr, a gwna blasder a dod wrtho.

MEDDYGINIAETH RHAG TYWYLLWCH LLYGAID.

§ 401. Cymmer xii. gronyn o wenith teg, a dod y gwenith ar ucha rhyw harn glan llyfn oer, ag yna cymmer ryw harn arall a gwna ef yn frwd yn y tân, a gwasg yr harn twym ar y gwenith, ag fe a'r gwenith megis yn fêl, yna cymmer oddiar yr harn oer, yna tynn yr asgell a'r mêl drwy'r llygad dolurus.

I ATTAL GWAED PAN DORRER UN O'R GWYTHI PENNA, NEU UN O WYTHI'R GALON.

§ 402. Cymmer ddryll o gig eidion hallt, y gwynn a'r coch yng nghyd gymaint ag a debygoch a el yn y clwyf, a dod ef ar y morwor nys bo poeth trwyddo, ag felly yn dwym rho yn y clwyf, ag fe baid y gwaed a rhedeg.

RHAG GWAYW MEWN AELOD A CHWYDD, NEU HEB CHWYDD.

§ 403. Cymmer y glarllysg a chymysg a mêl, a melyn wiau, a chann blawd gwenith, ai roi yn blasder wrth y

dolur, ag o bydd nattur crawn, fe ai crynhöa ef i grawnu, onid ef fe a dynn y gwayw ag ai gwna ef yn iach.

RHAG HAINT Y BRENHINOEDD.

§ 404. Cymmer wraidd y lili, a chras dan y llydw, a gwna ef yn bylor, a chymysg y pylor hwnnw a saem gwydd, neu a bloneg, a dod wrtho, ag iachau a wna.

I DYNNU ESGYRN TYNNON O BEN DYN, NEU O LE ARALL.

§ 405. Cymmer gribau sanffrêd, a'r dderwen fendigaid, a rhuw, a chymysg hwynt a chann gwenith a gwynn wiau, a phwyo a maeddu'r defnyddion hynn am ben eu gilydd yn dda, a rho wrtho yn blasder.

RHAG POB RHYW GRACH NEU DARDDANT AR Y CROEN, A'R PENN CRACH.

§ 406. Cymmer wynwyn a briwa nhwy'n fân, ag yna berw mewn dwr neu win egr, ag a hwnnw golch y lle dolurus neu amhwyntus, ag fe a ddifa'r penn crach, a phob tarddant arall ar y corph.

RHAG Y CRAFU.

§ 407. Cymmer wraidd y tafol, a briw nhwy'n fâl am benn ymenyn newydd, a ffrïa nhwy gan gymysg a maeddu yn dda, ag ira'r claf, ag iach a fydd.

ARALL.

§ 408. Cymmer wraidd marchalan a glanha nhwy'n lân, a berw mewn dwr ffynon, a phan font ddigon, pwya nhwy a maedd nhwy am ben hufen tew da, neu ymenyn heb halen nys bo'n eli, ag elïa'r cnawd ag ef dair gwaith mewn naw niwarnod, sef unwaith bob tri diwarnod, ag yf y dwr ymha un y berwyd y gwraidd bob bore a nos, lawn ddiod o hono,

a hynn y sydd dda rhag y frech yn y gwaed, ag yn y llynnor yn peri tarddiant ar y croen, a chrach, a chornwydon, a'r ymgrafu, a tharwydennau.

RHAG CORNWYDON.

§ 409. Cymmer wlan du a sebon du, a rhwym ynghyd wrth y dolur neu'r cornwydon.

RHAG Y CANGCAR YN Y GENAU.

§ 410. Cymmer sudd dail llydain y ffordd a gwin egr, a distyll rhos cochon, a chymysg ynghyd, a golch y genau yn fynych ag ef.

RHAG Y FRECH YN Y GWAED AG YN Y LLYNNOR.

§ 411. Cymmer wlydd a phwya'n dda a hidla eu sudd dan wasg, ag yf gwppanaid dair gwaith yn y dydd ar dy gythlwng, a da yw yn wir yn wir.

ARALL.

§ 412. Cymmer wlydd, a dail llwyfen neu'r rhisgl nesaf i'r prenn, a berw ffynhonau, a llysiau'r llwyg, a eilw rhai y morlwyan, a phwya'n dda, a hidla'r sudd dan wasg, ag yf yn unig ddiod hyd ymhen y naw niwarnod, ag na chymmer yn fwyd amgen na bara gwenith da drwy ferman a llaeth geifr, profedig yw; a'r feddygyniaeth honn a'r un uchod a iacha'r frech yn y gwaed a'r llynnor, a'r maenwynon, a'r darwyden fawr, a elwir y lladin *yscabies*, a phob gwenwyn brechlyd yn y gwaed a'r llynnor, achos y gwenwyn hynny y daw'r ysgyfeinwst, a doluron eraill yn niferawg iawn, fwy nag a gred nas gwypo.

RHAG LLOSG TAN NEU LYNN BRWD.

§ 413. Cymmer sebon du neu wynn a rhwym wrth y lle dolurus.

RHAG TARDDIANT AR WYNEB.

§ 414. Cymmer gann gwenith, a chymysg a gwinegr, a mêl, a rho ar dy wyneb.

RHAG CORNWYDON A PHENDDUYNOD.

§ 415. Cymmer gann gwenith, a bloneg moch, a menyn Mai, a dail y geidwad, a phwya ynghyd a gwna'n blasder a rho wrth y cornwyd, ag fe ai addfeda, ag a dynn allan y crawn.

RHAG DOLUR NEU HWYDD AR FRONN GWRAIG.

§ 416. Cymmer risgl celyn moelon a phwya'n dda, a chymysg a hen gwrw da, ai hidlo, ai roi i'r claf i yfed, ag arfer o hano, ag iach a fydd yn wir profedig, ag ni chrawna'r fronn ddim.

ARALL.

§ 417. Cais lysiau'r waedling a gwi trwy'r blisg, a phwya'n dda ag yn fâl am benn eu gilydd, a dod yn blasder wrth y fronn, ag iach a fydd yn wir.

RHAG GWAYW YN Y COESAU.

§ 418. Cymmer y llysiau a elwir carn yr ebol, (ynt debyg i ddail y cyngaw,) nhwy a llaeth buwch unlliw, a rhynion blawd ceirch, a menyn Mai, au berwi yn dda a dod yn blaster wrth y dolur yn dwym.

RHAG CYFYNGDER YN Y BRYST.

§ 419. Cymmer isob, ac ysgol Fair, gymaint tra chymaint, pwya'n dda a hidla'n lân, a chymmer wynn wiau a thymmhera hwnnw a'r llysiau am benn eu gilydd, ag yf dri diwarnod yn wag.

ARALL.

§ 420. Cymmer ruw a berw yn dda mewn gwin egr, a dyro i'r claf i yfed.

RHAG Y FAM.

§ 421. Cymmer y llysiau llwydon, a ffunel cochon, a mynt cochon, au berwi mywn hen gwrw yn dda, a hidla yn lân trwy liain, ai yfed yn dwym, ag iach y byddi.

RHAG Y MWYTH DRYDEDYDD.

§ 422. Pwy bynnag a yfo sudd cribau sanffrêd, a sudd llydan y ffordd ynghymysg, fe fydd iach.

RHAG GWAYW NEU HWYDD MEWN COESAU, NEU DRAED, NEU FREICHIAU.

§ 423. Cymmer flawd ceirch, a llaeth buwch, a bwrw attynt sudd llysiau'r gwayw, a elwir llysiau pen tai gan eraill, a gwer dafad, a dod i gyd i ferwi hyd oni fo ef tew, a gwna blaster o hono a dod o gwmpas i'r dolur, a hwn a laesa'r gwayw a'r dolur, ag a yrr yr hwydd ymaith.

RHAG LLYGAD A FO YN RHEDEG.

§ 424. Cymmer felwed duon a berw hwynt mewn dwr glân, a chymysg y saem a fo ar wyneb y dwr, ag a hwnnw ira dy lygad.

ARALL.

§ 425. Cymmer blwm a thodd ef mewn llestr harn, a thyn i lawr a bwrw arno win egr, a chau arno fal nas diango'r anwedd, a phan oero ag y bo gloyw arllwys y gloywon i bottel wydr, a dod yn y bottel garregyn o elyf maint cneuen fawr, a phan fo achos wrtho, dod am ben ferwyn malw, hanner yn hanner, a golch dy lygaid ag ef,

neu dod y gwin egr hwn am ben gwynn wi pwyedig hanner yn hanner, a'u pwyo'n 'nghyd yn dda, a golch dy lygaid ag ef.

RHAG GWAYW YN Y PENN.

§ 426. Cymmer lonaid ffedog o dringol, a berw mewn llaeth buwch unlliw nys bo ym mron sych, a dod yn blaster wrth y pen, a dod y claf i orwedd yn y gwely, a dod ddigon o ddillad arno nes bo yn whwysu.

RHAG OERFEL.

§ 427. Cymmer had y dynaid a berw mewn mêl, ag a hwnnw eliä dy draed a'th freichiau, a phob lle arall y bo achos, ag fe dynn yr oerfel.

RHAG YR EFRYDDIANT, SEF Y PARLYS, A FYTHO'N DWYN PARABL DYN.

§ 428. Cymmer ddail y geidwad, a dail pennros, a lle ni bo dail cymmer wraidd y pennros, a phwya'r llysiau hynn ynghyd am benn eu gilydd, gymaint dra chymaint, a hidla drwy gwrw da, a rho i'r claf i yfed; profedig yw, yn wir gwir.

RHAG CLWYF WEDI IACHAU ODDIALLAN AG ODDITANO YN DDOLURUS.

§ 429. Cymmer flawd haidd, a gwynn wi, a mêl, a chymysg hwynt ynghyd, a gwna blaster, a rho wrth y lle dolurus, ag fe ai lleshâ, ag ai iachäa.

I UN A YFODD WENWYN.

§ 430. Cymmer ruw îr, golch ef, a phwya'n fâl, a dod am benn gwin gwynn, a hidla, a rho i'r claf i yfed lawn ddiod.

RHAG HWYDD MEWN CROTH, NEU GALEDI BOLA.

§ 431. Cymmer linod a berw drwy laeth geifr, a dod wrtho yn fynych yn blaster.

RHAG GWAYW'R FAM.

§ 432. Cymmer fynt y meirch neu'r tanclys, a phwya'n dda, a hidla'n lân, a berw gyda hen gwrw, ag yf yn dwyma gallot.

RHAG LLYNGER.

§ 433. Cymmer sudd y tanclys, a llefrith, a hidla, a berw yn dda yny ddifeinw ei draian, ag yf ef yn dwym.

RHAG PEN CRACH.

§ 434. Cymmer byg a chwyr a berw ynghyd, ag eillia'r pen crach yn lân, a gwna blaster a dod wrth y pen yn dwyma gellych ei oddef, a gad yna naw diwarnod.

RHAG GWAYW MEWN LLYGAD A FO'N MAGLU.

§ 435. Cymmer felyn wi a blawd gwenith manfal, ag ychydig o goprys glas, a chymysg yn ffest, a gosod wrth y llygad, ag fe a dyrr y magl.

RHAG MAGL AR LYGAD DYN.

§ 436. Dod sudd eiddew'r ddaiar ar y magl, a hynn ai tyrr ag ai iachäa.

RHAG MARCH WRIAINT.

§ 437. Cymmer wynn wi wedi ei bobi, a dod ar liain wrtho yn blaster.

RHAG GWAYW YN Y CEFN.

§ 438. Cymmer fanal ifainc a berw mewn dwr ffynon, ag a'r dwr hwnnw golch y cefn.

I WR A FO WEDI EI LOSGI GAN WRAIG.

§ 439. Cymmer elyf mâl a chwrw, a chymysc, a gwlych bilin lliain ynddo, a thro beuparth y wialen.

RHAG CYFYNGDER BRYST.

§ 440. Cymmer sudd hidledig isob, ag ysgol Fair gymaint tra chymaint, a chymysg a'r un faint o wynn wiau, ag yf yn unig ddiod dri diwarnod.

RHAG DOLUR YN Y BRYST.

§ 441. Cymmer berllys, a dail y geidwad, a phwya 'nghyd a dod ar dy fryst.

RHAG GWAYW DAN YR YSTLYS.

§ 442. Cymmer sudd y geidwad, a gwin wedi ei fwyglo, un amcan o'r sudd am ddwy amcan o'r gwin, ag yf ef, ag efe a laesa'r gwayw dan yr ystlys a'r groth, ag yn y cylla, ag y mae'n dda rhag gwayw yn y pen a'r parlys neu'r efryddwst; profedig yw.

RHAG Y CLEFYD DU.

§ 443. Cymmer y gryw, sef hwnnw'r teim, a rhuw, a'r brymllys, ag isob, a gwraidd y perllys, a ffunel, a dail yr ysgyrr, a elwir yn y lladin *chamaerops*, a dwy lwyaid o had anis, a berw y cwbl mewn chwart o ddwr a thair llwyaid o fêl, a hidla drwy liain glân, ag yf o hano yn naws gwaed.

I WAREDU'R CANCAR.

§ 444. Cymmer ffiolaid'o win coch, tair neu bedair llwyaid o fêl, a chymaint a chneuen fawr o elyf, a chymysg a berw ynghyd nys treulo'r trydy ran, a hidla ef, a dod mewn pottel i gadw, a golch y lle clwyfus yn fynych ag ef, a hynny ai iachâ.

I WR WEDI EI LOSGI GAN WRAIG.

§ 445. Cymmer linod, a llaeth geifr gwynnon, a berw yn iwd, a dod wrth y wialen beuparth iddi; profedig yw.

RHAG DOLUR YN Y PENN.

§ 446. Cymmer lwyaid o sudd cribau sanffrêd, a llwyaid o win, a llwyaid o fêl, a rho ynddynt naw puburen, ag yf o hano bedwar diwarnod, ddeupen y dydd.

I DYNNU BRIW A HWYDD, AG I ESMWYTHO LLE BO GWAYW.

§ 447. Cymmer amcan o flawd ceirch, a llaeth myswynog, a sudd llysiau'r gwayw, a gwer manllwyn, a briw hwynt ynghyd nys bont yn dew, a gwna blaster, a dod yn dwym wrth y lle dolurus, a hynn a laesa'r gwayw ag a dynn ymaith yr hwydd.

RHAG POERI GWAED.

§ 448. Cymmer berllys yr hêl, a mint, a rhuw, a chribau sanffrêd, a berw hwynt mewn llefrith newydd odro, ag yf o hono yn dwym, ag iach fyddi.

RHAG Y TOSTEDD.

§ 449. Cymmer ddynaid cochon, a pherllys, a phwya'n dda ynghyd, a dod yn blaster ar y groth.

I GRYFHAU'R LLESTR YN YR HONN Y GORWEDD NATURIAETH.

§ 450. Cymmer fes a chras nhwy yn galed, a gwna nhwy'n bylor, dod lwyaid mewn diodaid o gwrw, da ag yf yn dwym bob bore dros o wythnos i naw diwarnod, a gorwedd yn dy wely awr neu ddwy.

DWR DA I'R LLYGAID.

§ 451. Cymmer afalau pydron a hidla hwynt drwy ddwr ffynon, a golch dy lygaid ag ef, hynny a lanhäa ag a loywa dy lygaid yn ryfeddol.

RHAG Y DDANNOEDD.

§ 452. Cymmer ddail y celyn a berw mewn dwr ffynon oer oni bont yn wydnon, yna tynn y crochan i'r llawr oddiar y tân, a dod neisied am dy benn, a dal dy enau yn egored uwch benn y crochan i gael enaint, ag iach y byddi.

MEDDYGINIAETH BROFEDIG RHAG Y DDANNOEDD.

§ 453. Cymmer wraidd pelydr ysbain, a golch yn lân, a phwya'n fâl, a gwna o hono dair pellen bychein yn dy law, pob un am faint plemysen, a rho'r bel gyntaf rwng dy foch a'r dant dolurus dros amser y cerdder millt ar gam canolig, ag fel y bo'r dwr yn crynhoi poera fe 'maes, a phyn debyg- ech fod y belen wedi bod yno gyhyd a hynny, rho arall i mewn, ag ar ol hynny ymhen yr un faint o amser y trydydd, yna gorwedd ar dy wely, ag ymgynhesa'n glyd, a gwedi itti gysgu di a fyddi yn iach, a hynn a brofwyd yn fynych gennyf, ag a welais fy hunain yn wared parodol rhag gwayw'r ddannoedd.

I WYBOD A DORRODD PADELL YMHENNYDD.

§ 454. Os y cnawd fydd yn gyfan i fyny cymmer ag eillia'r gwallt lle bo'r yssig, a dod liain tran dew yn ddeublyg, a dod arno wynn wi yn dannedig ar y lliain, a chlym ef ar y dolur dros noswaith, a'r bore tynn ef ymaith, ag edrych os bydd gwlyb y lliain, ag os llaith a gwlybaidd y bydd, dilys yw dorri o'r asgwrn.

RHAG GWYNT MEWN CYLLAU.

§ 455. Cymmer had moron y meusydd a gwna'n belenau maint pys, drwy fel, a chymmer bedair ddeupen y dydd hyd ymhenn tridiau.

RHAG DOLUR GWEFUSEDD.

§ 456. Cymmer wreiddyn y bengaled, a phwya'n dda, a chymmer hufen llaeth oer a bwrw am ei benn a chymysg yn dda, a hidla drwy liain glân, a dod y sudd hwnnw ar dy wefusedd.

I BERI BLYS AT FWYD.

§ 457. Berwa fustl y ddaiar mewn dwr glân gloyw, ag yfed y claf o hano yn ias gwaed yn wag dridiau bob dydd naw llwyaid, ag fe fydd iach.

RHAG CNOAD POB NEFAIL GWENWYNIG.

§ 458. Cymmer ddail llydan y ffordd ag yf eu sudd hwynt, a chymmer howen a'r melynllys gymaint un ai gilydd, a phwya hwynt yn fâl, ag ardymhera nhwy a surdrwnc a rho wrth y dolur, ag fe laesa'r gwayw, ag a estwng yr hwydd, ag a dynn allan y gwenwyn.

RHAG CNOAD CI CYNDDEIRIOG.

§ 459. Cymmer ddyrnaid o gribau sanffrêd, dyrnaid o'r geidwallt wyllt, dyrnaid o'r manyglog, ffiolaid o ddwr pant, a phwya'r llysiau yn dda am benn y dwr, a hidla, a rho ynddo geiniogwerth o dryagl, a rho ef i'r claf i yfed ddau neu dri bore; profedig yw.

RHAG CLWYF AR LYGAD.

§ 460. Cais hufen llaeth a'r cymaint arall o wynn wïau, a gwna gadach lliain yn ogymaint a'r llygad, a gwlych yn y blaster a dod wrtho.

RHAG MEDDWI.

§ 461. Cymmer ddyrnaid o'r bittan, a elwir cribau sanffrêd, a phwya nhwy'n dda a chymysg a dwr ffynon, a hidla'n lân, ai yfed cyn bwytta nag yfed dim arall, ag ni feddwi y dydd hwnnw.

CYFOD DA I'R PEN A'R CYLLA.

§ 462. Cymmer dair llwyaid o sudd y bittan dri bore o restr, a bwrw a bôn asgell yn dy ffroenau.

RHAG GWAYW YN Y COESAU.

§ 463. Cais y llysewyn a elwir carn yr ebol ddyrnaid, a chymaint o ddail cyngaw, a phwya nhwy, a chymysg nhwy a llaeth buwch unlliw, a rhynion ceirch, ag ymenyn, au berwi yn dda, a dod yn blasder wrth y dolurwayw yn dwyma fyth y gallot ei oddef, ai esmwytho a wna.

RHAG YR UN PETH.

§ 464. Cais y dail hynny heb eu pwyo a dod ynghylch dy draed mal amwisg ddydd a nos; tynnu dwr gwenwynllyd a wna, weithiau eraill papur llwyd yn yr un modd fal hosanwisg; profedig yw.

RHAG Y GIBWST, NEU'R CRONYGLAU AR SODLAU, A THRAED.

§ 465. Cymmer gwybr cwyr yn dwym pan baer yn hidlo cwyr, a dod dy draed yn y cwybr twym yn dwyma ag y gellych ei oddef, a saf arno yn hir ag iach a fydd, sugno allan y cronyglau a wna.

I OSTWNG Y FAM.

§ 466. Cymmer eli arian byw, ag ymenyn Mai, neu floneg moch a ladder fis Mai, a chwyr, a rhwsin, au toddi

ynghyd a llysiau Taliesin yn bwyedig bob un gymaint ai gilydd, ond bod yn fwy o'r ymenyn, neu'r bloneg, na'r cwyr, a'r rhwsin, a berwi'n dda ynghyd, a hidlo, ag a'r eli hwnnw iro'r ystlys y bo'r dolur i fyny ag i wared yn dda ag yn galedta fyth y gellych; profedig yw.

RHAG FFAELU MYNED WRTH FAES.

467. Cymmer wraidd llysiau'r gloria, eraill au geilw llysiau'r moch, a phwya'n dda y gwreiddiau fel garlleg gyda hen gwrw da ai adael gwers i sefyll, a thwymo ychydig ar y ddiod yn hidledig, a dyro i'r claf i yfed, ag fe a gaiff fyned yn rhydd yn wir; profedig yw.

RHAG DOLUR AR GRYMIN O BYDD CROEN TWN.

§ 468. Cymmer y cwrw goreu ag a ellych ei gael gwart a hanner o hono, a berw yn dda hyd *oni* threulo fed llonaid llwy, ag eli da yw hwnnw rhag pob dolur crymin se osod ar ronyn o liain crai ar y dolur, ag arfer o hwnnw a sugna'n oreu i gyd yr amhuredd allan, a chwedi hynny cais eli twf a dod arno. O bydd hwydd yn y goes cais ddail ffion y ffridd, a phwya, a dod wrtho a phridd y gist ar ucha'r dail, a da yw.

ARALL I ESTWNG YR HWYDD, AG I SUGNO'R DRWG.

§ 469. Cymmer derr a dod bob yn ronyn ar y croen twn ag arfer o hynny, a da yw.

RHAG I WRAIG GOLLI EI FFRWYTH AI NERTH.

§ 470. Cymmer risg y ddraenen ddu, y nesaf at y prenn, crafu yr ucha heibio, au pwyo yn dda a llaeth buwch unlliw, ai gymysgu ai roi yn ddiod i'r wraig, a da yw yn wir arfer o hono.

ARALL.

§ 471. Cymmer y dynaid blodeuwyn a phwya'n dda a dod am benn gwin coch da, a hidlo'n lân, a dyro'n ddiod i'r wraig foreu a nos, a allo hi ei yfed o hono, a da yw yn wir arfer o hono, a chadw y dynaid yn y ty'n sychon fal y galler eu cael yn y gauaf, au pylori'r pryd hynny, a rhoi'r pylor yn y gwin lawn lwyaid, ag yfed yn frwd cyn frytted ag y gellir, a da yw'r gwreiddau yn bwyedig am ben y gwin ai hidlo, neu yntau yn bylor yn y gwin, a da cadw y llysewyn hwn mewn gardd ar ei benn ei hunan.

RHAG DRAEN.

§ 472. Cymmer sebon golchi, a dod wrtho, ef ai sugna'n dda, a chadw wrtho yny ddel allan.

I ANEFAIL CLAF.

§ 473. Cymmer sebon du, a berw mewn cwrw, a rho'n ddiod i'r nefail oi fwrw yn ei wddwg, ag fe a gaiff fyned wrth faes.

RHAG CLEFYD BRONN.

§ 474. Cymmer ddail llydain y ffordd a bloneg, au pwyo ynghyd, a dod wrtho.

RHAG HWYDD MEWN CROTH.

§ 475. Cais faidd geifr, a phwya'r llysiau a elwir craf y geifr, a dod am ben y maidd a hidla, ag yf yn unig ddiod dridiau.

RHAG ATTAL PISAW.

§ 476. Cymmer y dynaid cochon a pherllys, a gwna nhwy'n blasder, a dod ar dy werddyr.

ARFER DDA I GADW Y CORPH MEWN IECHYD.

§ 477. Dod ddwr ffynon oer bob bore ar dy wyneb, a'th ddwylaw, a'th ddirgelwch, ai gwrw ai benyw, a rhigla'n dda, a dod unwaith yr wythnos ar hyd dy gefn a'th wegil, a rhiglo'n dda a lliain garw.

I LADD PRYF A FO YNGHNAWD DYN.

§ 478. Cymmer floneg twrch coch, ag ymenyn Mai, a dail y geidwad, a mês, a'u maeddu i gyd ynghyd, a gwna eli o hono, a dod wrtho, a hwnnw ai lladd.

ARALL.

§ 479. Cymmer sudd y geidwad, ag ychydig distyll gwin, ag elïa man y bo pryf, a hynn ai lladd.

RHAG GWAEDLING O DRWYN.

§ 480. Cymmer gocwy* wi a derbyn y gwaed yn y cogwy, a dyro yn y tân i bobi hyd onid el yn bylor, a bwrw y pylor hwnnw yn y ffroenau, ag ef a ettail y gwaedu; profedig yw.

RHAG DOLUR AR FRONN GWRAIG.

§ 481. Cymmer risg y celyn moelon, a phwya'n dda, a chymysg a hen gwrw da, a hidla, a rho i'r claf i yfed, ag arfer o hono ag iach y bydd yn wir; profedig yw, ni chrawna'r fron ddim.

ARALL.

§ 482 Cais lysiau'r waedling a gwi trwy ei blisg, a phwya yn dda ynghyd, a dod wrth y fron, ag iach y bydd yn wir.

* Cocwy *a* cawg.

RHAG GWAYW PA FANN BYNNAG Y BO MEWN CORPH DYN.

§ 483. Cais waddod gwin seg hanner galwyn, a'r unfaint o waddod hen gwrw da, a llonaid ffiol vi o frann gwenith, a gwreiddiau llysiau'r pumpbys, au berwi yn dda, a phwyo'r llysiau yn dda, a berwi'r cwbl ynghyd yn yd el yn wydn, pwy oreu au berwer goreu i gyd fydd y plasder, a dod hwnnw wrth y gwayw, ag arfer o hono, ag iach y byddi yn wir gyda Duw; profedig yw.

RHAG DOLUR Y CYLLA.

§ 484. Cymmer y gammil a sig yn dda a berw mewn peint o win hyd nys elo'n hanner peint, a dyro i'r claf i yfed, ag iach fydd yn wir.

ARALL.

§ 485. Berw had moron y maes a malw mewn au cudd o ddwr, ag yf yn ddiod; profedig yw.

I IACHAU YSSIG, AG I DYNNU DWR O'R DOLUR, NEU O'R ESGYRN TYNNON, NEU HWYDD O'R AELODAU O NAWS DWR NEU DDRYGWAED NEU GNAWD LLYGREDIG.

§ 486. Cymmer wer defaid hanner pwys punt, ag o sebon du dimeiwerth, a thawdd ynghyd, a dod vi wi o wiau gwedi eu cymysgu gwyn a melyn ynghyd, a chymysg yn dda da, a thyn i'r llawr i oeri, gwedi hynny maedd hwy yn dda ynghyd a gosod ar liain yn gyfled ag y bo raid, a dod wrth y dolur, un beunydd neu bob ail ddydd, hyd oni bo iach.

I DYNNU NAWS DWR NEU DDRYGWAED O BEN SIGIEDIG.

§ 487. Golch dy enau yn lân, a chymmer eliw'r liwydden yn dy ben a bwrw ynghlustiau y dyn, a dilyn hynny viii diwarnod, ag iach y bydd.

RHAG YR HAW AR Y LLYGAID YR HWN A ELWIR YR ONGLE.

§ 488. Cymmer pubur a mal yn bylor, a chymysg a mer asgwrn adain hen wydd, a dod mewn lliain myel, a llosg ar ucha *maen yn bylor mân, a bwrw hwnnw yn y llygaid hyd pan fo iach.

ARALL.

§ 489. Cymmer flodau drain gwynnion, a blodau helig, a gwna ddwr o honyn, ag arfer o hono nos a bore, a da ydyw i lygaid a fo yn myned yn gochon, ag yn llosci, ag yn dyfrhau.

ARALL.

§ 490. Berw sudd y melynllys yn dy lygaid drwy fon asgell ddwywaith yn y dydd.

RHAG Y COSSI.

§ 491. Cais ddail y geidwad a phwya nhwy a gwasg eu sudd, ag a hwnnw ulhâu'r croen yn dda da nos a bore hyd ymhenn naw diwarnod, ag iach y byddi.

RHAG DYRNOD PEN, NEU GWYMP HYD PAN DORRO'R ASGWRN, A GWASGARU Y GWINIAD.

§ 492. Cais y bettain, sef cribau sanffrêd, a mortyra yn ffest, a berw yn dda mewn gwaddod gwin coch, a dod yn blasder wrtho y pen, a hwn ai hoera ag a wasc yr escyrn bob un at ei gilydd, yn wir.

RHAG GWAYW O NATTUR Y CYLLWST NEU'R TOSTEDD.

§ 493. Cymmer geirch glân, a ffria mewn ymenyn gwyra yny bo'n rhuddo, a dod wrth y dolur ar gedych brethyn, ag iach a fydd yn wir, yn wir iawn.

* Maen, gair a arferir yn Morganwg am gradell.

RHÁG Y FFLAM IDDIW.

§ 494. Cymmer dom gwyddau a font yn pori allan, a'r carllys, a llygaid y dydd, a'r bettain, ag ymenyn Mai heb halen, ai pwyo ynghyd, ai dodi ar y tân i ferwi, ai hidlo'n lân, ai ddodi i gadw mewn llestr glân, ag ira'r claf ag iach a fydd.

I HELAETHU Y CYMMHIBAU, Y MYNYGLAU, A'R BRYST.

§ 495. Cais y ffenel cochon, a brig yr isop a *briw, a glyf, a berw mewn dwr rhedegog o ffynhonau nad ant fyth yn ysbydd, a rho i'r claf i yfed, ag iach fydd yn wir iawn.

RHAG BRATH CI CYNDEIROG.

§ 496. Berw'r geidwad wyllt mewn ai cudd o gwrw neu ddwr, ag yf yn ddiod hyd ymhen naw diwarnod; profedig yw.

RHAG POB RHYW WAYW DRWG YN Y BYD, PA FODD BYNNAG Y DEL.

§ 497. Cais y perllys, a llydan y ffordd, a llygaid y dydd, a'r craf, a grawn paris, a mortyra'n dda a hidla, a dod y sugn ar gwrw, ag yf ef; ag o bydd cig eidon, neu laethfwyd, na fwyttaed ag nag yfed pan el yn iach.

RHAG Y CRYGI.

§ 498. Cais y canwraidd lwyd, a dynaid cochon, ar erllyriad, a berw yn dda trwy faidd geifr, ag yf gwppanaid bob bore, ag iach y byddi.

RHAG Y PAS A'R PESWCH.

§ 499. Cais grafangc y llew mewn glastwr, a dyro i'r claf ar ei gythlwng y bore, a'r nos yn hwyr, a iach a fydd.

*qu. ai Briweg?

RHAG Y PESWCH.

§ 500. Cais ddyrnaid o'r geidwad wenn a mortyra'n dda a dod am benn hen gwrw da, a hidla'n lân dan wasg, a gwna bossed o'r cwrw hwnnw, ag yf y gloywon, ag iach y byddi.

ARALL RHAG Y PESWCH.

§ 501. Cais bylor maen aurbibau gyda wiau caled, a chymmer ddwywaith y dydd dridiau ar ddeg, ag iach y byddi.

RHAG Y PESWCH.

§ 502. Cais flonheg hwyad, a bloneg giar, a mer asgwrn cig îr, a gwna eli ag ira dy fron, eithr na chwrdd a'r cylla, ag ef a'th iachäa.

RHAG PEN TARDDEDIG O WAITH TES.

§ 503. Cais yn gyntaf waddod cwrw da cadarn, a rhwsin, a blawd rhyg, a gwna is 3 plaster a dod wrth y pen, ag wythnos o yspaid i bob un o honynt, ai olchi drwy drwnc sur, ai grafu yn dda, a thyn y blew marw yn llwyr, a gellwng waed, lle bo gwrid, a hynny rhwng pob pryd o'r tri uchod, ag oddyna cais wynn wiau, a fflwr rhyg, a gwna g, 3 plaster y 3 phryd, ai olchi bob gwaith yn lân, ag yna cais wraidd y marchalan, a gwraidd y tafol, a mwg y ddaiar, a'r droedrudd, au pwyo 'nghyd yn dda, au berwi trwy wer eidion yn dda, au hidlo yn lân, a phan fo oer cais goprys glâs, amcan fach o swlffwr a gwna'n bylor mân mân a chymysg ar eli hidlaid, * pŷn yn gwbl ag y selí 5 yn dda o'i fronn, fel y bo fel mêl tew, ag a hwnnw elïa'r pen yn dda, ag oddyna cais ymenyn ar unrhyw lysiau daiar a enwyd

* Odddiwrth pwno,

uchod ond peidio a'r pylor, a gwna eli o honynt, ag elïa a hwnnw ag iach y bydd.

LLYMA FEDDYGINIAETH I DDYN A FO A PHEN TARDDEDIG AG HEB BALL EI ORFFEN.

§ 504. Cais byg a chwyr newydd, a tawdd ynghyd, a dod wrtho yn blasder cyn dwymed ag y gallech ei oddef, a gad nawnydd heb ei symmud.

ARALL.

§ 505. Cymmer swlffwr ag arian byw, a mâl yng nghyd gyda garlleg rhostiedig a bloneg ffres, a chymysg ynghyd, ag a hwnnw îr y pen.

ARALL.

§ 506. Cymmer ddau ddyrnaid o'r peuros a elwir yn y lladin *petilion*, cyn y blodeuo ef, a berw mewn pottel o leisy cadarn hyd ddifant yr hanner, yna golch y penn a'r lleisy hynny yn dwym, a chraf y tarddant heibo, ag yna gwna blasder o'r peuros a dod ar y penn yn dwym, a gad yno ddiwarnod a noswaith ag yna tynn ymaith, a gwna blaster o flawd rhyg a dwr rhedegog, a gwna fal iwd tew a dod ar ddarn o liain a gyrhaeddo dros y dolur, a gad yn iii die a iii nos, ag yna tynn ymaith a golch y penn mewn sur-drwnc cadarn, a chraf ef hyd y cig, a chymmer wynwyn cochon a gwna blasder dros y dolur au berwi mewn dwr, a thymhera nhwy gyda sudd mynt y mynydd a bloneg hen faedd toddedig, ag arfer o hynny ono fo iach.

ARALL.

§ 507. Cais byg, a chwyr gymaint dra chymaint, a thawdd ynghyd, a bwrw mewn blwch, a gad ei sefyll mewn dwr hyd oni fo wedi oeri, a chraf y pen, a golch megis y dywetpwyd uchod, a chymmer liain a dod ar y pen, a dod

liain ar hynny, yna cais beth o'r un o'r blwch a gwna'n bylor a bwrw ar y lliain, a dod liain ar hynny, yna cais dalaith a rhwym y talcen a'r cyfan fal na choller y pylor, a gad yno vii neu viii diwarnod, ag am bob gwaith ag y newidych golch y pen mal y dywetbwyd, a phan welech di na bo raid wrth hynny mwy, cymmer saem traed **rredres** pan ferwer hwynt, a chwyth ef oddiar y dwr y berwech yndo i lestr arall, a dod ef mewn blwch, ag a hwnnw iro'r penn yny bo iach ; profedig yw.

I BERI I'R GWALLT DYFU.

§ 508. Eillia'r pen yn lân ag ellym, a chymmer fêl a sudd gwynwyn, gymaint dra chymaint, ag a hwnnw elïa'r pen a rhiglo'n dda bob bore, a phob nos golch y pen a distyll mêl ; profedig yw.

ARALL.

§ 509. Eillia'r pen yn lân ag ellym, ag elïa ef a mêl a bwrw arno bylor molle.

I WELLHAU'R GERI, A ELWIR HEFYD Y DUEGWST, A CHLWYF Y GERI.

§ 510. Cymmer redyn y cadno, goreu yw'r un a dyfo ar y dderwen, a berw mewn brecci du cadarn, ag yf lawn ddiod o hono bob yn ail ddydd dros wyth diwarnod, a bydd fyw ar fwyd cyfarpar o gig ffres heb lysiau eithr cymmeryd bara gwenith uchelgras gydag ef, ag yfed yn ddiod gwin da neu gwrw a llefrith yr unfaint o'r naill a'r llall, eithr ymddiodi'n arbedgar, a chymmer bylor had y garddwy, a'r ffunel, a moron y maes, ag anis, a chanel a'r cyfryw lysiau sychon ar dy ddiod, a cherdded yn dda bob dydd, ag ymgais a cherdd dafawd a thant a ganer gan arall, ag nag ymarfer dy hunan a cherdd, ag o ymarfer a'r pethau hynn ti a ymwellhei drwy Dduw.

RHAG MWYTH Y GALON.

§ 511. Cymmer isgell y bennigan ruddgoch, a elwir yn lladin *cariophilwm major*, am benn mêl, a phylor had anis, a had ffunel yn fwriedig arno, lawn ddiod nos a bore, a chadw'r blodau yn sych fal y gallech eu cael yr amser a fo ac hos o rflwyddyn.

PLASDER I ESTWNG HWYDD BRATH NEU DDYRNOD, NEU YSSIG ARALL AR GORPH DYN, MEU AR AELOD LLE BO'R HWYDD YN CUDDIO'R YSSIG.

§ 512. Cymmer ddyrnaid da o ddail yr helogan, a elwir yn y lladin *oleoselinwm*, a chann gwenith, a gwynn pedwar gwi, mortyra'r llysiau yn dda, a phwya'r gwynn wiau oni fo teneu, a dod y rhain am ben y cann gwenith a chymysg yn blasder, a dod wrtho, ag ef a dynn yr hwydd yn llwyr, fal y galler gweled yr yssig yn ddiffael.

RHAG Y DYRGLWYF, A ELWIR YN Y LLADIN *HYDROPS*.

§ 513. Cymmer does peilliaid croyw, a gwna'n goccwy neu bastai fawr fal y gweddai ynddi wydd neu dau gapwllt o'r lleia, a llanw y coccwy a'r llysieuoedd da hynn, nid amgen na dau ddyrnaid o'r geidwad ddof, dau ddyrnaid o'r ysgaw bendigaid, ag un dyrnaid o'r ddanhogen, sef cribau sanffrêd, ag un dyrnaid o ferw'r dwr, ag un dyrnaid o dafod yr hydd, ac un dyrnaid o wraidd y perllys neu'r halogan gwedi eu sigaw, a hanner dyrnaid o'r isob, a hanner dyrnaid o'r madwysc a elwir yn lladin *aquilegia*, a rhoi pob un o'r llysieuoedd yma, ond y perllys, yn y cafrom, yna cais wncyn o bylor gwraidd neu farfau cennin, wncyn o bylor anis, dau wncyn o bylor y glyf, au rhoi yng nghyd oll yn y coccwy uchod a chau arnynt yn dda a'r toes, ai roi mewn ffwrn frôd gyfennyd a'r bara, a chrasu'n dda, ai thynnu allan yn frôd ai thorri yn bedwar rhann, ag yn frydion eu rhoi mewn llestr pridd digonaid ei faint, ag arnoedd dau alwyn o hen gwrw da a chadarn wedi ei dynnu

oddiar y gwaddod, a chau ar y llestr yn dda da, á gadu felly i wastadhau un noswaith, ac o hynny allan yfed cryn ddiod o hono dair gwaith beunydd y bore, hanner dydd, a'r nos, a'r llynn hwnnw a fydd laccäad itti sy dymherach no'r lleill, a bwrw ychydig o ludy'r banal arno bob gwaith, ai yfed felly, a hwnnw a'th geidw, ag a etteil y dyrglwyf; profedig yw.

Y MODD Y GWNEIR LLYDY BANAL YR HWN SY DDA IAWN RHAG Y DYRGLWYF A RHAG Y TOSTEDD O'I ROI AR DDIODYDD CYFAMWEDD, NEU EI GYMYSGU A MEL, AI WNEUTHUR YN GYFFAITH, NEU YN BELENAU, A CHYMMERYD AMCAN O HONO NOS A BORE, DIM LLAI NA PHEDAIR PELEN NEU SWMP HYNNY O'R CYFFAITH.

§ 514. Cymmer dafell fawr o harn neu faen crasu, a thwyma yny bo coch tanllyd, a dod fanal irion ar y dafell amser y bont yn eu llawn had sydd oreu, a gad losci y llysiau au trafod yn dda, a llosci fal hynny yn y bo mesur ffiol chwech o'r llydy, yna ei roi ynghadw, a chaead yn dda iawn ar y llestr ai cadwer ynddo, fal nad elo naws o'r awyr atto nag oddiwrtho, a phan bo achos ymarfer a llwyaid o hono ar gryn ddiod o hen gwrw cadarn a da, neu ar fedd hen da, neu ar ddiod o win gwynn da.

RHAG IDDW COCH GWRESAWG, A HWYDD AG ANGHERDD, A LLOSGACH MEWN CYMMAL, NEU AELOD ARALL.

§ 515. Cais beilliaid blawd haidd ag ymenyn wedi ei gyweirio yn lân, a rhoi ychydig halen yndo fel pe baid yn ei fwytta, ai gymysgu a'r peilliaid bob yn ychydig yn o gymaint un ai gilydd, a gadw mewn llestr glân yn gaeedig cyd ag y mynnech, ai roi ar frethyn neu liain wrtho lle bo'r dolur, ag o chyfyd fel lefain ymod yn dda a llafnen o bren, ag o caleda neu sychu tymhera a gwynn wi, ag arfer ag ef; a iach a fyddi yn wir Dduw, canys profedig yw.

RHAG TARWDEN DDRWG.

§ 516. Cais wydr a phylora, a chymysg a sebon du, a dod wrthi yn fynych, ag iach a fydd.

RHAG POB GWAYW IDDW RHWYMEDIG NEU CHWYDDEDIG A FAI YN RHWYMO AELODAU DYN AI GEFN, O NATTUR IDDW GWRESOG.

§ 517. Cais y cegid, a'r lledlys, a'r malw, a'r ffenigl cochon, a blodau yr elestr os ceir, ag onid e cais yr hoccas, a briw hwynt rwng dy ddwylo, yr holl lysiau, a berw yn nwr y claf yn hir hir, a bwrw am ei ben ychydig ymenyn gwyra ai ferwi yn ffest, ai dynnu i'r llawr, ag a hwnnw golchi y dolur yn frwd, a rhoi y llysiau yn blaster wrtho yn frwd ar gadach brethyn, ai adu wrtho noswaith, ag yna ei dynnu ai dwymo drachefn ai osod wrtho yr ail waith, ag arfer o hwnnw yn y bo iach; a gwell y dwr dyn ei hun na dwr dyn arall rhag ei fod yn glwyfus, ag arfer o hynny a thi a fyddi yn iach yn lle gwir.

RHAG Y COSSI AR DDYN, A DWR I LADD EF PLE BYNNAG Y BO EF AR GORPH DYN.

§ 518. Cymmer bottelaid o ddwr glân, a dyro mewn llestr glân ar y tân, a chymmer un o'r elyf, ac wncyn o'r coprys glas, a dyro yn y dwr, a berw yn dda, ag yna tynn i'r llawr a gad i loywi, a dyro ef mewn pot pridd a chaeadu arno yn dda, a phyn fo rhaid wrtho dod beth o hono i dwymo, ag yna cymmer gadach lliain a golch y dolur ag ef, ag iach a fyddi, ac a sych y cossi ag ai diffrwytha.

RHAG YR EFRYDDWST SEF Y PARLYS.

§ 519. Cymmer ychydig o ddail y bae, a'r geidwad wyllt, a dail syfi, a dail neu wreiddiau y sammwl, a dail y gwyddwydd, a rhosmari, a mortyra bob un wrth ei hunan yn fâl mâl o'r llysiau hynn, a chymysg a bloneg a gwna belen fach o bob un o honynt, a dod mewn pot pridd deg diwarnod, ag yna dod mewn padell a thorr hwynt yn fân, a gyrr wres ynddynt uwch ben y tân, a chymysg ag ymenyn Mai neu eliw bras, a hidla drwy gadach yn dwym, a dod mewn

gwydren, a phan eloch i weithio ag ef dod wrth tân bob amser y bore a'r nos, ag ef â yn iach gyda Duw, profedig yw.

RHAG Y GWST MAWR NEU'R GWST MWYTH, SEF Y BYDD YN Y CYMALAU A'R TRAED, A'R DWYLAW, AG YNG NGHWYD Y CYLLA, A'R GLINIAU, A'R PEN, A HWYDD, A DIGOFAINT, ACHOS BOD Y LLYNNOR YN SYCHU YN BRIDD CALCHAIDD, A'R DOLUR HWN A ELWIR YN Y LLADIN * *Arthidys.*

§ 520. Cymmer sudd y tanclys, sef y tansi, a mel puredig, bob un o honynt gymaint ai gilydd, a chymysg ynghyd, ag os twym fydd y clwyf ffria ynghyd mewn padell a chadw ef yn dda, os oer y clwyf bydded oer y meddyginiaeth, a dod am y dolur ar wlanen † myail, ag y mae hynn yn dda, ag yn brofedig; o herwydd a welais: oblegid gwraig a fu'n gorwedd bedair blynedd yn y clefyd hynn, a hi a aeth yn iach mewn un mis o ymarfer a'r feddyginiaeth yma.

ARALL RHAG Y GWST MAWR.

§ 521. Cais amcan o ruw, ag amcan o halen bras, a'r gwynn a'r melyn o'r wi, ag ychydig o sebon du, a mortyra y rhuw a'r halen ynghyd a dod yr wi a'r sebon du ynghyd a nhwy, a phlasio'n dda gymysg tra chymysg, a dod yn blasder wrth y dolur, ag iach a fydd.

ARALL RHAG YR UN CLEFYD.

§ 522. Cais wynwyn, un neu ddau, a dyro i bobi yn dda o flaen y tân, a chais ychydig o'r distyll bendigaid a dyro uwch ben y tân mewn distyll peytyr yna torr y wynwyn yn fân, a berw yn y distyll bendigaid, a gad iddynt ferwi ychydig ynghyd, yna cais liain glân a hidla mewn dysgl, a hwnnw ira y dolur nos a bore hyd yn y bo iach, ag y mae

* Arthritis, I. M. † Miwail *forsan.*

llawer o'r meddygon yn dywedyd mai profedig yw hynn o beth, a chynfychaned o gost ag ydyw ef.

RHAG YR UN CLEFYD.

§ 523. Cymmer linhad, a gwaddod gwin, a chalch heb ei ladd, gymaint bob un ai gilydd, a berw ynghyd hir ferwad, a gwna yn blaster a dod wrtho, ag o bydd ef twym cais lysiau'r geiniog a briwa'n fân, a dod wrth y dolur, ag ef a dynn y gwres o'r hwydd; profedig yw.

RHAG YR UN DOLUR.

§ 524. Cais ddyrnaid o'r geidwad, a dyrnaid o lysiau'r afu, a dyrnaid o ddail y gwywydd, a berw mewn galwyn o ddwr dôf hyd onid el yn chwart, a golch y dolur ag ef, a gwedi y darffo yt ei olchi, dyro y llysiau wrtho, a gyda Duw iach a fydd.

ARALL RHAG YR UN DOLUR.

§ 525. Cais melyn tri o wiau gwedi eu pobi yn galed, a mâl mewn padell yn fân ar y tân, neu fel yn bylor, ag yna hidla yn lân, a da yw'r eliw hynn rhag y gwst mawr, a rhag llawer o glefydau eraill yn wir.

RHAG YR UN DOLUR.

§ 526. Cymmer sudd llysiau'r geiniog, ag ychydig elyf, a sudd llydain y ffordd os bydd eu hamser, a dwy lwyaid o bylor y cochwraidd, a dod mewn galwyn o ddwr rhedegog, a berwi yn dda ynghyd, ond nid da gormodd o ferw iddynt, ag ira'r claf ag ef cyn dwymed ag y gallo ef ei ddioddef, a throch liain yn y llynn hwnnw, a dyro arno, ag iach y bydd.

PLASTER RHIAL RHAG Y GWST MAWR YN Y PENN.

§ 527. Cymmer farlys lonaid dy ddwylaw a briwa yn fân mewn mortyr, a chymmer ddyrnaid o'r bittain, sef cribau sanffrêd, a briw yn fân wrthynt eu hunain gymaint a hanner y barlys o honynt, ag yna cymysg ynghyd ag viii o win, a brecci hanner cymaint a hynny, a chymysgu a'r bittain a'r barlys yn un agwedd ag iwd, a dod ar y tân i dwymo yn dda, a dod ar liain ar lled, a dod wrth y penn lle bo'r dolur cyn dwymed ag y gellych ei oddef ymhell oddiwrth escyrn y gruddiau hyd ganol y talcen, ag iach y bydd.

ARALL RHAG YR UN DOLUR MEWN PEN.

§ 528. Cais ddistyll rhos, a distyll y dderwen fendigaid a llaeth gwraig, a gwynn wi wedi ei lanhau a chymysg ynghyd, a dod wrth y pen, ag o bydd dim dolur ar lygad gellwng y sudd yn y llygad, ag iach y bydd.

RHAG Y GWST MAWR.

§ 529. Cymmer hanner mesur o win gwynn a gwer carw, a lle na bo hwnnw gwer llwdn dafad, a breision gwenith, nid y lleia, nid y mwya; a berw hwynt ynghyd hyd nes elon yn dew, ag yna cymmer dalm o arlleg a'u pilio yn lân a'u pwyo'n fân, a dod ynghyd ar eraill ond mogel rhag bod y llall yn dwym, o bydd fe gyll y garlleg y grym, a chymysg ynghyd, a dyro yn blaster rhwng y gwst a'r lle iach, fel y gallo hwnn ei dynnu ef ganto hyd yn ydd el yn iach.

RHAG POB GWAYW.

§ 530. Cais faccwyon y drysi, sef y mwyar, y rhai tynner, a brig banal, a brig rhuw, au pwyo yn fân ag yn fâl ynghyd, ond ynghyntaf eu golchi yn lân, au tymheru

gydag eliw gliwydden, ag felly gwneir yr eli hwnn, ag a hwnn elïa'r dolur.

RHAG Y DYRGLWYF OER NEU DWYM.

§ 531. Cais had anis a had y marchberllys, a elwir yn lladin *lefisticwm vulgaris*, a gwna'n bylor, ag arfer o hwnnw yn dy fwyd a'th ddiod; ag ysbignardd o ysbain y sydd dda yn y ddiod hwnnw ag ymhob diod arall.

ENNAINT RHAG Y DYRGLWYF, OER NEU DWYM.

§ 532. Cais frig y gwinwydd gwynion, a gwraidd y ffunel cochon, a'r bened, a berw ynghyd mewn padell hyd onid el y llysiau i'r gwaelod, a dyro mewn llestr fal y gallo ef ymenneinio yndo a golchi ei hun, a gwna gawl drwy ferw ffynhonau a chig twrch neu gig myharen ai ferwi hynn trwyddo, ai liwo a saffar, ag y mae ef yn dda rhag pob rhyw or dyfrglwyf, ai oer ai twym; i. e. yn Iesu.

RHAG GWAEDLING YR EISTEDDFA, A ELWIR CLWYF Y MARCHOGION, A'R LLEDEWIG.

§ 533. Cais ddistyll bendigaid o'r goreu a gwlych liain main myal yndo, a gyrr i mewn rhwng y ddwy ffolen yn bella ag y gellych, os i mewn y byddan y lledewigion, os i maes y byddan golch hwynt a'r distyll dridiau neu bedwar wrth fyned i'r gwely.

RHAG YR UN PETH.

§ 534. Cais dafod yr afr, a dail y pren molen, au briwa ynghyd, a gwna'n bellenau bychain, a gad i'r dyn eiste mewn cadair maesa, sef un a thwll yndi, a chau y gadair, a dyro badell a than golosg, a bwrw y pellenau ar y tân, a chadw yr anwedd ynghylch y dyn, a dod hws drosto o ddillad.

ARALL.

§ 535. Eistedded y claf yn y gadair uwch ben ennaint brwd o'r malw, a llysiau'r geiniog, a llaeth gwartheg.

RHAG YR INGLOES.

§ 536. Berw'r llysiau llwydon, a mynt gwyrddon, a had y wewyrllys, a had ffunel mewn dwr a llaeth hanner yn hanner, ag yf gryn ddiod o hono yn frytta gellych, a diod arall o hono pan fo llawn oer, ag na yf ond dwr ar dy fwyd, a bydd wrth gyfarpar, gan ymwrthod ag ymenyn a breision o gigoedd, a chwrw da, a byw ar gig myharen bryd ciniaw, a llaeth gwartheg neu eifr nos a bore gyda bara gwenith uchelgras, a diod dda i'r dolur hwn yw carregyn calch dilosg yn falaid malaid, ai roi mewn dwr a llaeth yn ddiod lwyaid fechan ar y pryd; profedig yw.

LLYMA GYFARPAR DA I DDYN A FLINER YN FYNYCH GAN YR INGLOES.

§ 537. Cymmer bob bore, ddwyawr cyn pryd bwyd, dafell o hanner pryd o'r bara gwenith drwy ferman goreu, a chras o flaen y tân oni bo caled iawn a dugoch, a gochel ei losgi, a bwytta hwn wrtho ei hunan ag nag yf yn y byd ar ei ôl, ag o bwytti gig bwrw ymaith y brasder, a goreu cig cig myharen, a bara gwenith drwy ferman uchelgras o ffwrn gydag ef, a diod o ddwr neu lastwr ar y bwyd, ag arfer ag iydoedd a succanau blawd ceirch gyda llaeth neu fêl, neu win neu ossai, a gochel pob llysieufwyd o erddi, a mynn falu had ffunel a had garddwy, a had gwewyrllys gyda dy wenith bara ag ymgadw rhag ymenyn, a chig moch yn enwedig yr hen, a chaws breision, a chig gwydd, a chig hwyad.

RHAG Y CRAWNGLWYF, A ELWIR Y POSTWM.

§ 538. Cymmer laeth buwch, a llinhad, ag ychydig arlleg yn bwyedig, a berw yn dda ynghyd, a gwna'n blasder, a dod wrtho.

DWR RHAG POB RHYW O'R GWST MAWR.

§ 539. Cais had y morgelyn o wyl Fair gyntaf yn y cynhaiaf, a dyro mewn pot pridd ei lonaid a chaeadu'n glos clos arno, a dod yn y ddaear lawn hanner llath o ddyfnder, a gad yno hyd wyl Fair diwetha yn y gwanwyn, ag yna agor ef, a thi a gei yn y pot ddwr gloyw, a chadw ef yn dda mewn gwydr tra chaeedig; da iawn yw ef rhag pob rhyw o'r gwst mawr.

I BERI'R LLYGAID YN LOYWON.

§ 540. Cais bysgod ffrais sef y rhai a welir fal ysgadan mân, a dod yn yr haul neu o hirbell o flaen y tân mewn gwres gogyfnaws a haul yny delo saem o honynt, a chymysg hwnnw gyda mêl, ag ira dy lygaid.

RHAG LLYGAID A FO'N RHEDEG.

§ 541. Cais ddail y bresych cochon, a elwir mewn mannau y cawl cochon, a bloneg iâr, a phwya'n dda ynghyd, a dyro wrtho y nos dan rwymau.

RHAG GWAYW MEWN LLYGAID.

§ 542. Cais sudd ystol Fair, rhai ai galwant llysiau Lleurwg, a sudd llysiau'r wennol, a berw ynghyd, ag ira dy lygaid.

RHAG ESCYRN TWN YM MHEN DYN.

§ 543. Yf sudd cribau sanffrêd bedair llwyaid dair gwaith y dydd ar dy gythlwng, a hwy a ddont allan.

RHAG Y CANCAR.

§ 544. Cymmer bengaled, a thraed geifr, a chrasa mewn ffwrn, a gwna yn bylor, a dyro ar y cancar.

RHAG Y GWST MAWR DREWETTIG.

§ 545. Cais sudd llysiau Mair, a llysiau'r ais llwynhidydd y 'i gelwir, a gwynn wi, a chlustiau llygoden, a chan blawd rhyg, a gwna blasder a dod arno, a lliain arno hyd oni sycho, ag felly beunydd yny bo iach.

RHAG Y GWRTHLYS.

§ 546. Cais lydain y ffordd a gwna yn blasder, a dod wrtho, ag iach y bydd.

RHAG Y CRAWNGLWYF MEWN PENN, A ELWIR POSTWN Y PENN, O BYDD ATTAL AG YSTOPIAD YN Y CLUSTIAU.

§ 547. Cais chwerwyn y twyn ai bwyo'n dda, ag eliw y cnau almon, a dod mewn llwy arian ai ddodi ar ucha marworyn, ai adu i ferwi, ai gymysg yn dda, a chymmer liain glân a gwna wareth, a throch yn y llynn, a dod yn y clust dolurus, a rhwym hyd pan dorro'r crawn allan; profedig yw.

I DYNNU DANT A PHYLOR.

§ 548. Cais wraidd llysiau'r moch, a had duon, a dyro y gwraidd mewn llaeth geifr ai pwyo ynghyd yn dda, yna dod attynt yr had duon yn bwyedig ar eu pennau eu hunain at y gwraidd pwyedig, a gweithia'r cwbl yn dalp, a dod hwnnw mewn gwin egr ℥iii nieu, a newydda y gwin egr dair gwaith, ag yna gwna'n bylor y talp, a dod win egr arno ymhellach dridiau, a phan loywo tywallt i bant y gwin egr a gad sychu y pylor yn yr haul neu yn ias haul o dân, a dod yn y dant, os cau, ag ef ai tynn yn ddiboen, yn ddi derr.

RHAG GWAYW YN Y PEN, A'R PAS.

§ 549. Cais wynwynyn coch a briw yn fân mân, gydag ychydig o fustl, a dyro gyda'r pwyaid ychydig o fêl a berw yn dda, a phan ddarffo i ferwi dod yn dynn ai dorr i fynydd, a bwrw beth yn ei ffroenau, a gad iddo godi yn ei sefyll ag efe a entrewa, ag a fydd welliedig ag esmwythaedig.

I WNEUTHUR CADACH PYGOG.

§ 550. Cais ddeuwnc o gôd, deuwnc o byg, deuwnc o dwrpant, deuwnc a chwarter o'r mastic, wnc o ystor tus, au cymyscu ynghyd yn dda, a dod ar y tân a chymmer rann o sudd llydan y ffordd, a chymysg a nhwy, a dod y cadach yn y tawddlynn hwnuw, a gad iddo gymysgu digon o hono ef, a chymmeryd a elo i mewn iddo, yna dod ef i oeri, a phan fynnych ymwaith ag ef dyro wrth y tân i dynneru, a dod wrth y clwyf, lle bo briw neu ddolur arall mewn corph dyn.

Y MODD Y GWNEIR PLASDER YMRAINT TRED, OND EI FOD YN OF I DDOLURIAU A FONT YN LLOSCI.

§ 551. Cymmer yr helogan sef perllys yr hêl, ag a elwir gan eraill march berllys yr hêl, a sena, a gwraidd y gellesg neu'r elestr, a gwraidd llysiau'r moch a elwir y morel, a llydan y ffordd, a phwya'n dda oni bont fâl mâl, a dod attynt fêl, a gwynn wi gwedi ei lânhau, a chann gwenith, ag yna eu dargymysg yn dda da, gan ei darllaw au trafod ynghyd, a gwybydd nid ar y tân, ond ei weithio ai ddarllaw yn oer hyd yn y bo tew fel iwd, ai ddodi ar liain, a dodi wrth yr archoll, ag ef a ladd y llosgfan ag a ddwg yr archoll yn ei nattur ei hun; hwn y sydd bennaf o blasderon i bob dolur.

I WNEUTHUR TRED DA I DYNNU GWAED NEU FRIW O DDOLUR.

§ 552. Cymmer hen gig moch, a thawdd ef mewn padell, a gad i sefyll nes myned yr halen i'r gwaelod, a chymmer gwyr morwynig gymaint a'r tawdd, a thus yn bylor, a gad ymdawdd ynghyd, a dargymysg yn dda, a gwedi myned y gwres o hono, cais bylor mastic yn gymmedrol ar tus, a dyro ar y tân, a chymysg yn dda, a phyn oero dyro gymain o bylor swlffwr ag o'r tus a'r mastic, au trafod yn dda ag yn ddiwyd, yn y bo'r cwbl fal mêl, a dyro mewn blwch yn y bo rhaid wrtho.

RHAG MELYNU DANNEDD A DREWI.

§ 553. Cais ddail y geidwad a phwya'n fâl a chymmer y ddau gymaint o halen a chymysg ag ef, a gwna yn belenau, a chras ef oni losco, ag yna pylora, a rhigla dy ddannedd yn fynych ag ef, a hynny a wna'r dannedd yn lân ag yn wynnion ag yn ddiadsawr.

RHAG Y CANCAR.

§ 554. Cais galch heb ladd, a phubur, a mynt y meirch, a bustl cadarn, a mêl, a blawd haidd, o'r un gymaint a'i gilydd, a berw yn dda mewn llestr pridd, a gwna yn bylor, a dyro ar y cancar ac ef ai dinistra.

ARALL.

§ 555. Cymmer galch heb ladd a phylora, a llosgladd arian byw pedryran y calch, a dod am ben gymaint o fêl ag ai gwna yn doesyn, a dod mewn llestr pridd mewn ffwrn, brydni bara, a chras gyfennyd a chrasiad bara, a phan oero dod i gadw mewn gwydr yn drachaeëdig, a chymmer a fo raid a phylora, a bwrw ar y cancar ag ai lladd yn gwbl, yna

dod blaster glanhau wrth y dolur, a phan y bo glân o gwbl, dod eli twf ar warethi, ag ef a iacheir y claf.

RHAG DYRGLWYF LLE BO'R DWR RHWNG CIG A CHROEN.

§ 556. Cais barion crwyn defaid, a berw hyn elon yn dew, a dyro wrtho ar liain.

I DORRI CLWYF AR A FYNNYCH, AI AGOR DRACHEFN.

§ 557. Cais amcan o sebon du, ag arall o fêl, a thrydydd o gann gwenith, au darllaw ynghyd, a dod wrtho. O mynni dorri y clwyf yn ebrwydd dod lawer o'r sebon, a da yw.

RHAG Y TAN GWYLLT, SEF Y CLEFYD O CLAFYCHA DYN EF A FYDD FARW.

§ 558. Cais domm colommen dwym, a blawd rhyg, pwys o bob un o honynt, a phwya ynghyd, a dod attodd hanner pwys o win egr, a chymysg yn dda, a dod yn oer wrth y clwyf, a dod ddail y cawl ammodd i ddala ynghyd, a chlwm liain yn glos oddigylch i'r dolur, a gad yno dridiau heb symmud, ag o'r hwyaf ef a fydd iach o fewn y plasder.

RHAG Y GWST MAWR SEF MWYTH Y GEWYNOD.

§ 559. Cais surion y coed, a'r llysewyn a elwir Gras Duw, a elwir mewn mannau yr yrddon neu'r orddon, a'r tryw, a'r tanclys, a llysiau'r crymman, a'r ddilwydd felen, a'r fabcoll a eilw rhai fanwylyd, a dail iorwg, a'r maeseifiau, cymaint o un a'r llall o honynt, au pwyo'n dda ynghyd, a hidla, ag yf y sudd yn ddiod , a da yw.

I WNEUTHUR ELI RHAG Y GWST MAWR.

§ 560. Cais floneg mochyn bychan a elwir mewn mannau byrhwch, a bloneg ceffyl, a bloneg baedd, a'r llysiau a elwir y tormwyth neu'r wermwd wenn, ag yn y lladin *ffebriffuga*,

wedi eu pwyo'n dda, a chymysg ynghyd a thawdd hyd ferw a gwedi y berwi yn y ceir ffrwyth y llysiau, yna hidla a dod yr eli i gadw mewn gwydr yn gaëdig, ag ira'r dolur yng ngwres y tân.

ARALL.

§ 561. Cais ferw'r cerrig, a llysiau'r corph, a'r geidwad, a chymaint a gwi o suwgr, a dod mewn llestr gwydr hyd ei hanner, a llanw ar hynny halen yn y bo llawn y llestr, a gwybydd yrhaid yw pwyo'r llysiau yn fâl drwy hen gwrw, a dodi'r llestr yn ol ei drefnu'n barod yn yr haul wythnos neu yn naws haul o dân, a thi a gai eliw o hono, a chadw ef yn anwyl, ag a hwnn iro'r dolur; yna cais frann gwenith, a gwin gwynn, a bloneg baedd, a berw ynghyd a gwna blasder, a dod wrtho cyn dwymed ag y gellych ei oddef ar yr hwydd a hwn ai gyrr ymaith.

ARALL.

§ 562. Cymmer falwod duon a phob hwynt o flaen y tân mewn llestr pridd, a chadw y tawdd mewn llestr glân, ag a hwnnw eliä'r dolur; y mae yn dda i'r gwst dwym ag oer.

ARALL.

§ 563. Cymmer byg, a chwyr morwynig, a thus, a gwêr defaid, a bloneg baedd, a ffriä hwynt yn dda ynghyd, a hidla, a dod i gadw mewn blwch, ag a hwnnw iro y dolur.

ELI DA I GORNWYDON, AG ARCHOLLION.

§ 564. Cymmer frasder cig moch toddedig a gad yr halen syrthio i'r gwaelod, ag yna cymmer y brasder, a chwyr morwynig, a phyg, a thus, a gwna eli o honynt, a dod wrtho lle bo achos.

ELI I DDOLUR PENN.

§ 565. Cymmer sudd ysgaw Mair, gwaed y gwyr au geilw rai, a mêl, a halen, a chwyr, a thus, au berwi ynghyd, ag a hwnnw îr dy ben neu'r arleisedd.

RHAG Y GWST MAWR YN Y CYLLA.

§ 566. Cymmer ddyrnaid o'r tanclys a phwya'n lled fâl, yna dod arno chwart o win seg, a gad sefyll noswaith dan gaead da mewn llestr o bren derw, yna dod mewn llestr pridd diystaen a rho ledias berw iddo, yna hidla ag yf yn dair diod un y nos wrth fyned i'th wely, a dod arnot ddillad yn dda mal y chwysot, cymmer yr ail ddiod yn ail nos a'r un peth y drydydd, ag iach y byddi. Da yw arfer cysgu mewn llenni gwlenyn neu frethyn hannerpan.

ARALL.

§ 567. Cais gesseiliaid o'r tanclys ag un malw, ag un o'r chwerwyn, a hanner hynny o'r geidwad ledfegin ag o'r rhosmari, a berw yn dda mewn pair, a dod yn y dwr bwys punt o halen, a dod yn ennaint mewn llestr digon o faint i'th drochi'n gwbl, a dos ynddo guwch a'th fwnwg, ag am danot lenni gwlenyn i'th gynnal yn dy lawn chwys aros ynddo amcan o ddwy neu dair awr, gan borthi'r llestr a llynn twym a fo achos i gynnal y gwres, ag yf dair llwyaid dda bob hanner awr o hen fedd da a bwrw arno ychydig o had y ffunel yn byloraid, ag ymhen yr amcan a ddywetpwyd gad oeri'r ennaint, a phan el yn ei lygwres yn naws llefrith newydd odro neu dan y fuwch, dos allan ag i dy wely a dod am danot wlenyn yn dda a chymmer lwyaid ar ben pob awr o'r isgell bendigaid hyd ymhen chwechawr, ag ymgadw amcan o ddyddiau rhag cael anwyd, ag iach fyddi.

RHAG DOLUR CYMALAU ODDIWRTH OERFEL, NEU DRALLAFURIO, NEU YSSIG.

§ 568. Cymmer wŷg y môr a berw yn nwr y môr, ag enneinia'r dolur a hwnnw mor frwd ag y gallech ei oddef, yna dod y gwŷg berw ym mraint plasted wrtho gwedi eu pwyo yn dda a chynfrytted ag y bo hawdd ei oddef, a da yw'r feddyginiaeth rhag pob dolur a hwydd o gwymp ag ergyd.

RHAG Y PAS.

§ 569. Cymmer foneg moch, a garlleg pwyedig ag ychydig o fêl, a berw yn dda, ag elïa draed y claf ag ef, yna dod wlenyn am y traed a digon o ddillad am y claf yn y gwely, ag edrych fwrw ymaith y dillad tra chwyso, ag iach a fydd yn wir gwir.

RHAG Y CANCAR.

§ 570. Dod sug wynwyn cochon ar y dolur, a gwna blaster a dail yr efyrllys ynghyd au cellydr, ai blodau, au had os byddant yn bwyedig gyda mêl, a gwinegr, ag ychydig elyf; profedig yw.

RHAG BRECH YR YSGYFAINT.

§ 571. Cymmer flodau yr ysgawen, a phan nas gellir blodau y boglynau, neu'r dail, neu'r rhisg gwyrdd nesa i'r pren, a surion y coed, a berw mewn maidd geifr neu wartheg, ag yf yn unig ddiod dros naw wythnos, ag fal na bo arnat naws o ddiffyg y blodau casgl hwynt yn eu hadeg a sych yn dda yn yr haul a dod gadw, a berw yn y maidd lle bo achos, ag yn ni cheir surion y coed, berw afal manfriw gyda'r blodau yn y maidd; a da hynn rhag pob brech yn y gwaed a'r llynnor.

RHAG Y RHYNNWST.

§ 572. Cymmer bwys punt o arlleg a phwya'n dda a dod arnyn chwart o win seg da, a lle na bo hwnnw hen gwrw da neu fedd cadarn, a gad sefyll yn glosiedig o gaead, ag yna hidla dan wasg, ag yf yn lygdwym, ag os mewn cymmal neu aelod y bydd y dolur dod y garlleg yn ol eu gwasghidlo i fryttau, a dod yn dwyma gallech wrth y dolur; profedig yw.

RHAG DOLUR MAGL AR LYGAD.

§ 573. Cymmer sudd y melynllys ag ychydig fêl a chymysg yn dda, a dod ag asgell ar dy lygad nos a bore; profedig yw.

RHAG Y MWYTH DU.

§ 574. Cymmer had anis, a had ffunel, a mâl yn dda, a chymmer rhuw a phwya'n dda, yna dod win gwynn neu seg da arno a gad sefyll chwech awr, ond y cyntaf a rodder i'r claf rhodder ias berw i'r defnyddiau er cael yn ddiaros, yna hidla'n lân a rho i'r claf yn unig ddiod.

ARALL.

§ 575. Cymmer wynebion cwrw newydd o'r îl, a rho lwnc da i'r claf unwaith ymhob teirawr neu bedair awr ar hugain, ag yna rho iddo fara gwenith drwy ferman wedi ei grasu yn dafell o dorth ym mlaen y tân a dodi gwin da arno yn frwd a bwyttaed ag yfed y gwin yn fân brydiau pen y pedair oriau; profedig yw.

RHAG YSSIGTOD AR LYGAD.

§ 576. Cymmer berllys a phwya'n dda am ben menyn gwyra, a dod yn blasder wrth y llygad yn glaerdwym.

RHAG Y MANNOGI AR LYGAD.

§ 577. Cymmer sudd y melynllys, a sudd ffunel, ag ychydig fêl, a bwrw yn y llygad nos a bore, a chanol dydd, a gwisc am y llygad fal nas delo'r goleu arno ; profedig yw.

RHAG Y PENDRONI.

§ 578. Cymmer wraidd priellau, a dail y geidwad, bwys traphwys, a berw yn dda, a phwya'r gwraidd yn gyntaf, gad ferwi oni dderfydd y dwr ym mraidd cuddio'r llysiau, yna hidla dan wasg, a chymmer gryn ddiod o hono nos a bore, dwyawr o flaen a dwyawr gwedi bwyd.

RHAG LLOSG HAUL AR GROEN.

§ 579. Cymmer ddail llysiau'r geiniog yn frasbwyedig a hufen llaeth, a berw ynghyd ar dan araf a mâl yn eli, ag elïa'r dolur.

ELI LLYGAID DA.

§ 580. Cais win egr, gwin gwynn, a sudd y melynllys, a eilw rhai llym y llygad, a sudd llydan y ffordd a dod mewn padell a chymysg ynghyd, a dod gyfor ar y llestr, a gad sefyll iii diau, a iii nos, cig ag oddyna dod mewn blwch, ag a hwnnw îr dy lygaid.

TRED RHAG CORNWYDON A GWAED BRIWEDIG.

§ 581. Cymmer fraster cig hen faedd, a chymmer y naill hanner o gwyr morwynig, a thus, a mastic, a berw ynghyd, a phan fo agos i oeri, dod ynddo gymaint o swlffwr pyloraid ag o'r thus, a gwaith ef yn eli, a chadw mewn blwch.

RHAG DOLUR A FO'N AGORED AG NI CHAU.

§ 582. Cas dûs, ag arnamentwm, a mâl hwynt yn bylor, a dod yn yr archoll.

TRED DA.

§ 583. Cais lydain y ffordd, a llysiau'r crymman, a'r tanclys gwyllt, a mortyra'n dda ynghyd gyda bloneg ffres, a gad i bydru ix nïeu ag ymhen y nawnydd cymmer a berw yn dda a hidla drwy liain, a dod atto gwyr, a thus, a * rhos pur, a thawdd ynghyd, a gwneuthuredig yw.

ELI GWAYW YN Y PENN.

§ 584. Cais sudd yr ysgaw bendigaid a elwyr gwaed y gwyr ym mannau, a chwyr newydd, ag ystor, a berw ynghyd, ag a hwnnw îr dy neidrwydd.

I WNEUTHUR ELI DA.

§ 585. Cais sudd yr halogan, a sudd tanclys, a morel, a sudd llydain y ffordd, a sudd llysiau'r geiniog, o bob un gymaint au gilydd, a mêl, a chann gwenith, a bloneg baedd, a gwêr defaid, a chwyr, a berw hwynt ar y tân yn y bont tewon, a hidl ef trwy liain, a da yw.

I LYGAID TYWYLL.

§ 586. Cais sugn yr eidral, a sugn gwraidd y ffunegl, a sugn y melynllys sef llysiau'r wenol, a bloneg hwch, a mêl, ag ychydig win egr, a gwaed llysowen, a bustl ceiliog, a dod mewn llestr yn y flodeuo, ag a hwnnw îr dy lygaid; hynny a wna i ddynion gael eu golwg gwedi y collynt; profedig yw.

RHAG DOLUR LLYGAID.

§ 587. Llanw bliscyn wi a sudd ffunegl, a rhud, a mêl gloyw, a gwin, a thrwnc mab bychan, ag îr dy lygaid ag ef.

* Rhosin mae'n debyg.

ELI LLYGAID.

§ 588. Cais felwed duon fis Mai, a dod ar farwor i rostio, a chymmer a saem, a chadw tra cheffych, ag a asgell îr dy lygaid.

RHAG MAGL AR LYGAD, NEU WAYW.

§ 589. Cais felyn wi a blawd gwenith, ag ychydig o goprys glas, a gosod wrtho pan elych i gysgu'r nos, ag efe a hwysa'r nos, gwna hynny dridiau ag iach a fyddi.

RHAG BYDDERI.

§ 590. Cais fustl hwch, a llaeth geifr, a mêl gloyw, a dod yn hoyw dwym mywn dy glustiau; meddyginiaeth yw honn ni ffaela fyth.

RHAG CIG DRWG A DORRO, A GWEDI Y TORRO.

§ 591. Cais lawn ddyrnaid o'r geidwad, a hanner dyrnaid o lydain y ffordd, a'r unfaint o'r ffunel cochon, au berwi oll mewn chwart o ddwr, a chwart arall o fêl, neu ddau chwart o ddwr a fydd oreu fel y dioddefo hwy ferwad, a phwys punt o elyf gwynn, au berwi yn hir ag yn dda hyn el dan ei draian, a dyro y llysiau yn gyfain ond eu torri rhwng dy ddwylo, a rhoi mewn llestr i gadw a'r llysiau yndo, a hwnnw y sydd ddwfr da i iro pob cancer, a phob cig drwg, a phob gwewyr, a phob cig noeth, lle y bo nattur gwenwyn neu greulonder arall, ai olch a'r dwr hwnnw, ag iach a fydd trwy Dduw.

RHAG CIG DRWG AR EI DDECHREU OS CEISI EI LADD AI DDINISTRO AR HYNT.

§ 592. Cais fêl, a thriagl, ag elyf, a swlffwr sef y llosglist, ag arian byw, a phlwm pyloraid, a gwna'n blasder, a dod wrtho yn fynych, ag iach a fydd, ag oni bydd iach er

hynny dod wrtho blasder o fêl a huddigl du, a iach y bydd gyda Duw yn wir.

DIOD I BERI I DDYN GYSGU.

§ 593. Cais sugn yr opiwm, a sugn y morgelyn neu eu had, a llefrith, a gwna belenau ag ef, a dyro i'r claf, a llynced un, ag ef a gysg, ag oni chysg wrth un dyro un arall ag un arall yny gysgo, ag aros dwyawr neu dair i weled ai cysgu ai nad ef a wna cyn rhoi ar a rodded iddaw.

RHAG TARDD AFRIFED.

§ 594. Cais floneg, a sebon du, ag arian byw, a maedd hwynt ynghyd, a gwna eli ag ef, ag îr y clwyf, a thi a fyddi iach.

RHAG Y CLEFRI NEU'R DDARWYDEN FAWR.

§ 595 Cymmer fadarch, a lle ni bo ffwng y ddaiar a elwir bwyd llyffaint, a'r dail cochon a fydd ar y gwern, ag ymenyn puredig, a berw ynghyd mewn llaeth defaid, ag yna hidlo trwy liain crai, ag yn fynych iro a hwn, ag iach y byddi gyda Duw.

RHAG CRYGENACH AR DDYN NEU DRYSTLIF AR GROEN DYN.

§ 596. Cais wraidd y tafol cochon a berw drwy laeth defaid ddwy awr o leiaf, a thynn i lawr, a don ymenyn puredig yndo, ai hidlo drwy liain crai, ag a hwn iro'r dolur, ag iach a fydd.

RHAG CRACH YMGRAFU.

§ 597. Cais wynn wi a gloywa yn ffest trwy liain, a sugn y ffunel cochon, a sugn y melynllys, a mêl gloyw, a thrwnc mab bychan, a gwin gwynn gymaint ai gilydd, a chymysg yn ffest, ag a hwnnw îr dy gorph, a'th lygaid o bydd rhaid.

RHAG TARDD GWAHANOL, A ELWIR Y GWAHANGLWYF.

§ 598. Cais wraidd y tafawl cochon, a gwraidd y marchalan, a dail y gwywydd, a chenin y brain, a brig y banadl, a gleison y coed, a'r meddygyn, a rhedyn Mair, a'r fabcoll sef dail anwylyd, a mortyra nhwy ynghyd gydag ymenyn heb halen, a dod ferwi yn dda, yna tynn i'r llawr a hidl yn lân drwy liain crai, a dod ynddo amcan o losglist pyloraid, a rhwd gwyrdd, ag a hwnnw îr yn fynych ag iach y bydd trwy Dduw.

RHAG Y MARCHWRIAINT, SEF DOLUR A FYDD YN O DEBYG I DARDD LLYNNORIG, A CHOSI AFRIFED ARNO.

§ 599. Cais mêl ddiariddwg, a mêr llwynog, ag ystor, au cymysg yn dda drwy bwyo arnynt yn ffest mewn mortyr oni bo'n eli, ag a hwnnw îr y dolur.

RHAG Y CORNWYD.

§ 600. Cais sugn y moriel, a sugn yr erllyriad, a blawd haidd, a gwynn wi, a gwna'n blasder a dod wrtho.

ARALL.

§ 601. Cais chwerwyn yr ardd a elwir ym mannau y tormwyth, a'r bengaled, a'r llyse llwydon, a llysiau Mair, a'r gaswenwyn, a llygaid y dydd, au golchi yn dda, au mortyru yn dda trwy hen gwrw, a rhoddi i'r claf lwyaid ar unwaith, ag o cais yn amser ef ai amddiffyn. Diod yw houn.

RHAG GWAYW DYGYRCH.

§ 602. Yf sudd y tanclys drwy hen gwrw a da yw, pwyo'n dda ynghyd, a hidlo.

RHAG DOLUR YM MWNWGL LLE BO TARDD NEU GORNWYD YN Y LLWNC, A MWYTH YN CYDFYNED AG EF.

§ 603. Cymmer ddail y geidwad, a rhud sef y rhuw, a berw mewn dwr, ag yn ol y berwo ychydig tynn i lawr a

dod win egr atto, a mêl yn y bo lledfelys, ag a hwnnw yn glaiardwym golch dy enau a'th lwnc gan boeri'r golch allan a gochel ei lyncu, a gwedi golchi yn dda yf gryn ddiod o'r llynn, gwna hynn dair neu bedair gwaith yn y dydd, a chynifer gwaith y nos, a chymmer y malw, a dail y geidwad, a rhuw, gymaint tra chymaint, a phwya'n dda, a dod atto ychydig laeth defaid, neu laeth a fo'n barod, gymaint ag ai ireiddia blaster, a dod yn glaiar am y mwnwgl, a newid fal y sycho, a chadw yn dy enau ar ei dawdd faint cneuen ddwywaith o hen fêl caled puredig, gwna hynn drydiau ag iach y byddi drwy Dduw.

ARALL.

§ 604. Cymmer ddail y geidwad, a rhud, a gemmau neu flodau y pren ysgaw, a lle na bont y rhisgl nesa i'r prenn, a'r malw, a'r tormwyth, a dod mewn mortyr, ag ychydic o fêl ag ychydig win gwynn neu win egr am eu penn, au pwyo'n dda, ag a pheth o'r pwyedigaeth gwna yn blaster ar wlanen a dod yn glaerdwym am y mwnwgl a chwedyn hidl yr arall, ag yf ddwy lwyaid or sudd penn pob dwyawr, ag a llwyaid arall cyn pob yfed, golch dy lwnc a'th enau a bwrw y golch allan gwedi ai trafedech yn dy enau a'th lwnc ag na lefais ei lyncu gan y bydd gwenwyn y dolur ynddo. Ag yn lle plaster, ti a elli iro dy fwnwg a'r sudd gyda phob yfed, a chadw gwlenyn am y mwnwg; gwna hynn dri diwarnod ag iach y byddi gyda Duw.

ARALL.

§ 605. Berw y rhud mewn gwin gwynn a hidl, ag yf bedair llwyaid pen pob teirawr, a golch y mwnwgl dan wlenyn gyda phob yfed, a chyn pob yfed golch dy enau a'th lwnc a'r berw a gwin egr hanner yn hanner, ag yna bwrw allan y golch, a thi a iachëi gyda Duw.

ARALL.

§ 606. Cymmer afal mawr a thyn ei lygad, yna tynn ei galon a pheth o'r bywyn, yna cymmer rud a briw yn fân mân a dod yn yr afal, a dod arno y llygad a dynnaist yn dynn, yna pob yr afal ym mlaen y tân, a phan fo digon a digon, cymmer a phwya ynghyd a dodi am ei benn ychydig o fêl, a llwyaid o win gwynn, a'u cymysg yn gyflaith, ag o hwnnw cymmer lwyaid ar benn pob dwyawr yn y bot iach, a chynn y cymmeryd, golchi genau a llwnc a berwyn rhud a gwin egr hanner yn hanner.

LLYMA GEGOLCH DA.

§ 607. Cymmer ddail y geidwad, a rhud, a'r malw, a blodau'r ysgaw yr îr neu ynteu'r sych, a berw yn dda mewn dwr, ag yn ol berwi dro, dod win egr a mêl llwyaid a llwyaid at y berw, a gad ias iddynt o ferw, a hidl yn lân drwy liain têg a dod gadw, a phan y bo gofyn claeara o ddwy i bedair llwyaid, a chymmer yn dy enau, ag yna ei drafod ai yryn a'th gyhyd a gallech gan ochel ei lyncu yna bwrw allan, gwna felly o ddwywaith i bedair, a llwyaid ar y pryd, a da yw rhag pob dolur genau a llwnc, ag ymarfer ag ef ymhob amseroedd peryglus lle bo echrysaint ar gerdded, a hynn ai gwared gyda Duw, a gwedi y golcher y genau, os bydd echrysaint yfed llwyaid o'r llynn ac ef a'th amddiffyn gyda Duw.

RHAG Y MWYTH GWERSEDDAWG AR BLENTYN.

§ 608. Berw ddyrnaid o ddail y pumpys mewn llaeth buwch, a rho lwyaid benn pob awr i'r dyn bychan hyd ymhen y tridiau, ag ef ai iachäa gyda Duw.

I LADD CIG MARW MEWN BRATH NEU DDYRNOD.

§ 609. Cais hen wer, a hen dom ceiliagwydd, a chrofen bara rhyg a phlisg wiau, a halen, gymaint o bob un au

gilydd, a dod i gyd mewn crochan a llosg hwynt yn bylor, a mâl hwnnw yn fâl mâl a dod arno.

ARALL.

§ 610. Cymmer galch wedi ei losci bwys punt, a'r un faint o'r glist a elwir aurbibau, a dod hwynt mewn posned i ferwi gyda dwr amcan fawr o amser, yna tynn i lawr a gad sychu lle nad elo un dyfydwch arno, a phan y bo llwyr o sych, gwna'n bylor, a hwnnw dod ar y cig marw ag ef ai lladd, da hefyd yw i ladd y cancar, ai ddodi arnaw i aros awr ag o hynny i deirawr ar y dolur, ag yna ei olchi a llaeth defaid claiar, a lle na bo hwnnw llaeth buwch neu afr, a gwna hynn unwaith bob dydd yn y gwelir lladd y cancar; yn dod warethi ag eli twf wrtho, ar holl amser yfed y claf ferwyn gwlydd y perthi, a chribau sanffrêd yn unig ddiod, ai unig fwyd berw mewn llaeth, a goreu llaeth geifr, a dwy waith yr wythnos cig manllwyn llawn oedran.

RHAG BRATH.

§ 611. Cais ddynhaden wraidd a chwbl, golch y gwraidd, a phwya'r ddynhaden yn dda, yna berw hi gydag ymenyn gwyra, a gwna'n eli, a dod wrth y brath, ag iach y bydd.

MEDDYGINIAETH RHAG BRATHAU.

§ 612. Cais floneg moch a thawdd ef, a mêl, a gwin, a blawd rhyg, a berw ynghyd, a dod ar gadach brethyn ar y brath, ag ef ai carth y brath, ag ai iachâ, os cau a wna yn rhyfawr, cais y llysewyn a elwir y nep wyllt, a gwna yn blaster a dod wrtho, ag ef ai hegyr.

Tau amryw gyfluddiaethau y sydd ir iddw, nid amgen, twym ag oer, y twym yw'r enbyttaf o'r ddau a ffroenau heleyth a ddaw arno, ar oer y sydd a ffroenau canolig iddaw, ag o achos hynny rhaid yw amryw feddyginiaeth iddynt,

achaws y gwresawg a ofyn ei feddyginiaethu a phethau oerfelawg, a'r clwyf oerfelawg a phethau gwresawg. Fel hynn ydd iacheir y clwyf oerfelawg, y dolur hwn sydd lancole; Cais wynn wi a blawd rhyg, a gwna does a dod arno, a gad wrtho hyd pan ddigwydd i hunan, a gwna felly hyd yn y bo iach.

MEDDYGINIAETH DROS Y CIG A DDREWO, AG A FO GWRESAWG TYLLAU, AI GYLCHON.

§ 613. Cais ganrig a mêl gloyw, a gwna does, a gwna ef yn deisen, a dod ar y tyllau, a phan fo raid dod arall, ag felly hyn fo iach a heini.

MEDDYGINIAETH GYFFREDIN RHAG POB RHYW IDDW.

§ 614. Cais garth a briw yn fân, a golch mewn lleisy a wneler o gwrw gwenith, a berw yn dda a dod ar y dolur noswaith a hanner dyddgwaith, ag yna ei dynnu oddiwrtho, a golch y dolur a thrwnc gwr, ag yna dod arno ef y pylor a wneler fal hynn, cais esgyll gwyddau a thynn y garw ymaith, a llosg hwynt, a gwna'n bylor, a dod hwnnw ar y dolur, a dod arno yntau floneg cath goed neu floneg twrch, gwedy hynny dod ddalen o gawl arno, a chymmer hen gwrw da a wneler drwy wenith heb haidd, a llanw ysten newydd a'r cwrw, a dod halen yndo, ag arfemeint a ffyg o bob un gymaint ai gilydd, ag o gwyr mwy nag un o honynt, a berw hwynt ynghyd hyn font tew, ag yna tynn i'r llawr, a gad ei oeri, a gwna blasder a dod wrtho, yn gyntaf y pylor a ddywedpwyd uchod, a phlaster o'r bloneg arno, ar ddalen gawl ar hynny, a symmud bore a nos, a dyro isgell neu ferwyn y fabcoll i'r claf i yfed, canys y dydd y hyfo ef hwynt ni bydd mwy y dolur na lled na chynt.

ARALL

§ 615. Cais sudd y fabcoll, a sudd y malw bendigaid a had llin, a briw i gyd, a dod gyda mêl a llaeth buwch

unlliw, a dod hwynt mewn ysten newydd a berw yn dda, ai ddodi yn dwyma ag y galler ei ddioddef ar y dolur.

ARALL.

§ 616. Pylor o bubur, a berw mewn gwin egr hyn y traul y gwin egr yn llwyr, yna elyf pyloraid, ag ystor, a rhwd gwyrdd, a mêl, au cymysg yn dda ynghyd mewn mortyr, ai ddodi ar gadach yn blaster wrth y dolur.

MEDDYGINIAETH RHAG GWAYW IDDW YN YR ASGWRN.

§ 617. Dod had y morgelyn mewn ysten, a dod dan y lludw i rostio yn dda, a gwasg drwy liain yn dda ag yn lân, ag yna bydd gliw, ag a hwnnw îr y dolur, ag oni bydd yr had cais y llysewyn wraidd a chwbl a dod i rostio a gwasg fal uchod.

ARALL YW.

§ 618. Cais eliw rhos ag îr ag ef, a gwna isgell y geidwad wyllt ag isob drwy win, neu sudd y llysiau drwy win, a dyro i'r claf yn unig ddiod yn y bo iach.

ARALL YW.

§ 619. Cais bys gwynnon a dod hwynt ar y tân i grasu yn dda, a gwedi hynny gwna bylor, ag îr y dolur a mêl gloyw, yna bwrw y pylor hwn wrtho, a gad yno hyd yn y digwyddo o honaw ei hunan oddiyno, yna gwna fal o'r blaen hyn fo iach.

RHAG GWAYW IDDW A HWYDDO.

§ 620. Cais wreiddion y rhedyn a mortyra yn dda, a chymysg ag ychydig o ddwr twym yn dda, a chwedi hynny gwasg trwy liain a gwna blaster o honaw a blawd haidd, a thorr wynn wi am ei benn wrth ei weithio'n blasder, a than ag yscif ar gadach a dod wrtho.

MEDDYGINIAETH RHAG GWAYW I BROFI PA UN FO LLE Y BO HWYDD, AI CIG O'R AIS I'R LLALL, AI PYDRI ARALL.

§ 621. Yn gynta îr y dolur a mêl o bob parth iddo, ag yna cais gaws gwyra, a blawd rhyg, a dod hwnnw yn y ddaear noswaith, ag oddyno ar y tyllau lle y tebygech fod y prŷf, a chlwm ef yno, a thrannoeth pan symuttych o bydd tyllau yn y caws gwybydd di fod y prŷf yno.

ARALL YW.

§ 622. Cymmer a dod felweden ddu, ag o gweli di y felwheden gwedi ei bwytta dranoeth pan symuttych ,y pryf a fydd yno.

Y FFURF A'R MODD Y LLEDDIR Y PRYF.

§ 623. Cais wraidd yr elestr ddu a briw mewn gwin a mêl, a chymmer falwheden, a dod yn nesa i'r dolur lle bo'r clwyf uchod neu gig drwg, a dod y rhaini i gyffeithio arno, ag ef a ladd y prŷf.

ARALL YW.

§ 624. Cais bubur a rhist, a had llin, a'r chwerwyn, a sych y tri hynn ynghyd, a gwna bylor, a dod arno, ac ef ai lladd.

MEDDYGINIAETH RHAG BRATHAU NEU WAYW GWLYBYRAWG A FO YN CRAWNU, AI Y CANCAR.

§ 625. Cais arfeniaint a gwna yn bylor, ag îr a hwnnw.

ARALL.

§ 626. Cais hen floneg, ag arian byw, a thus, a mastic, ag ychydig o bybyr, a briw bob un o honynt ar wahan, a chymysg hwynt gyda'r bloneg yn oer, a dod yr arian byw gydag ef, ai ladd yn dda da, ag a hwnnw îr y dolur wrth y tân.

ARALL.

§ 627. Cais sudd gwraidd y taf *as, sudd y fabcoll as, sudd mynt y maesydd as, sudd y malw bendigaid as, sudd llydan y ffordd as, a dod mewn padell ar y tân gyda bloneg, a gwna'n eli, ag îr y dolur ag ef p'le bynnag y bo, ac iach y bydd.

O blith yr holl gystuddiant hawl beriglawr clefydon y pryderic ac y hofnir y cig drwg ar cancar gwyllt, ac o ddychlynaidd feddyginiaeth y gwaredir hwynt, nid amgen,

RHAG I CIG DRWG O BOB RHYW NATURIAETH A PHOB RHYW IDDWF HEFYD.

§ 628. Cymmer grawn yr ŷd, a halogrwydd iair, a ffa duon, a garlleg, a halen, a chagl geifr, ag escyrn march, a darnau o frattiau gleision, a dod mewn crochan pridd a chau arno yn dda a dod ar y tân a gad yno hyn font yn bylor, a bwrw y pylor hwnnw a'r cymaint a phybyr a phylor o'r gwydr gwynn ag o'r garlleg, a golch y feli a gwin egr a thrwnc, neu a thrwnc sur, y nos a'r bore, a dod y pylor arno, a iach y fydd.

Hefyd cais gagl geifr ag ymenyn a chymysg, a dod arno, y pylor yn gyntaf.

Hefyd cais ardimentwm a chwyr newydd, a dod arnaw y pylor yn gyntaf, ag ar wartha hynny y cwyr newydd, a phan osteger ei wenwyn ai lid dod arnaw blaster o sudd llydain y ffordd, a mêl, a gwynn wiau, a blawd rhyg, ag yf y bore sygn yr erllyriad ar fabcoll o'r dryw. Peidied a'r caws, ag a'r cnau, ag a'r gwragedd, ag iach a fydd.

RHAG YR UN PETH.

§ 629. Cais wadd a llosg mewn crochan pridd yn y bo'n bylor, a gwna'n fâl mâl a bwrw y pylor hwn arno ag yn y

* Ystyr *as* ydyw *dippyn bach*.

lle y bo y cig marw, a chymmer gleyrllysc a'r bengaled, a mortyra'n dda gyda chydig o fêl ag ymenyn, a gwna yn blasder, a dod arno, ag ef a ladd y cig marw, ag ai gwna yn iach.

Hefyd bwrw arno bylor y geidwad, ag ef ai rhwym ag ai gwna yn iach.

RHAG YR UN RHYW BETH.

630. Cais sandr ag elyf, a choprys, a mwtrwm, a rhwd gwyrdd, a gwna yn flawd mân a bwrw arno, a gad yno ii neu iii dydd, ag yno dod arno y dryw wedi fortyru yn oreu ag y gallech, a chymysg a mêl glân, a dod arno ei lonaid hyd na bo dim yn noeth, a charth yn lân ddwywaith beunydd, ag yn lleigys ef a fydd iach.

Oni chai y llysiau uchod cais hyddigl a lludy llopanau, a thrwnc sur, a chymysc yn dda ai ddodi wrtho i ladd un dydduchod, a gwna fe yn iach a dryw a mêl megis y-dduchod.

RHAG Y CANCAR.

§ 631. Cais goprys, a ffypyr, a briw hwynt ynghyd, a thymhera nhwy gyda gwynn wi a mêl wedi y darffo y lan-hau ar y tân; îr y dolur yn galed lle bo'r cancar.

RHAG Y CANCAR.

§ 632. Gwna bylor elyf gwynn a dod arno.

RHAG ANADL DRWG.

§ 633. Cais sudd y ganhewin, a sudd y tormwyth, a sudd llysiau'r angel, a sudd y brynllys, chymysg a mêl a rho lwyaid y boreu ar gythlwng, ag un wrth fyned i'r gwely i'r claf ag iach y bydd.

I DDYN A GOLLO EI ODDEG NEU EI DDYWEDYD YN EI GLWYF.

§ 634. Cais y brynllys a gasgler y Sul gwynn neu nos wyl Ieuan fedyddwr, a berw y rhain, a sych a gwna'n bylor, a dyro ar ddiod i'r claf i yfed, a da yw.

RHAG DOLUR AR GOES A FO'N DREWI.

§ 635. Berw ddail y derw mewn gwin gwynn neu goch, a dod y gwin a'r dail wrtho, a da yw.

ARALL.

§ 636. Cymmer eliw'r liwydden hen, a gwin gwynn, a chymysg yn dda, ag elïa'r dolur, ag efe a dynn ymaith y drygwynt, ag ai iachâ.

I WRAIG A FO YN FFAELU ESGOR.

§ 637. Cais sudd y sewyrllys, a dyro iddi gyda dwr.

I ATTAL GWAED O FRIW NEU FRATH, NEU O ACHOS ARALL, NEU ARCHOLL O BA RYW BYNNAG.

§ 638. Cais ddynaid, a phwya'n dda, a bwrw win egr am eu penn, a dod wrth yr archoll, mogel rhag llewygu y dyn, ag os gwna cymmer win egr ag ira ei arleisedd ag ef, a dyro ddiod iddo.

RHAG GWAEDLING GWRAIG.

§ 639. Cymmer goccwyon cnau a phylora'n fâl, yna gwna isgell a'r rhisg nesa i'r prenn o'r drain duon, a dod ychydig fêl, a bwrw y pylor ar y llynn, ai yfed yn unig ddiod hyd ymhen y mis, a gwna felly fis arall o bydd achos.

RHAG GENAU DOLURUS.

§ 640. Cymmer lwyaid o sudd y geidwad, a llwyaid o sudd rhut, a llwyaid o win gwynn neu o win egr, a llwyaid o fêl, a chymysg; yna golched y claf ei enau ynghyntaf a

dwr a halen, yna cymmered y llynn a ddangoswyd yn ei enau lwyaid ar y pryd a thrafoded ai dafawd ai anadl yn dda, onid el yn ei lwnc, a gochel ei lyncu, a bwrwed allan, a chymmered lwyaid arall a llynced, ag ef ai iachâ, a gwnaed eilwaith ag eilwaith hyn fo iach, a da'r feddyginiaeth honn i wared rhag doluriau peryglus.

I WARED RHAG DOLURIAU PERYGLUS.

§ 641. Yn amser y bo doluriau peryglus cymmer sudd y rhud a gwin gwynn neu hen fedd cadarn hanner yn hanner, ag yf lwyaid neu ddwy bore, ganol dydd, a nos wrth fyned i wely, awr o leiaf cyn neu ar ol bwyd.

ARALL.

§ 642. Cymmer ddyrnaid o rud, a phedwar penn o arlleg, a dyrnaid o'r geidwad a phwya nghyd am benn gwin neu fedd da, yna hidla'n lân ag yf bedair llwyaid bob bore ar dy gythlwng tra phery'r echrysaint.

CARTH DA I'R CORPH.

§ 643. Cymmer lonaid llwy o sudd y fflamgoed, a thus pyloraid am ei benn, ag y mae ef yn dda i'r ddwyfronn ag i'r cylla.

ARALL.

§ 644. Cais sudd isob lonaid llwy a berw mewn chwart o win coch a gad ferwi yn ydd el i'r hanner, yna dyro i'r claf i yfed, y nos yn dwym a'r bore yn oer.

PRO MORBO kadendo, HYNNY YW Y CLEFYD CADARN.

§ 645. Cymmer y gwysglys a elwir uchelfar y derw, a dod mewn ysten bridd ddiystaen a chae yn glos clos arno, a dod ar dân araf nid rhy agos, a sych yny bo a ellir ei bylori heb ei losgi, gwna'n bylor, a dyro i'r claf ymhob diod

a phob bwyd, hefyd gwna doesyn ag ef am benn mêl a dyro gymaint a gwi colommen i'r claf i fwytta rhwng prydiau bwyd, a dilyn ar dros naw wythnos; profedig yw.

ARALL.

§ 646. Casgl y gwysglys y Nadolig frig a dail a gwyfon a chwbl, gwna gyffaith a'r gwyfon drwy fêl bwys dra phwys, a dodi gadw yn glosgaedig, a'r cwbl arall o'r llysewyn pylora fal y dywetpwyd uchod, a lle bo claf cymysg a'r cyffaith a elo yndo, a chadw ynghyd yn ddidor a difraeniad o'r pylor, a bwyttaed y claf ei lawn dammaid ar gythlwng fore, nawn, a nos; profedig yw.

ARALL.

§ 647. Cymmer fustl ci, a chrog ef yn y tŷ y bo'r claf, lle caffo wynt dridiau, yna bwrw mewn cwrw amcan o chwart, a berw hyn el yn beint a dyro i'r claf pan gotto o'i syrth, cyn y delo'r clwyf yr ail waith arno.

RHAG CLWYF YN Y CYLLA.

§ 648. Cais had yr *un, a llinhad, a rhwnig, a phwya nhwy'n dda am ben gwin gwynn, a dyro yn glaerdwym i'r claf i yfed y cwbl o hono, ag o'r gwin a gwnelo'n yfadwy.

RHAG HWYDD MEWN CYLLA.

§ 649. Cais wraidd y ffunel, a gwraidd yr un, a phwya'n dda, au tymheru gyda gwin a mêl, ai roi i'r claf i yfed, ag iach y bydd.

I WYBOD PUN AI BYW AI MARW Y BYDD BRATHEDIG.

§ 650. Cais lysiau'r crymman, neu leth, neu feillon, a dyro iddo i yfed, ag os bwrw, ef a fydd marw, sef am benn dwr yn bwyedig a hidlo y gwneir y ddiod.

* Qu. ynn?

MEDDYGINIAETH I ARCHOLLION.

§ 651. Cais floneg moch toddaid, a thawdd ef am ben mêl, a gwin, a blawd rhyg, a berw ef yn dda a dyro ef ar liain wrth yr archoll, ag ef a sugn ag a lanha'r archoll, ag ai iachâ ef yn lân.

I AGORI ARCHOLL.

§ 652. Cais erfin gwylltion a phwya'n blasder, a dyro wrth y dolur, ag ef ai hegyr ag ai gwna yn iach, a hynny a brofed.

I IACHAU ARCHOLL.

§ 653. Cymmer y llysewyn a elwir ystol Fair, eraill ai geilw yr arlladys, a gwna'n bylor, a bwrw hwnnw yn yr archoll, ag ef ai iachäa gyda Duw.

I ATTAL GWAEDLING O DRWYN GWR NEU WRAIG.

§ 654. Cais y perfagl, rhai ai galwant yr erllysg, a dod mewn cadedlyn am wddwg a waedo, ag y mae yn brofedig.

Llawer o beryglus ddolurau a chlefydon o bob amryw wahanawl gystuddiaeth a fag ag a breswylia mewn corph dyn o wenwyn ag angerdd y manwynnon, a thrwy ffrwyth-lawn feddyginiaeth y gwaredir hwynt nid amgen.

RHAG Y MANWYNNON.

§ 655. Cais lygaid y dydd, a'r erllyriad, a tharo ar ddiod yn dew a chymmer ddwst a nadder o faen glas, a dyro ar y ddiod iw yfed, a hynn ai gwna yn iach, os ceiff cyn y cyscu.

RHAG Y MANWYNNON CYN Y CYSCU.

§ 656. Taro lygaid y dydd, a'r lysogen, a'r erllyriad, a dod yn blaster arno, ag yf y sugn hwnnw.

ARALL RHAG Y MANWYNNON.

§ 657. Cymmer flodau'r bengaled neu y dail, a briw gyda melyn wi a halen mân, a dod wrtho.

ARALL RHAG Y MANWYNNON.

§ 658. Cais wraidd y dynaden goch, a gwraidd y ganwaid lwyd ar ei *emdawd, a berw mewn glastwr llefrith, a dod ymenyn yndo, ag yf lawn ddiod o hono nos a boreu a chanol dydd, ag nag yf arall o ddiod hyd fot iach; profedig yw.

RHAG Y MANWYNNON GWEDI Y BWRWO EI DAM AI LOSGFAN ODDIWRTHO.

§ 659. Cais yr amranwen, a llosglist puredig yn bylor, a berwi drwy lastwr geifr hyn ddarffo ei holl irder, a chrasu a malu yn bylor mâl, ag a hwnnw iro y dolur, a hwnnw a bair cyfyngu pob gweli.

RHAG TRAHENI Y MANWYNNON.

§ 660. Cais fêl, ag ystor gwynn, au maeddu ynghyd, ag yn dwym 'i ddodi wrtho.

ESGYRN TYNNON.

§ 661. I gyfannu asgwrn twn cais y melynllys a berw drwy win a ffypyr, a mêl, ag yf beunydd yn ddiod nawnieu, a hwynt a gyfannant oll.

MEDDYGINIAETH RHAG YR ESCYRN TWN.

§ 662. Rhwyma'r aelod yn gyntaf, gwedi hynny cymmer fes creision au pylori, a dod bedair llwyaid o'r pylor am benn chwart o lastwr hanner yn hanner, a berw yn dda, a dod yndo ai lledfelusio o fêl puredig, a dyro i'r claf yn unig

* *Emdawd*, blodau a gemmau Gwydd. D. G.

ddiod hyn welläo; hefyd, cymmer win a mêl a halen a blawd rhyg gymaint bob un ai gilydd, a chymysg ynghyd a gwna blasder, a dod arno, a hynny au cyfannant.

Pwy bynnag a yfo isgell y mill a elwir ym mannau y fioled, ef a deifl allan escyrn tynnon yn lleigys.

I ADNABOD O BYDD ESCYRN TWN MEWN AELOD DYN AI NA BONT.

§ 663. Cais wynn wi, a llin, a llaeth bronnau, a gwna yn blaster a dod wrtho, ag oni sych y plaster gwybydd di fod yr asgwrn yno, ag oni bydd, ef a sych yn grinca.

I DDYNION A GOLLONT EI SYNWYRAU.

§ 664. Cais lygaid y dydd, a bryton, a'r geidwad, a phwya'n dda a dod ar win, a gad sefyll deirawr yn glosgaedig, yna hidla yn lân, a dyro i'r claf i yfed.

I BERI DYWEDYD, O COLL DYN EI BARABL YN EI DDOLUR.

§ 665. Cymmer y geidwad neu llysiau'r crymman, a mynn ei sudd a bwrw yngenau y claf, ag ef a gaiff ei barabl.

I BERI CYSGU.

§ 666. Cais y pabi sef bwlwg yr yd, a gwell yw na'r bwlwg ffrengig, a'r morgelyn neu 'u had, a mortyra'n dda, a berw mewn gwin, ag a hwnnw îr dy ffroenau, a llygaid, a chlustiau y claf yn fynych, ag ef a gwsc.

ARALL.

§ 667. Cais had y morgelyn, a'r ffaflys, a mortyra yn dda a chymysg a llefrith, a gwna belennau bychain a dyro iddo bob yn un hyd chwech neu wyth o bydd achos pen pob hanner awr, ag ef a gwsc yn ddi air.

ARALL.

§ 668. Cais rawn y pabi, a berw mewn cwrw, a dyro yfed, ag ef a gwsc.

ARALL.

§ 669. Cymmer gorn gafr, a berw mewn dwr, a gad oeri a golch dy benn a thi a gysci, a dod y corn berwdig dan dy benn.

RHAG DOLUR BRONN.

§ 670. Cais yr erllyriad, a bloneg moch, a phwya ynghyd yn fâl mâl, a dod wrtho hyn fo iach.

RHAG BRONN DDOLURUS.

§ 671. Cais wraidd yr erfinen wyllt sef yr isgell gwylltion, a chraf ei risg ucha ymaith, a gwna dwn yn ei goppa a dod garreg las arno, a dod yntau yn y ddaear iiii nieu neu v nieu, ag yna agor ef a chymmer y sudd a fo yn y twnn, a chadw mewn llestr gwydr, ag a hwnnw îr y fronn ddolurus.

RHAG CRAWNU BRONN.

§ 672. Cais gŵyr gwyry a * them wrth dân a gwna wisg i'r fronn a dod wrthi, ag ef a sugn y gwenwyn allan.

RHAG YR UN RHYW.

§ 673. Cais wraidd y cegid a briw yn fân a blawd haidd a llefrith buwch unlliw, a gwna blaster twym a dod wrtho.

ARALL.

§ 674. Cais waddod aesel a chwyr newydd, a gwna blaster a dod wrtho, trwy ferw y gwneir y plasder.

GWAYW MEWN BRONN.

§ 675. Pwya fynt yn blaster a dod wrthi.

* Qu. *a thein*, â tannu?

PRYF MEWN BRONN.

§ 676. Cais wiau brân, a llosc a gwna'n bylor, a chymysg a sugn chwerwyn y twyn, a dyro yfed.

MEDDYGINIAETH I WARED RHAG ECHRYSAINT.

§ 677. Cymmer wer manllwyn, a bloneg twrch ffres hanner yn hanner, a thawdd a hidla'n lân, yna dod eilwaith ar y tân, a chymmer amcan o ruw a phwya'n dda a dod am ben y tawdd, a berw amcan dda ynghyd, yna hidla, ag a hwnnw elïa dy holl gorph, a rhiglo yn dda ag yn galed tra phery'r echrysaint.

ARALL.

§ 678. Cymmer lwyaid o sudd rhuw a llwyaid o fêl yng nghymysg bob bore ar dy gythlwng, tra phery'r haint, a da'r feddyginiaeth honn a'r un uchod i wared rhag pob echrysaint, ai chwys, ai cornwyd, ai brech, ai mwyth du ai'r fad felen y bo.

LLYMA DDIOD DRWY ARCH DUW A WNEIR I DDYN BRATHEDIG AG A DDAW ALLAN FFORDD Y BRATH, AG A IACHA O'R TU MEWN, NID AMGEN.

§ 679. Cais y tanclys, a brig y *gwarch a brig dynaid cochon, a brig y †trysi cochon, a brig y cawl cochon, a llydan y ffordd, a'r fabcoll, a'r cochwraidd sef y madr, ac o hwn gymaint ag o'r saith eraill oll, a mortyra ynghyd yn dda, au berwi mewn hen gwrw cadarn, ai hidlo, ai yfed y nos yn dwym a'r boreu yn oer, a dodi dalen o'r cawl cochon ar y brath heb ddim mwy no hynny, ag iach y bydd—ag o chesgli y rheini fis Mai, ac o'r hwyaf wyl Ifan, au mortyru au gwneuthur yn beleni bychain, au sychu mewn sychan heb wynt mawr na haul ddim ti au ceffi yn amser y flwyddyn

* Cywarch, *forsan*. † Drysi, *forsan*.

na bont ar gael yn amgen. A gwell y cadw hyn fo raid, ag yna eu briwo mewn cwrw, a gwneuthur fal y dywetpwyd uchod.

LLYMA'R MODD Y GWNEIR MEDDYGINIAETH RHAG DOLUR-AU O WYNT YN Y CYLLA.

§ 680. Cymmer ddistyll bendigaid neu ddistyll gwin, a dod ar byloren a wneir o bwyaw yn dda y llysiau sychon yma, nid amgen maccwyon neryw sychon, had ffunel, a had moron y maes a elwir nyth y deryn, a had perllys, a had gwewyrllys, au rhoi ynghyd mewn pottel wydr a chaead yn glos clos rhag myned o'r enyfed ar acholl, a chymmer o lwyaid i ddwy lwyaid pan fo'r dolur.

I WNEUTHUR Y GLIW A ELWIR YN Y LLADIN **OLWM FFEIN-WM*, SEF HYNNY GLIW FFWYN.

§ 681. Cais ffwyn sef gwair y mân o'r manaf a ellych ei gael, a briw yn fân mân, a bwrw mewn llestr dau alwyn, ac o drwnc ai llanwo, a gad yno dridiau a thair nos i bydru, ag yna berw, a rho floneg twrch yndo, a gad ei ferwi nes treulo'r hanner, yna tynn i lawr, a hidla yn lân, ag yna y ail ferwi nes traul y naill hanner i hynny, a thynn i'r llawr i oeri, a chadw yn dda ag yn lân, canys mae yn dda rhag pob clwyf y tu mewn i ddyn ag a fagco oerfel, ag y mae'n dda rhag gwayw hefyd, og *olwm ffeinwm* y gelwir hwn.

Amryw beriglus ddoluriau y sydd, a llyma ddangos amwy neu o feddyginiaetheu y rhaccynt.

RHAG CAFFAEL Y CRAFLOSG, SEF Y DOLUR YMGRAFU.

§ 682. Cymmer losglist a chelchyn annhawdd, a dod mewn llestr, a bwrw arnaw chwart o isgell y geidwad, a chau arnaw yn dda, a gad ei sefyll chwech awr, yna diwal y

* *Oleum fœnum, sef yw hynny olew gwair.*—Iolo Morganwg.

gloywon, ag îr dy gorph ag ef cyn yr elych i dŷ neu wely peryglus a thi a waredir.

ARALL.

§ 683. Cymmer ddail y geidwad a phwya'n dda am ben gwin egr, a hidla ḍan wasg, ag a hwnnw îr dy gorph.

ARALL.

§ 684. Cymmer ddistyll bendigaid a bwrw ar ddail y geidwad yn bwyedig, a chae yn dda rhag colli'r ednyf, a gad sefyll deirawr, ag a hwnnw îr dy gorph.

AMWYN RHAG MWYTHEN YN ATTARDD DAIL.

§ 685. Cymmer risg derw y nesaf i'r prenn, a dail y geidwad, a llyseu Cadwgan, a berw mewn cwrw da, ag yf gryn ddiod y boreu ar gythlwng deirgwaith yr wythnos, a da hwnn i wared y dolureu.

AMWYN RHAG Y MWYTH DU.

§ 686. Cymmer ddyrnaid o'r rhuw, a dyrnaid o'r geidwad, ag amcan o had y ffunel, a phwya ynghyd, a bwrw deuchwart o win seg da arnynt, a gad sefyll deirawr dan gaead ffest rhag coll yr ennyf, ag yf bedair llwyaid y bore ar dy gythlwng, a da yw rhag pob echrysaint.

ARALL.

§ 687. Cymmer o ruw, a'r geidwad, a rhosmari, a rhisg y pren cerdin i'r pren o bob un lawn ddyrnaid, a chymmer win egr drwy waddod a dod am benn y llysiau mewn distyll a dardynu ennyf, ag yf lwyaid nos a bore, a bwrw ychydig yn dy ffroenau, ag îr dy arleisiau a chylch dy ddirgelwch a'th arffed, a'th lofennau, a'th arddyrnau, a gwadnau dy draed, a phwll dwyfron, a mwnwgl, a hynn a'th wared rhag pob echrysaint.

ARALL.

§ 688. Cymmer win egr a berw, a dod mewn pottel bridd ag am ei benn amcan o ddistyll bendigaid, a chymmer ei ennyf i'th ennau a'th ffroenau, yna yfed y llynn yn gynta peth a wnelech y bore.

ARALL.

§ 689. Briw yn fân ddail y geidwad a rhuw llawn ddyrnaid o honynt, a dod mewn pottel wydr a distyll gwin am eu penn a chae yn dda rhag colli'r ennyf, yf lwyaid bob bore.

ARALL.

§ 690. Cymmer lawn ddyrnaid o ruw, ag o'r geidwad, ag o chwerwyn y twyn, a brasbwya nhwy a dod mewn pridd diystaen, ag am eu penn ddeuchwart o win egr gwin gwynn, a chae yn dda arnaw, a gad sefyll chwech awr, yna golch dy holl gorph ag ef y bore fal y codech, ag yf lwyaid, a thi a waredir drwy Dduw, a da yw yn amwyn rhag y chwysaint.

ARALL.

§ 691. Ymolch yn nwr y mor a rhiglo dy gorph yn dda beunydd, ag ar hynny ymolch dy holl gorph a gwin neu a gwin egr unwaith y dydd, ag lwyaid o ddwr y mor benn pob awr.

ARALL.

§ 692. Cymmer y rhuddos a phwya'n dda am ben gwin da neu win egr, neu fedd cadarn, neu hen gwrw cadarn, a hidl yn lân, ag yf led ddiod y boreu ar dy gythlwng tra phery'r echrysaint, ag o chlafychu nid rhaid ond yfed hwn yn unig ddiod, a da o amwyn yw rhag yr echrysaint ffrengig, a elwir y plag.

ARALL.

§ 693. Casgl chwerwyn y twyn, a rhosmari, a'r geidwad, a mynt cochon, a llysiau'r corph, a sych yn dda, yna dod mewn ffettur gwely, ag ar hwnnw cysg awr bob bore lle bo a'th ddeffry a mogel cysgu arnaw yn fawr dros amcan o awr rhag trymmed y cwsg, yna codi a golch dy ddwylaw a'th wyneb a gwin egr, ag yf lwnc o hano, ag yf ddiod o win da unwaith y dydd, a mogel cigoedd namyn manllwyn ddwywaith neu dair yr wythnos gyda bara gwenith uchelgras.

ARALL.

§ 694. Cymmer amcan o ryw, ag o fynt, ag o'r geidwad, ag o rosmari, a phwya'n dda gan fwrw ychydig win egr neu win gwin am eu pennau, yna hidla dan wasg a berw hyn fe'n dew, yna dod ychydig fêl am ei benn a phylor had rhuddos, a phan oero gwna'r tewych yn belenau maint pys, a chymmer un bob dwyawr o'r dydd tra phery'r echrysaint, ag os y chwyshaint y dolur dod yn lle had rhuddos, neu am ei ben ef, a ellych ei doesi am benn y tewych a wnelech yn belenau.

RHAG YR EFRYDDAINT.

§ 695. Golch dy holl gorph a gliw gliwydd unwaith yn y dydd a rhigla yn dda, yna îr y cefn o'r gwegil i'r gloren a mêl twym, a rhiglo yn dda, a gwedi hynny rhiglo'r holl gorph a myned i wely a digon o ddillad yn y tardd chwys, a gwedi y darffo y chwys o lwyr a llwyr, dos yn nhrych yn y mor, a gwisg wlenyn ar dy gefn a'th ddwyfron, ag iachau a wnei, gyda Duw.

RHAG Y RHYRED, SEF Y TRADD COCH.

§ 696. Cymmer afaleu a briw yn fân, ar un bwys o fêl, a dod mewn posned bridd ddiystaen ar y tân neu o flaen y tân yn y digono'r ffocced, yna cymysg yn dda a dod mân

greifion cwyr newydd am ei benn, a gyrr dawdd arno, gwna'r cwbl yn gyflaith a chymmer lwyaid bob dydd ar gythlwng.

RHAG DOLUR YN Y CYMALAU ACHOS OERFEL, A RHAG YSIGTOD, A DOLUR O FRIW.

§ 697. Cymmer ffioled o hen gwrw da, ag ychydig o greifion cwyr, a mêl, a berw ynghyd yn y bo tew a dod ar gadechyn wrth y dolur.

CYFLAITH RHAG ECHRYSAINT.

§ 698. Cymmer ruw, a'r geidwad, a chribau sanffrêd, a phwya'n dda am ben mêl ag ychydig win egr yn y bont wedi eu llwyr gyfladd yn nis gellir adnabod un oddiwrth arall o honynt, a chymmer faint mesen fawr pen pob dwyawr, ag ymhen awr ar ei ol dair llwyaid o win cadarn, hefyd cymmer fêl, a gwer manllwyn, a chyfladd yn dda mewn mortyr, a chadw o'r cyflaith faint mesen yn dy enau i doddi ymhob yn ronyn, ag a hwnnw hefyd iraw dy gorph unwaith o leiaf yr wythnos.

Y MWYTH A'R TARDD.

§ 699. Cymmer lysieu'r gerwyn, a phwya'n dda am ben gwin a hidla dan wasg, ag yf lwyaid neu ddwy pen pob awr, ag yn ddiod rhag sychedd, berwyn yr un llysiau.

RHAG CRYGNI.

§ 700. Cymmer surion y coed, neu surion y gerddi, a garlleg, a phwya'n dda hyn fo llwyr gyfladd arnynt, yna cymmer wer manllwyn a thawdd a hidl, yna cymysgu mêl ag ef hanner yn hanner, a dod am ben y llysiau pwyedig, a chyfladd y cwbl yn dda, yna dod yn dy enau ychydig o'r cyflaith, a gadael ei doddi ai lyncu fal y toddo, a phan dderfydd cymmer eilwaith, ag eilwaith yn y symuder y crygni.

ARALL.

§ 701. Cymmer wraidd dynaid a chras yn gras cras, yna eu pylori, a chyfladd y pylor am ben mêl ag ymenyn gwyra, a chymmer lwyaid o'r cyflaith hwyr a boreu.

Y TARDD CENNOG.

§ 702. Cymmer ddail y cyngaw a phwya'n dda am ben ychydig win, a hidl, ag yf dair llwyaid nos a bore a channol dydd, hefyd yf isgell y cyngaw yn unig ddiod, a golch y dolur ag ef yn frytta byth y gellych ei oddef, ag iro ar hynny ag eli cyfladd gwin, a gliw'r liwydden, a mêl; profedig yw.

Dau amryw gwynofus a pheryglus ddolureu y sydd, nid amgen, bratheu pryfed a gwenwyn, ag a fyddant arddescyn-awl mewn amryw foddion ar gorph dyn, ag anghenraid ymweglyd rhagddynt, ag fal hyn y gwaredir hwynt.

RHAG BRATH NEIDR.

§ 703. Cais yr erllyriad, a'r bengaled, a phwya'n dda au taro ar ddwr ai yfed yn unig ddiod, a thi a waredir gyda Duw.

ARALL.

§ 704. Cais yt sugn yr egllyriad gyda gliw gliwydden, ag yf, ag îr y dolur ag ef.

ARALL.

§ 705. Yf isgell y ganwraidd, a golch y dolur ag ef.

ARALL.

§ 706. Cais ymhennydd ceiliawg coch, a sugn y rhut, a llefrith neu laeth, a dod wrtho, neu gigfran yn frwd, ag yf laeth yn unig o fwyd a diod yn y bot iach.

RHAG BRATH NEIDR.

§ 707. Os gwr, dod geiliawg coch wrth ei din ar y brath hyn fo marw,—os gwraig, iâr yn yr un modd.

ARALL.

§ 708. Cais garrai o groen llwdn hydd a rhwym bob hanner i'r brath, yna cais iâr a thyn y pluf o gylch ei thin, a dod din y iâr yn fyw ar y brath a dal hi yno hyd pan welych yn hwyddo, yna dod arall yn yr un modd hyd pan dynnor y gwenwyn oll i maes, yna dyro i yfed isgell a wnelych a'r llysieu yma, nid amgen yr ysgaw a'r bengaled, neu'r ganrhi goch, neu isgell y tormwyth, a byw ar lefrith, a hynny a iachäa bid ddyn bid lwdn.

RHAG BRATH AB.

§ 709. Cais dom tarw yn dwym, a dod wrtho.

RHAG BRATH CI CLAF.

§ 710. Cais lydan y ffordd, a'r tryw, a mortyra hwynt a dod wynn wi, a mêl, a hen floneg gyda hwynt a gwna eli, ag elïa y brath.

ARALL.

§ 711. Cais genin, a gwin egr, a had ffunel cochon, a mêl, a chymysg yn dda, a dod wrtho yn blasder.

RHAG GWENWYN.

§ 712. Cais ii gneuen, a iii ffigysen sychon, a dail y rhut, a xxxv o halen, a dyro i'r claf i'w yfed ar y gythlwng; hefyd, yf laeth yn ddiod, a bydded yn unig ymborth hyd ymhen wyth awr a deugain.

ARALL.

§ 713. Cais y ganrhi goch, a chribau sanffrêd, a'r geidwad, a chwerwyn y twyn, a ffunel, ar dis, a phwya'n dda a dod

mewn gwin a hidla drwy wasg ag yf goccwyaid ar benn pob awr. A da hwn rhag brath ci claf neu frath neidr gyda dodi dail y malw bendigaid ar y brath.

ARALL.

§ 714. Cymmer gribau sanffrêd a sych hwynt, a gwna yn bylor, a chymmer o'r pylor hwnnw a ellych rwng pennau dy ddeufys ddwywaith, a dod ℓ ℓ gydag ef o win a berw hyn el ei draian, ag yf ef yn ymprydiol, a da yw.

RHAG CLWYF A DOLUR Y TRAED.

§ 715. Berw wraidd y greulys fendigaid a bwrw ar faidd, a mortyra y * perwedd gyda hen floneg, a dod yn blasder wrthynt ag iach fydd gyda Duw.

RHAG YSSIG MEWN EWIN.

§ 716. Cymysg flawd gwenith a mêl a dod arno.

RHAG DY FLINAW YN CERDDED.

§ 717. Yf y bore lonaid coccwy wi o sugn y ganwraidd lwyd, a hynny a'th ddiflina.

I OSTWNG HWYDD O DRAED.

§ 718. Cais y meddygyn, a llysiau'r uchen, a'r syrlyn, a'r dryw, a llydain y ffordd, a rhuddaur, a llygaid y dydd, a blawd haidd, ag ymenyn heb halen, a saem gwynn, a gwynn wi, a gwneuthur plasder, a dod wrtho, ag os gwresawg fydd, hynny ai gostwng; os bydd oer y clwyf, cais ferwr y ffynhonau, a'r hiddigl, ag egllyriaid, a'r rhut, a'r ddiden, a dynaid cochon, a berw trwy win coch a dod wrtho.

Achos bod yn anwybodedig natturiaeth llawer o amrafaelion ddolurau, a pha ddelw y gwaredir y nesno gweled angerdd a chadernyd y clwyf o'r tu mewn, ag am hynny y

* Qu. berwedd?

manegir pa fodd yr agorir ar y cnawd dyn yn ddiberigl tra foer yn gwared y clefydon, nid amgen.

DIAWD YW HONN IW ORCHYMYN I BERI I DDYN GYSGU TRA'R AGORER PLE BYNNAG Y BO'R CLWYF.

719. Yf sugn yr orpin tebaice, y morgelyn, y papafer sef yw hynny y bwlwg ffrengig, a'r mandragore, ag eiddew y ddaiar y mwya, y cegid, y gwylaeth sef y *lactuca*, cymaint bob un ai gilydd, cymysger pridd glân a hwynt a thrawer yndaw, a gwneler diawd, yn ddiau y cwsg, a phan ddarparer egori ar y claf parer iddaw wiliaw yn hwya ag y galler, ag wedi hynny bwrier peth yn ei ffroeneu, ag ef a gwsg heb air.

Pan fynnech ei ddeffroi mortyra ysbwng mewn gwin egr a bwrw yn ei ffroenau.

O mynni na ddeffröo o fewn pedwar nïau cais yr hwn a fydd o fewn clust ci pwys ceiniog, ag o byg yr unbwys, a dyro iddaw i'w yfed, ag ef a gwsg.

Pan fynnech ei ddeffroi cymmer wynwyn, a gwin egr cyfladdedig a bwrw yn ei enau, ag ef a ddeffry ; a gwiliaw ei ddiogelu yn llonydd, ai rybydd parth yr egor, rhag ei annhrefnu.

ELIAU GWERTHFAWR.

720. Yn unig am frathau a dyrnodau, namyn anfeddyglunau a phob meddyginiaetheu oddieithyr eliau gwerthfawr fal y tystia y gwr doeth a elwir Tholomews, fal hynn.

Pan fo'r lloer yn bennaf ar yscorpio, neu gancero, neu ar pesëau bod hwyntau dan arglwyddiaeth sygyn y hun ar lloer dan guddiedigaeth y ddaiar, arwyddon da fydd y rhai hynny i roddi meddyginiaeth regedawg, o'r bydd hitheu ar yr awyr yn uchel dywedir y feddyginiaeth hynny a drosa ar ormodd othrymder a digofaint, o achos hynny edrych a ffar i'r neb a gymmero feddyginiaeth redegawg gerdded i

gymmeryd awyr y Dwyrain, a phan gauer arnaw dewised y Gorllewin ag arfered o hanaw, ag ni phara Arglwydd y sygn hwn ar yr arwyddon onid dau ddydd gyntaf o bob arwydd or deuddeg; a chwedi y dau ddydd hynny yn ddirgel arfered feistrolaethau ai gywreindeb fal y perthyn-asawl.

Llyma eli mawr weithiog yr hwn a arferir o honaw yn erbyn amryw dymestloedd a chledau nid amgen no'r rhai hynn, cans da yw ef rhag pob rhyw grawngwd neu bostwn, a phob iddw, a'r cancar sef yw hwnnw y cle or ais i'r llall i gilydd, ag ef a gartha pob parth o fewn ag o faes i gorph dyn bid yn fawr bid yn fychan hyd na bo iddo yr ail fedd-yginiaeth, ba bynnag o ryw a maint y bo yr archoll, a phynnag eraill o dymestloedd y byddont ar gorph dyn nid amgen.

Cymmer y llysseu hynn, glesyn y coed, tafod y ci sef y pigl, y samylen sef yw y pumpëol, y torfagl, y tryw, y llannol, y llwynhidydd, y filwydd, llygad Crist, y ffraig sef dail y syfi, llygad y dydd mawr, llygad y dydd bychan, surion y coed, y fabcoll, y droedrydd, dyrnaid o bob un, ag o'r mêl lysiau sef y wale minus, gymaint ag o'r rhai eraill oll, ag ymenyn puredig hanner pwys y llysiau oll, neu ychwaneg; yna briw y llysiau a'r emenyn ynghyd, a gad sefyll felly hyd ymhen v dïeu, ag ymhen v nïeu berw, a gwasg trwy liain teg newydd olchiad, au dodi mewn lle cadwedig, a phan fynnech feddyginiaethu rhyw glaf o'r clefyd a enwyd uchod, dyro iddo y bore yn y peth cyntaf gymaint a ffafen o'r eli iw yfed neu i fwytta, ag ychydig o win gwyn, a'r cyffelyb y nos yn hwyr hyd pan fo iach, a'r eli hwn a elwir bwyttaedig.

Llyma feddyginiaeth ddiballedig a elwir rhat tuw, a'r enw a gafas yn achwysawl achos lle y dodir wrth frath hen neu newydd ni cheffir aball gweithiogrwydd arnaw, ag

ymhlith yr holl elioedd a phlasderon diogelach a gwell a pheffeithiach yw ef i iachau yn un nos na'r rhai eraill oll mewn mis, drwy wneuthur mwy tuag at lanhau gwelioedd a phob peth gwrthmyn a gwrthwaith heb ddim arall o feddyginiaeth i'r cig drwg yn y lle y bo ef, a phob giewyn a dorro neu a chwyddo ef ai cyssyllta, neu wythi, neu gymaleu, yn gystal a chynt y buasont oreu erioed, a da yw rhag pob hwydd cadarn, ai coch ai gwynn y bo, ag yn y modd hynn y nodir ag y ellir ei wneuthur.

Cais bwys y bunt o'r llysewyn a elwir y tresgl sef y febilion, ag o gwm ystor boneddig bedair dramen, a'r un faint o gwyr gwyry, ag o ryw bren y sydd debyg i'r fanhadlen a elwir y maglys, ag yn y Lladin *maglisse* dair dyrnaid o bob un o'r llysiau hynny, ag o'r rhai hynn hefyd yr un faint sef cribau sanffrêd a elwir dannedd sanffrêd, a'r pympiol, a'r torrfagl, a briw'r meirch sef y *vervene, a mynt y twynau a elwir calamynt, ag ystor bendigaid sef y strepuledium, a ffrwyth neu win a elwir balm balsami, a berw hwynt ym mewn galwyn o win gwynn, hyd pan el i'r hanner dan ei ferw, ag yna ymyscu yr ail waith ai ddodi ar y tân i ferwi, a dodi y mastic, a chwyr gwyry, ag ychydig o laeth y bo mab yn sugno ai fagu, ag yn y modd hwnnw y gymyscu yn dda ai ymodi fyth heb orphwys, ai dynnu oddiar y tân, a dodi ynddaw y tresgl, a'r ystor bonheddig, a'r balm, bid hyd pan el y gwres o hanaw, ai ddodi mewn llestr glân i gadw, ag felly i gwneir rhad tuw, o'r strepuldwm pwys dau ronyn o wenith.

MAL HYNN Y GWNEIR ELI GWRESOG.

§ 721. Cymmer y llysewyn a elwir gwarchwydd neu'r warchlys, sef y vitex goch, a'r tryw, a'r greynllys fawr, au

* Verbena. I. M.

mortyru'n dda, ai dodi ar y tân gydag ymenyn a *
* * * * * * *
au gwascu trwy liain, ag yn dwym gwneuthur plasder ynghylch y *penn.

ELI FFRWYTHLAWN RHAG POB CYFRYW WAYW OERFELOG.

§ 722. Cymmer y geidwad, a'r sewyrllys sef y satwreig, a'r ambros, a chwerwyn y twyn, a blodau banadl, a'r tryw, a gwraidd y bumustl, a'r greynllys fawr, a'r grug, a mortyra'n dda, a dod ef mewn ychydig o win a thalm o eliw gliwydden, a doder mewn llestr i addfedu saith nieu, ag yna berwer am benn bloneg, a gwer gafr, ag ymenyn gwyra, a gwer dafad, a chwyr, a gwasc trwy liain yn dda, a dod yndaw godarsin a rhosin, cadw yn anwyl, ag arfer o hwnnw; profedig yw.

ELI GWERTHFAWR RHAG POB RHYW GLEFYD.

§ 723. Cymmer wer dafad, a gwer bwch, a hen floneg, a chwyr, a berwr iwden chwerw, a'r fabcoll, a'r chwerwyn, a'r samwl, neu yn eu lle'r priellau, au mortyru au berwi ynghyd au gwasgu trwy liain, a dod i gadw a da yw yn wir.

LLYMA ELI A WNAETH IPOCRAS RHAG YR EFRYDDAINT, SEF Y PARLYS, A RHAG POB CYFRYW WAYW OERFEL.

§ 724. Cais geiliagwydd bras, a thynn y bloneg o hano, a chymaint arall o floneg cath gwryw, a chymaint o floneg cath †goeg, a bloneg llwynog, a thalm a bubyr, a bloneg iâr, ag ystor, a dau benn o wynwyn, a phwys 6 o gwyr newydd, a berwr, a'r fabcoll, a'r isob, a phriellau, a'r fydden chwerw, a mortyra i gyd, a dod mewn y ceiliagwydd, a phob o flaen y tân tra rhetto dim o hano, a chymmer hwynt o'r ceiliogwydd, a berw yr ail waith mewn ymenyn, a rhwsin, a thodd

* A corner of the leaf torn off. I. M. † Qu. Cath goed?

ystor albanwm gyda nhwy, a hidla trwy liain a dod i gadw yn dda ag yn anwyl, ag a hwnnw iro yn dda wrth y tân pob cyfryw wayw oerfel.

ELI I IACHAU BRATHAU.

725. Cais hen floneg, a thus, a chwyr, a dod ar y tân i ferwi, a gwasc ef trwy liain, a phan fo yn oer tann ef ag yscif ar liain, a symud ef ddwywaith yn y dydd, a thwym a dod drachefn wrtho, a phob gwaith ai twymer gweithio'r yscif ar hyd a lled iddo.

ARALL.

§ 726. Cais sydd y dynaid, a sydd gwraidd llyseu Cadwgan neu'r pylor, a sydd gwaed y gwyr sef yr ysgaw bendigaid, a mêl gloyw, a gwynn wi, a gwin, pob un o honynt gymaint au gilydd, a dod gyda hynny gann gwenith, a gwaith yn blaster a thann ar liain a dod ar y brath nos a bore hyn fo iach.

RHAG Y MANWYNNON.

§ 727. Cymmer yr erllyriad, a llygaid Crist, a dail yr ysgaw, a'r tryw, a'r edafeddog, a'r bengaled, a'r syfi, a'r fywydog sef yr orpin, gydag ymenyn heb halen, a gwascu trwy liain glân ai gadw, ag elïo'r dolur ag ef, a gwna ddiod i'r claf a dail y syfi, a'r fywydog, a'r dderwen fendigaid drwy bwyo am ben gwin neu gwrw, neu drwy ferwi drwy'r dwr, a dyro yfed i'r claf yn unig ddiod, a da yw hynny yn wir.

LLYMA LYSIAU ELI TWF, NID AMGEN.

§ 728. Yr wrnerth, y wiolydd, y glesyn, y llwynhidydd, y bittain, y diwythl fedi, isob, cymaint bob un ai gilydd, au mortyru ynghyd, a bwrw attyn ymenyn ai buro oddidano ag oddiarno yn gynta cyn rhoi y llysieu, a berw y llysieu

gyda'r ymenyn ferwad cig oen neu bysgod gleisiaid, ai ymod a ffrenn, ai hidlo trwy liain crai, a dodi ar gadw.

ARALL.

§ 729. Cais werth dwy geiniog o rwsin, a ffiolaid o wer defaid, a chymaint arall o gwyr newydd, au cydtoddi, yna tynnu i'r llawr, ai hidlo; rhan y tawdd yn ddwy rann, a lliwa'r naill rann a iii ob o rwd gwyrdd, a gad liw y llysieu ar yr hanner arall.

LLYMA FEL Y GWNEIR ELI MELYN.

§ 730. Copel o rwsin, ar gymaint arall o wer, a hanner hynny o gwyr, ag ymenyn puredig hanner llonaid cwpa, a berwi a hidlo trwy liain, a lliwa'r hanner a rhwd yr efydd, neu rwd gwyrdd, a'r hanner arall dod ychydig o fêl ynghyd ag ef, a gad ferwi, ai gadw yn felyn.

I WNEUTHUR TRED MELYN.

§ 731. Cais gwyr newydd, a rhwsin melyn, a menyn puredig, a gwer myharen yn drech na'r cwyr, a'r rhwsin no'r ymenyn a'r gwer, a berw ynghyd encyd, a thyn i'r llawr, a hidl drwy liain.

I WNEUTHUR ELI TWF, A HWNNW YN WYRDD.

§ 732. Cais gwyr, a rhwsin, ag ymenyn puredig, a chribau sanffrêd, a'r wiolydd sef y fioled, a'r glesyn, a'r llwynhidydd, a thawdd y toddedolion a'r llysiau, pwya nhwy yn dda a berw am benn y tawdd, au gadael ennyd fechan ar y tân, yna eu tynnu i'r llawr au hidlo drwy liain glân a gad oeri, yna dod i gadw.

I LADD Y CANCAR.

§ 733. Cais tastic, a chamffyr, a thus, yn gyfamcan, a ffracca, a maedd mewn llestr glân, a dod gadw ym mewn

pledren lân, a phan elych i feddyginiaethu cais lonaid tangwll, sef hwnnw siaffrwm, o dan coed derw, a chymmer lonaid llwy arian o'r pylor a bwrw yn y tân a dod y cancar uwch benn y mwg, a hwnnw ai lladd, ond dilyn arno yn dda.

I WNEUTHUR Kolwm NEU Rolwm.

§ 734. Cymmer chwechoccwyaid o eliw'r eliwydden, a dau cymaint o blwm coch, a mâl y plwm am benn yr eliw a rho mewn posned pres ar y tân, a chymmer brenn a chymysg yn dda, a chymmer ddysgl beytyr i'th law, a tharaw y pren ar y ddysgl bob amser hyn y welych yn ddu, yna tynn i'r llawr, a gad sefyll hyd pan fo yn dechreu oeri yna gwna ef yn rholau, a dod mewn papur cyn y llwyr oero, a gad oeri digon, yna dod gadw.

I WNEUTHUR TRED SUGN.

§ 735. Cymmer gwyr, a rhwsin, a therr, a bloneg moch, a dod ar y tân, yr un faint o'r cwyr ag o'r rhwsin, a'r llall wrth fesur ϧ a gad ferwi hyn fo fal cwyr caled.

I WNEUTHUR PLASDER RHAG YSSIC, NEU CHWYDD, NEU FRATH DRAEN.

§ 736. Cymmer y gleyrllysc ag ymenyn, a mortyra yng nghyd a thwym ar y tân ennyd fechan, a dod wrth y chwyf deir gwaith neu bedair.

I WNEUTHUR PLASDER SYCH.

§ 737. Cais wraidd marchalan a briw a berw yn dda, a bwrw am eu penn llaeth buwch unlliw, a chymysc yn dda, a bwrw ymaith y gwraidd, a bwrw cann gwenith, neu gann haidd am ei benn, a mêl, ag ychydig o rwsing, a berw hyn fo tew, a thyn i'r llawr, a rho mewn llestr glân, a phan ddottych ef wrth ddolur rho beth bloneg am ei benn, rhag ei fod yn rhy sych.

I WNEUTHUR PYLOR O WYNN WIAU.

§ 738. Cais lechfaen lydan a dod ar y tân, a dod wynn y wiau arno hyd pan fo yn duo, yna eu casglu ymaith au cadw yn anwyl.

RHAG Y CLEFYD A GERDDA FAL TAN GWYLLT, SEF YW HWNNW CIG DRWG NEU GIG YN AEL YN GANCAR, AG EF A DDESGYN I FOD WEITHIAU YNG NGYDDFEU DYNION, A GWEFUSEDD, A THAWLOD Y GENEU, A THANN WREIDDIAU Y TAFOD, A CHANCRO YNO A GWRESCYN, AG FEL HYNN Y GWAREDIR.

§ 739. Cais ffioled o win egr, a ffioled o sudd y perllys, a hanner ffiolaid o fêl, a chysted o driagl, ai gymyscu ynghyd yn dda a phylor elyf ai gwasanaetho fal y bo yn gymhesur o dewder fel iwd peilliaid, ai weithio wrtho hyn fo iach, a hynny sydd brofedig, a goreu o'r holl feddygyniaetheu ond gwneuthur hynny yn ddiwall hyn fo iach.

ELI BRATH.

§ 740. Cais y fabcoll, a'r wiolydd, a llygaid y dydd, a glesyn y coed, a'r llwynhidydd, a'r meddygyn, a phwya'n dda, a berw yn dda am ben ymenyn gwyra a hidla, a dod gadw, a da yw yn wir gwir.

ELI RHAG Y MANNWYNNON.

§ 741. Cais ddail y bae, a'r wiolydd, a llygaid y dydd, a'r bengaled, a'r wilfrai, a phylor y glyf, a mer hen eidon, a phlasia ynghyd, a berw, a hidla.

ELI TWF LLE Y BO CROEN TWNN.

§ 742. Cais ymenyn gwyra a dod ar y tân, a digrawena yn dda a ddel ar ei wyneb wrth ferwi, a chymmer yr wrnerth, a glesyn y coed gymaint o bob un ai gilydd, ag oni chei y glesyn y wilffrei, a berw hwynt yn dda am ben y menyn, ag o mynni roi ychydig o gawn ni bydd gwaeth yr

eli, a dod ar y tân gan roi amcan o'r llysiau uchod fal y bo'r eli yn gymmesur o dewdwr, a gad ferwi ferwad cig oen, a dod yndo ychydig o gwyr newydd a chymysc yn dda a gad ferwi ychydig, a phan fo yn dyfod i lawr bwrw ynddo lwyaid o fêl puredig a chymysg i gyd yn dda, a gad fyned un ias drwyddo, a thynn i'r llawr ag ymod yn dda, a hidl yn lân trwy liain bras, a dod gadw. O mynni wneuthur peth i losgi y marw cais faen elyf neu goprys glas a briw ychydig o hano a dod ar wyneb yr eli mewn blwch neu ddysgl lydan annofn a chymysg yn dda a gad rewi, a hwnnw sy dda rhag y cig marw; i losci a wna hwnnw.

LLYMA FAL Y GWNEIR ELI MELYN.

§ 743. Cais bottel o rwsin, a chymaint arall o wer defaid, a maint hynny o gwyr, ag ymenyn puredig hanner lonaid cwpa, ai ferwi ynghyd, ai dynnu i'r llawr ai hidlo trwy liain. A hanner yr eli hwnnw lliw a'r rhwd gwyrdd, a rho ychydig fêl ynghymysg a'r hanner arall ai ferwi yn well o ychydig a hynny ai ceidw ef yn felyn, ai gadw yn dda mewn llestr glân at dy gelfyddyd.

GOLCH I DYFU CROEN TWN AR ESGAIR NEU LEOEDD ERAILL AG Y BO RHAID LLOSGI'R MARW.

§ 744. Cais y llyriad, a llygaid y dydd, a'r llwynhidydd, a galwyn o ddwr ffynon oer, a phwya'r llysiau a bwrw at y dwr ai ferwi, a chymmer bwys punt o elyf a bwrw yndo, a gad ferwi hyd pan el dan ei draian, a llyna'r golch yn barod.

ENNAINT NEU OLCH RHAG LLOSC NEU BOETHNI COCH ACHOS TRALLYNNORGASGL, NEU WRES TAN, NEU HAUL, NEU O YSSIG, NEU O FWYTH BRWD YN GAFAELU AR Y LLE.

§ 745. Cymmer lefrith a dwr hanner yn hanner, a chymmer y malw, a blodeu, neu emmau, neu risg gwyrdd yr

ysgaw, a llysiau'r geiniog, a lle au ceffir, surion y coed, neu suran y waun, neu'r suran ffrengig sef un yr ardd, a berw am benn y dwr a'r llaeth, ag enneinia'r dolur ag ef yn led wresog, a gwedi hynny cymmer y llysiau berw a fo raid o honynt a dod yn blasder wrth y dolur, a chadw rhan yn symud ymhen chwech awr.

RHAG Y TAN IDDWF.

§ 746. Cais *fwg, a'r fywydog, a llysiau pen tai, a'r glys sef y pricc maed, a chlustiau'r iddew a dyfont ar yr ysgaw, lonaid maneg o bob un, neu o'r rhai a ellir o honynt, a mortyra yn dda, a berw trwy fenyn gwyry, a gwasc trwy liain, ag a'r eli hwn îr y dolur, a hynny ai diffydd, ag ai diffrwytha, ag ai iachäa ar hynt, ai roi y bore yn fynych.

O BYDD CRAWN MEWN DYN.

§ 747. Cais wer dafad, a blawd ceirch, a dail †ffiol y ffrwyth, a'r diwlith, au berwi hyn elont yn iwd, a dod hwnnw wrtho, ag ef ai sugn allan.

RHAG LLYGAID GWEINION RHEDEGOG.

§ 748. Cymmer lestr pridd ystaenaid a thodd llosglist yndo a elo hyd a lled y gwaelod deudrwch neu drithrwch ewin bawd, a phan elot i'th wely'r nos gwna dy ddwr yn y llestr hwnnw, a'r bore golch dy lygaid ag ef; yna bwrw y dwr ymaith a gwna dy ddwr bore yn y cwpa a gad ei sefyll hyd nos a golch dy lygaid wrth fyned i'th wely ag ef, a goreu dwr y bore, cans cryfach hwnnw na dwr y nos ai ddarpar o fore fal hyn i fore; ag os trwm y clybod gwlych wlan du yn y dwr hwnnw a dod yn dy glustiau y nos wrth fyned i wely.

* Qu. Fwg y ddaiar?

† Dail ffiol ffrwyth y gelwir dail ffion ffrith mewn rhai mannau yn Neheubarth.

RHAG Y CYLLWST, SEF Y COLIC.

§ 749. Cais y ganwraid lwyd, a'r egllyriad, a dynaid cochon, a berw trwy faidd geifr, a hidl trwy liain, a dyro i'r claf i yfed.

RHAG HWYDD DYRNOD.

§ 750. Cais y gleyrllysc, a'r erllyriad, a ffenigl, o bob un gymaint ai gilydd, a mortyra gyda blawd rhyg, a mêl, a gwynn wiau, a dod yn blaster wrtho, ag iach a fydd.

RHAG COSSI A NIWL AR LYGAID.

§ 751. Cais sudd y melynllys, o bwyaw'r llysiau yn dda am benn llaeth bronneu y bo mab yn eu sugno, neu am ben trwnc mab blwydd, a hidl drwy wasg, a dod y sudd ag asgell yn dy lygaid.

ARALL.

§ 752. Pwya'r melynllys am ben llaeth geifr a hidl drwy wasg, a chymysg ag ychydig fêl, a dod ar dy lygaid ag asgell, dair gwaith yn y dydd.

RHAG Y CLEFYD MELYN.

§ 753. Cais ddant y llew, a'r benlas wenn, a pherllys gardd, au mortyru ynghyd yn dda, yna eu berwi trwy hen gwrw iachus a chadarn, ai roi mewn cunnach geneugul i gadw yn glosgaedig, ag arfer yn gyntaf y bore awr cyn bwyd, a'r diweddaf y nos awr gwedi bwyd lawn bedwar coccwyaid neu ffibl hanner chwart o hano.

ARALL.

§ 754. Cymmer frig, a dail os byddant, y pren melyn, sef y pren ysbin, a briw a berw yn dda mewn hen gwrw cadarn iachus yn y diflan ei draian, ag yf yn unig ddiod.

RHAG BRECHLYDRWYDD YN Y LLYNNOR.

755. Cymmer wraidd neu had dynaid, a phwya'n dda, yna berw mewn ossai da o hanner blwydd i flwydd oed, ag yf yn unig ddiod; goreu yr ossai a wneir ag afalau cadw lled surion.

ARALL.

§ 756. Cymmer afalau, a phob hwynt, neu berw, a dod am ben llefrith gwartheg neu eifr, a chymmer yn unig fwyd a diod o fis i naw wythnos fal y bo grym yr afiechyd, a da iawn yr ymborth hwn rhag brech yr ysgyf, a brech y gwaed, ag a ddinistr wenwyn y maenwynnon, ag a'r feddyginiaeth honn y iachäodd Hywel Feddyg o Langynwyd y Brenin Edwart gyffesor pan nad oedd o feddyg yng nghred a addawai awr o fywyd iddaw gan faint angerdd brech yr ysgyfaint, a'r amherawdr Antwninws ai arferai bob cwymp a phob attardd dail, ag a waredai o hynny bob brechlydrwydd gwaed a llynnor yr hynn yw achos gorescynawl pob dolur tardd a chrawn ynghorph dyn.

RHAG GWAEDING FFROENAU.

§ 757. Cais ddynhaden a phwya'n fâl mâl, a dod yn dy ffroenau.

I LADD PRYFED.

758. Cais y milddail a phwya'n dda, a dod arno ef.

RHAG GWAYW YN Y LLYGAID.

§ 759. Gosod melyn wi a blawd gwenith ar bob un o'r arleisoedd, a iach fydd.

RHAG HAINT Y MARCHOGION.

§ 760. Cymmer galch a gwraidd rhedyn a mortyra yng nghyd a dod wrtho, ag iach y byddi.

ARALL.

§ 761. Berw gwraidd y rhedyn mewn dwr ffynon yn yr el dan ei hanner, a bwrw ar gneppyn o galch newyddlosc, a phan loyw diwal i lestr arall y gloywon a golch y dolur.

I DDYNABOD CLAF, AI BYW AI MARW Y BYDD.

§ 762. Briw'r wiolydd a dod ar ei arleisoedd, ag o chwsg byw a fydd, oni chwsg marw fydd.

I WARED DAFADENNAU.

§ 763. Pwya risgl yr helig am benn eisel neu win egr, a dod wrtho.

RHAG GWRES A GWAYW MEWN BRATHAU.

§ 764. Cais wraidd y malw bendigaid, a rhisgl canol yr ysgaw, o bob un gymaint a'r llall, a dod attynt win gwynn o'r un gyffelyb fesur, a berw yn dda hyd pan el yn dew, yna cymmer liain ai dynnu yn dynna byth y gallech, a dod y plaster arno a gosod ar y brath, os cau yn fawr a wna'r brath cais y llysewyn a elwir bloneg y ddaiar a gwna ef yn blasder a dod wrtho, ag ef ai egyr.

Pwy bynnag a yfo sudd y wiolydd ef a deifl allan escyrn twn, o byddant mewn aelod dyn.

RHAG MYNED ALLAN.

§ 765. Cymmer felyn saith wi, ar gymaint arall o fêl puredig, a bywion bara cann wedi ei friwsioni yn fân mân, a chais werth ceiniog o bubyr pyloraid, au berwi ynghyd, ai fwytta ef yn dwym, ag nag yf ddim o ddiod ar ei ol yn hwyaf y gellych, ag ymarfer a'r ymborth hynn yn y bot iach, ag o'r meddyginiaetheu goreu hwn, parth iachusder.

Amryw afiachus benydiawl glefydoedd o fagant amgyn-
null amgylch calon dyn yn wascfa a mogiant, a mwyglder

calon, a thrwy ddirfawr astudrwydd ag esgudrwydd celfyddyd, a ffrwythlawn feddyginiaeth y gwaredir hwynt nid amgen.

RHAG HAINT AR GALON DYN.

§ 766. Cais y ganrhif goch a berw mewn cwrw hen da, a chwedi hynny mortyra'r llysiau a berw eilchwaith drwy'r un llynn, yna hidla drwy liain glân, a dod atto lwyaid o fêl puredig, ag yna berw drachefn, a dod mewn blwch yn gaedig, a dyro i'r claf dair llwyaid beunydd yn ymprydiol, a hyn a dyr y fogfa oddiwrth y galon, ag a wna iddo chwant bwyd a diod yn wir i Dduw.

RHAG MOGFA YNGHYLCH CALON.

§ 767. Cais sudd y ffunegl a mêl, a berw ynghyd hyd pan elon yn galed, a bwytta hwnnw yn gyntaf y bore a'r diwethaf y nos awr cyn ag ar ol bwyd, ag iach a fyddi gyda Duw.

I WNEUTHUR GOLCH GENAU.

§ 768. Cais rosmari, a'r geidwad, ac isob, a mêl, ag elyf, a chwrw da, a dod ar y tân a berw hyd pan el y chwart yn beint, a thynn i'r llawr a dyro yn dwym yn ei enau, a daled ef yno encyd hir, ag felly beunydd gosod wythnos.

LLYMA FEDDYGINIAETH RHIWALLON FEDDIG I BERI GWARED Y BOLA A FO YNDAW LLE BO RHWYM Y BOLA.

§ 769. Cais gwrw main, a menyn heb halen, a bran gwenith, a berw yn dda, yna hidla, a bwrw mewn pledren, a dod bibell o fon asgell gwydd yn y bledren, a rhwym i bledren am y bibell, a gyrr y bibell ynghwndid y claf, a dod ef ai ben yn isel ai eisteddfa yn uchel gyfuwch ag y gellir, a gyrr y llynn i gorff y claf, gan wasgu'r bledren yn ochwarien.

I BERI CYFOD, SEF BWRW ALLAN A FO YN Y CYLLA.

§ 770. Cymmer had llysiau'r cyfog, a berw mewn cwrw da, a hidl, a rho yfed i'r claf.

ELI I IACHAU GWEWYR A GWAED-YSSIG.

§ 771. Cymmer gig hwch dew o lwdn hen, a thawdd, a gad sefyll hyn el yr halen i'r gwaelod, a chymmer gymaint a hynny o gwyr newydd, a berw ynghyd, a bwrw pylor mastic a thus, a dod gydag ef, am ei benn, ag ymod yn ffest hyn fo'n dew fel mêl, a chadw hwnnw'n dda a than ag ysgiw ar gadechyn brethyn neu ledr, a dod wrtho, ag ef a dynn y maes y dolur a'r gwewyr, ag îr ag ef ddwywaith beunydd, a iach fyddi.

RHAG Y CYLLWEWYR, SEF Y COLIC.

§ 772. Pwya ferw'r ffynhoneu yn dda a bwrw dwr ffynon rhwyog am a chymmer rynnion ceirch a gwna * wiscon a hwynthwy yll dau yn dda, a hidl yn lân, ag yf dri bore a thair nos, yn gyntaf a diwethaf o gymmeryd, awr cyn a gwedi bwyd.

I BERI CWSG.

§ 773. Med y lili yn arwydd y llew, a chymysg a sudd y pren a elwir llorwydden, ag yn lladin *lawrws*, ai ddod ennyd mewn dom a digon arnynt o dom, a hwy a fagant bryfed, a chymmer y rhain a gwna yn bylor a gosod y pylor hwnnw am fwnwgl y dyn, neu yn ei ddillad, ag ef a gwsg nes ei dynny drachefn eilwaith.

I WYBOD BETH A FO DYN A GURER, AI BYW AI MARW.

§ 774. Cais sugn y dorllwyd a gwin gwynn, a dyro iddo yfed, o bwrw loeson byw a fydd, ag onis bwrw marw a fydd.

* Gwiscon, *pro* gwyscon.

ARALL ER YR UN GWYBOD.

§ 775. Cymmer laeth bronnau y bo mab yn sugno, a dod ychydig o'r llaeth ar dorr dy law, a chymmer drwnc y claf ag edifera y llaeth ar benn dy fys i'r trwngc, os i'r gwaelod yr âir trwngc, marw a fydd, os ar yr wyneb y trig, byw a fydd.

I ADNABOD CLAF.

§ 776. Briw y wiolydd sef y mill, a dod ar ei arleisedd, o chwsg byw fydd, oni chwsg marw fydd.

ARALL CYFARDDANGOS.

§ 777. Cymmer y feddyges a briw hi, a rhwym am y meddygfys, ag os byw ef a gysg, ag oni chysg, ef a fydd marw, a mynn wybod hynn o beth cyn y gwnelot ag ef yn y byd.

RHAG Y CHWARREN.

§ 778. Cais wraidd y lili a golch yn lân a briw yn fân, a berw mewn gwin gwynn onid el i'r hanner, a hidl yn lân trwy liain crai, a rho i'r claf a hi a dyrr, ag ef a â'r dyn yn iach.

RHAG CORNWYDON.

§ 779. Cais lysieur'r sein, a bloneg twrch, a llynger y ddaiar, a briw hwynt ynghyd, a dod ar y dolur.

CORNWYDON.

§ 780. Cais felyn wi a halen, a maedd yn blasder, a dod wrtho.

OS BYDD DYN YN GLAF O'R WHARREN, A'R MANNAU DUON.

§ 781. Cais y sensegl y rhai a fo a chalonau duon iddyn, a'r tresgl, a rhuw, ag os mynni dod ddalen o'r baewydd, a

golch yn lân, a phwya drwy ddwr fal garlleg, ai roi ar gwrw cadarn i'r claf mor dwym ag y gallo ei gymmeryd, a gwna felly iddo wrth y tân ar wely a lliain arno a thano, a gad yno i chwysu, a chadw tân da, ag ef a ad y frech ar y lliain, gyda Duw.

RHAG BRATH DRAEN.

§ 782. Cais floneg moch, a gwraidd y dynad cochon, au pwyo'n dda, a dod wrtho nawpryd, a iach a fydd, gyda Duw.

RHAG TRAUL A RHEDEG NATTUR.

§ 783. Cais bylor y mynt rhiol, a phylor annys, a dyro hwynt i'r claf ar ei bottas neu yn saws, a hynny ai hettyl rhag rhedeg, gyda Duw.

RHAG Y COSDARDD, SEF Y TARDD CRAFU.

§ 784. Cymmer wraidd marchalan, a berw yn dda, a berw amcan o arlleg mewn dwr arall, yf ferwyn y marchalan lawn ddiod naw bore, a chymysg y deuddwr berw a golch dy holl gorph bob bore, a chymysg y garlleg berw, a'r marchalan berw ag ymenyn heb halen, a gwna yn eli, ag elïa dy holl gorph ag ef hyd ymhen y nawnydd bob bore.

Llyma rinweddau a chyferddonau amrafaelion o lysiau er meddyginiaethu dyn.

RHINWEDD Y GEIDWAD.

§ 785. Da yw eu berw ar les y giau, os yfer eu berw gyda mêl da yw ar les y cylla, ag os bydd gwraig a dyn marw gyda hi cymmered y geidwad a berwed gyda gwin gwynn ai hidlo'n lân ag yfed hi hwnnw yn oer a hi a gaiff ei gwared yn ddiberigl o'i bywyd. Hefyd cymmer y llysewyn hwn a phwya ef yn fâl a dod wrth frath gwenwynig ag ef a ddyrr allan y gwenwyn, a hefyd o bydd un llawn dod y llysewyn wrtho ag ef a garth ei waelod, a chymmered y llysewyn

hwn a phwyed yn fâl a gwasged ei sudd am ben gwin gwynn, neu doded i sefyll yn bwyedig mewn gwin gwynn neu frecci du neu hen fedd da dros noswaith ag yfed e'n dwym hidlaid yn wag, ag iach y bydd drwy Dduw, a da iawn yw i'r iach yfed y ddiod honn hanner llwnc sychedy bore yn wag er cynnal iechyd a hwyhau bywyd ag einioes.

RHINWEDD Y GAMYD.

§ 786. Llysewyn yw'r gamyd a blodeuyn gwynn arno, ai rinwedd yw, o chymmerer ei sudd gyda mêl a gwin ef a dyrr y maen tostedd, ag hefyd ef a ddinistra'r cryd a'r clefyd melyn, ag a wna haint y giau yn iach, a lle na bo gwin cymmerer y sudd mewn medd iachus a chadarn, neu mewn brecci du brag haidd; gwresog a sych yw.

LLYMA RINWEDD Y DDYNHADEN.

§ 787. Cymmer sudd y llysewyn hwn am ben gwin gwynn, ai hidlo yn lân, ai adael i oeri, ag yf ef yn ddiod nos a bore ag ef a'th iachäa o'r clefyd melyn, ag a fywhâ'r gwaed gan waredu pob afiechyd a fo ynddo, ag o chymmerer ei sudd gyda brecci du brag haidd yn ddiod hanner yn hanner ef a wellhâ'r pigyn poeth yn yr ystlys a'r balfais; a hwn hefyd abair i ddyn mewn oedran ednwyf a bywusder corph a meddwl. Ag o chymmerer had y dynaid yn bylor gyda mêl, da iawn ai ceir rhag y cyllwst wynt, a rhag y tostedd, a rhag hen beswch, ag i estwng hwydd ar y claf, ag a bair wared dwr o'r corph heb niwedu'r gwysigen.

LLYMA RINWEDD CRIBAU SAINT FFRED.

§ 788. Y neb a arfero yfed eu sudd nid â gwraidd y tostedd arnaw, ag oi berwi mewn gwin gwynn ai yfed yn ddiod ef a iacheir y folwst a hwydd yn y bola, ag o'u mortyru'n fân, a gwasgu'r sudd, ai ddodi ag asgell ar lygad

dyn efe a loywa'r olwg ag ai cryfhâ, ag a wared pilendod o'r llygad. A da yw'r sudd i fwrw yn y clustiau a font yn myned yn fyddar; a da yw yn bylor gyda mêl i'r neb a fo'n myned i beswch, ag ef a dyrr y peswch, ag a wna les i lawer o glefydon yn y cylla. A da yw rhag y cryd a ddaw, ag os cymmerir cyn y del y cryd, ni ddaw y flwyddyn honno. Ag oi ferwi gyda had cennin efe a wella lygad dyn ag ai gloywa, ag a gryfha'r olwg. A gwr doeth o gelfyddyd a ddywad pei gwnelid yn had mae cynt yr elai y neidr yn ddrylliau nag yr elai hi drwy'r had. Ag o bydd hwydd yn y bola efe ai estwng o'i ferwi gyda gwin a ffigys ai roi i'r claf mewn gwely. A da fydd ei fwytta yn gymysg a sudd y ffunel cochon a gloywon mêl gydag ef, ag a yrr y llygaid yn iach ag yn loywon yn wir, ag a gryha'r pump synwyr yn ryfeddawl.

LLYMA RINWEDD Y PERLLYS, A ELWIR YN Y LLADIN *PETROSILIWM.*

§ 789. Y perllys sydd lysewyn da twym ei nattur, a gwresog, a gwlyb yn y drydydd radd; da yw ymhob bwyd i amlhau gwaed, ag efe a egyr y gwythi gwaed, a gwythi'r llynnor, a'r rhedweliau ynghorph dyn, fal y cerddo'r gwaed a'r llynnor, a'r dwr yn rwydd y ffyrdd y dylynt, a hynny a wna yn wir.

Hefyd da yw arfer o'r perllys rhag y galon ddiffyg, a rhag mwyth y tridiau, a'r ystlysan, a'r gwlybyrwst, o arall o wlybyn yr amser hynny. A llawenhau'r galon yn ddirfawr y gwna, ag iachau'r cylla.

Y mae rhyw o'r perllys a elwir yn y Gymraeg perllys yr hêl, achos y tyf o ryw a nattur ar heloedd agos i'r mor lle delo'r dwr hallt amser gorllanw mor, ag yn y Lladin gelwir ef *petorsil*^{m} *marina*, da yw ymhob achos attal ar ddwr a llynnor yn y corph, a rhag y cyllwst a'r tostedd, o gym-

meryd ei sudd ef, a da yw ei sudd i ddifa cig marw mewn clwyf o dwn ag arholl, a hwn a dyf mewn gerddi, y lle y dylid ei gadw ymhob lle pell oddiwrth fôr.

LLYMA RINWEDD Y FFUNEL, A ELWIR YN Y LLADIN *FUNICULWM*.

§ 790. Y ffunel sydd o nattur dwym a sych yn yr ail radd, a da yw rhag clefydau'r llygaid, a da yw rhag pob rhyw wenwyn ynghorph dyn o'i yfed yn bylor mewn gwin gwynn, neu mewn hen fedd cadarn; a da yw rhag mwyth y tridiau, a mwyth gwerseddog. Ag o berwer yr had neu'r llysiau mewn dwr oni fo cryf a ffrwythlawn o nattur y llysewyn a golchi pen dolurus a'r dwr hwnnw efe a wna les mawr ag ai iachäa, lle bo'r dolur o achos oerfel a mwyth, ag efe a dyrr y gwayw yn y pen yn ebrwydd iawn.

LLYMA RINWEDD Y RHOSMARI, A ELWIR HEFYD YR YSBWYNWYDD, AG YN LLADIN *ROSA MARINA*.

§ 791. Rhosmari sydd bren a llysewyn twym ei nattur a sych yn y drydydd radd, a llyswydden ai gelwir am ei fod o rywogaeth rhwng llysewyn a gwydden.

Cymmer flodau rhosmari a chymysg a mêl ai fwytta yn ymprydiol beunydd, ag ni chyfyd na gwrthlys na dim gwenwynig arall arnat tra arferych y feddyginiaeth hon.

Hefyd y blodau sydd fwy enwedigol yn dda ai berwi gyda mêl, neu win gwynn hyd am yr hanner, ai hidlo yn lân, ai yfed yn oer y bore lwyaid neu ddwy, ag ychydig o fêl gydag ef, ag ychydig ronyn yn ei ôl a ddyrr ymaith y collic oddifewn i deirawr, ag or mynni ei ddodi wrth dy fola o'r tu allan na ddod ddim o'r mêl ynddaw ef.

Hefyd, cymmer ddail y rhosmari, a dail y chwerwyn, a gwna yn edlyn yn yr un modd, a mêl ynddo yn un modd, ag ar ei ol. A meddyginiaeth dda iawn ydyw rhag y tostedd

maen, a'r tostedd llysnafedd, ag ef au dettyd ag au gyrr ymaith yn y dwr.

Hefyd, dod eu blodau neu eu dail dan dy ben yn dy wely, ag nith derfysca na breuddwyd gwrthwynebus, na gwâg yspryd profedigaethgar.

Hefyd, or dygi gyda thi ffonn neu ddryll o'r llysewyn hwnnw ni ddychyn ysbryd drwg ddyfod i'th gyfyl, na gwneuthur o neb brofedigaeth arnati.

Ag y mae ar y rhosmarị holl rinweddau y maen a elwir y muchudd.

Hefyd, myn wneuthur llwy o'r bôn neu o wreiddyn y llyswydden yma, a'r dydd y hyfech gawl a'r llwy honno nith wenwynir di y dydd hwnnw, a chadwedig y byddi drwy'r dydd hynny rhag twrw neu luched, a chadwedig fyddi rhag pob gwaith adwyth.

Hefyd, casgl ddail y rhosmari a phwya nhwy yn fâl a hidla ef, ag yf y sudd, ag ef a dyrr y llysnafedd o'r pen a'r ysgyfaint, ag ai difa, yn wir yn wir.

Hefyd, y mae yn dda rhag gwres yr afu ag ai dyrr allan, ag a dynn o hano'r gorwyth, ag ai gwna'n iach.

Hefyd, or bydd dyn a rhwystr gwneuthur dwr arno ceisied y blodau neu'r dail a berwed gyda gwin gwynn ag yfed yr edlyn hwnnw yn gyntaf o beth y bore, a'r diweddaf y nos.

Hefyd, o gymmeryd y blodau au dodi gyda gwin gwynn mewn callor distyll au distyllu, cystal yw'r edlyn a geir o honynt a'r distyll bendigaid, a da yn lle hwnw ymhob peth, a da iawn yw i olchi penn rhag gwayw oerfelog ag o fwyth ynddo, a rhag dyfod gwallgof ar ddyn, a llwyaid o'r edlyn hwnn gyda llwyaid o fêl, a llwyaid o ymenyn toddedig, neu hufen tew ffres y sydd dda rhag y pesswch ag i dynnu llysnafedd o'r ysgyfaint.

Hefyd, y dwr y berwer hwynt ynddo y sydd dda i'r dyn

y bo gwall bwyll arno neu yn myned i maes oi gof, da hefyd yr isgell hwnn rhag pob rhyw glefyd ag y sydd mewn corph dyn.

Hefyd, da yw y blodau a'r dail au berwi mewn dwr, ag a'r dwr hwnnw ymolch bob bore heb sychu a lliain, eithr gadael iddaw sychu o'i natur ei hunan, ag o ymolchi fel hynny yn dda fe wna hen yn ieuangc yr olwg arno byth; y dwr hwn a drych y llysnafedd ar ymhennydd dyn, ag a drych y poen wrth garthu'r myscar a'r cylyddion, ag a yrr ymaith y gwlybyrwst, ag a iachâ'r afu, ag a ddwg wres i'r giau a'r gwythi ag a ddinistr y bystwn, ag a lawenha'r galon, ag a wna'n gedyrn esgyrn ag a fag mer ynddynt ag a iachâ'r mer ynddynt, ag ef a iachâ'r llygaid, a da yw rhag myned allan, au berwi mewn gwin egr au dodi wrth fola'r claf, ef a bair magwriaeth gwaed; a da yw rhag y mwyth tridiau, ag o bydd gwr wedi ei wanhau gan wragedd ef a gyfyd drachefn o ymarfer a hwn yn unig ddiod a gwlyb hyd ymhen naw diwarnod.

A hefyd, or bydd dyn heb ddwyn plant, gwr neu wraig y bo, arfered o'r llysewyn hwn ar fwydydd ag efe a egyr yn berffaith. O'r bydd gwr neu wraig heb gael plant a'r wraig yn ifanc, arfered o'r rhosmari.

A hefyd, o bydd gwr ag anwyd yn ei benn megis gormwyth, cymmered y rhosmari, a llosged, a gollynged y mwg hwnnw yn ei ffroenau, ag ef a fydd holl iach.

Hefyd, cymmered ddwr y berwed ynddo'r blodau neu'r dail, a doded ynddaw ychydig fêl puredig a phybur, au yfed yn dwym, a da yw rhag y pesswch, o ba ryw bynnag y bo, a gwir yw hynn. A hefyd cais wreiddiau llysewyn a rhost yn dda ynyd el yn lludw a briw yn fân a dod ꝺ𝕡u 6 ə 6 ꝺəp𝕣t ꝺ4l6766 𝕡z zf əбpəбz6 l4zб yn wir.

A hefyd, da ydyw ei risc rag y cosi afrwyog a fo ar ddyn oblegid drygwaed.

A hefyd, da yw ei wreiddyn ef wedi ei ferwi mewn gwin egr a golchi'r cymmalau a fo a gwewyr ynddynt, ag hefyd, ychydig o honyn ag ychydig o gribau sanffrêd mewn dwr glân yn bwyedig, a golchi pob rhyw frath nefail neu bryf arall gwenwynig, ag ef ai gwna'n iach heb achos eli arall yn y byd.

LLYMA ETTO DDANGOS RHINWEDD Y GEIDWAD A ELWIR YN Y LLADIN *SALFIA*.

§ 792. Y geidwad sydd lysewyn twym ei nattur a sych. Da yw ei ferwi ymhob bwyd a diod ar les y giau, a da yfed ei isgell drwy ddwr berw yn unig ddiod, a goreu ar les y cylla ei yfed gyda mêl da, a hefyd o bydd gwraig a dyn marw dan ei gwregys, cymmered y geidwad a gwin gwynn au berwi yn dda ynghyd ag yfed hwnnw yn oer, a hi a gaiff ei gwared yn ddiberigl o'r plentyn marw. O'i bwyo'n fân ag yn fâl ai ddodi wrth frath gwenwynig ef ai sugn allan y gwenwyn ag a iachâ'r brath.

Hefyd, o bydd brath yn llawn gwaed, ystwmpa'r dail yn fâl, a dod wrth y brath, ag ef a garth ei weli yn lân.

Hefyd, os bydd gwayw dan ais dyn, cais y geidwad a gwin, a thwyma'r gwin ar y tân cyndwymed ag y gellir ei yfed, ai gymmeryd yn ddiod, ac iach y bydd.

Hefyd, y mae'r isgell drwy'r dwr, ag edlyn drwy win neu fedd, neu gwrw yn ddiod dda dros benn i iachau y gwlyb-yrwst, a'r pas, a'r gwayw yn y penn, yn wir.

LLYMA ETTO AM RINWEDD Y DDYNHADEN.

§ 793. Y ddynhaden sydd lysewyn tanbaid twym a sych. Oi berwi ynghyd a gwin gwynn ai hidlo yn lân trwy liain ai adu i oeri, da yw i yfed y bore a'r nos i helpu dyn yn y clefyd melyn.

Cymmer had y dynaid a gwna'n bylor, a berw yn dda mewn dwr ffynon neu mewn llaeth geifr, neu mewn gwin

gwynn da, neu mewn hen fedd cadarn, a da yw'r edlyn hwn rhag hen beswch, a rhag y colic, ag i helaethu y cymmhibau a chwythïau eraill ynger y gwaed, o dodir halen ynghyd ag ef.

Hefyd, cais had y ddynhaden a bwrw ynghyd a phupur, a thymhera nhwy a gwin neu fêl, a dyro i yfed, ag er gwyllted fo corph gwr neu wraig ai hyfo, ef a fydd cyn ddofed a'r dofa oll.

RHINWEDD YR YSGALLEN FENDIGAID.

§ 794. Y mae ar yr ysgallen fendigaid i agoryd corph a pheri myned wrth faes, a'r llysewyn hynn wrth ei fwytta a wna les rhag dolur yn y penn ar llieingig, ag a bair clywed yn dda, ag y mae yn gwellhau yr ymhennydd a'r golygon, nid yn unig wrth ei fwytta, ond wrth iro y llygaid ai sudd, a phryd nas ceffir y sudd, arfer o'r llysewyn yn byloraid ai roi ynghymysg a dwr, a dod y sudd i ddyferu yn y llygad, a hynny sy dda rhag y gwaed a lithrodd ynddynt. Da hefyd yw'r llysewyn hwn i wellhau y synwyr a'r cof, a da hefyd rhag ysgawnder yn y penn; hwn hefyd y sy dda rhag y waedling o'r ffroen a'r genau, a phylor y llysewyn hynn ai gymysg a mêl a bair gwaredu llysnafedd ai boeri allan, ag y mae yn lleshau cylla gwann, ag yn peri chwant bwyd ag yn esmwythau y galon, ag y mae yn gwaredu gwaed drwg ag yn magu gwaed da. O berwer y llysewyn mewn dwr ai yfed ef a wareda hwnnw o'r drwg ag a geidw hwnnw yn dda, ag wrth fwytta y llysewyn ef a gryfhâ yr aelodau a efryder gan haint y giau a elwir y parlys, ag a gryfhâ'r madruddyn a'r ymhenydd, ag ai gwared o'r llynnor oer yr hwn sydd yn per gwall ag efrydd ar bwyll a nerth corph a synhwyr. Ag ef a wellha golyddion dolurus, a'r llysewyn wedi ei ferwi, neu ei yfed gyda gwin, a dyrr y garreg, a phynag pwy ai hyfo ar drwnc dyn bychan iachus efe a gaiff iachâd

o'r chwarren a'r gwlybwrwst, ag a wna i gornwydon dorri, ag ef a ortrecha'r cancar a chlefyd y ffeintiau ond cael pylor y llysewyn cyn pen deuddeg awr ef a dyrr y ffeintiau, a blodau'r llysewyn or gosodir hwynt mewn archoll ef a iachëir yn ddiddolur, a da yw cnoi'r llysewyn yn y genau er iachau cadernyd yr anadl; ag efe a iachâ o'r cryd oi ferwi mewn gwin ai yfed yn dwym ynghylch chwarter awr cyn dyfod y cryd a rho dillad ddigon arno i beri chwysu. A hynny a wared rhag y mwyth gryd, a'r mwyth poeth, a mwyth y cymmalau. A'r un modd pylor y llysewyn hwn gyda gwin twym, neu edlyn distyll y llysewyn a weryd dyn dolurus mewn byrr amser o bob gwenwyn a dderbynir i'r giau i hefyd. Os yfer y llysewyn drwy isgell, neu ei sudd ef, neu ei ddistyll, a chwedi hynny chwysu dros yspaid teirawr, ef a iachâ'r claf. A phylor y llysewyn y naill ai fwytta ai yfed fe esmwytha y gwewyr yn yr ystlysau a'r ddwyfron; dyma rinwedd yr ysgallen fendigaid.

LLYMA RINWEDD Y GWLYDD, SEF GWLYDD Y PERTHI.

§ 795. Cymmeryd eu sudd yn unig ddiod yn y gwanwyn a'r haf a lwyr ddinistra'r frech yn y gwaed a'r llynnor, yr hwn yw achos pob tarddant, a chrach, a chornwydon, a'r maenwynon, a'r ddarwyden fawr, a'r cancar, a'r iddwf, a'r ysgyfeinglwyf, a'r dyrglwyf, a'r gymmalwst, a'r gwst mawr, a'r tostedd, a phob mwyth a thwymyn, a phob brech ar gnawd a chroen, a phob dolur rhedeg ar lygaid, a phob llysnafedd pen a chylla, a phob hwydd gwynn ar gymmal neu arall o fann, a phob poethni a llosg yn y gwaed a'r llynnor, a phob poethwayw yn y penn, a phob cyfyngder yn y bryst a'r cylla, a than y fronglwyd, a phob hwydd yn y coesau, a'r traed, a phob mannau eraill o'r corph, ag nid oes nemmawr os un o'r doluriau hanbod ynghorph dyn nad achos brech yn y gwaed a'r llynnor y mae.

Y modd y ceir eu sudd y sydd fal hynn; cymmer y llysiau, yn ddail ag yn flodau ag yn had yn yr amser y bo arnynt a'r adeg, y cwbl ynghyd, a phwya'n dda a dod mewn llestr pridd diystaen, a llanw y llestr heb wasgu'r llysiau, yna dod attynt a wedd yn eu rhynged o ddwr rhedegog glân a gad sefyll noswaith, a rhai a ddywedant y byddai gwell o ddodi un pedryran o'r dwr yn ddwr môr, neu ddwr a helltir yn unias a dwr môr dros yr wythnos gyntaf o'r yfed, ag yna peidio a'r hallt ag ymgadw ar y croyw, ag yfed yn unig ddiod dros naw wythnos, a rhyfedd o gadarn os nid iach y byddi ymhen hynny o yspar.

Casgl y llysiau yn y gwanwyn a'r haf, a sych yn dda mewn haul bore, au troi au trafod fal y gallo'r haul eu trwyedu au sychu'n dda, a chadw ar dro a thrafod yspar y dydd, a'r nos eu cymmeryd dan do, ag oni fyddant sych eu gwala dod yr ail ddydd yn yr haul a gwna fal y dydd o'r blaen, ag os bydd achos ymhellach o ddydd, lle gall fod achos gan wlaw a chrwybr, a gochel ei gadu allan ar grwybr a niwl cans tynnu ffrwyth y llysiau o gwbl a wnant, a chymmer y llysiau yn eu dail ag yn eu blodau ag yn eu had, a sych bob un ar ei ben ei hunan mewn cistiau derw neu gawneni gwellt gwenith yn gaeedig, a phan fo achos cymmer y llysiau trwy'r dail a gwna ferwyn o honynt ag yf hwnnw dair wythnos, yna gwna ferwyn trwy flodau, ag yf dair wythnos, ag yna gwna ferwyn drwy had ag yf dair wythnos, ag fel hynn ydd ei di yn nhrefn Duw a chyfarpar nattur, ag anian a syrth y flwyddyn.

Y modd y gwneir berwyn o'r llysiau yw hynn, briw'r llysiau cochon yn fân mân a'th ddwylaw, a dod mewn llestr pridd diystaen ei lonaid, a berw ddwr rhedegawg a diwal ar y llysiau a wedd yn eu rhynged, a chyn diwal dod hidlen llaeth sef y gwaelod heb gylch ar wyneb y llestr i gadw'r llysiau rhag nawf dros ymyl y llestr pan ddiwaler y dwr

orwd arnynt, yna cau yn glos ar y llestr a gad sef chwech awr, yna yf yn unig ddiod a'r nos dod y llysiau dan wasg caled a derbyn y sudd drwy hidlen i lestr glân ag yf hwnnw wrth fyned i'r gwely yn lledtwym, ag os bydd ar dy gorph ryw yn y byd o darddant, neu gornwyd, neu addwyd, neu ddarwyden, neu grach, neu gosi, neu loscfan, neu archoll, neu glwyf, neu dwnn, golch a llynn y llysiau, ai sudd ai berwyn y bo, a lle bo mawr y dolur, dod y llysiau drwy sudd yn blaster wrtho, ag y mae hyn o gyfarpar yfed a phlasteru wedi iachau y maenwynnon, a'r ddarwyden fawr, a elwir yn Lladin *lepra*, a'r cancar gwedi bwyta'r cnawd hyd yr escyrn.

Cymmer had y gwlydd yn eu haddfedrwydd, a sych mewn ffwrn ar ol tynnu'r bara, ddwywaith neu dair, ag yna digon cras, gwedi hynny pylora nhwy mewn mortyr meinin, a chadw y pylor mewn llestr gwydr yn gaeedig iawn, a dwg gyda thi ar bob ymdaith oddigartref a chymmer lawn lwyaid o honaw ar ddwr glân deirgwaith yn y dydd ag ef a'th geidw yn iach rhag pob dolur, ag a wna yn lle bwyd itti wrth achos caled a daw yw trin had y malw yn yr un modd, a'r un modd eu harfer.

LLYMA RINWEDD Y GWYSGONLLYS, A ELWIR O FODD ARALL YR UCHELFAR.

§ 796. Yr uchelfar a dyf gan fwyaf ar efeillgoed ag ar yr yspyddaid, ag ef ai ceir o ddigwydd ar y dderwen, a gwell hwnnw lle ai ceffir na'r lleill, hagen da a da iawn pob un o honyn. Rhinwedd y gwysgonllys yw cryfhau'r corph yn amgen ag yn rhagor nag a wna un llysewyn arall. Casgl y llysewyn yn nyddiau y Nadolig, pan fo'r gwyfon sef ei faccwyon neu'r ffrwyth yn eu llawn addfedrwydd, a chasgl y gwyfon oddiar y brig a bwrw ddwr berw arnynt a chau ar y llestr y bo, a dod ynghlais y tân lle nas berwo yspar

diwarnod a noswaith, yna hidla'n wysgonaid i lestr glân lennen rawn glân; a chymmer y dail a'r brig sef y cwbl o'r llyswydden, a briw yn fân mân, a dod ar faen bara brwd, a chras yn dda gan droi a thrafod rhag llósci, a phan fo mor gras ag y gellych ei bylori gwna hynny, gan gymmeryd at hynny o ddarpar hanner a fo ar y maen o'r llysiau, a gadu'r hanner arall i olosgi onid elo'n lludy mân, dod y pylor a'r lludy bob un ar ei ben ei hunan mewn llestri gwydr yn gaedig trachwbl.

Os gwendid a fydd yn y corph, ai yn y gewynod, ai yn y cymmalau, ai yn y cefn, ai yn y pen a'r ymhenydd, ai yn y cyllau, neu'r galon, neu ysgyf, neu'r arenau, cymmer dair llwyaid o'r gwysgon a dyro mewn berw o ddwr, neu o gwrw, neu o fedd, neu o laeth, a gad ei amdawdd yn y llynn brwd, yna bwrw ar y llyn llawn ddiod o hono lwyaid o'r pylor ag yf bob bore yn wag, a hanner diod o'r un peth y nos wrth fyned i'r gwely, a da yw rhag pob haint yr ymhennydd, a'r gewynod, a'r cefn, a rhag yr haint digwydd, a gwallgof, a gwendid pen o bob rhyw, a'r efryddhaint sef y parlys, a phob gwendid cymmalau, ag ef a gryfhâ'r llygaid a'r clyw, a'r holl synhwyrau, ag a bair ffrwythlondeb corph a chael plant, a da yw i wr a gwraig rhag yr hadred neu goll nattur, a dyn ag a yfo lwyaid o'r pylor unwaith bob dydd ar ei ddiod syched a gaiff iechyd di dorr, a chryfder corph, a nwyf gwrawl, a'r un peth hefyd o gymmeryd llwyaid o'r gwysgon yn ei gawl neu arall o ddiod frod unwaith yn y dydd.

Os claf o'r tostedd, neu'r cyllwst wynt, neu'r dyrglwyf, cymmer lwyaid o'r llydy ar ddiod dairgwaith y dydd, a lle gallech bydded y ddiod o ferwyn y llysewyn hwn, ni waeth ai îr ai sych y bo, ag ef a'th wared, ag ymiachau a wnai.

Lle tyfo'r llysiau yn agos, nid rhaid ond isgell y gwyfon newydd a newydd, au casgl o ddydd i ddydd fal y bo gofyn, a berwyn y llysiau ffres a ffres, eithr lle bo pell oddiwrth au

ceffir gwneuthur fal y dywetpwyd, a chadw y llysiau yn sychon yn y ty drwy'r flwyddyn, au casglu haf, gauaf, a gwanwyn fal au ceffir ymhob ansawdd.

Goreu lle cael y llysewydd yma yw Gwent, a gwlad yr Haf, a Brecheiniog, a'r Mwythig, a goreu amser eu casglu dyfnder y gauaf o wyl Andras i wyl Fair y Canhwyllau, a da casglu'r llysewyn gwyrdd o wyl Iago i Galangauaf, ag er cael eu llydy llosg nhwy'n wyrddon, cyn y collont eu haliw.

LLYMA RINWEDD Y DDERWEN.

§ 797. Y dderwen a ddyry feddyginiaethau amrafaelion rhag pob dolur a ddyfydd o wendidau yn gewynod, ar madruddyn, a'r ymhennydd, a llawer ffordd y ceir meddyginiaeth o'r dderwen.

Cymmer asglod derw newydd eu trychu a dod mewn dwr rhedegog oni waedont eu gwnëdd, yna tynn allan a dod asglod ffres, a gad fal o'r blaen, gwna felly hyd ymhen y naw dodiad, ag yna berw y llynn yny bo'n ei hanner, yna dod ynddo fêl, pwys punt at bob dau alwyn, a gwna ef yn fragodlyn, ag os bydd dod ynddo beth gwysgon y gwysgonllys, guwch ag a fo o'r mêl, os bydd, neu yr hyn a fo, a lle nas bo da iawn er hynny y llynn hwn, ag ef a elwir bragodlyn y derw, a goreu o bob diod yw i gryfhau corph, a nattur, a'r gewynod, a'r ymhennydd, a'r madruddyn, ag ef a wellhäa'r clefydon a ddyfyddant o wendidau, ag yfed lawn ddiod o hono y bore ar y cythlwng.

Rhisgl y derw, y nesaf i'r pren y sydd dda rhag pob gwendidau, cymmer ef a chras a phylora, hefyd sych ef yn gras cras a chadw yn y modd hynny, fal y bo hwnnw a'r pylor gennyt rhag angen, a da ydynt ar ddiod neu eu hisgell rhag pob gwendidau, a rhag pob haint o fwyth ai parhaus ai gwerseddog y bo; a'r mwyth trydedydd a phedrydydd, a da yw rhag pob nattur brech yn y gwaed a'r llynnor; ag

isgell y rhisg yn îr y sydd dda iawn rhag yr un doluriau, a'r berw mewn cwrw, ag mewn llaeth gwartheg neu eifr.

Cymmer mes y dderwen yn eu haddfedrwydd a chras yn gras cras a phylora, a chadw mewn llestr derw yn dra chaeedig, a bwrw llwyaid ar dy ddiod nos a bore, a lle bo gwendid a choll neu draul nattur ar wr neu wraig cymmer dair llwyaid o'r pylor hwn, a berw mewn llawn ddiod o laeth geifr neu wartheg a dod fêl ynddo, ag yf nos a bore, ag ef a weryd y clefyd, a da yw rhag yr holl wendidau a soniwyd eiswys am danynt, a da rhag gwaedling gwraig, a rhag y tradd ar bob dyn, a rhag ysgyf dolurus, a da yw o fwyd gyda bara crasdafell o wenith i bob dyn gwan o gorph a rhag traul yr ysgyfaint, a phob traul corph a nattur ai gymmeryd yn fwyd cyfarpar.

Cymmer fes a gwna frag a nhwy, a gwna gwrw a'r brag hynny, a gorau ag iachus o bob cwrw yw, a da rhag pob gwendidau ag au dyfyddant o doluriau.

Casgl ddail y deri ym mis Awst neu fis Medi, a sych yn dda a chadw yn gaeedig, a dod ar bob twn o groen, ag ar ddofynau dyfrllyd, ag iach y byddi.

Cymmer fes cras, neu risgl nesa i'r pren cras, a mâl gyda'r yd bara, a gwna fara o hono, a goreu o bob bara i gryfhau corph dyn yw hwnnw, a goreu i wared rhag pob dolur gauaf ag oerfel a gwlybin yw.

LLYMA RINWEDD Y DDERWEN FENDIGAID.

§ 798. O byddi claf o'r maenwynnon cymmer isgell neu ferwyn y dderwen fendigaid, a chasgl ef wreiddiau a chwbl yn amser ei had a chras yn dda, a phylora, a chadw y pylor yn anwyl dan gaead trachaead, a bwrw ar dy ddiod yn gyfarpar di dorr. Berw hefyd y llysewyn drwy wraidd a hadau mewn cwrw, neu fedd, neu laeth geifr neu wartheg, ag yf yn ddiod cyfarpar; cymysg y pylor hefyd a blawd dy

fara ai gymmeryd yn fwyd cyfarpar gyda llaeth geifr, ag oni bydd geifr llaeth gwartheg; ag os clwyfau rhedegog bwrw y pylor arnynt, a chymmer y llysewyn drwy wraidd a chwbl a phwya'n dda a berw gyda menyn gwyra ag ychydig gwyr, a hidla'n dda a dod wrtho, a chymmer sudd y llysewyn drwy wraidd a dail, ag ira glwyd y ddwyfron ag ef bob dydd hyd y bo'r llysiau ar gaffaeliad, ag yn y gauaf cymysg y pylor a mêl ag ira yn yr un modd, a da'r cwbl rhag pob doluriau a ddyfyddant o wenwyn y maenwynnon, ar yr ysgyf, a'r afu, a'r arenau, a'r ymhennydd, a'r llygaid, ag ymhob man arall, casgl ef a phob llysewyn arall yn enw Duw, ag na ro goel i'r rhai a ddywedant y dylid ei gasglu yn enw y cythraul, gan nid oes a wna'r cythraul a daioni.

LLYMA DDANGOS PEDAIR ELFEN DYN, AG O HONYNT Y PEDWAR CYFNYWYDD NEU BEDWAR ARDYMMYR DYN, CYNTAF Y GWAEDRYAR, AIL YR ULIAR, TRYDYDD Y GERI, PEDWERYDD Y DUEG.

§ 799. I adnabod pobl o'r cyfnywydd gwaedryar, neu waedlawn. Un a fo'n waedryar, neu o'r cyfnywydd gwaedlawn, a fydd tew naturiol, ag nid yw yn dew yn unig, cans hynny sydd arwydd o natturiaeth oer, canys fel y dywaid Avisen, digonedd o gnawd a arwyddocca natturiaeth dwym. A digonolrwydd o gig a fegir drwy amlder y gwaed, mal y dywad Avisen. Pob dyn coch heb frasder o'r gwaedryar y mae mal y dywad Galen. Dynion gwaedryar a fyddant llawen ag a wrandawant chwedleu a digrifwch, ag o'r achos hynny hefyd byddant odinebus ag yn chwannog i ewyllys y cnawd, a hwy a yfant win yn llawen hefyd. Dyn gwaedryar a fynn ei fwyd or goreu, canys y gwaedryarion bobl a fynnant y bwyd nesaf at eu natturiaeth: hefyd, dyn gwaedryar a hwardd yn hawdd, canys y gwaed a fyn lawenydd; hefyd, ef a fydd teg o natturiaeth ei gyfnywydd, ag ef a ddywed yn ebrwydd, ag ef a fydd hyddysc i ddysgu pob gwybodau, a chelfyddodau a dosparthau dyfnion a bydd awengar ag ef a

gar ddychymygiaethau ag ymgeisiadau ag ni ddigia ef yn hawdd, ag ef a fydd hael ei galon ag anchwennychgar, ag ef a fydd gariadus, ag a fydd serchogaidd ei ymddwyn, a hawddgar ei weithred ai gamp, ag ef a fydd coch o liw, mal y dywed Avisen lliw coch ar groen dyn arwyddocca digonolrwydd o waed, a hwnnw ag gydnabyddir o liw coch eglur a gloyw, ag nid tywyllgoch, megis y rhai a fyddant ag ef yn y wyneb o waith yfed gormod, ag a font yn ymarfer o lyseuau, canys y rhyw liw a hynny a arwyddocca gwahanglwyf, a brechlydrwydd, a llwyr llynnor, a gwaed; hefyd, ef a gân yn beraidd a serchog ei lais, ag a wrendy ar ganu, ag a ymgyfeillacha yn fynych a chaneugar, a llawen, ag lawengar, ag ef a gar dannau a phob peiriangerdd, ag a fydd buan a diwith yn ei orchwyl ai ymgyrch, hefyd ef a fydd dewr a hyderus gan dwymder y gwaed, ag a fydd fonheddigaidd drwy natturiaeth y gwaedlonder, a lle nis caffo athraw efe a dyb yn ry dda am dano ei hunan, ag a fydd croesan a geneugoeg ag amhwyllus achos rhysgyr gwaedlonder, ag ar y cyfagos gweithred a meddwl, ag nid mynych ar y pell; ag hefyd ef a ddysg o awen ag nid o ddambwyll, a gnawd iddaw fod yn dra choegeddus a byrr yn a ddywetto, ag a wnelo, a mynych y daw yn wall arnaw chwerthin ag ymgroesanu am nas gwypo gan chwiwder a gwylltineb y cyfnywydd gwaedryorr.

I ADNABOD CYFNWYDD YR ULIAR.

§ 800. Un a fo ai ardymmyr o'r uliar a fydd wineu o herwydd nad yw ei nattur ond egwan, yn yr ail gyfarwel hwy a fydd fyrrion a thewon y bobl a font o'r uliar, o herwydd nid ydyw eu nattur cyngryfed ag y gallont dyfu o hyd, hefyd hwy a fyddant diffrwythach na phobl or cyfnwyddeu eraill o herwydd eu hoerfel, a hynn a bair iddynt gyscu fwy nag y cysg eraill, a phobl gyall a fyddant,

hefyd hwynt a fyddant diog a hynny o achos oerfel, canys mal y gwna twymder dyn yn ysgawn ag yn rwyfein, felly y gwna oerfel ddyn yn drwm ag yn ddiog; hefyd pobl o'r uliar a fyddant dewon o achos amhuredd y corph; hefyd hwy a fyddant drwm feddwl a chysglyd, neu gysgu mawr, ag o chaffant athraw hwy a fyddant yn ddeallus ag a wybyddant a weddai wybod arno, ond achaws eu hoerfel au trymder gweinion y byddant ym mhob ymgais ag a ddiffygiant yn dra hawdd, ag ni chofiant yn dda, ag ni charant ond er eu lles a'u hynnill; ag ni fynnant lawenydd, na chanu, na digrifwch, a chyd y ceffir tryw ynddynt ni cheffir awen, eithr y lle y bo cymysg o'r gwaedryar yn y cyfnywydd, a lle bo hynny mynych y gwelir doeth o ddyn ag yn gadarn ei awen, ag yn amyneddgar, ag yn ddioddefgar, ag yn ddyn pwyllgar, ag ni char ymgroesanu, nag ymwageddu, nag ysmaldodi, achos ni char ond a fo gweddus a chadarn.

I ADNABOD CYFNYWYDD YR AGER A'R BOBL A FYDDANT O'R ARDYMMYR HYNNY.

§ 801. Un a fo ai ardymmyr o'r ager neu'r geri a fydd ammhwyllog o achos arddigonedd o dwymder, yr hynn ai try ar wylltineb; ag un a fo o'r cyfnywydd hwn a fydd dra chwennychgar i gael uchelder ag urddas a bod yn benn ag yn feistr ar eraill, o achos twymder natturiol a wna feddwl dyn ar ffolineb. Hefyd y bobl a font agerddawl a ddysgant yn hawdd achos twymder y geri, ag ni fawr ymbwyllant ar a ddysgont; hefyd hwy a fyddant o galon uchel, sef yw hynny ni allan hwy oddef dim camwedd gan eu twymder hwynt, a hwy a ddeisyfant uchelder mawr, a swyddau, a derchafedigrwydd, a dyn gerïawl a fydd mor odinebus ar afr, a threch gwŷn na serch pob telm a geir arnaw, a thwyllwr y bydd efe, ag ef ddigia yn hawdd am bethau bychain, a hynny a arwyddocca twymder yr ager, a gwaed

berwedig ynghylch y galon, ag ef a fydd ffel ag yn chwimwth ag annoeth ei ystryw ai ddychymyg, a threch rhysgyr na thryw yn a wnelo ag a feddylio, ag ef a fydd yn gul yn ei aelodau, ag yn sur, ag yn unlliw a'r saffar; mal y dywaid Avisen, y lliw hwnnw a arwyddocca uchelder, a chul y bydd corph ag aelod, ag un a wel yn arall y bai lle na bo, ag ni wyl a fo arno ei hunnan yn fai, hefyd ef a fydd garedig i'r i'r neb ai anrhydeddo, ag yn falch sarrug wrth na wnelo hynny, a dialgar ag a wnant gam ag ef ar drais ag ar gelwydd, ag nis gellir cymysg o'r uliar arno, a phei gellid myned ynghyfnywydd y gwaedryar a wnelai o hynny, ag anffyddlawn a symudgar y byddant y bob o'r ardymmyr hwn; ag o'r pedwar cyfnywydd mewn dyn, hwnn yr anhawsaf ei wellhâu a gyrru moddoldeb arnaw; a'r ardymmyr hwn a elwai Rys Feddyg yr agerdde, achos ager y berw amgylch y galon a chwerwedd y bustl mewn dyn.

LLYMA DDANGOS AMNABOD NATTURIAETH A CHYFNYWYDD Y DDUEG, AC ARDYMMYR Y BOBL A FYDDANT DDUEGAWL.

§ 802. Un a fo ai gyfnywydd o'r ddueg a fydd sur ag anfoesol megis yr hwn a ymladdo ei hunan; hefyd, y rhan fwyaf o'r bobl a font duegawl a fyddant drist, ag ychydig eu chwedleua hwynt o achos eu hoerfel, hefyd, hwynt o fyddant astudawl, a myfyrllyd, a myfyrgar, a chwennychgar a fyddant i fod yn unig ag ar eu pennau eu hunain, ag ni allant gyscu yn hanner da achos sychder yr ymhennydd ag a bair iddynt fryddwydaw a dyhunaw oi cwsg, a hwy a fyddant astud o feddwl a chofaduriaid da, ag anhawdd eu gwasanaethu, a chenfigenus a chwenychgar, ag a wnant yn ddrwg achaws gwendid a bair nas gallant yn dda fal y chwennychant, achaws hynny taliadwyr drwg a thwyllodrus fyddant. A dyn duegawl a fydd ddarllenwr mawr, ag ymprydiwr, ag ofnus, a lliw y ddaear a fydd iddynt y bobl o'r ardymmyr

hwn, yr hwn liw os gwyrdd fydd a arwyddocca urddas fal y dywaid Cassys y gwr doeth, a phob un o'r rhyw y sonier am danynt a fyddant ar y gormodedd ym mhob peth os trist a thrwm rhwy fal hynny, os llawen rhylawen ag nid oes gymmesur yn y byd arnynt, carant ganu yn yr unigfa, a charant o'r unig wrandaw cerdd a thannau, a charant ddangos eu meddyliau am eraill, ag ni charant ddangos modd y bydd arnynt eu hunaint, awengar a chywraint y byddant, ag nid mawr y carant ei ddangos, a nhwy a wellhant wybodau a chelfyddyd, ag a ddysgant yn llwyr ag a fyddant fanol yn a wnelont ag a ddywedont, ag os cymysg o'r gwaedryar ynddynt doethion amgenach nag eraill am gwelir, ag os o'r geri fydd y cymysg, chwerwon a surion fyddant, angnattach na neb eraill, ag os o'r uliar cymysc, hwy a gollant arnynt eu hunain ag a ymladdant eu hunain. Cul o gorph ag aelodau y byddant, a mynych o brydydd a geffir o'r cyfnywydd yma, ag aml y gwelir traserch a thrachas ynddynt.

Llyma gyferddonolion a gorchestolion o feddyginiaethau a gafwyd o rad Duw, a gwybodau doethion a duwiolion yr hen amseroedd, nid amgen y cyferddonau a ddangosir yma.

I BERI I DDYN GYFFESU BETH A WNAETH.

§ 803. Cymmer froga o'r dwr yn fyw, a thyn ei dafod, a dod eilwaith yn y dwr, a dod y tafod hwnnw ar galon dyn yn cysgu, ag efe a eddyf beth a wnaeth trwy gwsc.

RHAG Y DDANNOEDD; CYFERDDAWN YW.

§ 804. Santes Fair a eisteddodd ar garreg, ar faen yn ymyl ei meudwyfa, a'r Yspryd Glân a ddaeth atti pan oedd drist. Pam drist ti fam farglwydd, a pha ddolur a'th flin? Dolurio mae fy nannedd, ag au amddarwanodd pryf a ddaeth yma a elwir migram, ag mi ai cnoais ag ai lleweis.

Mi a'th dynghedaf di daffin o negrbina trwy yr Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân, Mair Forwyn, yr hael feddig Duw, na bo itti allel na chlwyf na dolur na molest i wasanaethwr y Dduw yma, yn gyndrychol yr awr honn nag mewn dant, nag mewn llygad, nag mewn penn, o gwbl or dannedd bob gwir yt. Amen.

CYFERDDAWN RHAG Y FAM, A RHIWALLON FEDDYG AI DODES I WYRFYL FERCH RHYS AB GRUFFUDD AB RHYS AB TEWDWR.

§ 805. Rwyf yn dy dynghedu di y fam ddolurus drwy'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan, fel na ellech di ddolurio na chael pwyer ynof fi Gwyrfil ferch Rhys gwasanaethwraig i Dduw, nag ei phenn, nag yn ei breichiau, nag yn ei bronnau, nag yn y cylla, nag yn lle yn y byd o'i chorff, o gorfydd Duw Dad, o gorfydd Fab Duw, o gorfydd Duw Yspryd Glân: poed felly y bo, Amen.

RHAG Y DDANNOEDD.

§ 806. Cais hoel haiarn, ag ysgrifenna arni y geiriau hynn, -|- agla -|- Sabaoth -|- athanatos -|- a tharo yr hoel dan y dant claf, ag oddyna mewn pren derwen, a thra fo hi yno dannoedd i'r dyn, ac a'r hoel ysgrifenna enw y dyn ar y dderwen, dan ddywedyd fal hynn: Trwy rymiant y Tad a'r geiriau cyssegredig yma, fel yr ei di yn y prenn, felly yr el y gwŷn a'r dolur o ddant y claf; poed felly y bo. Amen.

FAL HYNN Y GWNAETH RHIWALLON FEDDYG RHAG GWAEDLING I LOGRAINYS FARCHOG, SANGIWS FARCHOG A DDYWANODD YSTLYS CRIST FAB MAIR WYRY AG AR HYNT DOETH Y GWAED A'R DWR.

-|- Saf waed -|- yn enw'r Tad, saf waed -|- yn enw'r Mab, saf waed -|- yn enw'r Yspryd Glan, gorphwys waed, -|- yn enw'r Trindawd bendigedig na red weli, -|-.

Vnnfith Dews Patris, bnnfith Dews Filius, bnnfith Dews Spiritus sanctus -|- Christi Amen -|- Amen -|- Amen -|- Amen -|- poed felly y bo.

I BERI CYSGU.

§ 807. Cymmer gorn gafr ag ysgrifenna enwau y saith gysgadur arni, a dod hi yn garn cyllell, a dechreu yr ysgrifen oddiwrth y llafn, a llyma eu henwau, Anaxeimeys, Malchws, Marsianws, Denys, Thon, Serapion, Constantynn; a gwedi ysgrifenu yr enwau dod y gyllell dan benn y claf heb yn wybod iddo, ag ef a gwsg.

Pro morbo kadendo, HYNNY YW Y CLEFYD CADARN, PAN DDEL A CHWYMPO O DDYN.

§ 808. Dyro dy feddwl at Dduw yn dda a dywed y geiriau hynn dair gwaith yn ei glust **Anamzapta,** a phan gotto'r dyn o'r llygfa dyro iddo fustl ci, a chrog ef yn y tŷ y bo'r claf yn preswylio, a dod ef lle y caffo wynt hyd ymhen y tridiau, yna * bwrw mewn chwart o gwrw hyn el yn beint, a dyro yfed i'r claf cyn y delo y clwyf eilwaith.

Llyma swyn a wnaeth yr Arglwydd Iesu Grist ei Hun, ag a ddangoses i'r tribrodyr gan ofyn iddynt pa le yr aent, ni awn ebent hwy i fynydd yr Olifer i gasglu llyseuau i iachau brathau a dyrnodau, yna y dywad Ef ymhoelwch drachefn a chymmerwch eliw'r eliwydden, a gwynn wi, a gwlan du, a dodwch wrthynt gan ddwedyd fal hynn: Mi a'th dynghedaf di frath drwy rad a grymiant yr wyth archoll yr rhain a fuant yn y gwir Dduw a'r gwir Ddyn, ac au cymmerth yn y santeiddaf gorph er yn prynu ni, ac er yr hwn a ddymyneisti dy hun, ac er y blinder a gefeisti, ag er y bridwerth a bryneisti dy Hun, Iesu Grist, hyd na ddolurio ag na ddrewo, ag na ddrygroglo y brath hwn y mau, yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân; poet gwir. Amen.

* Berw *yn ddiau.*

RHAG Y MWYTH GRYD CYFERDDAWN.

§ 809. Dod yr ysgrifen honn ar bwll calon y claf yn grogedig am ei fwnwgl.

Pan weles ein Harglwydd Iesu Grist y grog a ddarparesid iddaw, Efe a grynes yn ddirfawr, a'r Iuddewon a ofynasant iddaw yn llynn, ai ofni ydd wyd o weled y grog honn, neu ynteu y mwyth gryd y sydd yn dy ddoluriaw, a'r Iesu au hattebes yn llyn, Myfi nid wyf yn ofni y grog honn, ag nim doluria'r mwyth gryd, eithr crynu ger bronn fy Nhad nefawl ydd wyf gan weled ei ddarpar Ef i'r rhai am crogant, ag wrthych yn lle gwir y dywedaf y neb o ddyn a glywo'r geiriau a ddywettwyf ag au cretto ag a wnelo yr hynn oll a ddodais yn orchymynedig ynddynt gann ymgrynu ger bron ei Dad nefawl, efe ni ddolurir fyth gan y mwyth gryd, ag ni ellir a bair iddaw ofnau. Ag yn awr o Arglwydd Iesu Grist poed o'th drugaredd na chaffed y mwyth gryd ddoluriaw a blinaw dy was hwnn a gwasanaethwr Duw Dad o'r nef, nag yn awr gyndrychol nag yn un amser arall ynghyffryd ei fywyd ai einioes yn y byd hwnn, yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân, a phoed felly y bo. Amen fyth.

I WYBOD PAN FO DYN YN GLAF PUN FYDD EF AI BYW AI MARW.

§ 810. Cymmer wi a ddydwer ddydd Iau yn y tŷ lle bo y claf, ag ysgrifenna y llythyrennau hynn arno,
F. G. O. G. Y. L. O. Y. S. a dod hwnnw mewn lle safedig y maes o'r tŷ, a thrannoeth y bore torr y wi, ag o daw gwaed y maes marw fydd, ag oni ddaw gwaed byw fydd.

RHAG Y DYFRGLWYF, SEF YR *IDROPS*.

§ 811. Ira wenholod bychain a saffar, a chyn nemmor o ennyd fe ddaw yr hen wenholod a maen iddynt hwy, ag a hwnny y lleshëir y claf o'r *Idrops*.

AM ELLWNG GWAED I YMDDIFFYN GOLWG DYN.

§ 812. Pwy bynnag ag y gellyngir gwaed arno y ddeunawfed dydd o fis Mawrth yn y fraich ddeheu, ag ar yr ugeinfed dydd y fis Ebrill ar y fraich asswy ni bydd byth ddall, canys hyn a brifed yn fynych.

RHAG DAFADENNAU.

§ 813. Golch y dafadennau a dwr o'r bedyddfaen lle y bedyddiwyd y seithfed fab i yr un gwr a gwraig o briod.

Y FFORDD Y CEIR GWELED Y PETH NAS GALLO ARALL EI WELED.

§ 814. Cymmer fustl cath a bloneg giar, a chymysgc hwynt ynghyd a dod ar dy lygaid ag di a gei weled y peth na chaiff arall ei weled.

MODD Y GEILL DYN DDALA TAN YN EI LAW.

§ 815. Cymmer y malw bendigaid, a gwynn dau wi, ag ira dy ddwylaw ag hwynt ynghymysg, a dod bylor elyf arno ar dy ddwylaw, ag felly di a elli deimlo tân yn ddi ddolur, a dala tân a harn brwd yn dy law yn ddiofn.

Llyma ddeuddeg cyffredinrwydd y sydd ar groen neidr y rhai a dystia Alphibam ei bod yn dda, ag a ddwad i fod yn wir ag yn ffrwythlawn i'r sawl a arferei o honynt, a minnau o'r iaith Arabaidd ai troes i'r Llading, ag o'r Llading i'r Gymraeg, nid amgen.

Pan fo y lleuad ar dyfiant cyntaf o'r arwydd a elwir Aries sef yr Hwrdd, ys sef yw hynny gwydyr yr arwydd, hwn a ddigwydd ynghylch hanner mis Mawrth, y trydydd dydd o Galan Ebrill yno y bydd yr had cyntaf i'r arwydd yn yr hwn ar yr amser hwnnw llosgwch groen neidr yr hwn a fwr hi oddiwrthi amser cynhauaf, a dwg y lludw hwn genit, a chadw ef yn dda o achos mawr werthfawrogaf yw

ef or holl eliau, yr hwn ni ddichon tafod dyn i gyfarwyddo, y cyfarwyddyd cyntaf yw hwnn. Pwy bynnag y fai yndo frath newydd doded ychydig o'r lludw hwnnw yndo, a iach o fewn tridiau fydd.

Llyma bellach ddangos enwau y llysiau, a'r ffrwythau, a'r defnyddiau Llyseugael ag eraill a ddylai pob meddyg eu gwybod ag ymarfer a nhwy er iachau doluriau, a chlefydau ynghorph dyn.

A.

Agnus castus, y bendigaid, dail y twrch, dail fendigaid.
Asarabacca, llysiau'r cyfog, y fflamgoed.
Anigrifoliwm, y pump dalen.
Athemesia, y mâs.
Agrimonia, y tryw.
Anibrotana, llysiau'r corph.
Absinthiwn, chwerwyn, chwerwyn y twyn.
Abrosianwm, chwerwlys yr eithin, llysiau'r bystwn.
Apiwm, yr halogan, y perllys y môr.
Aliwn, garlleg, craf y gerddi, craf ffrengig.
Arnoglosa, llydan y ffordd,
Agrigida, rhuddos, gold, rhuddaur, sensegl.
Aleluia, surion y coed.
Arnogloswm, y llwynhidydd.
Agrioselinwm, dulys, alisantr, march berllys, perllys y berllan.
Agriophylwm, ysgall y moch.
Anetiwm, anis, gwewyrllys.
Asiantws, y rhydd redyn.
Acanthws, troed yr arth.
Artiplex, y llygwyn.
Arunda, corsen.
Aurantiwm, auronwydd, auronen, afal euron,
Anuncia, y fabcoll.
Amarista, amranwen, y tormwyth.
Amarica, yr eliniawg.
Aliscandriwm, marchberllys y gerddi, alisantr.
Acrifoliwm, y clwt, yr egrai.
Asblebion, tafod yr hydd.
Andram, y dorllwyd.
Amatoria, ffrwt i wared.
Artemisia, y ganwraidd lwyd.
Agrium, y torwynt, llysiau Cadwgan, y falerian.
Alum, y gieulys, llysiau'r giau, y glydlys.
Agripalma, babanllys, dynhaden ddall, torloes.
Auricula, clustiau'r arth, y ffrydd, blodau'r fann.
Alaria, adain y llew.
Anemonia, blodau'r gwynt, y ffrithogen.
Auripimentwm, aurbib, yr aurbibau.
Agria molosia, malw'r perthi, malwen y meusydd.
Agrostis, dant y ci.
Agrocinaria, ysgall Mair, ysgallen fraith.
Agrifoliwm, celyn.
Apiastrwm, llysiau'r gwenyn, gwenynddail, melorllys.
Acedula, penlon.
Archangelica, dalfedel.
Assa nigrwm, y bengaled.

Attramendwm, yspargam yr hesg, y gellesc.
Asparagws, y merllys, magwrllys, gwillan.
Aristologia, yr henllydan.
Assafetida, baw diawl, y drewgi.
Argilla, dail y clas.
Avalana, cnau'r gerddi.
Amaranthws, ammorlys, blodau ammor.
Aletorolofws, arianllys.
Acopus, drewgoed.
Abiga, y dorllwyd.
Acorwm, gellesk, elestr.
Argentaria, y dinwen, y dinllwyd.
Apios, clor, clorlys
Alicubi, ffiol y ffrith.
Acetabwlwm, crynddail.
Acipitrina, gwlaeth y waun, llaethygen y waun.
Aconitwm, llysiau'r blaidd, bleiddan, bleiddlys.
Anaglis, llysiau'r cryman.
Aptiaca, gwŷg, pys gwyllton.
Apolinaris, y belai, llewyg y iar.
Aristologia, llysiau'r galon, ysgarllys.
Angelica, llysiau'r angel, y wreiddber.
Alsinc, gwlydd y perthi, llau'r perthi.
Asphodelwm, y gilgain.
Anethwm, gwewyrllys.
Athanasia, tanclys, llysiau'r tanc, tanced, tancedlys.
Antylys, palf y gath.
Asplenwm, rhedyn y graig, rhedyn y gwelydd.
Alliarwm, troed yr assen.
Andrachne, troed y cyw,
Anti rhinwm, trwyn y llo, safn y llo, llwnc y trothwy.
Arwm, pidyn y gwccw.
Alcea, malwen Alis.
Alicampania, marchalan.
Aquileia, troed y ceiliog.
Acetaria, melynsur.
Amera, had y rhos, grawn y rhos, gwyfon rhonwydd.
Anatolia, llorwydden.
Ardaliwm, corsen, cyrs.
Alga, gwimon, gwigmor.
Alwmen, elyf.
Andonica, gwrlys.
Argimonia, y dinllwyd.
Argentina, arianwen, y dinllwyd.
Alcea, malwen Alis.
Arbutus, mefynwydd, mewydd, mewydden.
Aquilegia, madwysc.

B.

Bacca, gwyfŏn, gwyfonen, maccwn, maccynen, grawn coed, greol, egroes, manaeron coed.
Baccalina, bae, baewydd.
Balania, greol gwin, grabon, ffrwyth gwinwydd.
Balsamwm, balmwydden.
Balsaminwm, balm.
Bambata, morwynwyn.
Betonica, cribau sanffred, y bittain, y bitton, y feddyges lwyd, dannogen.
Betonica aquatica, dannogen y dwr, y feddyges ddu.
Barba aeron, pys y ceirw, pwys y ceirw.
Barba sacti, y ganwraidd lwyd.
Buglosswm, tafod yr ych.
Bursa pastoris, pwrs y bugail, llysiau'r tryfal.
Batinwm, mwyar y perthi.
Buboniwm, y serlys, serenllys, dail y tenewyn, blodiau gwydion.
Botrus, gwinwyfon.
Byglosa, glesyn y coed.
Beneria, grug, grel.
Bibilis, brwynen.
Burneta, y rhwyddlwyn.
Borago, tafod yr ych, tafod y fuwch.
Barba Jovis, llysiau pen tai, y ferllys, berllys.
Bellis, llygaid y dydd.
Bipnelia, gwyddlwyn.
Biciona, pys y llygod, gwŷg.
Barba capri, barf y bwch, erwaint, barfogan.
Batis, corn y carw mor, eliglys.
Bardana, cyngaw, caresgar.

Botris, derwen Gaersalem.
Bransi, crynllys, crynddail, y gron doddaid.
Brassicca, breswg, bresych.
Brionia, coedrwym, greol y cŵn, eirin gwion, gwion y perthi.
Belliwm, priellau Mair, deigren Mair, sammwl.
Beata, } melged, sewlys,
Beta, } y chwecclys.
Bardana, cyngaw, baw mwcci.
Barba senis, barf yr hen wr.
Branca, trigon, tygron.
Bonia, hiawl.
Boletus, grion, grionen.
Bacca palustris, llus, llusi.
Bacchar, menig Mair, meddyg y bugail.
Bacciferia, gruglys.
Barbarœa, berwr Ffrainc.
Batws, mwyarwydd, mwyar.
Benedicta, y fabcoll.
Berberis, y pren melyn, drain ysbin, greol ysbin.
Bifoliwm, gefellys.
Bipennula, gwlydd Mair.
Bismalva, malw yr hêl.
Blephara, alaw, llynnon.
Blitum, blithan.

C.

Caro, garddwy.
Chamaerops, dail yr ysgyr.
Chelidonia, melynllys, llysiau'r wenol, y ddilwydd felen.
Centauria, bustl y ddaiar.
Calamentha, mynt y mynydd.
Cariophiliwm major, benigan, clawen ffrengig.
Cariophiliwm minor, pinc, ceian, ceilys.
Cumminwn, llysiau'r hedydd.
Cochlearia, chwerfwr, y chwerfell, golofan.
Cyperus, ysnoden Fair, gelinllys.
Consolida regia, yspardunllys, yspardun y marchog.
Ceraswm, ceiros.
Capina, corwynwyn, ceninog.
Cœpa, gwynwyn, egryn, egran.
Chamaedaphne, perfagl.
Clematitis, ysgarllysc bychan.
Cardus niger, ysgall duon.
Cardus maculatus, ysgallen fraith.
Crassula minor, y ffaflys, yr orpin.
Cardamonia, grawn Paris.
Capillis Veneris, gwallt y Forwyn.
Caprifoliwm, gwyddfid, gwyddfel.
Cynanthemis, llygad yr ych.
Capnonia, mwg y ddaiar.
Carex, hesg, gellesg, gelesg.
Cassythia, llysiau'r llindag.
Cardus Veneris, cribau'r pannwr.
Calendula, sensegl, rhuddos.
Chimilla, y feidiog las.
Coronopus, dant y llew.
Consolida major, cyfardwf.
Crithmwm, ysgyrydlys y mor.
Cardus benedictus, ysgall bendigaid.
Chamepitys, palf y gath.
Cornus silvestris, pisgwydden.
Camilon, ysgall y blaidd.
Cineria, llysiau'r llydw.
Capsella, mwstarth.
Consolida minor, llygaid y dydd.
Coronopus, erllyriad y mor,
Cyclamenis, didol, didenol.
Carota, moron, dawcan goch, ciwig yr ardd.
Calaminthus, mynt y gath, mynt bendigaid.
Cynosrhodes, rhos y cwn, breilwy y perthi.
Convolvulus, y taglys.
Cicerbita, ysgall y moch.
Canopican, cyfoglys.
Cimbaria, llysiau'r geinog.
Consolida media, glesyn y coed.
Crispinus, yspinwydd, y pren melyn.
Cucumerasinus, dynaid gwynnon.
Crithamon, eliglys, githrell.
Cannabis, cywarch.
Cawlis, cawl, callorlys.
Castania, cestin, cnau cestin, cestinen, cestinwydd.
Chameleucis, troed yr ebol.
Cinamoniwm, canel.
Crocus, saffar, y feddyges felen.

Consolia, mader, llysiau Mair.
Chamaemiliwm, milwydd.
Cedrus, cedryswydd, llibanwydd.
Clobina, dulys, alisantr,
Clutumws, yr engraff.
Cladiolws, yr hylythr, y gloria.
Cariophilis, claw, clawen, y clawan, y clewyn.
Centoria, ystol Crist.
Concloida minor, yswinfri.
Cetra, redyn y gogau.
Cisampelis, berthlys.
Cristagalli, arian gwion.
Comeria, barf y bwch.
Cicuta, cegyr, cegyr oer, cegyr Bened.
Cnita mattifera, y bumystl, pymystl.
Catabrica, blodau'r gog.
Cynoocrambia, yr yscedd, yscedd y cwn.
Crambe sativa, yscedd y gerddi, yscedd lledfegin.
Ciglesia, pigle, woodstarre.
Coliandria, coliawndwr, coliandrwn, coliandr, brwysgedlys.
Cyanws, y clafrlys.
Crenaria, bwlwg yr ŷd.
Calendula, swyn-ystres.
Craspula, y ganhewin.
Cardamwm, berw'r lledfegin.
Culaniwm, llysiau'r dom, y dinllys, dail y dindost.
Confeiria, gludoglys y cwmffri, llysiau'r cwlan.
Cadania maria, berwr.
Casofoliwm, craf y geifr.
Canfeged, cyflaith.
Colocasia, mynt y meirch.
Castania, castain, cneuwydden, gestin, cestinen.
Convolvulws major, cloffrwym y cythraul, cloffrwym y mwcci.
Codyla, yr amranwen.
Cam, claer, orchwyrydd.
Calemintwm, mynt y feisdon.
Cifrwm, erwaint.
Carifoliwm, y fabcoll.
Cessesta, banadl, banal.
Cucnander, us maeldaf, zena.
Crimillimwm, y gromil.

Canufenta, corfanadl.

D.

Dans leonis, dant y llew.
Dastys, nele, y gandoll.
Dragontia, neitrlys.
Diapensia, clust yr arth, yr olchyddes.
Digitalis, ffiol y ffrith, byssedd y cwn.
Dancus, nyth yr aderyn, panygan, panwg, ciwig.
Daphnoides, clust yr ewig, glas y gaiaf, nidwydden las.
Dictamen, y ddittain.
Dactytia, gofyslys.
Dardana, cyngaw.
Deliteria, clych Enid.
Damasconia, llydan y ffordd.

E.

Enulacampana, marchalan y llwyglas.
Ebulwm, ysgaw bendigaid, gwaed y gwyr, corysgaw.
Endiva, yr ysgellog.
Elleborwm, pelydr ysbain, y torrgos, y torrlaeth.
Enfragon, y waedlys fawr.
Erythrodanwm, y wreiddrudd, y gochwraidd, madr.
Erygiwm, ysgall boglynog.
Ervwm, pys yr aran.
Ebulusia, y greulys fawr.
Erigerwm, y benfelen.
Enfatorwm, y feon chwerw.
Efatica, cynglennydd.
Erratica, treigledlys, elinog goch, y benrudd.
Eleboniwm nigrwm, y gloerllys fawr.
Eruca, y pybyr gwynn.
Erisimwm, berw'r gauaf.
Ebuntia, ysgaw bendigaid, gwaed y gwŷr.
Elebiarni, cyflaith.
Equisetwm, rhawn y march.
Elatine, llysiau'r gerwyn.
Eleborws, troed yr arth, llewyg y llynger, llyngerllys.

Eupatoriwm, y drydon, troed y dryw, drywlys.
Euphrasia, golwg Crist.
Eringo, morgelyn, y cwsglys.
Erica, grug, y grelys.
Eleniwm, marchalan.
Ervilia. gwyg, pys yr adar.

F.

Fabaria, berwr Taliesin, yr orpin, ffaflys, y fywydog.
Febrifuga, tormwyth, chwerwyn gwynn, yr amranwen.
Fungus, grion, madarch, ffwngc y ddaiar, mwg y ddaiar.
Farfara, troed yr ebol, pesychlys.
Farfaria, y bittain, dannogen, cribau sanffred.
Filex, rhedyn, ffil-lys.
Fragaria, gwlydd syfi.
Fraga, syfi.
Fistularia, bolog y waun, llysiau'r cwn.
Flos Veneris, boled Olwen, y taglys mawr, y tagwydd.
Felterre, y ganrhi goch.
Ffurfur, y greifion.
Fumws terræ, mwg y ddaiar.
Ffenicula, ffunel, ffenigl.
Ffascoli, ffa ffreinig.
Filix boretica, llawredyn.
Ficaria, gwenith y gog.
Flos Adonis, pabi lledfegin, bwlwg lledfegin.
Filix aquatica. rhedyn y gors, rhedyn Crist, rhedyn cyfrdwy.
Ffebilion, y tresgl.
Fflamula, y fflamboeth, blaen y gwayw, y fflammog.
Filix aquatica, rhedyn y gors, rhedyn Crist, rhedyn bendigaid.
Faba, ffa, panar.
Ffemolin, ffunel, ffenigl.
Filipendula, y grogedyf.
Fontinalia, llyriad y llynn.
Farinaria, cannllys, y paill, rhedyn y mynydd.
Fascula aurea, ysgubaur, llwyn euron, yr eurwaith.
Filicula virginea, gwallt y Forwyn.
Fragania, corwynwyn, cibellau, cibellys, y cebyddlys.
Filitis, tafod yr hydd,
Funda sexsanet, ysgall.
Filape, dywlath, dywla.

G.

Gicumala, y ddalen ddu, y goedwyrdd, glas y gauaf.
Grosula, gwyfon barfog, gwyfonen farfog, grwys eirin, grwys eirin Mair.
Grossularia, grwyswydd.
Galingal, ysnoden Fair, ysnoden llys.
Gingibera, sini, sinsyr, ginber, y torwynt.
Gallicristi, y geiniogwellt.
Gramen, glaswellt, porwellt, tonwellt, maeswellt, ffwynwellt, gweirwellt, gwyran.
Grifoliwm, emeillion.
Grifoliwm minus, meillion.
Grifoliwm albwm, meillion Olwen.
Grifoliwm rubrwm, marchfeillion, meillion cochion, rhuddfeillion.
Glastwm, gweddlys, llasarlys, y glaslys, glaston.
Granwm gnidwm, pybyr y mynydd.
Graphaliwn, llwydym y ffordd, y llwydlys,
Gith, llysiau'r bara, gith, y githlys.
Geminalis, y ganhewin, y clymlys, clymmogan.
Gabsus, y flewog, blewlys, blewynog.
Grinaletwm, yr iororth, llysiau iororth.
Gruina, y droedrudd.
Galiwm, melynllys, llysiau'r cower, melyn y twyn.
Glycyrrhiza, melottai, glyr, glyf, melanllys.
Gladiolns, gelesc, yr hylythr.
Geraniwm, robinllys, y droedrudd.

Gyrytelaeth barbatus
Grana Parisi, grawn Paris.
Gesticlws, salnuaiog, craf y nadredd.
Garaseca, tanclys, tanced, tancedlys, tansi, tansli.
Generum, hefyd yw.
Glaucis, marchfeillion, meillion cochon.
Geribiwm ola, perwaint.
Geum, y fabcoll.
Gromentwm, magmodor, ystraf llob.
Gratia Dei, gras Duw,
Gratiola, yr yrddon, yr orddon.
Guadwm, y glaslys, y glaiarllys, y lasog.
Geribiwm ola, perwaint.
Granum, grawn, had, ceri, ascer, cnewyll.
Glans, mês, mesen, castinen, cneuen, cestin.
Gith, grawn Rhufain, hefyd ŷd.

H.

Herba regia, yr odrwyth.
Herba perforata, eirinllys, erinllys, godwallon, y gandoll.
Herba Roberti, y droedrudd.
Herba sardonia, troed yr erydd.
Herba pulicaris, y chweinllys, llysiau'r chwain, llewyg y chwain.
Herba prati, chwys Arthur, erwaint, melys y waun.
Herba paralysis, priellau, samwl, samylan, llysiau'r parlys, y dewbannog, clych Euron.
Herba Joanis, llysiau Ieuan, y gandoll.
Herba Jovis, llysiau'r gwayw, y fywlys fawr, bywlys mawr.
Herba pedicularis, y llaullys, llewyg y llau.
Herba crucis, llysiau'r grog.
Herba Walteri, llysiau Gwallter.
Herba stipiti, wodsawr.
Hedera, eiddew, iddieu, iorwg, eiddionwg, eiddan, eidwydd.
Hedera terrestris, y feidiog las, llysiau'r gerwyn, eiddiau'r ddaear, y cyrflys, y gerwynllys.
Hedopnis, dant y llew lleiaf.
Heliochrysos, blodau'r haul, euros, eurbenn.
Helnus, hesg, gelesg.
Heptapleurws, llwynhidydd.
Heptapleuron, llydan y ffordd.
Heleniwm, marchalan, llysiau'r eli.
Helionwm, tafod yr hydd.
Heptaphylwm, tresgl melyn, melyn yr eithin.
Hepatica, yscenllys, llysiau'r afu, goferllys, clust yr assen, cynglennydd y dwr.
Helleborus niger, troed yr arth.
Helxine, y berthlys, y gynghafog, cwlm y gwydd, cwlm y coed, y gylmog.
Hirudinaria, melynllys, llygadlys, llygadlym, llysiau'r wenol.
Hieraciwm, y felenydd.
Hipposelinon, dulys, alisantr, marchberllys, perllys y berllan.
Horminiwm, clais, had llygaid, y werddonell.
Hyacinthus, sanau'r gog, groeso'r haf, glas y llwyni, clych yr eos.
Hyperia, llysiau Ieuan, y gandoll fechan.
Hpericwm, llysiau Ieuan, y gandoll fawr, y godwallon fawr.
Hipoglosswm, tafod y march.
Hypogesia major, llysiau'r gwayw, y fyddarllys, bywlys mawr.
Hypogesia minor, bywlys bach, llysiau'r to, briweg y cerrig, cynffonllys.
Hypomarathrwm, ffunel y cwn, iororth.
Hyoscyamos, llewyg y iâr.
Hydrolapathwm, suran hirion, tafol y dwr.

I.

Jacea alba, y benlas, y gaswenwyn.
Juncus, brwynen, pabwyren.

Jacea nigra, y bengaled.
Janis barba, llysiau pen tai, llysiau tai, tolys, y toflwyn.
Janipiwm, egroes.
Jayrys, y fyddarllys.
Introlewm, y ieuawd, yr wrnerth.
Jarucia, iarwg, madar.
Jassa nigra, mad felen, llysiau'r hadfelen.
Ibiscus, malw y morfa, malw yr hel, meddalai.
Jecoraria, cynglennydd, y llefanog, llinwysg yr afon.
Inguinalis, dail tenewyn, tenewynllys.
Juniperus, beryw, berywydd, eithinen bêr, eithin y cwrw, berweddlys.
Ischas, huddygl y march.
Iris, elestr, elestron, y gelesg, y gleiflys.
Inguinaria, y dinllwyd.
Ipericon, eurinllys, y gandoll, godwallon.
Ipia minor, y wenolydd.
Junonis, alaw'r dwr, y gannaid, gwili.
Isopus, isob, ysgyllys.

L.

Labwrnwm, pyswydd.
Laurus, llorwydd, dail y cwrw, diodwydd, y bae, y baewydd.
Lactuca, gwylaeth, llaethoglys, llaethlys, llaethogan.
Lactuca saliva, llaethlys, gwylaeth, lledfegin.
Lactuca sylvatica, llaethlys y maesydd, gwalchlys.
Laver, perllys y nant, dyfrllys.
Lactucella, ysgall y moch.
Lavendula, llafant, llafanllys, llysiau'r dillad, llogellys.
Lanceolata, llwynhidydd.
Lappago, cribau'r pannwyr.
Lattyris, llysiau'r cyfog.
Lagopus, meillion cedenog.
Lappa, y cyngaw.
Laureola, clust yr ewig.
Laurentiana, glesyn y coed, glas y coed, y goedwyrdd.
Labeo, dynhaden ful.
Lapathwm, suran y maes.
Lanandula
Lestagiwm omnigawne, tafod yr hydd.
Lapa, tafol, "parel dock."
Laparwm, athulm, trwython,
Lapacwm, trwythlys.
Lactuca agrestis, y gwla.
Latacea ortril diwrpletus.
Lapaciwm rocudiwm, cyngaw.
Lemoniwm, lemwn, euronen sur.
Lentistws, yr yswydd.
Ledea, y benlas, y glafrllys.
Leucacantha, ysgallen wenn, gwynysgall, ysgallen fraith.
Levisticwm, perllys y meirch.
Leucophyllwm, y dewbannog fawr, gwynllys.
Lencacanthamis, amranwen.
Lepidwm, berwr gwyllt.
Lens palustris, bwyd hwyaid, llinhad y llynn.
Libadiwm, y ganrhi goch, yr heinllys.
Liliwm, alaw, lili, blodau Essyllt, elestron.
Liliwm convaliwm, clych Enid, gwenonwy, alaw crewyll.
Liliastrwm, y taglys, llindag y perthi, y llinclwm, cyfnydd.
Libanotis, pyglys, ffenigl y moch.
Limonia, ffrithlys, y ffrithogan, y goedwyrdd.
Ligwstrwm, gwyros, gwewydd.
Lichen, yscenllys, y llefanog, y lleglyn, cynglynydd.
Linagina, llindag, llindro.
Lithospemwm, tormaen.
Lingua canis, tafod y ci.
Lingua cervina, tafod yr hydd.
Lingua leonis, tafod y llew.
Lingua hircina, tafod y bwch.
Lingua bovis, tafod yr ych, bromwerth yw.
Ligustrwm, priellyn, priallen.
Lingen avituli, glesyn y coed.
Lingua avis, tafod yr edn.
Lintistws, yr yswydd.
Litoria, yr un yw.

Lodwin, pys y ceirw.
* * pabi yw.
Loliwm, gwyg, bwlwg yr yd.
Lotus urbanus, pys y ceirw.
Lolia, craf y nadredd.
Ligna omnia, tafod yr hydd.
Lobgyry, y tewlaeth.
Lucoion, melyn y gauaf, melyn y gwelydd, murwyll.
Lupinus, llewyg y blaidd.
Lycopus, llysiau'r fam.
Lychnis, rhoscampau, yr elfannog, bannogan.
Lysimachiwm, helyglys, gwaedlys.
Lichen marina, llaswyr.
Libanws, llibanwydd, y tuswydden.
Lycopsis, tafod yr ych mawr.
Lycopodiwm, crafanc y blaidd, gwinedd y blaidd, mwswn y mynydd.
Lychnitis, cas gan y cythraul.
Lutëola, aurfanal, y corrfanal, melynog y waun.
Lunaria, gwlanllys, y wlanog, cadenllys, y lloerlys, canwyll adar.
Luciola, tafod y neidr.

M.

Malva, malw, malwedlys, malwottan, malwedlys, malwedog, malwydd, y feddalac, melfedlys, hoccys.
Malva sacra, malw bendigaid, yr holihocc yw, hoccys Mair.
Malvaviscus, malw y morfa, malw yr hel.
Mastic, gwm, llysnof, llysnofedd y gwydd, llysnodd.
Macia, y mas.
Matrisilva, gwyddfid, y melwydd, melwydd y perthi.
Mamoria, crafanc yr arth.
Maturalis, craf y geifr.
Marmorilla, y drydon, llysiau cychwlyn, cychwlyn.
Majorana, eidran.
Magistrantia, pelydr ysbain.
Marubiwm rubens, morddynaid cochon, morddynaid duon.
Marabiwm albwm, morddynaid gwynnon, morddynaid llwydon, llwyd y cwn, llwydyn chwerw, perwherwyn.
Mala, afalau, pwmmod.
Malwm aurantiwm, afal euron, euronen, eurbwmp.
Malwm terræ, bara' r moch, y mochwraidd, egel.
Melampyrwm albwm, biwlith, buelith.
Melilotus, meillion y ceirw.
Melisa, gwenynllys, gwenynddail, llysiau'r gwenyn, llysiau'r mêl, gwenynog, llysiau'r mel, mellys.
Melaniwm, ysgidiau'r gog.
Melanthiwm, bwlwg Rhufain, bwlwg lledfegin.
Mentha, mynt, fflorlys.
Mespilws, ceri, cerien sarphwydden, sarphwydd.
Meticulwm, dail meiwon.
Mercurialis, sawdl y crydd, llysiau'r gwr da.
Melitotwm, y wydroeth, y wewyrllys.
Mercuralia, craf y geifr.
Mercuriwm, argyry, arian byw.
Mentastiwm, mynt y meirch.
Mentha aquatica, mynt y dwr.
Merica, banal, banadl.
Minera, glist, mynor.
Mezerion, llosglys, llysiau'r llosg, y bliwyn, bliw, bliwlys, godrwyth.
Mezerion albwm, yr odrwyth wenn, canys blodau gwynnon a fydd arno, nidwydden wenn.
Mezerion rubwm, yr odrwyth rudd, blodau rhuddgochion a fydd arno, nidwydden goch.
Mirica, dynhaden, epome.
Millifoliwm, y filwydd, llysiau'r gwaedlin, milddail.
Morwm, mwyaren.
Morus, mwyarwydd, mieri, drysi.
Morus arbaria, mwyarbren, mwyarwydden, morwydd.

Morella major, mochlys.
Morella minor, y droedrudd.
Morsus caline, y glwydd.
Morsus galina, gwlydd, brechlys, y llynnorlys.
Morsus diaboli, y gaswenwyn, bara'r cythraul, tamaid y cythraul.
Milesolis, y gromil, y gromel.
Miety atorcu, yr yswydd, yswydden.
Morsella major, llysiau'r môr, y morllys.
Morsella minor, llysiau Bened, benediglys.
Myrta, llysiau'r giau, gieulys, gewynllys.
Myrtus, myrtwydd, mordywydd.
Myrtus silvestris, gwyrlin, gwirlinwydd, gwyrlinen, helygen bêr, helyg y waun, helyg y chwain, mordywydd y gors, helyg y gors, corrhelyg y gors.
Myrtus hortensis, gwyrlin y y gerddi, gwirlin lledfegin, myrtwydd, mordywydd.
Muraliwm, y murlwyn, pelydr y gwelydd, llysiau'r murddin.
Muscus, mwswrn, mwswgl.
Mysotis, clust y lygoden.
Myacanthon, celyn y mor, morgelyn, y cysglys.
Myriophyllwm, milddail iororth, milwydd.
Myrra, myrr, gwm.
Myrtoselinon, clust y lygoden.

N.

Napus, erfinen, erfin.
Nappiwm, yr erfinog, erfinllys.
Nasturtiwm, berwr, mwstarth.
Nastwrtiwm hortensis, berwr gerddi.
Nastwrtiwm aqaticwm, berwr dwr, berwr ffynonau.
Nastwrtiwm gallicwm, berwr ffrengig, berwr gerddi.
Nastwrtiwm porcinwm, berwr moch.
Nastwrtiwm pratensis, berwr meusydd.
Nastwrtiwm agrestis, berwr gwyllt.
Nastwrtiwm lapidwm, berwr cerrig.
Nastwrtiwm sylvestris, garlleg y ferwr.
Nardus, nardd, yr eliog, gwrthlys yr ardd.
Nectaria, marchalan.
Neurospaston, mieri Mair, rhos y cwn, breilenllwyn bêr.
Narce, ysgyllys.
Nepta, mynt y gath.
Nepte, erfin.
Nicea, y bengaled.
Nice alba, y benlas.
Nigea nigra, y bengaled.
Nigella, ysgithlys, githlys, llysiau'r gith, hefyd dynaid.
Nigella Romana, bwlwg Rhufain.
Nomma, y llwyn gyfagwy, y faccwyog, baccwyog.
Numularia, y canclwyf, yr hollgur, arianllys.
Nux juglans, cnau ffreinig.
Nux avelana, cnau cestin.
Nymphea, alaw, rhos y dwr, breilen y dwr.
Nucus, collen, cneuwydden, collwydden.
Nucus sylvestris, collen wyllt.
Nucus barbaratus, collen ledfegin.

O.

Odorata, rhocclys, fflorlys, yspigan, yspiglys, bleision, sychlysiau.
Occularia, llysiau'r olwg, y wyrddonell.
Occulis Dei, ut spensolis, llysiau Crist, golwg Crist.
Occulis Christi, y wyrddonell, gwerddonllys, golwg Crist, llygad Crist, goleudrem.
Occulis bovis, llygad yr ych.
Olusatrwm, march berllys y gerddi, perllys y cestyll.
Olus, cawl, march ferwr, berwr teulu.
Olibanwm, ystor, tus gwyllt.

Occulus caninus, llygad y ci.
Oleoselinon, march berllys yr hel, march berllys y môr, yr helogan.
Occulus leporis, llygad yr ysgyfarnod.
Oenanthe, y tormaen, yr eglyn, y gromil.
Os mundi, pŷs y llygod, gwyg.
Osimwm, brenhinllys.
Organ, mesuriaid, meswraidd, y mysyriad.
Oreoselinon, perllys y mynydd, gwidigdda.
Origanwm sativwm, corfynt y gerddi.
Origanwm sylvestris, corfynt y crieigiau, mynt y creigiau.
Oricwm, blorlys, bloran.
Orchis, yr erith, ceilliau'r ci, y galdrist, tegeiriau ystongroes.
Orpina, y fywydog, yr orpin, briweg.
Orobanche, tagwyg.
Ostris, y gingroen.
Osiliwm, tringol, suran.
Organwm, myntmaenau, maenaullys, maenllys, mynt y graig.
Olewm, eliw, gliw, olew.
Olea, gliwydden, eliwydden, olewydden.
Ophioscorodon, garlleg gwyllt, craf y meusydd.
Oxys, suran y coed.
Oxalis corvi, suran y frân.
Oxalys, suran yr yd.
Oxylapathwm, tafol Mair, tafol surion.
Oxytriphyllwm, meillon cochon, rhuddfeillion, hefyd suran, tringol.
Ophioglosswm, tafod y neidr.

P.

Pacitaria, coantafawl
Patoria, bibasinpen, gyta y ffer
* * * rhag pob gweli.
Peretus, pelydr.
Panis oncli, surion y coed.
Petilion, peuros, breilan segli.
Paralys, samwl, samylen, deigreu Mair, llygad Ebrill, corfannog y waun, y dewbannog fechan, priellau penclwm.
Polianthys, corfannog yr ardd, sammwl y gerddi, priellau'r ardd, priellau corbi, corbien, corbiod.
Panis cuculi, suran y gog, suran y coed, surfeillion.
Phalaris, yr eigryn, gwenith yr ysgyfarnog, crydwellt.
Panicwm, y gibog, ciboglys.
Panis porcinws, clor, cnau'r moch, bara'r hwch.
Parietaria, llysiau'r pared, paredlys.
Partheniwm, tormwyth gwynn, amranwen.
Palmus, y llymddreiniog, y llewydd, y palflys.
Papaver, bwlwg, pabi y cysglys, drewlys.
Papaver erraticwm, bwlwg yr yd, cysglys yr yd.
Papaver sativwm, bwlwg yr ardd, bwlwg lledfegin.
Palma Christi, llun llaw Crist, llysiau'r fam.
Pastinacia hortense, pannas.
Pastinacia agrestis, pannas y moch, efyrllys.
Peplws, llaeth y cythraul.
Petalitis, corn y carw, corn yr hydd.
Pedram, y bybyrllys.
Pespalle, hefyd } gwrthlys, yr
Pescaballe, } alan hen.
Pescoliwm, bing, y droedrydd.
Pelitaicwm, llawredyn y ddaear.
Porrwm, cenin.
Pes leonis, troed y llew, y feidiog lwyd, (gwel ymlaen I.G.)
Peristerios, y dderwen fendigaid, cas gan gythraul, gwylldarf, tarfellyll.
Persicaria, dail y dindost, eliniog goch, y bengoch.
Perforata, y gandoll, gowallon, godwallon.
Pes leporina, troed yr ysgyfarnog.
Pes milvi, troed y barcud.

Pes corvi, troed y frân.
Pes anserina, troed yr wydd.
Pes puli, troed y cyw.
Portulaca, troed y cyw.
Potamogitwm, llynnwellt, dyrwellt, gwellt y dwr.
Perpacantha, troed yr arth.
Pes alauda, troed yr hedydd, blodau'r hedydd.
Pesvituti, y fabcoll.
Pentafoliwm, pump dalen.
Pervincia, perfagl.
Periphoron, pluf y waun, pluf y gors, pluf y brwyn.
Pes muli, y fabcoll.
Pesiliwm, llysiau silin.
Pes leonis, troed y llew, y feidiog las, llysiau'r gerwyn, y gerwynllys, llysiau'r cwrw, cyrflys.
Perpensa, bolgarn yr ardd, y gwrthlys.
Pencedanwm, ffenigl y moch, piglys, pyglys.
Pedicularia, y lleulys, llysiau'r llau, llewyg y llau.
Pentaffilwm, dail y pumpys.
Philistis, tafod yr hydd, y tanllys, dail y tanllosg.
Philochares, chwerwyn llwyd, llwyd y cwn, llwyd y galchen.
Phaseolus, ffa ffreinig, ffa marchell.
*Petrosiliwm perllys, mynachlys, sewlys.
†Petrosiliwm olioselinwm, yr halogan, yr helogan, marchberllys yr hêl.
Piganiwm, hefyd } blodau'r
Pipnia } brenin, rhos y brenin, rhos y mynydd, pioni.
Pisosella, clustiau'r llygoden.
Pilocella, y dorllwyd.
Pimpinela stepmodo, llysiau llysyrawt, llysyrlys.
Plantago major, llydan y ffordd, yr egorllys.
Plantago minor, y llwynhidydd, ystelynes, ystelynllys.

* Petroselinon. I. M.
† Petrosilion Oleoselinon. I. M.

Pix, pyg.
Picea, pygwydden, ffyrwydden, terrwydden.
Pigula minor, tafod yr edn, tafod y deryn.
Polygonwm, y ganhewin.
Polyanthemwm, blodau'r menyn, y beneurad, troed y frân.
Pœonica casta, * * *
blodau'r brenin.
Pœonoia, blodau'r brenin, coronllys.
Polypodiwm, rhedyn y deri, rhedyn y canddo, llawredyn y derw.
Polipopiwm, llawredyn y llwyf, llwyfredyn.
Pinus, pinwydden, ffinydwydd.
*Polipopiwm lilinwm, llawredyn y llwyf.
Pneunomanthe, blodau Mihangel.
Portulaca, porpin.
Polygalwm, llysiau Crist.
Potamogeton, llyriad y llynn, llyriad y dwr.
Potentilla, y dinllwyd, y dorrllwyd.
Pulegiwm, pigle y brymlys, breflys, coluddlys.
Pulmonaria, llysiau'r ysgyfaint, callodr y derw.
Prosopis, cyngaw, y gyccwallog, cyccwallys.
Prunioli, bwyd llyffaint, ellyllys, yr ellyllog.
Pursa pastoris, pwrs y bugail, llysiau'r tryfal.
Prunella, y feddyges ddu.
Pulagiwm, berge.
Puenica, puingc.
Pseudo narcissus, yr ylfinog, croeso gwanwyn.
Psillion, llysiau'r chwain, y chweinllys.
Psychotrophon, bittain, dannogen, y ddeiniog.
Pulicaria, llysiau'r chwain.
Pternica, ystrewlys, trewlys, dail y trew.

* Polypodium, yn ddiamau. I. M.

Pungentia, sinsir y gors, yr ithrog, githran y gors, y boethwraidd.
Primilavois, priellan, priellen, samwl.
Pympyrnel, llysiau'r cryman, brathlys.
Pyretrwm sylvestris, pelydr gwyllt.
Pyrola, y goedwyrdd, gwyrdd y gauaf, gwyrdd y coed.
Pyrus, geligwydd, peranwydd,
Pyrwm, peranen, geligen, grwnen, grwnigen, rhwnigen.
Pyren, cerien, ceri, had neu gnewyll, ffrwythau a llysiau.
Pyrethrwm, pelydr, y pelydre.

Q.

Quercus, derwen, darwydden, deri, derwydd, derw.
Querculus, derwen Gaersalem.
Quercula benedicta, y dderwen fendigaid, cas gan gythraul.
Quinquefoliwm, y pumpys, dail y pumpys.
Quinquenervia, ystylynes, y llwyn hidydd.

R.

Rapum, erfinen, erfin.
Ranunculus, troed y frân, chwŷs Mair, blodau'r menyn, egyllt.
Raspis, afan, mafon, meiwon, meiwydd, mefynwydd, mefynen.
Rhaphanus hortensis, rhuddugl lledfegin.
Rhaphanus agrestis, rhuddugl y meirch, rhuddugl gwyllt.
Rhamnus, rhafn, pren rhafn, rhafnen, rhafnwydden, mwyar ffrengig.
Rhabarbarwm, y suranog fawr, march dafol y gerddi.
Rhesta bovis, cas gan arddwr, hwp yr ychen, drain y gafaelon, tegwch meinwen.
Ronilla, eunof, ewnof gwyllt.
Rosa, rhos, brail, breilwy, egroeswydd.
Rosa canina, rhos gwylltion, breilwy gwyllt, rhos crewyll, ciros, rhos y cwn, rhos y perthi.
Rosa solis, y dawddrudd, toddedigrudd, y dawddlys, *arianllys, gwlithlys.
Rosmaris, rhosmari.
Rhibes, rhyf, rhyfwydden, rhyfon, rhyfonwydd.
Rhibes aquatica, rhyf y nentydd, rhyfon y nentydd, rhyfon duon.
Rhibes hortensis, rhyfon lledfegin, rhyfon y gerddi, rhyfon cochon.
Rubia silvestris, y fandon, llysiau'r erydd.
Rubia minor, friwydd wenn, briwydd, briwlys.
Rubia, y wreiddrydd, cochwraidd, cochlys.
Rubus, mwyarwydd, mwyaren.
Rumex, tafol, suranog.
Rumex medicinalis, marchdafol y meddig, tafol briwddail.
Ruscus, celyn Mair, celyn Ffrainc, celyn Gwent, corgelyn, celyn y wrach.
Ruta, rhud, rhuw, torrwenwyn, gwenwynllys, llysiau'r echrysaint.

S.

Sata, yd, ceri, cnewyll, had, gwyfon, grawn.
Satoria, yr heonllys, yr uchelfar, gwysglys, gwysgonllys.
Satella, ydig, efr, gwenith y cythraul, had y drwg.
Satyriwm, tegeiriau.
Satureia, sewyrllys, y selsiglys, llysiau'r selsig, y sorelys.
Salix, helig, gwielwydd.
Salix equina, rhawn y march, cedor y wrach.

---

* Arienllys, undoubtedly. I. M., i. e. the same as gwlithlys.

Salvia, y geidwad.
Salvia agrestis, y geidwad wyllt.
Sambucus, yscaw, yr yscewydd.
Sanguinaria, y canclwm, y ganhewin, y waedlys.
Sanicula, clust yr arth, yr olchwraidd.
Sanamwndi, y bendigeidlys, y fabcoll.
Sardonia, troed yr erydd.
Saxifragiwm, tormaen, llysiau'r tostedd.
Saponaria, yr olchyddes, y sebonllys.
Savina, y gyrllys, gwaredlys.
Saurion, mwstwrth, y llymminog, llymminllys.
Seda Maria, ystol Fair.
Sedwm major, llysiau'r gwayw.
Sedwm minor, briweg y cerrig, maenllys, cynffon y lygoden, y friweg.
Sempervivwm, y fyw fyth, bywlys.
Senecio, y benfelen, y greulys fawr, y greulys fenyw, llychlyn y dwr.
Septinea, yr henllydan.
Sesarwm, grug, grelys.
Securiadaca, llewyg y iâr.
Seriphiwm, chwerwyn y mor.
Serpentaria, llysiau'r neidr.
Serica pratense, sidan y waun, serig y waun, seriglys, sidanllys, serigwellt, sidanwellt, y sidanog, serigog.
Scabiosa, y bengaled, y glafrllys.
Scandwlaciwm, mwstarth.
Scandix, nodwydd y bugail.
Scelerata, troed yr erydd.
Scirpws, brwynen y môr.
Scopa regia, y milddail, llysiau'r gwaedling.
Scolopendria, rhedyn y gwelydd, tafod yr hydd.
Scrofularia major, danogen y y dwr, y feddyges ddu.
Scrofularia minor, dynhaden fenw, dynhaden ful.
Scolopendriwm. rhedyn y fam.
Scorodwm, garlleg, craf.
Scorodina, y geidwad wyllt.
Sinapi silvestre, berwr yr yd, bresych yr yd, y carl, y cerlyn.
Sinilax, coedgwlm, cwlm y coed, cynghafog.
Sinyrnion, dulys, perllys y berllan, marchberllys y gerddi.
Solanwm somnifera, y gedowrach.
Solanwm lignoswm, y manygglog.
Solidago, glesyn y coed, y goedwyrdd, gwyrdd y gauaf.
Souilana, gwynwyn y moch, gwynwyn gwylltion, gwynwyn y meusydd.
Sorbus, cerwydden, cerwigen, cerdinwydd, sarphwydd.
Spinus albus, draenen wenn, yspyddaden, draen yspyddaid, egfaenwydd.
Spinus, duddraenen, draenen ddu, eirinwydd.
Spineolus, coreirin, eirin y perthi.
Spina, draen, draenen.
Spinacia, yspinllys.
Spicus, tywysen, hefyd llysiau sychon, yspiglys, yspiccedlys.
Sparganiwm, yspargan, y gleddyflys, y gleiflys, gellesg, yr inclys.
Staphys agria, llewyg y llau, llysiau'r llau, y lleulys.
Staphylinws, pannas y moch.
Stachys, y fedwen chwerw, chwerwlys yr eithin, dail y bystwn, y geidwad wyllt.
Strobilwm, llydylys.
Struthiwm, cribau'r pannwr.
Succus, sudd, sugn, sug, nof, llynnor, irder, gweisgion, gwysgon.
Secisa, bara'r cythraul.
Sulphur, ufelfaen, llosglist.
Syringa, pibellwydd, pibwydd, chwibellwydd.
Syriac * * * *
*dd*sn * * *

T.

Tanaecetwm, tancedlys, tanclys, dail y tanced, tansli.

Thalictrwm, arianllys.
Thlaspi. mwstarth.
Thryalis, rhoscampau, bannogan yr ardd.
Thymus, gryw, grywlys, teim.
Thymus agrestis, grywlys, y twynau.
Thymus hortensis, grywlys, lledfegin.
Tipha, calaf felfed, cynffon y gath.
Telephiwm, orpin, llysiau Taliesin, y ffaflys.
Tithymal, llysiau'r cyfog.
Tormentilla, tresgl y moch.
Tremularia, yr eigryn crydlys, crydwellt, gwenith yr ysgyfarnog, crydwellt.
Triorchis, teircaill.
Trifoliwm, meillion.
Trifoliwm rubwm, meillion cochon, marchfeillon.
Trifoliwm albwm, meillon gwynnon, meillon Olwen, corfeillon.
Trifoliwm aurewm, meillion aur, pig y deryn.
Trifoliwm silvestre, meillon edring.
Tubera, bwyd y llyffaint.

V.

Vaccinia, llus duon, llus y mynydd, llusi.
Vacciniwm, llygeiriau, ceiroes y waun.
Valeriana, llysiau Cadwgan, cynffon y cabwllt, gysynorllys.
Verbena, y dderwen fendigaid.
Vernilagiwm, yr ysgallen ddu.
Veronica, yr ornerth.
Verbwrnwm, cwyrwiail, ffyllwydd.
Verbascwm, y dewbannog, yscedlys, panllys.
Vetonica, cribau St. Ffred.
Viola, mill, gwiolydd, y fioled.
Viscus, gwysglys, gwysgonllys, uchelfar, yr heonllys.
Ulmus, elmwydd, llwyf, y claswydd, elmenwydd.
Ulmus Romanus, llwyfen Rhufeinig, llwyf Rhufain, y claswydd.
Umbilicus Veneris. bogail y forwyn, bottymog.
Volucrwm major, taglys, tagwydd.
Volucrwm minor, yr yttag, taglys yr yd, taglys bychan, taglys y gerddi.
Volubilis, cwlm y coed.
Urtica, dynaid.
Uvæ, gwyfon, greol, baccwyon, gwyfon, gwin, gwinwyfon.
Uvæ passae, rhesinod, rhesinau, rhesinwyf, gwynwyfon sychon.
Uvæ ursina, gwyfon yr yspinwydd, greol y pren melyn, ffrwyth yr arthwydden.
Uvularia, tafod y march.

Z.

Zura, hegfaen, gwyfon, yr yspyddaden, yr yspyddwy.

A'r gwydd a'r llysiau hynn, sef y nifer a aller o honynt, a ddylai bob Meddyg eu cadw mewn gardd yn lledfegin, ag mewn perllanau, a hynny mewn parel o dir a fo da'r ddaear, ag yn wasgodig, a cherwyneb haul, fal au caffer wrth raid ag achos.

Llyma ddangos y pwysau a'r mesurau y dylai bob Meddyg ymarfer ag wynt, fal y gwypo yn gadarn y maint a ddylid o bob peth yn ei raid ai achos; nid amgen,

Pwys a mesur Tafawl,

χχ gronyn gwenith a wna un grofelyn.

⁞⁞⁞ grofelyn a wna un ceiniogbwys.

⁞⁞⁞⁞ ceiniogbwys a wna uncyn neu wncyn.

χ⁞⁞ wncyn a wna bynt.

Ag fal hynn au llythyrrer yn llyfrau y Meddygon.

Gronyn fal hynn ϛ
Grofelyn fal hynn ϶
Ceiniogbwys fal hynn ϭ
Wncyn fal hynn ϶
Punt fal hynn S

Ag fal hynn ai dosparthir herwydd y llythyriad hynn nid amgen.

χχ	ϛ	⁞	϶
⁞⁞⁞	϶	⁞	ϭ
⁞⁞⁞⁞	ϭ	⁞	϶
χ⁞⁞	϶	⁞	S

Pwys llynn a gwlyb a ddosparther fal hynn :—

Pedair masglenaid a wna un llwyaid.
Pedair llwyaid a wna un coccwy.
Pedwar coccwy a wna un ffiolaid.
Pedair ffiolaid a wna un paeol sef chwart.
Pedwar chwart neu baeol a wna un galwyn.
Pedwar galwyn a wna un celwrn.
Pedwar celwrn a wna un grenn.
Pedwar grenn a wna un mydd.
Pedwar mydd a wna un myddi.
Ag fal hynn y dosperthir mesurau llynn a gwlyb.

Llyma eraill o fesuron a nottaynt y Meddygon :—

Dau goccwy, hannerpan.
Dau hannerpan, pan.
Dau ban, ffiolaid.
Dwy ffiolaid, cwppa.
Dau gwppa, panol sef chwart.

A'r holl fesurau pwys, a'r holl fesurau llynn a ddylynt fod yn warantedig o bwys a mesur, er gwybod gwarantedig a gofynedig, fal na fytho nag anffrwythlawn, na gwenwynllyd y feddyginiaeth a ddoder i glaf, ag fal y bytho pob cymmeriad y maint y dylid ei ddarbod.

Llyma fesuron amcan herwydd deall y Meddyg :—

Pedwar gronyn gwenith, pysen.
Pedair pysen, mesen.
Pedair mesen, wi colommen.
Pedwar wi colommen, wi giar.
Pedwar wi giar, wi gwydd.
Pedwar wi gwydd, wi alarch.

Ag nis gellir gwarant ar y meintolion hynn, namyn deall y Meddyg.

Pedwar prif achos clefyd a dolur, a fyddant fagedig ynghorph dyn, nid amgen :—

⁞. Mwyth, sef y daw achos rhyf o wres ag oerfel.

⁞⁞. Brech yn y gwaed neu'r llynnor, sef y daw achos anghyweirfaint defnyddiau bwyd a llynn.

⁞⁞⁞. Attal yn y cylla, neu'r gwythi, neu eraill o geudodau y corph, fal nas gallo'r bwyd a'r llynn, a'r gwaed, a'r llynnor, fyned yn eu hansawdd.

⁞⁞⁞⁞. Ball, sef echrysaint, neu blag, ag o wenwyn yn mynned yn y corph y daw. Ag o'r pedwar peth hynn y bydd magedig pob clefyd a dolur ynghorph dyn, ag o ffrwythlawn feddyginiaethau au gwaredir.

Llyma bethau da eu bod ar wybod gan ẖob Meddyg, a phob Pen Teulu, nid amgen.

Berwyn, bwrw dwr neu arall o lynn yn ferw ar y llysiau neu'r amgen a fo'r achos neu raid wrtho.

Isgell, berwi'r llysieu neu'r amgen yn y dwr neu arall o lynn a fo gan raid ag achos.

Gwysg, hefyd gwysgon, bwrw berw neu oer o ddwr, neu o amgen o lynn fal y bo gofyn ar lysiau neu amgen o ddarbod a gadael sefyll, ag yna hidlo drwy wasg.

Mwyd, bwrw oer neu ferw o ddwr neu arall o lynn ar a blyddhao, ag a elo ynghymysg ar gwlyb a fwrer arno.

Cyffaith, defnyddiau llynnoraid ynghymysg, a phyloreu neu eraill o bethau a ellir ar ddiawdlwnc.

Edlyn, diawdlwnc, neu lynn a wneir o gelfyddyd.

Ednyw, anwedd neu roglaeth, a gymmer ar lwnc anadl i'r genau, neu'r ffroenau, a'r cylla, a'r penn, a'r werddyr, neu amgen

Cyflaith, cyfladd ar ddefnyddiau yn does yn bwydlwnc.

Cyfnyw, hefyd cyfnywydd, y gnif a fytho mewn dyn neu greadur byw arall, neu lysewyn, neu amgen o beth, sef y rhinwedd, neu'r gyferddawn, neu'r nattur a fo iddaw ac arnaw.

Pelennau, defnyddiau meddygginiaethol *cyfladdedig* a wneler yn belennau bychain, i'w cymmeryd ar draflwnc.

Ennaint, isgell neu ferwyn a eler iddaw, neu a ddodir aelod ynddo.

Agolch enneinllyn a olcher dolur ag ef, brwd neu oer fal y bo gofyn.

Cyfarpar, unig o fwyd a llynn wrth gyngor Meddyg.

Llyma bethau a ddylaint fod gan Feddyg, ar cynneddau a ddylynt fod arnaw, ac a elwir anhepcorion Meddyg, nid amgen,

